
Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024 -2025



cyfoethnaturiol.cymru

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Rhodfa’r Brenin Edward VII
Caerdydd
CF10 3NQ 0300 065 3000 (dydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 8am a 6pm)
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru
© Cyfoeth Naturiol Cymru
Cedwir pob hawl. Gall y ddogfen hon gael ei hatgynhyrchu â chaniatâd ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru

## Cynnwys


Rhagair y cadeirydd .................... 3
Adroddiad ar Berfformiad .................... 6
Datganiad y Prif Weithredwr .................... 6
Ynglŷn ag CNC .................... 10
Ein hamcanion llesiant hyd at 2030 .................... 10
Crynodeb o’r risgiau allweddol .................... 11
Crynodeb cyllid .................... 13
Crynodeb o berfformiad .................... 16
Dadansoddi perfformiad .................... 17
Adroddiad Atebolrwydd .................... 24
Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol .................... 25
Adroddiad y Cyfarwyddwyr .................... 25
Datganiad o Gyfrifoldebau’r Swyddog Cyfrifyddu .................... 28
Datganiad Llywodraethiant .................... 29
Adroddiad Cyflogau a Staff (wedi’i archwilio) .................... 54
Adroddiad Seneddol ac Archwilio (wedi’i archwilio) .................... 70
Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i’r Senedd .................... 71
Datganiadau ariannol .................... 77
Atodiad: Y sefyllfa derfynol o ran ymrwymiadau a mesurau cyflawni allweddol ar gyfer 2024/25 .................... 137

# Rhagair y cadeirydd

Wrth i mi ddod i ddiwedd fy neiliadaeth saith mlynedd o hyd fel cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), rwy'n edrych yn ôl ar gyfnod a luniwyd gan heriau eithriadol a phenderfyniad cyffredin ymhlith cydweithwyr i'w hwynebu'n uniongyrchol.

Ail-luniodd pandemig COVID-19 sut roedden ni'n gweithio a phrofodd ein gallu i aros mewn cysylltiad â'r rhai rydyn ni'n eu gwasanaethu. Mewn ymateb, roeddwn yn falch o gadeirio'r Tasglu Adferiad Gwyrdd ar ran Gweinidogion Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod natur a hinsawdd wrth wraidd llwybr Cymru i adferiad.

Cafodd llifogydd mawr effaith ddifrifol ar lawer o gymunedau ledled Cymru, a gweithiodd CNC yn agos gyda'r gwasanaethau brys, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i gefnogi'r rhai yr effeithiwyd arnynt a chryfhau eu cydnerthedd yn y dyfodol. Mae'r digwyddiadau hyn yn tanlinellu pwysigrwydd gweithredu ar y cyd, ac ers hynny rydym wedi parhau i wella ein systemau a buddsoddi mewn cynlluniau llifogydd hirdymor.

Ar yr un pryd, arweiniodd pryder cyhoeddus cynyddol ynghylch ansawdd dŵr at drafodaethau a gwaith craffu cenedlaethol. Mae sicrhau bod gennym ddigonedd o ddŵr glân yn parhau i fod yn un o'r heriau pwysicaf sy'n ein hwynebu, ac mae'n parhau i fod yn ffocws mawr. Ni fu sylw'r cyhoedd – a chraffu'r cyfryngau – ar berfformiad cwmnïau dŵr yn uwch erioed. Rydym yn chwarae ein rhan lawn yn hynny, gan bwyso am lefelau uwch nac erioed o fuddsoddiad a chryfhau a chynyddu ein capasiti rheng flaen ar gyfer rheoleiddio cwmnïau dŵr. Rydym hefyd wedi parhau i herio perfformiad amgylcheddol Dŵr Cymru. Cymerwyd camau gorfodi yn erbyn y cwmni ym mis Hydref, ac ym mis Mai 2025 cafodd Dŵr Cymru ddirwy o £1.35m. Fodd bynnag, yn dilyn apêl gan Dŵr Cymru cafodd y ddirwy ei lleihau i £120,000.

Yn y sector dŵr, mae cynllunio strategol cyn pob adolygiad 5 mlynedd o brisiau yn allweddol ar gyfer ysgogi buddsoddiadau amgylcheddol. Yn yr adolygiad diweddaraf, a ddaeth i ben eleni, fe wnaethom sicrhau £1.7 biliwn o gyllid gan y diwydiant dŵr yng Nghymru ar gyfer cyflawni hyd at 2030 – cynnydd bron i chwe gwaith o'i gymharu â'r cylchoedd blaenorol. Bydd y buddsoddiad digynsail hwn yn galluogi gwelliannau sylweddol, gan ddod â manteision parhaol i gymunedau ac ecosystemau ar hyd a lled Cymru.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn nodi'r hyn a gyflawnwyd gennym yn ystod 2024/25, sut rydym wedi cyflawni yn erbyn ein diben statudol, a sut rydym wedi defnyddio adnoddau cyhoeddus i sicrhau gwerth parhaus i bobl, lleoedd ac amgylchedd naturiol Cymru. Nid yw ein gwaith erioed wedi bod yn bwysicach. O reoleiddio diwydiant i amddiffyn cymunedau rhag perygl llifogydd, o reoli Ystad Goetir Llywodraeth Cymru i gefnogi adferiad natur, rydym yn helpu i greu Cymru lle gall natur a phobl ffynnu gyda'i gilydd.

Mae newid o fewn CNC wedi bod yn sylweddol. Ymddeolodd Clare Pillman, ein Prif Weithredwr, eleni ar ôl saith mlynedd o arweinyddiaeth ymroddedig. Arweiniodd Clare CNC drwy'r pandemig, drwy stormydd mawr, a'r datganiad o'r argyfyngau hinsawdd a natur. Roedd ei harweinyddiaeth yn allweddol wrth i ni lunio ein Cynllun Corfforaethol 2030 a gosod gweledigaeth feiddgar ar gyfer Cymru ble mae byd natur a phobl yn ffynnu gyda'n gilydd. Bydd ei hetifeddiaeth yn cael ei theimlo am flynyddoedd lawer i ddod, ac rwy'n diolch iddi am ei gwasanaeth. Bydd y broses recriwtio ar gyfer ei holynydd ar y gweill yn

fuan, ac, yn y cyfamser, bydd Ceri Davies yn parhau i wasanaethu fel Prif Weithredwr Dros Dro.

Croesawon ni dri aelod newydd o'r Bwrdd – Dr Hushneara Begum, Dr Rebecca Colley-Jones ac Adam Taylor – sydd eisoes yn gwneud cyfraniad rhagorol. Hoffwn hefyd ddiolch yn ddiffuant i Dr Rosie Plummer a Geraint Davies, y daeth eu cyfnodau yn y swydd i ben, am eu harbenigedd a'u hymrwymiad dros nifer o flynyddoedd.

Rydym wedi gweithredu ailstrwythuriad sefydliadol pellgyrhaeddol fel rhan o'n Hachos dros Newid mewnol. Mae hyn yn nodi cam arwyddocaol o ran cryfhau ein sylfeini – gan sicrhau ein bod yn addas ar gyfer y dyfodol ac mewn gwell sefyllfa i gyflawni ein pwrpas gyda mwy o eglurder, hyblygrwydd ac effaith.

Drwy hyn i gyd, parhaodd ein pobl i ganolbwyntio ar gyflawni ein cenhadaeth. Hoffwn ddiolch i'n staff am eu hymroddiad, eu proffesiynoldeb a'u gwydnwch parhaus. Maent yn ymgorffori gwerthoedd CNC, sef bod yn gysylltiedig, yn feiddgar, yn ofalgar ac yn ddyfeisgar. Mae eu gwaith yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol – o reoleiddio rheng flaen ac ymateb i argyfyngau i ymchwil wyddonol, gweithrediadau gwaith coed ac ymgysylltu â'r gymuned.

Rydym yn parhau i fod yn ddiolchgar iawn i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid ar draws y llywodraeth, diwydiant, cymdeithas sifil a chymunedau lleol. Mae eu cefnogaeth, eu herio a'u cydweithrediad yn hanfodol wrth i ni fynd i'r afael â heriau cymhleth a chydberthynol newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth a llygredd.

Wrth edrych ymlaen, bydd y cyd-destun yr ydym yn gweithredu ynddo yn parhau i esblygu – bydd gwybodaeth wyddonol, arloesedd technolegol, pwysau ariannol, blaenoriaethau gwleidyddol a disgwyliadau cymdeithasol i gyd yn parhau i newid. Ond mae cyfeiriad ein taith yn glir. Rydym yn cryfhau ein sylfeini ac yn cyflymu cyflawni wrth wraidd ein cenhadaeth: dros natur, dros yr hinsawdd a dros leihau llygredd – hyd at 2030 a thu hwnt.

Wrth i mi gamu i ffwrdd, rwy'n gwneud hynny gyda diolchgarwch aruthrol – i'r bobl rydw i wedi gweithio ochr yn ochr â nhw, am yr ymddiriedaeth a roddir yn CNC, ac am y cyfle i helpu i lunio Cymru fwy cynaliadwy a gwydn. Mae gwasanaethu fel cadeirydd wedi bod yn anrhydedd fy mywyd proffesiynol. Rydw i wedi dysgu mai trwy wrando, partneriaeth a meddwl hirdymor yr ydym yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf.

Yn olaf, hoffwn groesawu fy olynydd, Nilesh Sachdev, yn gynnes, a fydd yn dechrau yn y rôl ar 1 Tachwedd. Mae'n dod â chyfoeth o brofiad gydag ef yn y sectorau amgylcheddol a choedwigaeth a bydd yn arwain CNC i'r bennod nesaf gyda medr a mewnwelediad.

Mae gennym lawer i fod yn falch ohono – a llawer i'w wneud o hyd.

**Syr David Henshaw**

**Cadeirydd** **28 Hydref 2025**

# Adroddiad ar Berfformiad

Dros y tudalennau canlynol, mae ein Prif Weithredwr Dros Dro, Ceri Davies, yn cynnig ei safbwynt ar ein perfformiad dros y flwyddyn. Dilynir hyn gan gyflwyniad i'n sefydliad a'r weledigaeth a'r amcanion yr ydym yn gweithio tuag atynt. Rydym yn amlinellu crynodebau o risg a chyllid yn ogystal â dadansoddiad mwy manwl o'n perfformiad o ran cyflawni yn erbyn ein hamcanion corfforaethol (ein hamcanion llesiant).

# Datganiad y Prif Weithredwr

Wrth i'n sefydliad barhau i alinio'r ddarpariaeth â'r blaenoriaethau yn ein cynllun corfforaethol hyd at 2030, Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda'n Gilydd, rydym wedi rheoli risgiau ac ansicrwydd allweddol drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys rhaglen newid ar draws y sefydliad a dyrannu cyllid ychwanegol sylweddol yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Mae fy natganiad isod yn nodi mwy o fanylion am yr amgylchedd gweithredu heriol hwn ac mae hefyd yn tynnu sylw at sut rydym wedi parhau i gyflawni er byd natur ac mewn perthynas â'r hinsawdd a llygredd drwy gydol y cyfnod hwn o newid.

## Cryfhau cydnerthedd CNC

Fel gweddill y sector cyhoeddus yng Nghymru, rydym wedi bod yn gweithredu mewn amgylchedd economaidd anodd. Mae chwyddiant uchel dros y tair i bedair blynedd diwethaf wedi cynyddu ein costau, gan arwain at ostyngiad mewn termau real mewn cyllid. Fel y nodwyd gennym yn adroddiad blynyddol a chyfrifon y llynedd, fe wnaethom gydnabod y pwysau ar ein sefyllfa ariannol yn gynnar a chymeron ni nifer o gamau i reoli ein gwariant a'r risg ariannol. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno rheolaethau recriwtio, lleihau nifer y penodiadau cyfnod penodol, a rheoli cyllidebau nad ydynt yn gysylltiedig â staff. Gyda'i gilydd, sicrhaodd y mesurau hyn yn ystod y flwyddyn gyllideb gytbwys ar ddiwedd 2023/24. Serch hynny, nid oedd hyn yn mynd i'r afael ag achos sylfaenol y pwysau ariannol. Dechreuon ni flwyddyn ariannol 2024/25 gan wybod bod angen i ni reoli diffyg cyllidebol o tua £9 miliwn.

Nid yw cydbwyso ein cyllideb drwy reolaethau recriwtio yn ystod y flwyddyn yn ddull cynaliadwy i'w gymhwyso o flwyddyn i flwyddyn – gan dynnu ein hegni cyfunol oddi wrth gyflawni ein cenhadaeth er byd natur a'r hinsawdd ac i leihau llygredd.

Yn nhermau syml iawn, heb unrhyw ymyriadau, mae'n anochel y byddai ein costau sylfaenol yn parhau i godi mewn ymateb i chwyddiant, dyfarniadau cyflog yn y dyfodol, yr angen i fuddsoddi mewn seilwaith, a chynlluniau wrth gefn i ddelio ag atebolrwyddau cyfreithiol. Byddai'r bwlch ariannu o £9 miliwn ar ddechrau 2024/25 yn tyfu tua £4 miliwn yn 2025/26 i £13 miliwn, gyda £4 miliwn pellach yn cael ei ychwanegu yn 2026/27. Mae hyn yn golygu y byddai'r bwlch yn fwy nag £17 miliwn erbyn 2026/27 pe na bai unrhyw gamau'n cael eu cymryd.

Yn erbyn y sefyllfa ariannol hon, paratowyd y cynnig 'achos dros newid' gyda'r nod o sicrhau:

> *"Sefydliad â strwythur sy'n gynaliadwy'n ariannol ac yn fforddiadwy sy'n cyd-fynd â chyflawni'r cynllun corfforaethol, gan gryfhau gwydnwch y sefydliad fel y gall addasu ac ymateb i'r heriau anoddach a achosir gan yr argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd wrth i ni agosáu at 2030 a thu hwnt"*

Datblygwyd rhaglen newid i sicrhau ein strwythur ar lefel gynaliadwy yn y dyfodol, wedi'i llywio gan flaenoriaethu manwl, lle gwnaethom ganolbwyntio ar y pethau hynny dim ond ni sy'n gallu eu gwneud, ac sy'n cael yr effaith fwyaf ar gyflawni er byd natur a hinsawdd ac i leihau llygredd. Nododd yr achos dros newid nifer fach o weithgareddau a fydd yn dod i ben, a nifer llawer mwy o weithgareddau a fydd yn lleihau gyda gostyngiad yn lefel y gwasanaeth. Er bod y blaenoriaethu wedi nodi meysydd ar gyfer buddsoddi, roedd maint yr her ariannol yn golygu nad oeddem yn gallu dilyn y bwriad hwn pan wnaethom ni ddechrau gweithredu'r achos dros newid.

Ar ôl cyfnod helaeth o ymgynghori â'r undebau llafur a chydweithwyr ar draws y sefydliad ym mis Tachwedd 2024, cymeradwyodd Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru weithredu'r achos dros newid. Sicrhaodd y penderfyniad hwn ostyngiad o tua £12 miliwn yn y gyllideb cymorth grant drwy gael gwared ar tua 200 o swyddi parhaol o'r strwythur erbyn 1 Ebrill 2025.

Wrth gymeradwyo gweithredu'r achos dros newid, tanlinellodd Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru bwysigrwydd hanfodol sicrhau bod y sefydliad yn ymgorffori newidiadau i ffyrdd o weithio a rheolaethau sefydliadol er mwyn lleihau'r risg o doriadau pellach i gymorth grant, gan ysgogi'r angen am raglenni newid helaeth ar draws y sefydliad yn y dyfodol.

Yn dilyn cyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023/24 yn y Senedd ar 21 Hydref 2024, cynyddodd Llywodraeth Cymru ei hymgysylltiad ag CNC i olrhain a monitro ei gynnydd o ran datrys problem yn ymwneud â chydymffurfedd hanesyddol CNC â gofynion gweithio oddi ar y gyflogres (a elwir yn fwy cyffredin yn IR35).

Rydym wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth Cymru i gryfhau ein ffyrdd o weithio ac wedi datblygu trefniadau monitro newydd i adolygu blaenoriaethau a materion yn rheolaidd, gyda'r nod o roi sicrwydd a hyder o ran eu goruchwyliaeth o drefniadau rheoli ariannol a risg CNC.

## Cyflawni

Mae cydweithwyr ar draws y sefydliad wedi ymdrechu i gynnal eu ffocws ar gyflawni, gyda rheolwyr ac arweinwyr tîm yn ailflaenoriaethu llwythi gwaith yn gyson i ganolbwyntio ar feysydd â blaenoriaeth ac yn gwneud cyflawniadau nodedig megis:

- cyhoeddi'r adroddiad interim ar gyfer Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru 2025
- ymateb i'r llifogydd a'r difrod ar y tir sydd yn ein gofal o ganlyniad i stormydd Bert a Darragh
- cyflawni prosiectau cyfalaf a chynnal lefelau amddiffyn eiddo i leihau'r perygl o lifogydd drwy gwblhau prif elfennau'r adeileddau amddiffyn rhag llifogydd newydd ar Gynllun Lliniaru Llifogydd Stryd Stephenson yng Nghasnewydd
- adfer mawndir ar safleoedd â blaenoriaeth ar y tir yn ein gofal, yn ogystal â chefnogi prosiectau cyflawni uniongyrchol ar y cyd â thirfeddianwyr a rheolwyr ledled Cymru gan ddefnyddio cytundebau rheoli tir a grantiau
- herio a rhoi cyngor i gwmnïau dŵr ar eu blaenoriaethau buddsoddi, gan arwain at benderfyniad terfynol Ofwat, a sicrhaodd y lefelau uchaf erioed o fuddsoddiad gan gwmnïau dŵr yn amgylchedd Cymru hyd at 2030

- ymateb i 97% o ddigwyddiadau a gategoreiddiwyd yn wreiddiol fel ‘uchel’ o fewn pedair awr
- cwblhau’r ymgynghoriad a gynlluniwyd ynghylch dynodiad posibl Parc Cenedlaethol newydd ochr yn ochr â gwaith i symleiddio’r canllawiau ar gyfer y cynllun rheoli dynodedig

Serch hynny, mae’r rheolaethau ar recriwtio wedi golygu bod gennym ni nifer sylweddol o swyddi gwag ar draws pob rhan o’r sefydliad. Er bod hyn wedi sicrhau ein bod wedi amddiffyn aelodau staff parhaol rhag y risg o ddiswyddo, roedd hyn yn anochel yn effeithio ar y ddarpariaeth drwy gydol 2024/25, ac roedd y cynnydd mewn perthynas â rhai o ymrwymiadau’r cynllun busnes a mesurau cyflawni allweddol yn arafach nag a ragwelwyd ar ddechrau’r flwyddyn. Mae gweithgareddau sy’n sail i gyflawni ein hamcanion llesiant, megis trwyddedu, ymweliadau cydymffurfio, a rhoi cyngor statudol i awdurdodau cynllunio a datblygwyr, hefyd wedi cael eu heffeithio’n andwyol gan y rheolaethau ar recriwtio. Mae craffu ar berfformiad gan y Tîm Gweithredol a’r Bwrdd wedi’i ddogfennu yn yr adroddiadau perfformiad chwarterol a’r sefyllfa ddiwedd y flwyddyn yn yr adrannau ‘Crynodeb o berfformiad’ a ‘Dadansoddi perfformiad’. Mae’r llwybr i gyflawni statws gwyrdd ar gyfer yr ymrwymiadau hynny sy’n goch neu’n oren yn dibynnu ar godi’r rheolaethau recriwtio sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Mae’n debygol mai’r cynharaf y bydd yr ymrwymiadau hyn yn dychwelyd i statws gwyrdd yw Ch3 yn 2025/26. Am y rheswm hwn, bydd yr ymrwymiadau a mesurau cyflawni hyn yn cael eu cadw ar Gynllun Busnes Blynyddol 2025/26.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein fframwaith rheoli perfformiad, gyda rôl Arweinydd Amcanion Llesiant y Tîm Gweithredol yn cael ei chyflwyno eleni ochr yn ochr â sefydlu Grŵp Perfformiad yr Amcanion Llesiant. Gyda’i gilydd, mae’r rhain yn cynnal ffocws ein sefydliad ar gyd-fynd â’r cynllun corfforaethol drwy gyflawni ymrwymiadau’r cynllun busnes blynyddol mewn ffordd integredig. Bu herio adeiladol, yn enwedig o ran y statws coch, oren a gwyrdd ar gyfer diwedd y flwyddyn, ac mae hyn wedi creu mwy o ymdeimlad o realaeth.

## Cyllid ychwanegol ar gyfer 2025/26

Arweiniodd cyllideb gyntaf Llywodraeth y DU newydd at setliad gwell na’r disgwyl i Gymru. Dewisodd Llywodraeth Cymru fuddsoddi rhywfaint o’r cyllid hwn yn CNC, a chyhoeddiad cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2024 oedd yr arwydd cyntaf y byddai cyllid ychwanegol sylweddol ar gael. Mae cyllid cymorth grant parhaol ychwanegol wedi’i ddarparu i dalu am y bil cyflog cynyddol ar draws y sefydliad yn ogystal â galluogi dilyniant o ran ein bwriad blaenoriaethu gyda meysydd wedi’u nodi ar gyfer buddsoddi, gyda thua £4 miliwn wedi’i ddyrannu ar gyfer ansawdd dŵr, bioamrywiaeth, monitro tystiolaeth, rheoli’r perygl o lifogydd a gwella busnes. Mae cyfanswm cyllid meysydd eraill – er enghraifft, adfer mawndiroedd a’r Ddeddf Seilwaith – bellach yn £10.7 miliwn.

Er bod y cyllid ychwanegol yn ddymunol iawn, mae’r newid cyflym hwn o ran ffocws sefydliadol o grebachu (yr achos dros newid) i ehangu (cyllid penodol ychwanegol) yn heriol ac yn peri risgiau ariannol a chyflawni newydd sylweddol i’r sefydliad. Rydym yn ymateb yn gadarnhaol, tra ar yr un pryd yn cynnal ein ffocws ar gynaliadwyedd ariannol a gwydnwch y sefydliad yn y dyfodol. Er mwyn sicrhau ein bod yn cadw ein hyblygrwydd a’n gallu i addasu i newid yn y dyfodol, mae’r Tîm Gweithredol wedi herio pob maes sy’n cael cyllid ychwanegol i beidio â recriwtio’n barhaol yn ddiofyn. Yn lle hynny, byddwn yn cyflawni gan ddefnyddio cymysgedd o ymyriadau, gan gynnwys contractau, grantiau, partneriaethau, lleoliadau a phrentisiaethau, i sicrhau y gallwn gyflawni’r deilliannau wrth leihau’r risg o gyflogi mwy o staff parhaol nag sy’n fforddiadwy.

Mae’r Tîm Gweithredol yn estyn eu diolch diffuant i gydweithwyr am eu hamynedd, eu hymrwymiad a’u proffesiynoldeb parhaus mewn blwyddyn heriol.

**Ceri Davies**

**Prif Weithredwr Dros Dro a Swyddog Cyfrifyddu** **28 Hydref 2025**

## Ynglŷn ag CNC

Rydym yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn gweithio dros bobl Cymru, a'n dyletswydd yw ymgyrraedd at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r egwyddorion arweiniol hyn yn sail i bopeth a wnawn, gan gynnwys sut rydym yn defnyddio ein cysylltiadau ac yn dod â phobl ynghyd i greu a chyflawni deilliannau a rennir i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd.

Mae cariad ac angerdd dros natur, gwybodaeth fanwl ac arbenigedd, yn ogystal â balchder i gefnogi cymunedau ledled Cymru i weithredu, yn agweddau yr ydym yn eu rhannu â llawer o sefydliadau ac unigolion eraill.

I gael gwybodaeth am sut mae ein sefydliad wedi'i strwythuro i gyflawni, gweler ein Hadroddiad Atebolrwydd.

## Ein hamcanion llesiant hyd at 2030

Mae ein cynllun corfforaethol yn nodi ein gweledigaeth, ein cenhadaeth, ein gwerthoedd a'n hamcanion llesiant hyd at 2030. Mae'r cynllun yn cyd-fynd â'r amcanion strategol a roddwyd i ni gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith tymor y llywodraeth.

Erbyn 2030 yng Nghymru:

- **Mae byd natur yn gwella** – rydym yn cymryd camau brys i atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.
- **Mae cymunedau'n wydn i newid hinsawdd** – rydym yn cymryd camau brys i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chyflymu camau i addasu i newid hinsawdd.
- **Mae llygredd yn cael ei leihau** – rydym yn cymryd camau i leihau'r pethau hynny sy'n niweidio iechyd pobl a bioamrywiaeth ac yn cyfrannu at allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Drwy ganolbwyntio ar y tri amcan llesiant hyn *gyda'i gilydd*, byddwn yn amddiffyn ac yn gwella llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

## Crynodeb o’r risgiau allweddol

Mae risg yn gynhenid ym mhopeth a wnawn. Mae cydnabod risgiau allweddol a rheoli’r rhain yn effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn lliniaru unrhyw effaith negyddol y gallent ei chael ar gyflawni ein hamcanion wrth fanteisio ar yr un pryd ar unrhyw gyfleoedd y gallent eu creu. Mae ein risgiau’n cael eu nodi, eu hasesu, eu rheoli, eu hadolygu a’u cofnodi drwy gofrestri risg a sicrwydd ac maent wedi’u halinio â chyflawni ein hamcanion strategol a’r pwrpas a amlinellir yn ein cynllun corfforaethol.

Mae’r chwe risg isod yn cael eu rheoli’n weithredol gan berchennog risg ar lefel cyfarwyddwr ynghyd â’r rheolwr neu reolwyr risg a neilltuir iddynt.

Mae parodrwydd i dderbyn risg wedi’i nodi ar gyfer pob un ynghyd â datganiad sydd wedi’i ddatblygu gan y Bwrdd. Bydd effaith yr amgylchedd allanol a mewnol yn effeithio ar reoli’r risg o fewn y parodrwydd i’w derbyn a, thros amser, bydd yn rhoi cipolwg ar y meysydd lle efallai y bydd yn rhaid i ni oddef, derbyn neu geisio mwy o risg.

Dyma grynodeb o’r meysydd risg allweddol:

### Cynaliadwyedd ariannol

Mae gweithredu o fewn cyllideb gytbwys a sicrhau bod ein penderfyniadau’n cyfrannu’n gadarnhaol at ein hyfywedd ariannol hirdymor yn hanfodol ar gyfer cyflawni’r cynllun corfforaethol yn llwyddiannus. Mae’r hinsawdd allanol bresennol o chwyddiant, costau cynyddol a heriau i’r gadwyn gyflenwi yn pwysleisio pwysigrwydd cynyddol rheoli risg yn effeithiol, parodrwydd i dderbyn risg sydd wedi’i fynegi’n dda, a’r gallu i fod yn hyblyg ac yn addasadwy mewn ymateb i newidiadau economaidd ac ansefydlogrwydd parhaus. *Gweler ‘Datganiad y Prif Weithredwr’ a’r ‘Crynodeb cyllid’ am ragor o wybodaeth am hyn.*

### Gwydnwch sefydliadol

Er mwyn lliniaru effaith ddifrifol bosibl digwyddiadau ar raddfa fawr fel ymosodiadau seiberddiogelwch neu dywydd garw ar ein gweithrediadau busnes, mae’n hanfodol ein bod wedi paratoi’n ddigonol. Mae’r risg hon yn mynd i’r afael yn benodol â’n hangen i sefydlu fframwaith cadarn ar gyfer cynllunio ar gyfer aflonyddwch o’r fath, ymateb iddo ac adfer ar ei ôl, ac mae’n cynnwys sganio’r gorwel yn rhagweithiol i nodi risgiau sy’n dod i’r amlwg, cynllunio senarios cynhwysfawr i ddeall canlyniadau posibl, a gweithredu cynlluniau parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb effeithiol i sicrhau gwydnwch gweithredol. *Gweler adran ‘Sicrwydd gwybodaeth’ yn yr Adroddiad Atebolrwydd am ragor o wybodaeth am ein dull o ymdrin â seiberddiogelwch a diogelwch gwybodaeth.*

### Iechyd a diogelwch

Mae natur ein darpariaeth weithredol yn cynnwys gweithgareddau sy’n risg uchel yn eu hanfod, gan gynnwys gweithredu peiriannau trwm, gweithio mewn dŵr neu ger dŵr, defnyddio llifiau cadwyn, a gweithio’n aml ar dir heriol. Gan gydnabod y potensial am niwed difrifol, mae’r risg hon yn pwysleisio pwysigrwydd hanfodol sefydlu a chynnal seilwaith cadarn a rhaglenni hyfforddi cynhwysfawr er mwyn meithrin a darparu’r cymwyseddau angenrheidiol. Mae’r risg hon yn canolbwyntio’n benodol ar sicrhau bod ein harferion yn cyd-fynd â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc i leihau tebygolrwydd ac effaith digwyddiadau posibl. *Gweler papurau Bwrdd chwarterol ‘Llesiant, Iechyd a Diogelwch’ am ragor o wybodaeth am hyn.*

## Gwerthoedd a ffyrdd o weithio

Mae'r gallu i gyflawni ein cynllun corfforaethol yn dibynnu'n uniongyrchol ar sicrhau bod ein ffyrdd o weithio a'n gwerthoedd sylfaenol yn gyson. Rhaid i'n model gweithredu, ein strwythur llywodraethu, ein methodolegau blaenoriaethu, ein parodrwydd diffiniedig i dderbyn risg, a'r ymddygiadau a'r arferion sy'n hyrwyddo ein gwerthoedd ddarparu'r fframwaith a chefnogaeth angenrheidiol ar y cyd ar gyfer gwireddu ein hamcanion llesiant. *Gweler papurau'r Bwrdd am fwy o wybodaeth am hyn.*

## Pobl

Mae cyflawni'r ddarpariaeth orau posibl yn ei gwneud yn ofynnol i ni fanteisio'n llawn ar sgiliau, gwybodaeth, arbenigedd a phrofiad cyfunol ein staff. Mae hyn yn golygu defnyddio'r bobl gywir yn strategol i wneud y gwaith cywir yn y lleoliadau cywir i sicrhau'r effaith fwyaf posibl. I gefnogi hyn, rhaid i'n strwythur sefydliadol fod yn addasadwy ac yn ymatebol, a rhaid i'n blaenoriaethu gwaith, ein dyraniad o adnoddau a'n gwaith cynllunio ar gyfer ein dyfodol fod yn gydnaws â'r amcanion a'r blaenoriaethau a amlinellir yn ein cynllun corfforaethol. *Gweler 'Datganiad y Prif Weithredwr' a'r 'Adroddiad Cyflogau a Staff (wedi'i archwilio)' am ragor o wybodaeth am hyn.*

## Amgylchedd gwleidyddol, deddfwriaethol ac economaidd

Er mwyn deall a rheoli'r amgylchedd allanol sy'n esblygu'n effeithiol, mae'n hanfodol ein bod yn darllen yn rhagweithiol ac yn rhagweld amgylchiadau gwleidyddol, deddfwriaethol ac economaidd newidiol sy'n effeithio ar weithgareddau CNC, yn dylanwadu arnynt lle bo modd, yn cynllunio'n strategol ar eu cyfer, yn addasu'n rhwydd iddynt, ac yn mynd i'r afael â nhw mewn modd ymatebol. Mae'r dirwedd wleidyddol ddynamig ledled Cymru a'r DU yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gynnal hyblygrwydd, cryfhau cydberthnasau yn weithredol, a defnyddio ac ehangu ei rwydweithiau'n strategol ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r ymgysylltiad rhagweithiol hwn yn hanfodol wrth hwyluso gweithredu trawsnewidiol. Mae angen i ni fanteisio ar bob cyfle i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein hamcanion llesiant drwy gydberthnasau gwaith effeithiol a chydweithredol â'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid. *Gweler papurau'r Bwrdd am fwy o wybodaeth am hyn.*

Am ragor o wybodaeth am risg(au), gweler:

- Adroddiad Atebolrwydd, sy'n canolbwyntio ar reoli risg a rheolaeth fewnol (gan gynnwys sut mae risgiau'n cael eu nodi, eu cofnodi, eu hasesu, eu rheoli, eu hadolygu a'u craffu)
- Dadansoddi perfformiad, sydd â chynnwys sy'n ymwneud â risgiau sy'n gysylltiedig â pherfformiad a sut y gellir eu lliniaru

## Crynodeb cyllid

Ein cyfanswm incwm ar gyfer y flwyddyn oedd £136 miliwn ac roedd hyn yn cynnwys £40 miliwn o grantiau gan Lywodraeth Cymru tuag at amrywiaeth o ddeilliannau. Yn ogystal, darparodd Llywodraeth Cymru cymorth grant gwerth £143 miliwn. Darparodd Llywodraeth Cymru hefyd £2 miliwn mewn cyllid cyfalaf gweithio. Yn y datganiadau ariannol, caiff cymorth grant a chyllid cyfalaf gweithio eu trin fel cyfraniad gan awdurdod â rheolaeth ac nid fel ffynhonnell incwm.

Yn 2024/25, cynyddodd ein gwariant o £300 miliwn i £305 miliwn. Mae'r newid mewn gwariant yn bennaf oherwydd y mae'n rhaid ystyried y rhwymedigaeth ar gyfer penderfyniad CThEF ar IR35, wedi'i gwrthbwyso gan lai o arian a wariwyd ar gyflawni ein rhaglenni cyfalaf. Mae'r gostyngiad hwnnw oherwydd bod mwy o wariant nag arfer yn y flwyddyn ariannol flaenorol oherwydd costau adeiladu ar gyfer cynllun Stryd Stephenson yng Nghasnewydd. Roedd costau staff yn sefydlog, gyda chostau dyfarniadau cyflog wedi'u cydbwyso gan ostyngiad yn nifer y gweithlu oherwydd bod cyfyngiadau recriwtio ar waith. Dyma ddosbarthiad cyfanswm ein cyllid a gwariant:

- Cyllid fesul math:
  Cymorth grant Llywodraeth Cymru (51% / £143m)
  Cyllid cyfalaf gweithio Llywodraeth Cymru (1% / £2m)
  Taliadau (18% / £51m)
  Incwm masnachol ac incwm arall (15% / £43m)
  Grantiau eraill Llywodraeth Cymru (14% / £40m)
  Cyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall (1% / £2m)
- Gwariant fesul math:
  Costau staff (43% / £131m)
  Gwaith cyfalaf a wariwyd yn ystod y flwyddyn (13% / £40m)
  Gwariant arall (44% / £133m)

## Rheoli ein harian

Roedd 2024/25 yn flwyddyn ariannol anodd, lle gwnaethom weithredu gostyngiadau cyllidebol a strwythurol er mwyn i ni allu pontio diffyg mewn cyllid. Arhosodd ein cyllid 'craidd' gan Lywodraeth Cymru ar lefelau arian parod tebyg i'r flwyddyn ariannol flaenorol ar y cyfan, er bod cymorth ychwanegol wedi'i ddarparu i ariannu rhan o'r dyfarniad cyflog a'r cynnydd yng nghyfraniadau cyflogwyr Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Hefyd, parhaodd Llywodraeth Cymru i roi cyllid grant penodol inni ar gyfer rhaglenni sydd wedi'u targedu at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.

Fe wnaethon ni gynnal ein buddsoddiad mewn rhaglenni a ariennir yn allanol – gan fuddsoddi mwy na £2 miliwn mewn rhaglenni a ariennir gan Ewrop a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Gwelwyd gostyngiad o ran ein hincwm o bren wrth i'r sefyllfa economaidd effeithio ar y galw am bren, a gostyngodd ein lefelau incwm ynni adnewyddadwy hefyd o uchafbwynt y flwyddyn flaenorol. Digolledodd Llywodraeth Cymru ni am y gostyngiad yn ein incwm sy'n dod o werthu pren. Mae lefelau incwm taliadau wedi cynyddu'n gymedrol yn dilyn cyflwyno ffioedd trwyddedu ac ymgeisio diwygiedig er mwyn adennill ein costau yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Cymeradwywyd y gyllideb gan y Bwrdd a chafodd ei chraffu arni drwy gydol y flwyddyn ariannol gan y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd.

## Edrych i'r dyfodol

Rydym wedi cyhoeddi ein cynllun corfforaethol hyd at 2030 a'n cynllun busnes ar gyfer 2025/26, sy'n nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn/blynyddoedd ariannol sydd i ddod. Rydym wedi gosod ein cynlluniau ar sail adnoddau disgwyliedig, gan gynnwys cymorth grant, taliadau, a dyraniadau ac amcangyfrifon incwm masnachol. Yn dilyn cyhoeddiad cyllideb y DU yn yr hydref, dyfarnodd Llywodraeth Cymru gynnydd o ran ein cymorth grant i ni ar gyfer 2025/26. Mae hyn wedi ein galluogi i fuddsoddi cyllid mewn blaenoriaethau penodol ar y cyd. Rydym wedi cael cymeradwyaeth ar gyfer ein ffioedd ar gyfer 2025/26. Gall ein hincwm masnachol fod yn llai rhagweladwy gan ei fod yn sensitif iawn i newidiadau yn y gyfradd gyfnewid ac mae Llywodraeth Cymru wedi parhau gyda throthwy i amddiffyn CNC rhag gostyngiadau o ran ein incwm o bren.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i lunio'r adnoddau sydd ar gael i ni o 2026/27 ymlaen yn nhymor newydd y llywodraeth, wrth i ni barhau i flaenoriaethu cyllidebau i gyflawni'r uchelgeisiau a nodir yn y cynllun corfforaethol.

## Asedau anghyfredol

Roedd gwerth ein hasedau anghyfredol yn £2,481 miliwn ar 31 Mawrth 2025, gostyngiad o 8% (£211 miliwn) o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol ddiwethaf. Y gydran bwysicaf yw gwerth yr ystad goedwig ac asedau biolegol, sy'n cyfrif am £1,984 miliwn, gostyngiad o 8% (£162 miliwn) oherwydd cyfuniad o ostyngiad mewn prisiadau cnydau a'r gwerth sylfaenol ar gyfer tir.

## Taliadau masnachol a thaliadau eraill

Rydym wedi ymrwymo i dalu 95% o gyflenwyr o fewn 30 diwrnod, ac rydym yn ceisio mynd y tu hwnt i'r targed hwn pan fo'n bosibl. Roedd perfformiad eleni yn 98%.

## Perfformiad dyledwyr

Bu cynnydd bach mewn dyled fasnachol mewn perthynas â'n rheolaeth barhaus ohoni, gyda nifer cyfartalog y dyddiau i gwsmeriaid dalu yn 0.75 diwrnod ar gyfer 2024/25 o'i gymharu â 0.08 yn 2023/24. Mae hyn o fewn ein targed o ddau ddiwrnod.

Mae ein rheolaeth o ddyled reoleiddiol wedi gweld lefel y ddyled yn cynyddu yn 2024/25 i 7.89%, a oedd ychydig uwchlaw ein targed o 7.5%. Roedd lefel y ddyled yn 6.59% yn 2023/25, gyda tharged o 7%.

Mae colled credyd ddisgwyliedig CNC yn £0.1 miliwn ar 31 Mawrth 2025.

## Busnes hyfyw

Mae'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2025 yn dangos ecwiti trethdalwyr positif o £2,407 miliwn. Bydd ein rhwymedigaethau yn y dyfodol yn cael eu hariannu gan gymorth grant Llywodraeth Cymru a thrwy gymhwyso incwm yn y dyfodol. Mae gennym gynllun corfforaethol a chynllun busnes cymeradwy ar gyfer 2025/26. Felly, mae'n briodol mabwysiadu dull busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

## Pensiynau

Datgelir yr ased/rhwymedigaeth pensiwn yn y datganiadau ariannol ar sail Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 19. Mae'r gwarged ar gyfer Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd wedi'i gapio ar £0 (2023/24 - £0) yn 2024/25.

Mae hyn yn wahanol i'r sylfaen a ddefnyddir ar gyfer cyfrifiadau cyllido. Roedd Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd wedi amcangyfrif bod ganddi ddigon o asedau i fodloni 171% o'i rhwymedigaethau disgwyliedig yn y dyfodol ar 31 Mawrth 2025.

## Archwilwyr


Caiff ein cyfrifon eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Rhagwelir y bydd y ffi archwilio ar gyfer 2024/25 yn £217,000.

## Adroddiadau eraill

Fel sefydliad, rydym yn cyhoeddi nifer o adroddiadau'n rheolaidd, a gellir gweld llawer ohonynt yma, gan gynnwys: yr adroddiad blynyddol a chyfrifon hyn, adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac adroddiad amgylcheddol. Mae strategaethau a chynlluniau ar gyfer Cymru ar gael yma, gan gynnwys ein cynllun corfforaethol, ein strategaeth fasnachol a'n Datganiadau Ardal (sy'n amlinellu blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd ar gyfer ardaloedd yng Nghymru). Gellir cael mynediad at adroddiadau tystiolaeth ac ymchwil a gyhoeddwyd yma.

## Crynodeb o berfformiad

Mae pob ymrwymiad yn ein Cynllun Busnes 2024/25 yn ymwneud â'n hamcanion llesiant, fel y'u nodir yn ein Cynllun Corfforaethol hyd at 2030.




Erbyn diwedd mis Mawrth 2025, o'r **26 ymrwymiad** yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2024/25:

- *Roedd **13** yn* *wyrdd* (h.y. wedi'u cyflawni)
- *Roedd **12** yn* *oren* (h.y. wedi'u cyflawni'n rhannol)
- *Roedd **1** yn* ***goch*** (h.y. heb ei gyflawni)

Mae asesiad mwy manwl o'n perfformiad o dan bob amcan llesiant a'r blaenoriaethau a ddiffinnir yn llythyr cylch gwaith tymor y llywodraeth wedi'u nodi yn yr adran dadansoddi perfformiad.

Dim ond rhan o'r hyn yr ydym yn ei wneud yw'r ymrwymiadau sydd wedi'u cynnwys yn ein cynllun busnes blynyddol. Mae ystod eang o weithgareddau rheoleiddiol, cyngor statudol a thystiolaeth yn tanategu ein darpariaeth. Er enghraifft, yn 2024/25 fe wnaethon ni'r canlynol:

- **cyhoeddi[1] 1,692 o drwyddedau rhywogaethau** fel bod anghenion rhywogaethau yn cael eu hystyried a'u diogelu rhag gweithgareddau a allai effeithio arnynt
- **ymateb i 7,513 o ymgynghoriadau ynghylch ceisiadau cynllunio** i sicrhau bod ein safbwynt ar gynigion datblygu wedi'i ddatgan yn glir, gan gynnwys unrhyw amodau disgwyliedig
- **cynhyrchu £31 miliwn mewn incwm o bren,** gan gefnogi rheolaeth gynaliadwy barhaus o'r ystad goetir
- **cynnal dros 3,000 o asedau sy'n rheoli'r perygl o lifogydd** wrth reoli'r perygl o lifogydd yn y dyfodol
- **cofrestru 48,271 o eiddo fel eu bod yn cael rhybuddion am lifogydd**, gan roi rhybudd ymlaen llaw am lifogydd disgwyliedig neu bosibl
- **cyhoeddi 3,106 o drwyddedau[2]**, gan nodi gofynion ar weithredwyr i reoli eu gweithgareddau
- **cwblhau 2,695 o ymweliadau** i wirio cydymffurfedd ag amodau trwyddedau
- **sicrhau 79 o erlyniadau am droseddau amgylcheddol** yn 2024 fel rhan o'n dull o gyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio
- **ymateb i 10,558 o adroddiadau am ddigwyddiadau amgylcheddol** gyda 135 ohonynt yn achosi effaith ddifrifol (mawr neu sylweddol)

## Aliniad a chraffu

Dyma'r flwyddyn gyntaf o adrodd sy'n cyd-fynd yn llawn â'r Cynllun Corfforaethol hyd at 2030. Mae hyn yn golygu na ellir cynnwys cymhariaeth â pherfformiad mewn perthynas

[1] (neu ddiwygio)
[2] gan gynnwys ar gyfer: diwydiant, sylweddau ymbelydrol, gwastraff, adnoddau dŵr, gollyngiadau dŵr, materion morol, rhywogaethau a chwympo coed

ag adroddiadau blynyddol a chyfrifon blaenorol yn adroddiad eleni. Bydd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon ar gyfer 2025/26. Am adroddiadau perfformiad hanesyddol, gweler adroddiadau blynyddol a chyfrifon blaenorol.

# Dadansoddi perfformiad

## Trosolwg

Mae'r Achos dros Newid a'r rheolaethau recriwtio cysylltiedig wedi arwain at nifer o swyddi gwag ar draws pob rhan o'r sefydliad yn ystod 2024/25, sydd, yn anochel, wedi cael effaith ar yr hyn a ddarperir. O ganlyniad, mae cynnydd mewn perthynas â rhai ymrwymiadau cynllun busnes a mesurau cyflawni allweddol wedi bod yn arafach nag a ragwelwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Adlewyrchir hyn ym mherfformiad diwedd y flwyddyn, gyda nifer uwch o fesurau cyflawni â statws coch ac oren yn cael eu hadrodd amdanynt ar draws pob amcan llesiant.

Mewn llawer o achosion, mae'r llwybr i gyflawni statws gwyrdd yn dibynnu ar gael gwared ar reolaethau recriwtio. Am y rheswm hwn, bydd yr ymrwymiadau a mesurau cyflawni hyn yn cael eu cadw o fewn Cynllun Busnes Blynyddol 2025/26 i sicrhau ffocws ac atebolrwydd parhaus.

Rydym hefyd wedi cynnwys rhagolwg ar gyfer rhai ymrwymiadau sy'n debygol o gael eu cynnwys ar gyfer pob amcan llesiant yng Nghynllun Busnes 2025/26. Rydym yn gorffen yr adran gyda chrynodeb ehangach, gan gynnwys rhywfaint o'n gwaith arall sy'n cyfrannu at bob amcan llesiant, gan gynnwys gwaith gyda phartneriaid.

Rydym wedi defnyddio allwedd syml i adlewyrchu cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau, sef:

- Gwyrdd (wedi'i gyflawni)
- Oren (wedi'i gyflawni'n rhannol)
- **Coch** (heb ei gyflawni)

Ar gyfer pob ymrwymiad, mae hyd at dri mesur cyflawni allweddol, h.y. y rhai a ystyrir yn bwysicaf i wneud cynnydd yn erbyn pob ymrwymiad yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi adlewyrchu cynnydd yn erbyn y mesurau cyflawni hyn ar gyfer pob ymrwymiad hefyd, gan ddefnyddio eicon:

- ★ (wedi'i gyflawni)
- ♦ (wedi'i gyflawni'n rhannol)
- ■ (heb ei gyflawni)

Mae rhagor o fanylion am ymrwymiadau a mesurau cyflawni ar gael yn Atodiad: Y sefyllfa derfynol o ran ymrwymiadau a mesurau cyflawni allweddol ar gyfer 2024/25.

## Amcan Llesiant 1: Byd natur wrthi'n gwella



Crynodeb o safbwyntiau ymrwymiad gwyrdd, oren neu goch ar gyfer yr amcan llesiant hwn:

- *Roedd **6** yn wyrdd* (wedi'u cyflawni)
- *Roedd **1** yn oren* (wedi'i gyflawni'n rhannol)
- *Roedd **1** yn **goch*** (heb ei gyflawni)

**Ar ddiwedd 2024/25**, dyma oedd statws ein hymrwymiadau:

| **Ymrwymiad** | **Mesurau Cyflawni** |
|---|---|
| 1 - Gwerthuso Rhaglen Rhwydweithiau Natur CNC i lywio buddsoddiad ar gyfer safleoedd gwarchodedig yn y dyfodol: Oren | ■ ■ |
| 2 - Cydgasglu tystiolaeth i nodi blaenoriaethau ar gyfer hysbysu ac ailhysbysu safleoedd sy'n cyfrannu at y targed 30:30: **Coch** | ■ ■ ■ |
| 3 - Datblygu dealltwriaeth o effaith ymyrraeth 11 o brosiectau rhaglen bartneriaeth Natur am Byth sy'n seiliedig ar le i fireinio'r ddarpariaeth gadwraeth: Gwyrdd | ★ ★ ★ |
| 4 - Cryfhau dealltwriaeth o gyflwr nodweddion ACAau ac AGAau sydd yng Nghymru yn unig er mwyn llywio blaenoriaethu: Gwyrdd | ★ ♦ |
| 5 - Integreiddio tystiolaeth ar adfer natur i'r broses ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig a rheolaeth yr AHNEau a'r Parciau Cenedlaethol presennol i wella'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer natur: Gwyrdd | ★ ★ ★ |
| 6 - Darparu tystiolaeth ac arbenigedd i lywio datblygiad Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru a nodi gyda Llywodraeth Cymru pa wasanaethau cymorth y gallai fod eu hangen: Gwyrdd | ★ ★ ★ |
| 7 - Gweithredu Mai Di-dor, treialu dulliau newydd o weithio gyda natur ar y tir a'r asedau yr ydym yn eu rheoli, gan nodi argymhellion blaenoriaethol: Gwyrdd | ★ |
| 26 - Datblygu dealltwriaeth o anghenion, profiad a chyfleoedd defnyddwyr ar gyfer negeseuon cyffredin a phrif ffrydio tystiolaeth i wneud penderfyniadau i lywio'r Adroddiad Interim ar gyfer SoNaRR 26: Gwyrdd | ★ ★ ★ |

Ar gyfer Cynllun Busnes 2025/26, rydym yn rhagweld cynnwys ymrwymiadau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Cyhoeddi Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025
- Datblygu'r model cyflenwi ar gyfer CNC i gefnogi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy
- Gwneud argymhellion i'r llywodraeth ar ddynodiad posibl Parc Cenedlaethol newydd, gan gynnwys sut y gall hyn gyflawni'n well wrth adfer byd natur

Mae 2024/25 wedi bod yn flwyddyn nodedig i adferiad byd natur yng Nghymru, gyda Llywodraeth Cymru yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer y degawd nesaf a thu hwnt trwy ddwy fenter fawr:

- y Papur Gwyn sy'n diffinio'r dull o ymdrin ag egwyddorion amgylcheddol, llywodraethiant a thargedau bioamrywiaeth
- y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sy'n nodi sut y bydd rheolwyr tir yn cael eu gwobrwyo am reoli tir mewn ffordd natur-bositif

Mae ein cydweithwyr wedi chwarae rhan allweddol wrth lunio'r ddwy fenter – gan ddarparu tystiolaeth, dadansoddiadau a chyngor ac ymateb yn ffurfiol i bob ymgynghoriad.

Mae ein hymrwymiadau blynyddol yn adlewyrchu'r cyfraniad hwn, ochr yn ochr â chyflawni'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur a'r broses ar gyfer dynodiad posibl Parc Cenedlaethol newydd. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn gosod y sylfeini i gyrraedd targedau bioamrywiaeth byd-eang 2030 ar gyfer y tir, y môr a dyfroedd croyw.

Fe wnaethon ni hefyd chwarae rhan allweddol yn Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru, gyda'n Dirprwy Gadeirydd a'n Cyfarwyddwr Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu yn arwain gweithgorau pwrpasol. Darparodd cydweithwyr ar draws y sefydliad dystiolaeth a mewnwelediad hanfodol i lunio dull Cymru.

Mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn parhau i fod yn gonglfaen i gyflawni targed 30x30 yng Nghymru. Rydym yn defnyddio ein tystiolaeth i hysbysu SoDdGAau ac, ar ôl iddynt gael eu hysbysu, yn darparu cyngor, rheoleiddio a chytundebau rheoli tir i sicrhau bod y safleoedd hyn yn cael eu gwarchod a'u rheoli'n dda.

Yn ystod y flwyddyn, cadarnhawyd dau SoDdGA: Coedwig Dyfi , safle enghreifftiol o fforest law dymherus a choetir hynafol, a Bodwigiad a Nant y Deri, safle gyda glaswelltir niwtral prin sy'n llawn rhywogaethau, glaswelltir corsiog a rhostir gwlyb iseldir yn ardal Blaenau'r Cymoedd. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi hysbysiadau ar gyfer dau SoDdGA: safle newydd o'r enw Gweunydd Nant y Twyn yng Nghaerffili sy'n bwysig ar gyfer bryoffytau (mwsoglau a llysiau'r afu), a chynnig i ymestyn safle sy'n llawn rhywogaethau a chynefinoedd, sef Mynyddoedd Llangynidr a Llangatwg, Cefn yr Ystrad a Chomin Merthyr, sy'n ymestyn dros Bowys a Blaenau Gwent.

Gan edrych ymlaen at 2025/26, bydd ein gwaith bioamrywiaeth yn cael ei gryfhau trwy £0.6 miliwn ychwanegol mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru.

## Amcan Llesiant 2: Cymunedau yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd



Crynodeb o safbwyntiau ymrwymiad gwyrdd, oren neu goch ar gyfer yr amcan llesiant hwn:

- *Roedd **3** yn wyrdd* (wedi'u cyflawni)
- *Roedd **6** yn oren* (wedi'u cyflawni'n rhannol)
- *Roedd **0** (dim) yn **goch*** (heb ei gyflawni)

**Ar ddiwedd 2024/25**, dyma oedd statws ein hymrwymiadau:

| **Ymrwymiad** | **Mesurau Cyflawni** |
|---|---|
| 8 - Buddsoddi mewn meithrin gallu i alluogi cyflawni yn 2024-25 ac ehangu'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yn y dyfodol: Oren | ♦ ■ ★ |
| 9 - Cryfhau capasiti a thystiolaeth sy'n llywio blaenoriaethu gofodol er mwyn gallu adfer yn effeithiol yn y dyfodol o fewn cynefinoedd morol ac arfordirol: Oren | ■ ♦ |
| 10 - Darparu prosiectau cyfalaf a chynnal lefelau amddiffyniad ar gyfer eiddo er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd: Gwyrdd | ★ ★ |
| 11 - Gwella'r Gwasanaeth Rhybuddion Llifogydd a'r System Telemetreg i ddarparu effeithlonrwydd a chynnal parhad gwasanaeth i gwsmeriaid: Oren | ♦♦ |
| 12 - Adolygu'r dull blaenoriaethu ar gyfer cynnal a rheoli asedau llifogydd er mwyn sicrhau bod ein buddsoddiad yn seiliedig ar risg: Oren | ★■ |
| 13 - Datblygu dealltwriaeth, gan ddefnyddio mewnwelediad i wella prosesau cyn-ymgeisio sy'n gysylltiedig â chynllunio statudol a chaniatáu ceisiadau i hwyluso datgarboneiddio diwydiannol a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr tirlenwi: Gwyrdd | ★ ★ ★ |
| 14 - Gwella tystiolaeth, canllawiau a chyngor cyn-ymgeisio i wella ansawdd y cyflwyniadau ar gyfer caniatâd cynllunio a cheisiadau trwyddedau: Oren | ■ ♦ ★ |
| 15 - Blaenoriaethu'r camau gweithredu gorau o ran cost a budd ar garbon deuocsid a'i gyfateb (CO2e)/nwyon tŷ gwydr (GHGs) i gyflawni ein blaenoriaethau blynyddol o fewn y Cynllun Sero Net: Oren | ★ ★ ■ |
| 16 - Ymgorffori'r defnydd o offer lleihau carbon a chynlluniau i gontractau a fframweithiau gwerth uchel i wella ansawdd cyflwyniadau: Gwyrdd | ★ ★ ★ |

Ar gyfer Cynllun Busnes 2025/26, rydym yn rhagweld cynnwys ymrwymiadau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Cyflawni prosiectau cyfalaf â blaenoriaeth i leihau'r perygl o lifogydd (a/neu gynnal lefelau amddiffyniad ar gyfer eiddo)

- Gwella'r Gwasanaeth Rhybuddio am Lifogydd newydd
- Gweithredu newidiadau i brosesau sy'n ymwneud â charbon isel, dal carbon, a chyflawni camau gweithredu â blaenoriaeth y Cynllun Sero Net

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer gweithredu ar yr hinsawdd yn Sero Net Cymru, lle mae disgwyl i bob rhan o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector chwarae eu rhan i ysgogi gweithredu. Drwy Sero Net Diwydiant Cymru a'r clystyrau diwydiant, mae ffocws cynyddol ar ddatgarboneiddio prosesau diwydiannol a datblygu ffynonellau ynni carbon isel amgen. Mae datblygwyr ynni adnewyddadwy ar y tir ac ar y môr yn parhau i archwilio a datblygu cynlluniau newydd yn weithredol. Mae ein hymrwymiadau blynyddol ar gyfer 2024/25 yn adlewyrchu ein cyfraniad at y gwaith hanfodol hwn.

Ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, mae ein tîm masnachol wedi parhau i weithio gyda Thrydan Gwyrdd Cymru i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, gyda phum prosiect wedi'u cymeradwyo gan Fwrdd CNC bellach yn aros am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Rydym wedi bod yn gweithio gyda thîm Trydan Gwyrdd Cymru i gytuno ar delerau'r opsiwn a'r brydles ar gyfer prosiectau'r cwmni. Rydym yn parhau i gyflawni'r rhaglen ynni ehangach gydag un fferm wynt yn cael ei hadeiladu ar hyn o byd (Pant y Wal) a dau brosiect arall yn mynd drwy'r system gynllunio ar hyn o bryd (Alwen a'r Bryn).

Gyda buddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, bydd y Rhaglen Genedlaethol ar Fawndiroedd yn cael ei huwchraddio i gyflawni'r uchelgais o adfer 1,800 hectar y flwyddyn erbyn 2030/31. Mae'r ymrwymiad blynyddol yn adlewyrchu rhywfaint o'r gwaith rydym wedi'i wneud drwy gydol y flwyddyn i geisio gwireddu'r targed hwn. Yn ogystal, rydym wedi bwrw ymlaen â gwaith adfer mewn dau safle ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru (Cefn Croes a Hafod Elwy) ac wedi arwain ar gwblhau prosiect Adfywio Cyforgorsydd Cymru LIFE ym mis Mehefin 2024 ac wedi parhau i fwrw ymlaen â phrosiect Corsydd Crynedig LIFE yr UE.

Carreg filltir bwysig yn ystod y flwyddyn oedd cyflwyno'r gwasanaeth gwybodaeth rhybuddio am lifogydd newydd ym mis Medi 2024, er mwyn sicrhau bod rhybuddion am lifogydd yn cael eu darparu i 69,952 o gyfrifon cwsmeriaid cofrestredig unigryw a 48,271 o eiddo cofrestredig unigryw yng Nghymru.

Mae timau gweithredol wedi parhau i weithio gyda phartneriaid ac wedi ymateb i ddau storm sylweddol, sef Storm Bert ym mis Tachwedd 2024 a Storm Darragh ym mis Rhagfyr 2024. Effeithiodd gwyntoedd eithriadol o gryf Storm Darragh ar ein hystad goetir a'n Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, gyda nifer fawr o goed yn cael eu diwreiddio gan y gwynt a difrod i asedau. Bydd adferiad o effeithiau Storm Darragh yn parhau i mewn i 2025/26, wrth i ni ystyried sut i gyflymu newidiadau i gryfhau gwydnwch y coedwigoedd yn wyneb digwyddiadau tywydd eithafol.

Cafodd ein cynllun sero net hyd at 2030 ei gymeradwyo gan Fwrdd CNC a'i gyhoeddi ym mis Ionawr 2025.

Gan edrych ymlaen at 2025/26, mae ein gwaith i gefnogi datgarboneiddio trwy ddiwydiant ac ehangu ynni adnewyddadwy wedi'i gryfhau trwy gael £5 miliwn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cael ei dargedu i wella ein prosesau cyngor statudol a thrwyddedu yn unol â gofynion y Ddeddf Seilwaith newydd.

## Amcan Llesiant 3: Llygredd yn cael ei atal hyd yr eithaf



Crynodeb o safbwyntiau ymrwymiad gwyrdd, oren neu goch ar gyfer yr amcan llesiant hwn:

- *Roedd **4** yn wyrdd* (wedi'u cyflawni)
- *Roedd **5** yn oren* (wedi'u cyflawni'n rhannol)
- *Roedd **0** (dim) yn **goch*** (heb ei gyflawni)

**Ar ddiwedd 2024/25**, dyma oedd statws ein hymrwymiadau:

| Ymrwymiad | Mesurau Cyflawni |
|---|---|
| 17 - Cynnal archwiliadau fferm o dan y Rheoliadau Llygredd Amaethyddol, yn unol â'r polisi sancsiynau gorfodi i leihau llygredd: Oren | ♦ ♦ |
| 18 - Ymgymryd ag ymweliadau cydymffurfio mewn safleoedd a reoleiddir â blaenoriaeth i leihau llygredd: Gwyrdd | ★ ★ |
| 19 - Darparu cymorth a chyngor ar y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle newydd, gan dargedu sectorau allweddol yn y gweithle a darparwyr gwasanaethau gwastraff i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth rhanddeiliaid: Gwyrdd | ★ ★ ★ |
| 20 - Darparu her a chyngor i gwmnïau dŵr i sicrhau bod eu rhaglenni buddsoddi yn lleihau risgiau ac effeithiau eu gweithrediadau ar yr amgylchedd: Oren | ★ ★ ■ |
| 21 - Gosod yr uchelgais ar gyfer gwella ansawdd dŵr ar raddfa dalgylch i feithrin cydweithredu a chyflawni camau gweithredu â blaenoriaeth: Oren | ★ ★ ♦ |
| 22 - Ymateb i ddigwyddiadau llygredd â blaenoriaeth i leihau difrod amgylcheddol: Gwyrdd | ★ ★ |
| 23 - Gwella ein dealltwriaeth o yrwyr digwyddiadau llygredd ledled Cymru i lywio'r broses o integreiddio camau ataliol i ymateb i ddigwyddiadau: Oren | ★ ♦ ♦ |
| 24 - Ymgymryd ag ymchwiliadau a chamau gorfodi i leihau difrod amgylcheddol Gwyrdd | ★ ★ |
| 25 - Cryfhau ffyrdd o weithio gydag Awdurdodau Lleol a phartneriaid yn y trydydd sector i wneud y mwyaf o weithredu ar y cyd ar dipio anghyfreithlon: Oren | ■ ★ |

Ar gyfer Cynllun Busnes 2025/26, rydym yn rhagweld cynnwys ymrwymiadau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Gwella ymweliadau cydymffurfio
- Gwella prosesau mewn perthynas â'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn seiliedig ar yr adborth a gafwyd
- Gweithredu'r strategaeth rheoli digwyddiadau newydd, gan wella gwasanaethau cysylltiedig

Yn 2024/25, mae camau gweithredu strategaeth Mwy nag Ailgylchu Llywodraeth Cymru wedi parhau i gael eu cyflawni, gan gynnwys gweithredu'r ddeddfwriaeth ailgylchu newydd yn y gweithle. Mae Adolygiad Prisiau Cyfnodol 2024 wedi bod yn ffocws sylweddol wrth i ni ddarparu tystiolaeth a chyngor amgylcheddol i Weinidogion Cymru ac i gwmnïau dŵr ar y safonau amgylcheddol a'r asedau â blaenoriaeth sydd angen buddsoddiad. Mae'r Rhaglen Amgylcheddol yn pennu gwerth y buddsoddiad hyd at 2030 gan Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy i wella eu hasedau, a thrwy hynny leihau llygredd amgylcheddol. Cyhoeddwyd lefel uwch nac erioed o fuddsoddiad yn amgylchedd dŵr Cymru gan Ofwat ym mis Rhagfyr, gan gynnwys, er enghraifft, ailadeiladu gweithfeydd trin dŵr gwastraff Aberteifi.

Rydym wedi parhau i herio perfformiad amgylcheddol Dŵr Cymru, gan adrodd yn ein hadroddiad perfformiad blynyddol ar gwmnïau dŵr fod y cwmni'n parhau i fod yn berfformiwr dwy seren yn 2024, gyda chynnydd sydyn mewn digwyddiadau llygredd sylweddol a gostyngiad yn nifer y digwyddiadau sy'n cael eu hadrodd amdanynt gan y cwmni ei hun. Cymerwyd camau gorfodi yn erbyn y cwmni ym mis Hydref, yn ymwneud â chyfanswm o 800 o achosion o beidio â chydymffurfio â thrwyddedau disgrifiadol yn ymwneud â hunanfonitro gan y gweithredwr.

Drwy gydol rhan gyntaf 2024, fe wnaethom barhau i gael cwynion sylweddol gan drigolion Hwlffordd am arogleuon annymunol o Safle Tirlenwi Withyhedge. Mewn ymateb i'n camau gorfodi, yng nghanol mis Mai fe wnaeth y cwmni gweithredu roi'r gorau i bob gweithgaredd gwaredu gwastraff, gan ganiatáu i'r holl wastraff sy'n weddill ar y safle gael ei gapio a seilwaith casglu nwy gael ei osod. Yn ogystal, rhwng mis Mehefin a mis Medi 2024, gwnaeth y gweithredwr welliannau sylweddol i'r system rheoli nwyon tirlenwi. Ers mis Awst 2024, gwelsom ostyngiad sylweddol yn nifer yr adroddiadau am arogleuon.

Ym mis Ebrill, cyhoeddwyd digwyddiad mawr yn dilyn cyfres o ffrwydradau a thân yn Synthite Ltd, safle Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr haen uchaf yn yr Wyddgrug, Sir y Fflint. Roedd tua 200 tunnell o fformaldehyd yn gysylltiedig, gan arwain at bluen sylweddol o fwg a llygryddion yn cael eu rhyddhau i afon Alun gerllaw. Fe wnaethon ni arwain ymateb amlasiantaeth. Roedd ein timau'n cael eu herio gan raddfa'r gwaith monitro ac adrodd amgylcheddol a oedd yn ofynnol, ynghyd â'r angen i ymgysylltu â nifer o sefydliadau, a chawsant gymorth gan dimau CNC eraill o'r tu allan i'r Gogledd-ddwyrain. Drwy gydol y digwyddiad, bu cydweithio agos rhwng y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a ninnau. Tanlinellodd y digwyddiad bwysigrwydd hanfodol monitro amgylcheddol wrth lywio penderfyniadau iechyd cyhoeddus i gadw ein cymunedau'n ddiogel rhag niwed.

Ochr yn ochr â'r dulliau rheoleiddio traddodiadol hyn, rydym wedi parhau i gyflawni camau gweithredu â blaenoriaeth ar raddfa'r dalgylch, gan archwilio cyfleoedd ar gyfer arloesi a chydweithio â phartneriaid, er enghraifft drwy Brosiect Dalgylch Arddangos Teifi.

Gan edrych ymlaen at 2025/26, mae ein gwaith i wella ansawdd dŵr a gorfodi wedi'i gryfhau trwy gyllid ychwanegol o £2.7 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn sefydlu Uned Cydymffurfedd Dŵr newydd a pharhaol ac yn treialu'r defnydd o wahanol dechnegau a thechnolegau, fel dronau a fideos a chamerâu corff, i'w defnyddio gan staff gorfodi.

**Ceri Davies**
**Prif Weithredwr Dros Dro a Swyddog Cyfrifyddu** **28 Hydref 2025**

# Adroddiad Atebolrwydd

Mae ein Hadroddiad Atebolrwydd yn amlinellu'r prif nodweddion o sut rydym yn rheoli ein sefydliad. Mae ganddo dair adran.

Yn y tudalennau canlynol, bydd ein Hadroddiad Llywodraethu Corfforaethol yn egluro pwy yw ein Bwrdd a'n tîm uwch-reoli, sut maen nhw'n gweithio, a'r trefniadau llywodraethiant sydd ar waith i sicrhau bod ein hadnoddau yn cael eu rheoli a'u goruchwylio'n effeithiol er mwyn cyflawni ein hamcanion.

Mae ein Hadroddiad Cyflogau a Staff yn disgrifio sut rydym yn ymdrin â chyflogau'r Bwrdd ac uwch-reolwyr ac yn darparu trosolwg o gyfansoddiad ein staff.

Mae ein Hadroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio yn dwyn ynghyd ofynion ychwanegol y gofynnir amdanynt i ddangos ein hatebolrwydd i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, rheoleidd-dra gwariant, a'r farn a roddwyd gan ein harchwilydd allanol.

# Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae'r Tîm Gweithredol yn cynnwys y Prif Weithredwr a'r tîm o gyfarwyddwyr gweithredol sy'n ei gefnogi. Bu sawl newid i'r Tîm Gweithredol yn ystod 2024/25.

| Enw | Deiliad y swydd | Hyd gwasanaeth yn y Tîm Gweithredol |
|---|---|---|
| Prif Weithredwr | Clare Pillman | 26 Chwefror 2018 i 16 Ebrill 2025 |
| Prif Weithredwr Dros Dro | Ceri Davies | 15 Hydref 2024 i 31 Ionawr 2026 |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu | Ceri Davies | 1 Ebrill 2013 i 14 Hydref 2024 |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu | Dominic Driver | 16 Tachwedd 2024 i 31 Ionawr 2026 |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau | Gareth O'Shea | 27 Ebrill 2015 i'r presennol |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol | Prys Davies | 1 Ebrill 2019 i'r presennol |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Rachael Cunningham | 7 Medi 2020 i'r presennol |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol | Sarah Jennings | 7 Medi 2020 i'r presennol |

---

Mae'r gofrestr ganlynol yn nodi buddiannau ein Tîm Gweithredol fel yr oeddent ym mis Mawrth 2024.

| Enw | Swydd | Buddiant | Unigolyn | Rôl |
|---|---|---|---|---|
| Clare Pillman | Prif Weithredwr | Tir / eiddo | Personol | Preswylydd mewn ardal a allai gael ei hystyried ar gyfer y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig |

| Enw | Swydd | Buddiant | Unigolyn | Rôl |
|---|---|---|---|---|
| Clare Pillman | Prif Weithredwr | Aelodaeth weithredol neu anweithredol o fwrdd, pwyllgor neu ymddiriedolaeth | Personol | Aelod o Fwrdd Opera Cenedlaethol Cymru |
| Ceri Davies | Prif Weithredwr Dros Dro | Arall | Personol | Aelod o Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff |
| Ceri Davies | Prif Weithredwr Dros Dro | Aelodaeth weithredol neu anweithredol o fwrdd, pwyllgor neu ymddiriedolaeth | Personol | Ymddiriedolwr Cadwch Gymru'n Daclus |
| Prys Davies | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol | Dim buddiannau i'w datgan | | |
| Gareth O'Shea | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau | Dim buddiannau i'w datgan | | |
| Rachael Cunningham | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Dim buddiannau i'w datgan | | |
| Sarah Jennings | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol | Dim buddiannau i'w datgan | | |
| Dominic Driver | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu | Aelodaeth weithredol neu anweithredol o fwrdd, pwyllgor neu ymddiriedolaeth | Personol | Aelod o bwyllgor a chadeirydd Wotton Community Land Trust Ltd |
| Dominic Driver | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Tystiolaeth, | Aelodaeth weithredol neu anweithredol o | Personol | Ymddiriedolwr a chadeirydd Ymddiriedolaeth |

| Enw | Swydd | Buddiant | Unigolyn | Rôl |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | Polisi a Thrwyddedu | fwrdd, pwyllgor neu ymddiriedolaeth | | Hamdden Wotton a'r Cylch |

** Newidiwyd teitl Ceri Davies i Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro ym mis Ebrill 2025 yn dilyn ymddeoliad Clare Pillman.*

Caiff datganiad o fuddiannau'r cadeirydd ei adolygu gan gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a Phennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd.

Mae'r gofrestr buddiannau ar gyfer aelodau o'n Bwrdd ar gael ar ein gwefan o dan y pennawd Cofrestr buddiannau.

**Ceri Davies**

**Prif Weithredwr Dros Dro a Swyddog Cyfrifyddu** **28 Hydref 2025**

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Mae paragraff 23 (1) o'r atodlen i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yn ei gwneud yn ofynnol i ni lunio datganiad o gyfrifon bob blwyddyn ariannol, ar y ffurf a'r sail a nodir yn y cyfarwyddyd cyfrifon. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar ffurf croniadau, a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r sefydliad ac o'r incwm a'r gwariant, y newidiadau yn ecwiti trethdalwyr, a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y llywodraeth a gwneud y canlynol:

- Cadw at y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu priodol yn gyson
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol
- Nodi a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu perthnasol a nodwyd yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, a datgelu ac egluro unrhyw amrywiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw
- Cadarnhau nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad oedd ein harchwilwyr yn ymwybodol ohoni, a chymryd pob cam i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno
- Cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a chymryd cyfrifoldeb personol amdanynt ac am y dyfarniadau sydd eu hangen i bennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy

Mae Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Llywodraeth Cymru wedi dynodi Prif Weithredwr CNC fel ei Swyddog Cyfrifyddu. Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu yw priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae hi'n atebol amdano, cadw cyfrifon priodol, gweinyddiaeth ddoeth ac economaidd, osgoi gwastraff a gormodedd, a defnyddio'r holl adnoddau'n effeithlon ac yn effeithiol fel y nodir yn y Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu CNC

## Datganiad Llywodraethiant

Mae'r datganiad hwn yn nodi'r strwythurau llywodraethiant a'r fframweithiau rheoli a sicrhau mewnol sydd wedi gweithredu o fewn y sefydliad yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 ac mae'n cydweddu â chanllawiau Trysorlys ei Mawrhydi a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu dynodedig ar gyfer y sefydliad, fy rôl hefyd yw diogelu arian cyhoeddus ac asedau sefydliadol drwy roi trefniadau ar waith ar gyfer llywodraethu ein materion ac arfer ein swyddogaethau mewn modd effeithiol. Gallaf gadarnhau bod yr wybodaeth yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn gywir ac yn gyfrif teg o sut mae'r sefydliad wedi cyflawni ei swyddogaethau eleni. Cadarnhaf hefyd nad oes gwybodaeth heb ei chasglu sydd wedi dod i'm sylw, neu wybodaeth yr wyf yn ymwybodol ohoni, nad yw wedi cael ei chyflwyno er sylw Archwilio Cymru.

### Ein strwythur llywodraethu

Mae ein strwythur sefydliadol yn dangos sut rydym wedi'n sefydlu i weithio a chyflawni ein hamcanion.


Penodir aelodau ein Bwrdd gan Weinidogion Cymru, yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus, ac felly mae ein cadeirydd yn atebol i'n gweinidog nawdd yn Llywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd, mae gennym ddeg aelod bwrdd sy'n cael cydnabyddiaeth ariannol, dan arweiniad ein cadeirydd, Syr David Henshaw, gydag wyth aelod anweithredol a finnau fel aelod gweithredol o'r Bwrdd. Mae swydd wag ar gyfer aelod anweithredol o fewn strwythur y Bwrdd. Yr Athro Steve Ormerod yw dirprwy gadeirydd penodedig y sefydliad a Helen Pittaway yw'r Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol. Cyflwynwyd rôl yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol i gefnogi'r cadeirydd yn ei rôl, i weithredu fel cyfryngwr i gyfarwyddwyr anweithredol eraill pan fo angen, i arwain y cyfarwyddwyr anweithredol wrth oruchwylio'r cadeirydd, ac i sicrhau bod cyfrifoldeb yn cael ei rannu'n glir rhwng y cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi tri chyfarwyddwr anweithredol newydd, ac maen nhw i fod i ddechrau yn eu swyddi o 1 Ebrill 2025.

Er mwyn cyflawni ein dyletswyddau, rydym yn cwrdd fel bwrdd llawn ac mae gwaith craffu ychwanegol yn cael ei wneud gan saith pwyllgor. Mae ein Tîm Gweithredol yn darparu diweddariadau strategol a gweithredol i'n Bwrdd a'n pwyllgorau o ran craffu a gwneud penderfyniadau yn ôl y gofyn.

Caiff pob pwyllgor ei gadeirio gan aelod anweithredol o'r Bwrdd a, heblaw am y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth, mae pob un yn cynnwys o leiaf tri aelod anweithredol arall o'r Bwrdd. Oherwydd bod swydd aelod anweithredol yn wag, dim ond dau aelod anweithredol arall o'r Bwrdd oedd gan y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid tan fis Medi. Mae gan aelodau anweithredol eraill o'r Bwrdd wahoddiad agored i fynychu cyfarfodydd pwyllgorau heb hawliau pleidleisio. Nid oes gennym bwyllgor enwebu, gan fod ein haelodau anweithredol o'r Bwrdd yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru. Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu meysydd ffocws gwaith a phresenoldeb ar ein Bwrdd a'n pwyllgorau.

| Aelodau anweithredol | Cyfnod | Dyddiad dechrau | Dyddiad gorffen cyfredol |
|---|---|---|---|
| Syr David Henshaw (Cadeirydd) | 2 | 1 Tachwedd 2018 | 31 Hydref 2025 |
| Yr Athro Steve Ormerod | 2 | 1 Tachwedd 2018 | 31 Mawrth 2026 |
| Dr Rosie Plummer | 2 | 1 Tachwedd 2018 | 31 Hydref 2024 |
| Geraint Davies | 2 | 1 Ionawr 2019 | 31 Hydref 2024 |
| Yr Athro Calvin Jones | 2 | 1 Medi 2021 | 31 Hydref 2028 |
| Mark McKenna | 2 | 1 Medi 2021 | 31 Hydref 2028 |
| Dr Peter Fox | 1 | 16 Chwefror 2023 | 31 Hydref 2026 |
| Helen Pittaway | 1 | 16 Chwefror 2023 | 31 Hydref 2026 |
| Kathleen Palmer | 1 | 16 Chwefror 2023 | 31 Mai 2025 |
| Yr Athro Rhys Jones | 1 | 16 Chwefror 2023 | 31 Hydref 2027 |
| Lesley Jones | 1 | 1 Mehefin 2023 | 31 Hydref 2026 |




# Cyfarfodydd y Bwrdd

Cynhaliwyd pedwar cyfarfod deuddydd, dau gyfarfod undydd, un diwrnod datblygu, tri chyfarfod ychwanegol a dau gyfarfod eithriadol ledled Cymru eleni. Cynhaliwyd pedwar prif gyfarfod wyneb yn wyneb, cynhaliwyd dau brif gyfarfod ar ffurf rithwir, a chynhaliwyd yr holl gyfarfodydd ychwanegol neu eithriadol ar ffurf rithwir. Roedd aelodau'r cyhoedd yn gallu mynychu ac arsylwi ein chwe chyfarfod a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar ffurf rithwir. Mae eitemau sefydlog ar ein hagenda yn cynnwys: cyllid yn ystod y flwyddyn, adrodd ar berfformiad, IR35, yr achos dros newid, a diweddariadau strategol a gweithredol gan y cadeirydd, y Prif Weithredwr a phwyllgorau.

Rydym yn cyhoeddi amrywiaeth eang o wybodaeth ynghylch ein gwaith ar ein gwefan, gan gynnwys papurau i'w hystyried gan y Bwrdd cyn y cyfarfodydd hynny a gynhelir yn gyhoeddus. Mae papurau'r Bwrdd yn cael eu paratoi gan ddefnyddio'r dystiolaeth

ddiweddaraf sydd ar gael ac maent yn destun craffu a chymeradwyaeth fewnol cyn cyfarfodydd y Bwrdd.

Mae holl ddyddiadau cyfarfodydd cyhoeddus yn y dyfodol ac agendâu blaenorol ar gael ar ein gwefan, yn ogystal â'r papurau a'r cofnodion o'n sesiynau cyhoeddus.

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd 2024/25

| Enw | Presenoldeb yn y cyfarfodydd |
|---|---|
| Syr David Henshaw (Cadeirydd) | 10/11 |
| Yr Athro Steve Ormerod | 9/11 |
| Geraint Davies | 8/11 |
| Dr Peter Fox | 8/11 |
| Yr Athro Calvin Jones | 10/11 |
| Lesley Jones | 11/11 |
| Yr Athro Rhys Jones | 10/11 |
| Mark McKenna | 10/11 |
| Kathleen Palmer | 7/11 |
| Helen Pittaway | 10/11 |
| Dr Rosie Plummer | 11/11 |
| Clare Pilman (Prif Weithredwr) | 4/11 |
| Ceri Davies (Prif Weithredwr Dros Dro) | 6/6 |

## Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Prif rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yw cynghori'r Bwrdd a chynorthwyo'r Swyddog Cyfrifyddu yn y gwaith o fonitro, craffu a herio'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer gwaith archwilio a llywodraethu, rheolaethau mewnol, a rheoli risg. Mae'r Prif Weithredwr yn mynychu pob cyfarfod fel Swyddog Cyfrifyddu'r sefydliad, ynghyd â'n Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. Mae aelodau'r Tîm Gweithredol yn mynychu'r pwyllgor i drafod unrhyw adroddiadau archwilio mewnol â sicrwydd cyfyngedig a meysydd gwaith y maent yn gyfrifol am eu cyflawni.

Y flwyddyn hon, rhoddodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg sylw i amrediad o faterion, gan gynnwys y canlynol:

- Adolygiad a datblygiad y Gofrestr Risg a Sicrwydd Strategol

- Cynllun gweithredu ar gyfer llywodraethiant
- Gwelliannau i'n dull rheoli risg
- Cynllun Archwilio Mewnol 2024/25
- Strategaeth Archwilio Mewnol 2025-30 ddrafft
- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023/24 a pharatoadau ar gyfer 2024/25

### Presenoldeb aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn 2024/25

| Enw | Presenoldeb yn y cyfarfodydd |
|---|---|
| Kathleen Palmer (Cadeirydd) | 5/5 |
| Lesley Jones | 5/5 |
| Yr Athro Rhys Jones | 5/5 |
| Dr Rosie Plummer | 5/5 |

## Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid

Mae'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid yn ystyried materion sy'n ymwneud â rheoli pobl, taliadau a newid sefydliadol. Mae hyn yn cynnwys goruchwylio tâl ac amodau cyflogaeth staff ar y lefel uchaf, strategaeth dâl gyffredinol ar gyfer yr holl staff a gyflogir gennym, darparu cynllun pensiwn, gwaith cynllunio sefydliadol, llesiant, iechyd a diogelwch, gofal cwsmeriaid, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a datblygu cynllun y Gymraeg. Mae'r Prif Weithredwr yn mynychu pob cyfarfod.

Aeth y pwyllgor i'r afael ag amrywiaeth o faterion yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y canlynol:

- Adroddiadau llesiant, iechyd a diogelwch ac adolygiadau digwyddiadau difrifol
- Diogelwch ymwelwyr
- Rhaglen Rhanddeiliaid
- Rhaglen Trawsnewid Pobl
- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Strategaeth Pobl
- Yr achos dros newid

### Presenoldeb aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid yn 2024/25

| Enw | Presenoldeb yn y cyfarfodydd |
|---|---|
| Mark McKenna (Cadeirydd) | 4/4 |

| Enw | Presenoldeb yn y cyfarfodydd |
|---|---|
| Yr Athro Rhys Jones | 4/4 |
| Helen Pittaway | 4/4 |
| Lesley Jones | 3/3 |

## Pwyllgor Cyllid

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn darparu cyngor, trosolwg a gwaith craffu ar strategaeth, rheolaeth a pherfformiad mewn perthynas â chyllid, cynllunio busnes a pherfformiad, cynlluniau codi tâl, a materion masnachol. Wrth gyflawni ei rôl, mae'r pwyllgor yn canolbwyntio ar gyfeiriad a datblygu strategol, ond mae hefyd yn chwarae rôl wrth graffu ar berfformiad a chyflawniad.

Eleni, gwnaeth y pwyllgor ystyried y canlynol:

- Monitro perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn
- Cynllunio ariannol a chynllunio'r busnes ar gyfer 2025/26
- Adolygiad Blynyddol o Daliadau
- Swyddfa Rheoli Rhaglenni a Gwasanaeth Cymorth Rheoli Contractau
- CNC2030
- IR35
- Yr achos dros newid
- Elfen perfformiad Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023/24

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid yn 2024/25

| Enw | Presenoldeb yn y cyfarfodydd |
|---|---|
| Syr David Henshaw | 4/9 |
| Helen Pittaway (Cadeirydd) | 9/9 |
| Yr Athro Calvin Jones | 9/9 |
| Dr Peter Fox | 9/9 |

## Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo ei gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â deddfwriaeth sy'n ymwneud â chadwraeth natur a thirweddau gwarchodedig i'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig. Mae aelodau o'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig hefyd yn cefnogi'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd drwy ddarparu cyngor ar faterion ehangach sy'n ymwneud ag

ardaloedd gwarchodedig a gwaith achos strategol, gan gynnwys rheoli tirweddau, tirweddau dynodedig a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.

Adolygodd y pwyllgor feysydd a oedd yn cynnwys:

- Y Rhaglen Safleoedd Gwarchodedig
- Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy
- Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig
- Prosiect Mapio Cymru Gyfan
- Pecynnau cyngor cadwraeth ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig morol
- Effeithiau'r achos dros newid
- Prosiect Dalgylch Arddangos Teifi

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig yn 2024/25

| Enw | Presenoldeb yn y cyfarfodydd |
|---|---|
| Dr Rosie Plummer (Cadeirydd) | 4/4 |
| Geraint Davies | 3/4 |
| Lesley Jones | 3/4 |
| Yr Athro Steve Ormerod | 4/4 |
| Dr Peter Fox | 1/1 |

## Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd

Mae'r pwyllgor yn gynghorol ac yn adrodd i'n Bwrdd.

Ei brif gyfrifoldebau yw craffu ar raglenni buddsoddi rheoli perygl llifogydd presennol a rhai ar gyfer y blynyddoedd i ddod, ac ystyried materion allweddol a allai effeithio ar gyflawni gwaith sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd yng Nghymru.

Fel arfer, mae'r pwyllgor yn cynnwys pedwar aelod anweithredol o'r Bwrdd ynghyd â Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Phennaeth Rheoli Risg Digwyddiadau Llifogydd. Cynhaliwyd un cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Ystad Tir.

Gwnaeth y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd adolygu meysydd a oedd yn cynnwys:

- Blaenoriaethu gweithgareddau rheoli perygl llifogydd
- Llywodraethu rhaglen gyfalaf rheoli perygl llifogydd
- Goruchwylio'r rhaglen adfer ar ôl llifogydd ac adolygu'r rhaglen weithredu
- Goruchwylio gwaith i wella'r ffordd yr ydym yn rheoleiddio diogelwch cronfeydd dŵr
- Rheoli asedau
- Ardaloedd draenio mewnol

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd yn 2024/25

| Enw | Presenoldeb yn y cyfarfodydd |
|---|---|
| Dr Peter Fox (Cadeirydd) | 5/5 |
| Geraint Davies | 5/5 |
| Yr Athro Calvin Jones | 4/5 |
| Lesley Jones | 2/2 |
| Dr Rosie Plummer | 1/3 |
| Yr Athro Steve Ormerod | 3/3 |

## Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth

Mae'r Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth yn gynghorol ac yn darparu cyngor a her annibynnol mewn perthynas â'n swyddogaeth tystiolaeth. Mae'r pwyllgor hefyd yn helpu i gryfhau dealltwriaeth yn y gymuned ymchwil ehangach – a chyda defnyddwyr tystiolaeth yn y llywodraeth – o brosesau tystiolaeth a blaenoriaethau.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys dau aelod anweithredol o'r Bwrdd ac 11 o aelodau allanol annibynnol sydd ag arbenigedd mewn tystiolaeth a dealltwriaeth o'r cyd-destun Cymreig, er mwyn cynnig ystod amrywiol o arbenigedd priodol.

Gwnaeth y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth adolygu meysydd a oedd yn cynnwys:

- Ein Hadroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol
- Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth
- Prosiect Dalgylch Arddangos Teifi
- Map o Gymru gyfan
- Tystiolaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol
- Llygryddion atmosfferig ac allyriadau amonia
- Dull cyfalaf naturiol
- Rhaglen Tystiolaeth Forol CNC

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth yn 2024/25

| Enw | Presenoldeb yn y cyfarfodydd |
|---|---|
| Yr Athro Steve Ormerod | 2/2 |
| Yr Athro Rhys Jones | 2/2 |

## Pwyllgor Ystad Tir

Mae'r Pwyllgor Ystad Tir yn rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd mewn perthynas â rheolaeth gynaliadwy ein hystad tir, gan gynnwys buddsoddi yn yr ystad, ei rheolaeth, a chynigion ar gyfer newidiadau yn ei defnydd, ac yn gwneud penderfyniadau penodol ac yn ymgymryd â swyddogaethau penodol fel y'u dirprwyir iddo gan y Bwrdd. Cynhaliwyd un cyfarfod fel cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd.

Adolygwyd y Pwyllgor Ystad Tir meysydd a oedd yn cynnwys:

- Ynni adnewyddadwy ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru
- Hamdden a thwristiaeth ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru
- Cynhyrchu pren a gwerthiannau marchnad
- Rheoli moch gwyllt
- Chwaraeon moduro ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru
- Mawndiroedd
- Canolfannau ymwelwyr
- Cydweithio rhwng meysydd llifogydd a stiwardiaeth tir
- Ardaloedd draenio mewnol ac opsiynau ar gyfer y dyfodol

## Presenoldeb aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ystad Tir yn 2024/25

| Enw | Presenoldeb yn y cyfarfodydd |
|---|---|
| Yr Athro Calvin Jones (Cadeirydd) | 3/3 |
| Geraint Davies | 3/3 |
| Dr Peter Fox | 3/3 |
| Mark McKenna | 0/0 |

Mae gennym hefyd nifer o fforymau rhanddeiliaid, ac er nad yw fforymau yn rhan o'n strwythur llywodraethu ffurfiol, mae aelodau anweithredol y Bwrdd yn cadeirio neu'n mynychu'r cyfarfodydd hyn.

## Adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd


Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd adolygiad effeithiolrwydd mewnol o'n Bwrdd. Cynhaliwyd fformat yr adolygiad yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet a nodir yn fersiwn 2022 o 'Adolygiadau effeithiolrwydd y Bwrdd: egwyddorion ac adnoddau ar gyfer cyrff hyd braich ac adrannau noddi'. Mae rhaglen glir o gamau dilynol a chynllun i'w gweithredu sydd wedi'i datblygu wedi hynny. Mae manylion ynghylch y broses a'r deilliannau wedi'u rhannu, yn ôl yr angen, ag adran noddi CNC o fewn Llywodraeth Cymru.

## Adolygiadau o aelodau'r Bwrdd

Mae'r cadeirydd yn cynnal arfarniadau blynyddol gyda phob cyfarwyddwr anweithredol a'r Prif Weithredwr, ac mae'r broses adolygu yn cynnwys hunanasesiad cryno a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r Prif Weithredwr yn cynnal arfarniadau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn gyda'r pum cyfarwyddwr gweithredol.

# Ein Tîm Gweithredol

Caiff rheolaeth y sefydliad o ddydd i ddydd ei chyflawni drwy'r Tîm Gweithredol, sy'n fy nghynnwys i fel y Prif Weithredwr a phum cyfarwyddwr gweithredol sy'n atebol i mi. Mae'r Tîm Gweithredol yn cwrdd ddwywaith y mis i ystyried busnes corfforaethol craidd – er enghraifft, diweddariadau cyllid; gwybodaeth am berfformiad; llesiant, iechyd a diogelwch; adolygu a chraffu ar y gofrestr risgiau strategol ac ati. Mae hefyd yn ystyried ac yn craffu ar benderfyniadau sy'n ymwneud â strategaethau, polisïau a materion gweithredol.




Islaw ein Tîm Gweithredol, mae ein Tîm Arwain yn chwarae rôl arweiniol wrth reoli'r busnes o ddydd i ddydd. Mae ei aelodau'n benaethiaid adrannau sy'n atebol i'r Tîm Gweithredol, gan gynnwys y rheiny yn ein swyddogaethau corfforaethol (megis Cyllid, Adnoddau Dynol a Chyfathrebu).

Mae ein strwythur yn pwysleisio darpariaeth sy'n canolbwyntio ar le: mae saith pennaeth lle o fewn yr un Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau yn goruchwylio darpariaeth ein holl swyddogaethau mewn rhanbarth penodol o Gymru. Yna mae gennym benaethiaid gwasanaeth enwebedig (sydd hefyd yn benaethiaid lleoedd) sy'n arwain ar oruchwylio cyflawniad swyddogaeth benodol ledled Cymru. Mae'r penaethiaid gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'n harweinwyr polisi – o'r enw penaethiaid busnesau – sy'n goruchwylio cyfeiriad strategol ein gwaith ledled Cymru.

Er mwyn sicrhau cydlyniant rhwng meddwl strategol a chyflawniad gweithredol, mae gennym gyfres o grwpiau busnes sy'n nodi'r gofynion polisi ac sy'n cynllunio natur weithredol ein gwaith ar draws y strwythur sy'n canolbwyntio ar leoedd. Mae pob un o'r rhain yn cael ei arwain gan y Pennaeth Busnes / Pennaeth Gwasanaeth.

Fel ymatebydd Categori Un o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, rydym wedi parhau i gyflawni ein cyfrifoldebau cyfreithiol i weithio gyda'r gwasanaethau brys,

awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i gynllunio ar gyfer digwyddiadau sy'n effeithio ar bobl a'r amgylchedd ledled Cymru, ymateb iddynt a chynorthwyo adferiad ar eu hôl 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.

O lifogydd, llygredd, tanau gwyllt neu ddigwyddiadau ar y tir rydyn ni'n ei reoli ac yn ein safleoedd rheoleiddiedig, mae gennym ni gyfrifoldebau uniongyrchol am ddigwyddiadau amgylcheddol yn ein cylch gwaith, yn ogystal â gweithio gyda'n partneriaid amlasiantaeth, neu eu cefnogi, i ymateb i ddigwyddiadau ehangach eraill yn ôl yr angen.

Bellach mae llawer o'n rotas ymateb i ddigwyddiadau â lefelau staffio gwydn ac rydym yn parhau i hyfforddi a datblygu rhagor o staff i fod ar gael yn ôl yr angen i gefnogi ein rotas neu waith ymateb i ddigwyddiadau cyffredinol, nawr ac yn y dyfodol.

Rydym hefyd wedi adolygu sut rydym yn ymateb i ddigwyddiadau llygredd er mwyn sicrhau ein bod yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg sy'n cyflawni'r deilliant gorau posibl i'n hamgylchedd. Byddwn yn sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol i flaenoriaethu'r digwyddiadau sy'n achosi'r niwed mwyaf, gan ganiatáu mwy o amser i gyflawni ein gwaith rheoleiddio a'n gwaith ataliol, a bydd hyn i gyd yn cefnogi ein hamcan llesiant o leihau llygredd.

## Cyfarwyddydau gweinidogol

Rydym wedi derbyn un cyfarwyddyd gweinidogol y flwyddyn hon. Ym mis Tachwedd 2024, fe wnaethom gyhoeddi hysbysiad rhanddirymiad i Weinidogion Cymru mewn perthynas â chais am drwydded forol ar gyfer gwaith arfaethedig i ehangu Porthladd Mostyn. Mewn ymateb, gwnaeth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ein cyfarwyddo i beidio â chymeradwyo'r cynllun a nodir yn yr hysbysiad rhanddirymiad nes iddynt ysgrifennu eto i gadarnhau a allem fwrw ymlaen i gymeradwyo'r cynllun. Yn dilyn adolygiad o'n dogfennaeth gan swyddogion y Gweinidog, ysgrifennodd y Gweinidog atom ar 28 Ionawr 2025 i gadarnhau ei fod yn fodlon i ni fwrw ymlaen i gymeradwyo'r cynllun.

## Ein fframwaith rheolaethau mewnol

Mae ein fframwaith rheolaethau mewnol yn cynnwys polisïau, gweithdrefnau, mesurau ac achrediadau rydym wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu ein hadnoddau wrth i ni gyflawni'n hamcanion.

Mae ein rheolaethau ariannol allweddol o fewn systemau awtomatig a'n cynlluniau dirprwyo i sicrhau y caiff dyletswyddau eu gwahanu'n briodol yn parhau i fod ar waith ac yn gyfredol. Mae dogfennau Rheoli ein Harian, yr Atodlen Awdurdodau Dirprwyedig, a'n Cynllun Statudol a Chyfreithiol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

## Rheoli risg

Mae fframwaith rheoli risg cadarn yn elfen hanfodol o'n fframwaith llywodraethiant corfforaethol cyffredinol. Mae'n ein cynorthwyo i reoli'r sefydliad er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi'r cyfle gorau i ni ein hunain i gyflawni ein hamcanion llesiant, gan amddiffyn ein hadnoddau a'n henw da.

## Fframwaith rheoli risg




Mae ein proses rheoli risg wedi'i strwythuro i gynnwys: nodi ac asesu risg i benderfynu a blaenoriaethu sut y dylid rheoli'r risgiau; dewis, dylunio a gweithredu opsiynau trin risg sy'n cefnogi cyflawniad y canlyniadau bwriadedig ac yn rheoli risgiau i lefel dderbyniol; dylunio a gweithredu gwaith monitro risg integredig, craff a gwybodus; ac adrodd am risgiau mewn modd amserol, cywir a defnyddiol i wella ansawdd y broses o wneud penderfyniadau ac i gefnogi cyrff rheoli a goruchwylio i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Mae'r fframwaith yn tynnu ar nifer o safonau arfer gorau, sef y Llyfr Oren, ac yn nodi'r fframwaith i gefnogi rheoli risgiau a chyfleoedd ar draws y sefydliad. Mae egwyddorion y fframwaith yn sail i'r ffordd y mae angen i ni ymgymryd â'r gwaith o reoli risg yn effeithiol er mwyn sicrhau ei fod yn rhan hanfodol o lywodraethu ac arweinyddiaeth, ei fod yn bwydo'n effeithiol i'r broses o wneud penderfyniadau ac yn ei llywio, ei fod yn galluogi monitro risg craff a gwybodus, a'i fod yn darparu adroddiadau risg cywir.

Mae ein strategaeth risg wedi'i gosod a'i chymeradwyo gan y Bwrdd. Mae ein polisi rheoli risg, sy'n cynnwys proses RACI (cyfrifoldeb, atebol, ymgynghorwyd, hysbyswyd) a phroses uwchgyfeirio, wedi'i osod a'i gymeradwyo gan ein Tîm Gweithredol.

## Parodrwydd i dderbyn risg

Rydym yn sefydliad mawr, gyda llawer o swyddogaethau a rolau amrywiol a chymhleth, ac felly bydd ein parodrwydd i dderbyn a dilyn risg yn amrywio ar draws y sefydliad. Mae parodrwydd i dderbyn risg yn fynegiant o'r mathau a'r meintiau o risgiau yr ydym yn fodlon eu cymryd neu eu derbyn i gyflawni ein hamcanion llesiant. Mae ein parodrwydd i dderbyn risg yn egluro'r opsiynau sydd ar gael i ni, y risgiau y gallwn eu cymryd, a'r rhai y mae angen i ni eu hosgoi neu eu lleihau fel blaenoriaeth.

Mae ein Bwrdd yn gosod ac yn adolygu ein parodrwydd i dderbyn risg y cytunwyd arno yn flynyddol. Mae deall a gosod lefel parodrwydd i dderbyn risg glir yn hanfodol i gyflawni fframwaith rheoli risg effeithiol.

### Rheoli risg strategol

Mae ein cofrestr risg a sicrwydd strategol yn eiddo i'r Tîm Gweithredol, gyda phob risg yn eiddo i gyfarwyddwr unigol. Rheolir y risgiau strategol drwy adolygiad rheolaidd ac maent hefyd yn destun archwiliadau manwl gan y Tîm Gweithredol yn ogystal â'r pwyllgor perthnasol o'r Bwrdd.

Mae gan bob risg strategol lefel parodrwydd i dderbyn risg wedi'i haseinio iddi gyda datganiad parodrwydd i dderbyn risg unigol mwy manwl sy'n rhoi mwy o gyfarwyddyd a chyfeiriad i berchennog y risg i gefnogi'r gwaith o reoli'r risg yn effeithiol.

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg sy'n goruchwylio'r fframwaith rheoli risg a'i effeithiolrwydd, ac ef, yn ei dro, sy'n rhoi sicrwydd i'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiad blynyddol o'r risgiau strategol i geisio sicrwydd bod y gofrestr yn cynnwys y risgiau allweddol a'u bod yn cael eu cofnodi a'u rheoli'n briodol i gefnogi cyflawniad llwyddiannus y cynllun corfforaethol.

## Sicrhau gwybodaeth

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod data a gwybodaeth yn cael eu llywodraethu a'u rheoli'n dda, a'n bod yn parhau i gyflawni cydbwysedd rhwng bod yn agored a diogelwch, gan sicrhau bod staff a chwsmeriaid yn cael eu sicrhau bod lefelau diogelwch priodol ar waith. Mae'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yn parhau i arwain rhaglen integredig o waith i gryfhau ein hymateb i wydnwch rhag bygythiadau seiberddiogelwch a gwybodaeth. Unwaith eto, rydym wedi ennill ein hachrediad Cyber Essential Plus blynyddol a'r safon Sicrwydd Seiber IASME Lefel 2 newydd, sy'n cael ei chymeradwyo gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a'i harchwilio'n annibynnol gan arbenigwr trydydd parti cymwys. Byddwn yn parhau i gyflawni rhaglen seiberddiogelwch o waith yn seiliedig ar ein strategaeth seiber. Mae hyn yn cynnwys mentrau ar gyfer gwella ymwybyddiaeth staff, gan gynnwys hyfforddiant seiberddiogelwch ar-lein. Rydym hefyd yn cynnal ymarferion pen bwrdd bob chwarter er mwyn profi ein gweithdrefnau a'n hymateb i ddigwyddiad diogelwch gwybodaeth.

Bob chwe mis, rydym yn cynnal cyrsiau dysgu ar-lein gorfodol i'r staff ar y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), diogelwch cyfrifiaduron yn y gweithle a diogelu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol ac yn gwybod y diweddaraf am sut rydym yn rheoli'r wybodaeth rydym yn ei chael a'i chadw. Mae cyfraddau cwblhau gweithgareddau dysgu ar-lein gorfodol yn parhau i wella, ac ategir y rhain gan sesiynau ymwybyddiaeth wedi'u targedu. Rydym yn parhau i gydweithio â phartneriaid strategol fel Llywodraeth Cymru, y gymuned diogelu data, y fforwm cydnerthedd lleol a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol i rannu dysgu a chynnal safonau.

Eleni, fel rhagofal, fe wnaethom adrodd am un digwyddiad i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth tra oeddem yn ymchwilio iddo ymhellach. Bu aelod o'n tîm recriwtio yn destun ymgais gwe-rwydo llwyddiannus. Er y llwyddwyd i gael mynediad at y cyfrinair, daeth ein hymchwiliad i'r casgliad nad oedd yr ymosodwr yn gallu cael mynediad i'n systemau na'n gwybodaeth er gwaethaf nifer o ymdrechion olynol, oherwydd ein mesurau amddiffynnol. Roedd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn fodlon ar ein canfyddiadau a'n mesurau ac nid oedd angen unrhyw gamau pellach gan CNC.

| Nifer yr achosion yr adroddwyd amdanynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth | | |
|---|---|---|
| 2024/25 | 2023/24 | 2022/23 |
| 1 | 1 | 0 |

## Datganiad o fuddiannau

Mae ein polisi a'n canllaw ar wrthdaro buddiannau yn cefnogi'r holl staff ac aelodau'r Bwrdd gyda'n proses barhaus i ddatgan buddiannau personol perthnasol er mwyn ein helpu i reoli unrhyw wrthdaro posib neu wrthdaro canfyddedig o fewn eu rolau proffesiynol. Mae adolygiad wedi'i drefnu o'n polisi, gweithdrefnau, hyfforddiant a mecanweithiau adrodd ynghylch gwrthdaro buddiannau yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.

## Codi pryder difrifol er lles y cyhoedd

### Codi pryder difrifol er lles y cyhoedd o fewn CNC

Rydym yn ymrwymedig i'r safonau uchaf o gywirdeb ac atebolrwydd ac o fod yn agored. Mae disgwyl y bydd pawb sy'n gweithio i ni sydd â phryderon difrifol am unrhyw agwedd ar ein gwaith yn gallu cyflwyno'i hun a lleisio'r pryderon hynny. Rydym yn ymrwymedig i gymryd pa gamau bynnag sydd eu hangen i fynd i'r afael ag unrhyw achos o bryder a ddatgelir.

Felly, mae gennym fesurau sefydledig ar waith i godi pryderon difrifol ynghylch camymddygiad neu anweddustra, gan ddefnyddio gwasanaethau ein tîm archwilio mewnol i oruchwylio unrhyw bryderon ac ymchwiliadau. Mae ein fframwaith yn cynnwys mynediad at rif cyswllt ffôn a ffurflen ar-lein, lle gellir codi pryderon yn ddienw os dyma a ffefrir.

Yn ystod 2024/25, cyflwynwyd 53 o adroddiadau i CNC drwy ei fecanweithiau "codi pryder". Adolygwyd yr holl bryderon hyn gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r Pennaeth Llywodraethiant, a oedd ill dau yn annibynnol ar unrhyw un o'r meysydd pryder a godwyd. Dim ond pum adroddiad a oedd yn gymwys i gael eu hystyried fel achosion chwythu'r chwiban posibl gan ddefnyddio canllawiau Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd. Nid oedd y 48 adroddiad sy'n weddill yn bodloni'r diffiniad o faterion i'w hystyried o dan weithdrefnau chwythu'r chwiban o dan y Ddeddf hon ac felly cawsant eu trin mewn man arall yn CNC fel cwynion neu adroddiadau am ddigwyddiadau.

Er mwyn i adroddiad gael ei ystyried o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd fel chwythu'r chwiban, rhaid iddo fod pan fydd unigolyn yn codi pryder am gamymddwyn yn y gorffennol, camymddwyn yn y presennol neu gamymddwyn sydd ar fin digwydd, neu ymgais i guddio camymddwyn, o fewn CNC, sefydliad allanol neu gorff o bobl. Er mwyn cael amddiffyniad cyfreithiol, rhaid i'r wybodaeth a ddatgelir fod er budd y cyhoedd, sy'n golygu'n fras fod rhaid i'r mater effeithio ar bobl yn gyffredinol mewn rhyw ffordd. Nid yw achwyniad personol a chwynion unigol sydd ond yn effeithio ar yr unigolyn sy'n gwneud y gŵyn yn dod o dan gyfraith chwythu'r chwiban ac yn hytrach cânt eu trin fel cwynion neu adroddiadau digwyddiadau.

O'r pum achos a nodwyd fel rhai sy'n gymwys i'w hystyried fel achosion chwythu'r chwiban posibl, roedd un yn ymwneud â mater a adroddwyd i CNC fel person rhagnodedig ac felly'n gysylltiedig â mater y tu allan i CNC mewn perthynas â sefydliad arall. Ystyriwyd y

pedwar achos sy'n weddill yn ffurfiol fel achosion chwythu'r chwiban posibl, ond ni chafodd yr un ohonynt ei gadarnhau fel achos chwythu'r chwiban gwirioneddol ac ni chafodd yr un ohonynt ei symud ymlaen i ymchwiliad ffurfiol llawn.

| Nifer yr achosion o chwythu'r chwiban | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2024/25 | 2023/24 | 2022/23 | 2021/22 |
| Pryderon a godwyd | 53 | 31 | 20 | 4 |
| Pryderon wedi'u hadolygu ar gyfer achosion posibl o chwythu'r chwiban | 5 | 4 | 10 | 2 |
| Achosion chwythu'r chwiban person rhagnodedig | 1 | 2 | 2 | 1 |
| Cyfanswm a aseswyd fel achosion chwythu'r chwiban cymwys CNC | 0 | 0 | 0 | 1 |

## CNC fel person rhagnodedig ar gyfer codi pryder difrifol er lles y cyhoedd

Daethom yn 'berson rhagnodedig' yn 2020 ar ôl i Lywodraeth Cymru fynd atom. Mae Gorchymyn Personau Rhagnodedig 2014 yn nodi rhestr o 60 o sefydliadau y gall unrhyw aelod o'r cyhoedd gysylltu â nhw i roi gwybod am gamymddygiad a amheuir neu gamymddygiad y gwyddys amdano (chwythu'r chwiban). Fel arfer, mae'r sefydliadau a'r unigolion ar y rhestr wedi'u dynodi'n berson rhagnodedig oherwydd bod ganddynt berthynas awdurdodol neu oruchwyliol â'u sector, yn aml fel corff rheoleiddio. Mae'r gorchymyn yn cael ei ddiwygio gan Lywodraeth y DU bob blwyddyn i sicrhau bod y rhestr yn parhau i fod yn gyfredol.

Cafwyd un achos o adroddiad chwythu'r chwiban gan berson rhagnodedig rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, er y cydnabyddir y gallai pryderon eraill fod wedi'u codi y tu allan i'r broses chwythu'r chwiban ffurfiol. Ar gyfer yr achos a gafwyd, fe'i hanfonwyd at sefydliad arall er mwyn iddo ymchwilio iddo gan nad oedd yr achos yn dod o fewn cylch gwaith CNC ac nad oedd yn ymwneud ag adnoddau naturiol Cymru.

## Twyll

Mae ein Strategaeth Gwrth-dwyll 2022–2026 yn nodi ein cyfeiriad strategol ac yn parhau i gryfhau ein gallu i atal ac ymateb i risgiau twyll. Mae'r strategaeth hon wedi'i hategu gan ein Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth wedi'i ddiweddaru a'n Gweithdrefn Ymateb i Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth.


Fel rhan o'n hymdrechion atal a chanfod, rydym yn parhau i ddarparu cyrsiau e-ddysgu gorfodol i helpu staff i nodi dangosyddion risg twyll a deall eu cyfrifoldebau. Yn 2024/25, lansiwyd modiwl e-ddysgu newydd symlach ar dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth drwy'r system rheoli dysgu, gan ddisodli modiwlau ar wahân blaenorol. Mae'r hyfforddiant

diwygiedig hwn yn cyfuno'r cynnwys craidd yn un cwrs cryno, gyda gwers fer ychwanegol ar adrodd pryderon. Mae cwblhau'r cwrs hwn yn orfodol i bob aelod o staff.

I gefnogi ymwybyddiaeth ymhellach, mae'r modiwlau dewisol canlynol ar gael nawr hefyd:

- Deddf Cyllid Troseddol
- Atal Llwgrwobrwyo mewn Busnes
- Atal Gwyngalchu Arian

Er gwaethaf y datblygiadau hyn, mae cyfraddau cwblhau cyffredinol wedi gostwng o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol. Adlewyrchir hyn yn y siart isod, sy'n crynhoi'r cynnydd achredu cyfredol:




Ymddengys fod y dirywiad hwn yn rhan o batrwm ehangach mewn cyfraddau cwblhau e-ddysgu ar draws yr holl hyfforddiant gorfodol. Mae'n debygol bod newidiadau sefydliadol parhaus, gan gynnwys yr achos dros newid, wedi cyfrannu at lefelau is o ymgysylltu.

Nid ydym yn hunanfodlon ac, i helpu i fynd i'r afael â hyn, mae nodiadau atgoffa awtomataidd bellach yn cael eu hanfon at staff a'u rheolwyr llinell, sydd hefyd â mynediad at ddangosfyrddau'r system rheoli dysgu i fonitro cyfraddau cwblhau o fewn eu timau.

Rydym yn parhau i gael adborth cadarnhaol ar y system rheoli dysgu ei hun, gyda llawer o staff yn nodi eu bod yn ei chael yn hygyrch ac yn hawdd ei defnyddio. Mae hyn wedi cael ei nodi mewn pwyllgorau a chyfarfodydd eraill, ac mae'n bwysig adlewyrchu hyn yn ein hasesiad cyffredinol o'r system.

Rydym yn parhau i fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg o liniaru twyll, gan gynnal asesiadau risg wedi'u targedu a chymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol, ymarfer paru data ledled y DU i ganfod twyll a gwallau.

## Ymchwiliadau

Y llynedd derbyniom saith honiad o dwyll. Cafodd pump eu trin yn unol â'n gweithdrefnau ymchwilio i dwyll a dau eu trin gan ein gweithdrefnau Adnoddau Dynol. Mae pob achos o dwyll yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'r holl ymchwiliadau wedi cael eu rheoli un ai gan arbenigwr gwrth-dwyll achrededig neu ymchwilwyr allanol â chymwysterau tebyg. Caiff yr adroddiad terfynol ar bob achos ei gyfeirio at uwch-staff annibynnol.

| Nifer yr honiadau yr adroddwyd amdanynt | | | |
|---|---|---|---|
| 2024/25 | 2023/24 | 2022/23 | 2021/22 |
| 7 | 9 | 8* | 8 |

**Cafodd y ffigur hwn ei adrodd yn anghywir fel '5' yn adroddiad blynyddol y llynedd, ond roedd yr adrodd chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn gywir.*

Er bod trefniadau atal twyll cadarn yn rhan o'n hymateb, mae gennym hefyd gyfrifoldeb i gefnogi ein gweithwyr a'u teuluoedd. Yn unol â hynny, mae cydweithwyr yn y tîm Gwasanaethau Pobl yn parhau i weithio ar amrywiaeth o fentrau i gefnogi unrhyw un sy'n cael trafferthion ariannol a chynnig cymorth lle gallwn.

## Cydymffurfio â chodau a chanllawiau gofynnol

Rydym wedi sefydlu bod ein strwythur sefydliadol, polisïau, gweithdrefnau ac arferion yn cydymffurfio â gofynion Pennod Chwech: Cyrff hyd braich, o'r Cod Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer Adrannau Llywodraeth Ganolog.

Cefnogir y Swyddog Cyfrifyddu gan strwythur bwrdd yn unol â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer Adrannau Llywodraeth Ganolog, ac mae gweithdrefnau ategol ar waith i sicrhau y gall rolau'r Bwrdd weithredu'n effeithiol.

Fel penodiadau rheoleiddiedig, gwneir penodiadau'r cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd yn unol â Chod Ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod system o lywodraethiant corfforaethol da a sicrwydd ar waith, yn unol ag egwyddorion y Cod Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer Adrannau Llywodraeth Ganolog.

Mae ein harweinyddiaeth yn gyson â rolau a chyfrifoldebau uwch-reolwyr disgwyliedig, gan sicrhau: bod ein llwybrau adrodd yn glir i sicrhau atebolrwydd a rhannu dyletswyddau'n briodol a bod rheolaethau mewnol allweddol ar waith; bod cyflogau uwch-staff yn cael eu hystyried gan swyddogion anweithredol i sicrhau annibyniaeth; a'n bod yn cael cyfarfodydd rheolaidd â'n rhanddeiliaid allweddol i gynnal cydberthnasau gwaith adeiladol.

Mae ein fframwaith sefydliadol ar gyfer rheoli risg wedi'i sefydlu yn unol â phum egwyddor y Llyfr Oren ac i alluogi eu cymhwyso, fel a ganlyn:

1. Mae rheoli risg yn rhan hanfodol o lywodraethiant ac arweinyddiaeth, ac yn sylfaenol i sut mae'r sefydliad yn cael ei gyfarwyddo, ei reoli a'i gadw dan reolaeth ar bob lefel
2. Mae rheoli risg yn rhan annatod o holl weithgareddau sefydliadol i gefnogi gwneud penderfyniadau wrth gyflawni amcanion
3. Mae rheoli risg yn gydweithredol ac yn cael ei lywio gan yr wybodaeth ac arbenigedd gorau sydd ar gael
4. Mae prosesau rheoli risg wedi'u strwythuro i gynnwys:
    a. Adnabod ac asesu risg
    b. Dewis, dylunio a gweithredu opsiynau trin risg
    c. Dylunio a gweithredu gwaith prosesau monitro risg integredig, craff a gwybodus

   d. Adrodd risg amserol, cywir a defnyddiol i wella'r broses o wneud penderfyniadau a goruchwyliaeth
5. Gwelliant parhaus trwy ddysgu a phrofiad

## Ein fframwaith sicrwydd

Mae ein fframwaith sicrwydd yn cynnwys y mesurau canlynol, sydd ar waith i sicrhau fy mod yn derbyn tystiolaeth amserol i ddangos bod y rheolaethau gofynnol ar waith ac yn gweithio'n briodol.

### Archwilio mewnol

Mae barn yr archwiliad blynyddol yn cael ei llywio'n rhannol gan gyflawniad y cynllun archwilio mewnol. Eleni fe wnaethom ddarparu dwy farn "sicrwydd cyfyngedig", un ar gyfer grantiau y gwnaeth CNC eu cael ac un ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau; roedd yr holl archwiliadau eraill yn gymedrol neu'n sylweddol.

Dyma achosion sylfaenol y gwendidau llywodraethu, risg a rheolaeth sydd eu hangen i wella:

**Fframweithiau a safonau sefydliad-gyfan** – Mae angen datblygu strwythur llywodraethu unedig ar draws CNC, er mwyn creu safonau sy'n uno a sicrwydd cyson i sicrhau deilliannau cyson.

**Polisïau mewnol** – Mae llawer o bolisïau ar draws CNC wedi dyddio neu heb eu cyfleu'n ddigonol fel eu bod yn cael eu deall a'u dilyn.  Mae bylchau hyfforddiant o ran gwybodaeth allweddol, e.e. deiliaid cyllidebau, sy'n llesteirio cymhwyso rheolaethau yn gyson ac ymwybyddiaeth o rolau.

**Adnoddau a chapasiti** – Mae gan sawl maes ar draws CNC gyfyngiadau ar adnoddau. Dechreuodd hyn pan gafodd recriwtio ei rewi ym mis Medi 2023 ac fe'i heffeithiwyd ymhellach gan yr achos dros newid a gyflwynwyd drwy gydol 2024 ac i mewn i 2025.  O ganlyniad, mae oedi wrth weithredu gwelliannau rheoli, goruchwylio a chyflawni.

**Atebolrwydd a dirprwyo** – Nodir bod oedi o ran llythyrau dirprwyo, perchnogaeth aneglur o'r ail linell a gwaith dilynol gwael, sy'n gwanhau atebolrwydd ac yn galluogi methiannau o ran rheolaeth.

**Rheoli systemau a data** – Mae systemau sydd wedi dyddio a systemau nad ydynt yn cael eu rheoli gan TGCh ynghyd â dogfennaeth dameidiog, ansawdd data is ac awtomeiddio cyfyngedig yn rhwystro gwaith monitro a sicrwydd effeithiol.

Mae CNC wedi cael trafferth i ddarparu gwelededd o'i risgiau gweithredol neu fanylion manwl y camau gweithredu sydd eu hangen i liniaru risgiau strategol ac, o ganlyniad, cynhaliodd adolygiad o'r fframwaith rheoli risg yn 2024.  Ar adeg ysgrifennu'r farn hon, mae'r gwaith wedi'i gymeradwyo gan y Tîm Gweithredol ac mae ar y cam gweithredu.  Fodd bynnag, nodir mai dim ond Lefel 1-2 oedd aeddfedrwydd risg CNC ar gyfer 2024/25 o hyd.

Cydnabyddir ar draws y pedair barn archwilio mewnol sylweddol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fod pocedi cryf o lywodraethiant a rheolaeth, yn enwedig lle mae cydymffurfedd statudol a goruchwyliaeth gan staff uwch yn glir.  Darparwyd barn sylweddol gan

archwilwyr mewnol ar gyfer y cynllun dirprwyo ariannol, trwyddedu morol ac adolygiadau digwyddiadau difrifol, ac ar gyfer cyflawni'r rhaglen gyfalaf ar gyfer llifogydd.

I gloi, mae gwerthusiad proffesiynol y Pennaeth Archwilio Mewnol o reolaethau mewnol, llywodraethiant a rheoli risg wedi ei arwain i'r casgliad bod angen gwelliannau o hyd yn 2024/25 i wella digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth. Felly, gall gynnig **barn sicrwydd cyffredinol gymedrol** ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf.

### Archwilio allanol

Mae gwaith craffu annibynnol yn ffynhonnell bwysig i ni o ran cael sicrwydd, ac mae'n darparu tystiolaeth o'n ffyrdd o weithio mewn perthynas ag arferion gorau a safonau'r diwydiant. Mewn rhai rhannau o'r sefydliad, rydym yn destun archwiliadau neu adolygiadau allanol o'n gwaith, neu'n dewis eu cael. Cynhelir rhai ohonynt yn flynyddol – er enghraifft, Cynllun Sicrwydd Coetiroedd y Deyrnas Unedig, ISO 14001:2015 er mwyn cynnal ein system rheoli amgylcheddol, a safon ISO/IEC 17025:2017 Gwasanaeth Achredu'r DU yn ein labordy CNC yn Abertawe. Rydym yn gofyn am rai eraill fel un o nifer o ddarnau o waith er mwyn rhoi mwy o wybodaeth i ni am feysydd gwaith neu weithgareddau penodol.

## Effeithiolrwydd y system o reolaethau mewnol

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar y systemau, y strwythurau a'r egwyddorion sydd ar waith o fewn y sefydliad sy'n lliniaru ac yn rheoli'r risgiau i'n nodau a'n hamcanion. Rydym yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sydd ar yr un pryd yn cefnogi cyflawniad ein nodau a'n hamcanion, tra hefyd yn diogelu'r arian cyhoeddus ac asedau'r sefydliad yr ydym yn gyfrifol amdanynt.

Er mwyn ein galluogi i roi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol CNC, mae proses adolygu wedi'i chynnal. Fe'i helwir y broses hon yn Rhestr Wirio Rheolaeth Fewnol ac mae'n arwain at bob cyfarwyddwr gweithredol yn llofnodi tystysgrif sicrwydd ar gyfer eu meysydd awdurdod dirprwyedig. Yna cyflwynir y dystysgrif sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu. Nodir elfennau allweddol y broses adolygu isod:

Sefydlu nodau ac amcanion sefydliadol yn y Cynllun Corfforaethol hyd at 2030

↓

Nodi risgiau strategol o ran cyflawni amcanion

↓

Nodi’r prosesau busnes sy’n gyfrifol am gyflawni’r rheolaethau allweddol sy’n rheoli ac yn lliniaru’r risgiau strategol

↓

Cael sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y prosesau busnes a’r rheolaethau mewnol drwy broses y Rhestr Wirio Rheolaeth Fewnol

↓

Gwerthuso a graddio sicrwydd ac adnabod bylchau neu wendidau mewn rheolaethau

↓

Nodi camau gweithredu i fynd i’r afael â gwendidau a sicrhau gwelliant parhaus yn y system rheolaeth fewnol

↓

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Eleni fe wnaethon ni barhau i ddatblygu a mireinio’r camau canlynol yn y broses, gan gynnwys:

- Adolygiadau chwarterol yn dilyn cwblhau proses Rhestr Wirio Rheolaeth Fewnol 2023/24. Rhoddodd hyn gyfle i gyfarwyddwyr gweithredol ystyried yn rheolaidd unrhyw newidiadau i’w lefel o sicrwydd mewn perthynas ag effeithiolrwydd rheolaethau mewnol o fewn eu cyfarwyddiaeth drwy gydol y flwyddyn fel proses adolygu barhaus.

- Canolbwyntio mwy ar nodi bylchau/gwendidau yn y system rheolaeth fewnol a datblygu cynllun gweithredu dilynol.

Mae’r Tîm Gweithredol wedi ystyried a chymedroli’r dadansoddiad o’r canlyniadau a’r graddau sicrwydd a roddwyd gan y cyfarwyddwyr, ac wedi cymeradwyo’r camau gweithredu a nodwyd i unioni unrhyw wendidau sylweddol a nodwyd.

Mae’r gwendidau sylweddol canlynol o fewn y system rheolaeth fewnol, a’r camau gweithredu cyfatebol a gymerwyd i fynd i’r afael â nhw, wedi’u nodi o ganlyniad i’r adolygiad o’r system rheolaeth fewnol:

| | Meysydd rheoli a nodwyd fel rhai sydd angen sylw: | Camau a gymerwyd / camau i'w cymryd er mwyn mynd i'r afael â gwendidau rheoli: |
|---|---|---|
| 1 | Y gweithlu:<br><br>Mae recriwtio wedi rhewi ar draws y sefydliad yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i'r gwaith ar yr achos dros newid. Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y Bwrdd y penderfyniad i weithredu newidiadau i'r strwythur i fuddsoddi mewn meysydd â blaenoriaeth a fydd yn arwain at fuddion hirdymor i amgylchedd naturiol Cymru. Arweiniodd hynny at yr angen i atal neu leihau rhai gwasanaethau er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Roedd hyn hefyd yn golygu cael gwared ar nifer o rolau o'r strwythur sefydliadol.<br><br>Cydnabyddir bod hyn yn rheolaeth allweddol o ran y gallu i gyflawni cyllideb gytbwys yn ystod cyfnod o bwysau ariannol sylweddol.<br><br>Fodd bynnag, fe wnaeth y mesurau bwriadol hyn greu pwysau ar y gweithlu presennol, gydag effeithiau ar draws y sefydliad. Roedd gan rai timau swyddi gwag sylweddol, gyda strwythurau'n lleihau ac yn aros islaw capasiti am gyfnod sylweddol o amser.<br><br>Mae'r achos dros newid hefyd wedi effeithio ar y swyddogaeth pobl yn CNC, gan arwain at ostyngiadau yn nifer y staff yn rhai o'r timau pobl a llai o gapasiti yn y dyfodol, oedi rhai gweithgareddau allweddol (e.e. cynllunio strategol ar gyfer y gweithlu) i ailgyfeirio staff i gefnogi'r broses newid, a chapasiti cyfyngedig o fewn y tîm a'r gweithlu ehangach i symud materion fel cynllunio ar gyfer olyniaeth yn eu blaen. | Mae'r gwaith ar yr achos dros newid bellach wedi dod i ben ac, er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau yn ein strwythur sefydliadol newydd, rydym wedi rhoi adnoddau ychwanegol i mewn – yn fewnol ac yn allanol – i gefnogi'r broses hon. Ochr yn ochr â hynny, rydym wedi buddsoddi'n ddiweddar mewn system e-recriwtio, a fydd yn cael ei chyflwyno yn 2025, gan ein galluogi ni i reoli recriwtio'n fwy effeithlon a strategol. Er mwyn cefnogi recriwtio a helpu i reoli'r wrthgilio y mae'n anochel yn ei greu, ein safbwynt arferol yw hysbysebu pob rôl yn allanol a disgwylir i staff aros am gyfnod gofynnol mewn rolau newydd i greu sefydlogrwydd a chefnogi'r ddarpariaeth. Rydym hefyd wedi diwygio ein rheolaethau o ran y gweithlu yn sylweddol. Bydd cyfarwyddiaethau'n cael terfynau ariannol ac o ran nifer y staff a fydd yn gweithredu fel terfynau uchaf. O fewn y terfynau hynny, mae ganddynt ddisgresiwn i newid ac addasu fel y maent yn ei ystyried yn briodol, gan gefnogi mwy o hyblygrwydd i reolwyr cyllidebau.<br><br>Byddwn yn gweithio'n agos gyda phaneli gweithlu yn y cyfarwyddiaethau i ymgorffori'r prosesau newydd hyn.<br><br>Yn ogystal â'r uchod, byddwn yn parhau i weithio ar gyflawni gwelliannau i'n systemau a'n prosesau gweithlu drwy'r Rhaglen Trawsnewid Pobl. Dros gyfnod 2024/25, cafodd yr adnoddau ar gyfer y rhaglen eu cwtogi'n sylweddol i gefnogi cyflawni'r achos dros newid. Fodd bynnag, gwnaed cynnydd sylweddol mewn nifer o feysydd, gan gynnwys:<br><br>Cyflwyno system rheoli dysgu newydd, gan gefnogi amcanion |

| | Meysydd rheoli a nodwyd fel rhai sydd angen sylw: | Camau a gymerwyd / camau i'w cymryd er mwyn mynd i'r afael â gwendidau rheoli: |
|---|---|---|
| | | llesiant, iechyd a diogelwch a dysgu a datblygu allweddol<br><br>Caffael system e-recriwtio newydd<br><br>Cyflwyno Perform, i gefnogi rheoli perfformiad unigol, fel rhan o'n system rheoli dysgu<br><br>Dros gyfnod 2025/26, er mwyn cefnogi ein huchelgeisiau o ran y gweithlu, bydd y rhaglen yn gwneud y canlynol:<br><br>Gweithredu ein system e-recriwtio newydd<br><br>Ailgychwyn ein gwaith ar gynllunio strategol ar gyfer y gweithlu, yn dilyn y gwaith ar yr achos dros newid, gyda'r nod o gael cynllun a dull gweithredu ar waith ar draws y sefydliad erbyn diwedd y flwyddyn<br><br>Defnyddio ein system rheoli dysgu yn fwy, i'n helpu i ymateb i anghenion hyfforddi a deall y gofynion hyfforddi strategol. Byddwn hefyd yn cyflwyno modiwl adborth 360 yn ogystal â modiwl cynllunio ar gyfer olyniaeth. Bydd yr olaf yn helpu i sicrhau dull mwy cyson a symlach o gynllunio olyniaeth, gan gefnogi cynllunio strategol ehangach ar gyfer y gweithlu.<br><br>Adolygu ein dull o adnoddau hyblyg, gan gynnwys rôl a phwrpas y Gronfa Adnoddau Hyblyg. |
| 2 | TGCh:<br><br>Er bod cydnabyddiaeth bod rhai gwelliannau wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn, megis cyflwyno gliniaduron Surface newydd, creu adran digidol, data a thechnoleg newydd, ac uwchgyfeirio rhai risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â TGCh sy'n cael eu rheoli/lliniaru, cydnabyddir yn eang fod hwn yn faes | Fel rhan o'r achos dros newid yn ystod y flwyddyn, nodwyd TGCh fel maes i fuddsoddi ynddo. Fodd bynnag, oherwydd pwysau ariannol, fe welodd ostyngiad yn ei gyllideb er mwyn cyfrannu at yr arbedion cyffredinol sy'n ofynnol gan y sefydliad. Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi gallu gwneud cynnydd yn y rhaglen sefydlogi (o dan CNC2030) |

| | Meysydd rheoli a nodwyd fel rhai sydd angen sylw: | Camau a gymerwyd / camau i'w cymryd er mwyn mynd i'r afael â gwendidau rheoli: |
|---|---|---|
| | sydd angen buddsoddiad a gwelliant sylweddol. Mae dibyniaeth ar gynhyrchion sylfaenol hyfyw yn parhau mewn sawl maes, nid yw llawer o systemau yn cael eu rheoli'n ganolog gan yr adran TGCh, ac mae diffyg systemau TGCh allweddol mewn meysydd eraill. | ac wedi parhau i wella a chynnal ein hamddiffyniad rhag ymosodiadau seiber a'n dulliau diogelu asedau gwybodaeth. Yn ogystal, gwnaed cynnydd mewn gwasanaethau nad ydynt yn cael eu rheoli gan TGCh a symudwyd system arwyddocaol (MyNRW) o dan reolaeth ganolog TGCh.<br><br>Rydym wedi symud i Windows 11 ac wedi tynnu pob dyfais Windows 10 i wella diogelwch wrth gysylltu o bell.<br><br>Fe wnaethon ni ffurfio'r Tîm Digidol, Data a Thechnoleg ym mis Ionawr 2025, sy'n dwyn ynghyd staff digidol, data a thechnoleg o dan un arweinyddiaeth sengl.<br><br>Y tu allan i'r gwaith cyflawni, rydym hefyd wedi bod yn buddsoddi yn ein pobl. Rydym wedi bod yn anfon rhai o'n tîm i gymryd rhan mewn gweithdai arweinyddiaeth "trawslywodraethol" ym meysydd digidol, data a thechnoleg ac rydym hefyd wedi sefydlu gweithdai gydag endidau llywodraethol eraill megis DVLA, i gydweithio â nhw a dysgu o'u gwaith trawsnewid ym meysydd digidol, data a thechnoleg.<br><br>O fewn y tîm technoleg, mae staff wedi cael eu hyfforddi i gynyddu ein galluoedd. Mae hyn yn golygu bod gennym ni nawr staff cymwysedig Scrum Master, Llyfrgell Seilwaith Technoleg Gwybodaeth Fersiwn 4 a Chymhwyster Rheoli Prosiectau APM o fewn ein tîm Busnes Fel Arfer.<br><br>Yn dilyn proses recriwtio allanol, rydym wedi penodi Pennaeth Digidol, Data a Thechnoleg newydd, a ddechreuodd yn y swydd ym mis Mai 2025 ac a fydd yn ein harwain trwy'r newidiadau trawsnewidiol sydd eu hangen i gefnogi cyflawni'r amcan |

| | Meysydd rheoli a nodwyd fel rhai sydd angen sylw: | Camau a gymerwyd / camau i'w cymryd er mwyn mynd i'r afael â gwendidau rheoli: |
|---|---|---|
| | | llesiant ychwanegol sydd newydd ei ddatblygu. |
| 3 | Cyllid: prosiectau a rhaglenni:<br><br>Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld cyfran gynyddol o'n gwariant yn cael ei reoli drwy raglenni a phrosiectau. Mae hyn yn amrywio o'r Rhaglen Gyfalaf Llifogydd draddodiadol i'r Rhaglen Argyfyngau Natur a Hinsawdd ac CNC2030.<br><br>Yn 2024/25, sicrhaodd rheolaeth ariannol yr holl raglenni a phrosiectau fod y cyllidebau'n cael eu rheoli'n effeithiol a daeth y flwyddyn i ben heb unrhyw orwariant/tanwariant sylweddol.<br><br>Yn 2024/25, fe wnaethom ymgorffori argymhellion yr adolygiad o bartneriaethau lleol yn y gwaith o gyflawni prosiectau perygl llifogydd ac argyfyngau natur a hinsawdd, gyda thystiolaeth annibynnol ddilynol<br><br>o welliannau rheoli (archwilio mewnol).<br><br>Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi buddsoddi mewn sefydlu fframwaith rheoli prosiectau a rhaglenni cyson, gyda llinell gyntaf o sicrwydd ac ail linell sicrwydd wedi'u halinio â risg a gwerth y prosiect neu'r rhaglen. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod rhywfaint o waith i'w wneud o hyd yn y maes hwn i ddatblygu dulliau ymhellach ac ymgorffori'r gwasanaeth yn wirioneddol, fel y cydnabuwyd mewn archwiliad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.<br><br>Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cael sicrwydd annibynnol o'r Fframwaith Rheoli Prosiectau a Rhaglenni, sy'n cael ei gydnabod fel fframwaith sicrwydd cadarn seiliedig ar risg. Mae'r argymhellion yn ymwneud â chymhwyso'r fframwaith yn gyson ar draws y sefydliad gyda'r angen i leihau nifer yr atebolrwyddau Uwch-swyddog Cyfrifol sydd gan unigolion; | Aseiniwyd aelodau allweddol o dîm y Swyddfa Rheoli Rhaglenni i'r prosiect achos dros newid fel rheolwyr prosiect ac i gefnogi'r gwaith o gyflwyno cynhyrchion allweddol. Heb unrhyw gyllid i gefnogi trefniadau ôl-lenwi swyddi gwag, effeithiodd hyn yn sylweddol ar gyflymder cyflawni'r gwelliannau arfaethedig i'r Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau a nodwyd gan reolwr y Swyddfa Rheoli Rhaglenni i'w gweithredu yn 2024/25.<br><br>Rydym yn rhagweld y bydd personél y Swyddfa Rheoli Rhaglenni yn dychwelyd yn raddol o raglen yr achos dros newid o fis Gorffennaf 2025 ymlaen, ac, yn ogystal, mae rhywfaint o gyllid ychwanegol wedi'i sicrhau yn 2025/26.<br><br>Mae cynllun gwaith â blaenoriaeth wedi'i baratoi ar gyfer y cyfnod 2025-27 i fynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd gan yr archwiliad mewnol o'r Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau. Yn 2025/26, mae'r cynllun gwaith yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r risgiau uchel a chanolig sy'n gysylltiedig â'r canlynol: yr hyn y mae'r Uwch-swyddog Cyfrifol yn atebol amdano; sicrwydd prosiect yn ystod y broses gyflawni; gwelliannau o ran adrodd ar brosiectau; briffio cydweithwyr i safoni'r gwaith o gymhwyso'r Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau ar draws y sefydliad; gwelliannau i'r broses gwersi a ddysgwyd. |

| | Meysydd rheoli a nodwyd fel rhai sydd angen sylw: | Camau a gymerwyd / camau i'w cymryd er mwyn mynd i'r afael â gwendidau rheoli: |
|---|---|---|
| | darparu mwy o sicrwydd drwy gydol cyfnod cyflawni'r prosiect; gwella cydymffurfedd rheolwyr prosiect/rhaglen â thempledi a chanllawiau'r Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau, gan gynnwys gofynion adrodd; ac archwilio'r defnydd o becyn TG i orfodi'r defnydd o'r Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau. | |
| 4 | Rheoli risg:<br><br>Yn ystod y flwyddyn, gwellodd Llywodraeth Cymru ei threfniadau monitro ar gyfer CNC. Roedd hyn ar sail ein cydymffurfedd hanesyddol â gofynion gweithio oddi ar y gyflogres (a elwir yn IR35), a maint yr atebolrwydd posibl a allai fod yn ddyledus. Fel rhan o'r trefniadau hynny, amlinellwyd fel blaenoriaeth feithrin sicrwydd a hyder yn nhrefniadau goruchwylio, ariannol a rheoli risg CNC. Cydnabyddir bod rhai prosesau sy'n ymwneud â risg wedi'u diffinio a'u hymgorffori llai mewn rhai meysydd nag mewn eraill. | Rydym wedi addasu'n gyflym ac yn ddynamig i'r heriau yn y maes hwn. Defnyddiom risg a'r lefelau a'r datganiadau parodrwydd i dderbyn risg a osodwyd gan y Bwrdd i lywio ac arwain ein prosesau gwneud penderfyniadau ym ymwneud â newidiadau sylfaenol i'r sefydliad.<br><br>Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom symud gwaith yn ymwneud â chofnod risgiau a materion sefydliadol yn ei flaen, gan ganiatáu i'r Tîm Gweithredol, aelodau'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru gael goruchwyliaeth ar y cyd o'r risgiau a materion mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu'r sefydliad. Gwnaethom gynnydd pellach o ran ymgorffori uwchgyfeirio risg. Fe wnaethom hefyd gomisiynu'r Tîm Archwilio Mewnol i adolygu ein fframwaith risg, gan ddarparu capasiti ychwanegol mewn maes a nodwyd fel blaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru, a arweiniodd at adolygiad o'n risgiau strategol i gyd-fynd â'n cynigion newydd ar gyfer cyflawni ein cynllun corfforaethol.<br><br>Bydd rheoli risg yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i ni dros y flwyddyn nesaf, wrth i ni anelu at darged o aeddfedrwydd risg mwy. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y lleihad o ran strwythur a chapasiti cyffredinol y Tîm Llywodraethiant Corfforaethol a'r Tîm Risg o ganlyniad i'r achos dros newid, a |

| | Meysydd rheoli a nodwyd fel rhai sydd angen sylw: | Camau a gymerwyd / camau i’w cymryd er mwyn mynd i’r afael â gwendidau rheoli: |
|---|---|---|
| | | natur hirdymor ein dyheadau aeddfedrwydd. |

**Ceri Davies**

**Prif Weithredwr Dros Dro a Swyddog Cyfrifyddu** **28 Hydref 2025**

# Adroddiad Cyflogau a Staff (wedi'i archwilio)

## Polisi cyflogau

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu pwyllgor (Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid) i ystyried materion sy'n ymwneud â chyflog ac amodau cyflogaeth y staff ar y lefel uchaf a'r strategaeth gyflog gyffredinol ar gyfer yr holl staff a gyflogir gan y sefydliad. Mae'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid yn cynnwys pedwar aelod anweithredol o'r Bwrdd. Mae cadeirydd y Bwrdd yn aelod *ex officio* o'r pwyllgor.

Gosodir cyflogau'r cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd gan Weinidogion Cymru. Mae'r sefydliad yn cael cylch cyflog blynyddol gan Lywodraeth Cymru ac mae angen i'r dyfarniad cyflog a bennir gan y Bwrdd gydymffurfio â'r cylch cyflog hwnnw a chael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Bydd y staff hynny o fewn yr uned gydfargeinio (Graddau 1-11) yn cael cynnydd yn eu cyflog a roddir yn unol â'r dyfarniad cyflog.

Mae telerau contract uwch-weithwyr sy'n aelodau o'r Tîm Gweithredol yn seiliedig ar delerau ac amodau'r sefydliad. Nid yw'r polisi taliad cydnabyddiaeth ar gyfer y staff ar y lefel uchaf yn destun cydfargeinio ac mae'r pecyn taliad cydnabyddiaeth wedi'i danategu gan broses Gwerthuso Swyddi Uwch a chyflog ar y pryd. Mae cyflog y Tîm Gweithredol yn cael ei gynyddu gan yr un ganran â chyflog Gradd 11 (y raddfa gyflog uchaf ar gyfer staff nad ydynt yn gyfarwyddwyr). Pan fernir bod aelodau'r Tîm Gweithredol yn tanberfformio, ni chymhwysir unrhyw godiad cyflog.

## Contractau gwasanaeth

Gwneir pob penodiad i'r Bwrdd ar ran gweinidog nawdd y sefydliad yn Llywodraeth Cymru.

Disgwylir i'r Prif Weithredwr ac aelodau'r Tîm Gweithredol gael eu cyflogi o dan gontractau parhaol. Caiff penodiadau eu gwneud yn unol â'n polisi recriwtio, sy'n ei gwneud yn ofynnol i benodiad gael ei wneud yn ôl haeddiant ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

Oni nodir yn wahanol isod, mae gan aelodau'r Tîm Gweithredol a gwmpesir gan yr adroddiad hwn benodiadau sy'n barhaol. Rhaid i'r swyddogion ac aelodau Bwrdd hyn ddarparu tri mis o rybudd o'u bwriad i adael.

## Cyflog a hawliadau pensiwn

Yn yr adrannau canlynol, ceir manylion cyflog aelodau'r Bwrdd a chyflogau a buddiannau pensiwn aelodau'r Tîm Gweithredol. Nid oes gan aelodau Bwrdd yr hawl i ymuno â Chynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil nac i dderbyn buddiannau eraill. Pe bai aelodaeth yn cael ei therfynu'n gynnar, am reswm heblaw am gamymddwyn, byddai'r aelod hwnnw o'r Tîm Gweithredol yn cael digolllediad sy'n gyson â Chynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Nid oes gan aelodau'r Bwrdd yr hawl i gael digolllediad.

## Cyflog

Mae cyflog yn ymwneud â symiau pensiynadwy a symiau nad ydynt yn bensiynadwy ac mae'n cynnwys cyflog gros, goramser, ac unrhyw lwfansau neu daliadau sy'n ddarostyngedig i drethiant yn y DU. Nid yw'n cynnwys symiau sy'n ad-daliad o dreuliau sydd wedi deillio'n uniongyrchol o gyflawni dyletswyddau unigolyn.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac a ymdrinnir fel enillion y gellir eu trethu gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Ni wnaeth yr un aelod o'r Bwrdd na'r Tîm Gweithredol gael buddion mewn nwyddau yn ystod 2024/25 a 2023/24.

Ni wnaeth yr un aelod o'r Bwrdd na'r Tîm Gweithredol unrhyw daliadau eraill ar wahân i'r symiau a ddangosir isod.

## Cyflogau aelodau'r Bwrdd

| Aelod o'r Bwrdd | Rolau ar y Bwrdd a phwyllgorau (yn ystod 2024/25) | Dyddiadau'r contract | Cyflog 2024/25 (graddfa £5,000) | Cyflog 2023/24 (graddfa £5,000) |
|---|---|---|---|---|
| Julia Cherrett | | 01/11/18 tan 31/05/23 | Amherthnasol | 0-5 |
| Geraint Davies | | 01/01/19 tan 31/03/25 | 10-15 | 10-15 |
| Dr Peter Fox | Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd | 16/02/23 tan 31/10/26 | 15-20 | 15-20 |
| Syr David Henshaw | Cadeirydd y Bwrdd | 01/11/13 tan 31/10/25 | 45-50 | 45-50 |
| Zoë Henderson | | 09/11/15 tan 08/5/23 | Amherthnasol | 0-5 |
| Yr Athro Calvin Jones | Cadeirydd y Pwyllgor Ystad Tir | 01/09/21 tan 31/10/28 | 15-20 | 15-20 |
| Lesley Jones | | 01/06/23 tan 31/10/26 | 10-15 | 10-15 |
| Yr Athro Rhys Jones | | 16/02/23 tan 31/10/27 | 10-15 | 10-15 |
| Mark McKenna | Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid | 01/09/21 tan 31/10/28 | 15-20 | 15-20 |
| Yr Athro Steve Ormerod | Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol | 01/11/18 tan 31/03/26 | 15-20 | 15-20 |
| Kathleen Palmer | Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | 16/02/23 tan 31/05/25 | 15-20 | 15-20 |

| Aelod o'r Bwrdd | Rolau ar y Bwrdd a phwyllgorau (yn ystod 2024/25) | Dyddiadau'r contract | Cyflog 2024/25 (graddfa £5,000) | Cyflog 2023/24 (graddfa £5,000) |
|---|---|---|---|---|
| Helen Pittaway | Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid | 16/02/23 tan 31/10/26 | 15-20 | 15-20 |
| DrRosie Plummer | Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig | 01/11/18 tan 31/03/25 | 15-20 | 15-20 |
| Peter Rigby | | 01/11/18 tan 31/10/23 | Amherthnasol | 5-10 |

## Cyflogau'r Tîm Gweithredol

| Aelod o'r Tîm Gweithredol | Cyflog (graddfa £5,000) | | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | | Buddion pensiwn[1] (i'r £1,000 agosaf) | | Cyfanswm (graddfa £5,000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2024/25 | 2023/24 | 2024/25 | 2023/24 | 2024/25 | 2023/24 | 2024/25 | 2023/24 |
| Claire Pillman [1,2] (Prif Weithredwr) | 140-145 | 150-155 | 0 | 0 | 99,000 | 40,000 | 235-240 | 190-195 |
| Ceri Davies [1,3] | 140-145 | 125-130 | 0 | 0 | 187,000 | 37,000 | 330-335 | 160-165 |
| Rachael Cunningham [1] | 130-135 | 125-130 | 0 | 0 | 88,000 | 46,000 | 215-220 | 170-175 |
| Prys Davies [1] | 110-115 | 105-110 | 0 | 0 | 68,000 | 30,000 | 180-185 | 135-140 |
| Dominic Driver [1,4] | 35-40 | Amherthnasol | 0 | Amherthnasol | 13,000 | Amherthnasol | 45-50 | Amherthnasol |
| Sarah Jennings [1] | 135-140 | 130-135 | 0 | 0 | 54,000 | 51,000 | 190-195 | 180-185 |
| Gareth O'Shea [1] | 120-125 | 115-120 | 0 | 0 | 94,000 | 32,000 | 215-220 | 145-150 |

[1] Cyfrifir gwerth buddiannau pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel y cynnydd pensiwn gwirioneddol wedi'i luosi ag 20, yn ogystal â'r cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad, llai y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn. Cyfrifir y cynnydd gwirioneddol drwy ddidynnu'r prisiad agoriadol o'r prisiad terfynol. Mae'r cynnydd gwirioneddol yn eithrio cynnydd o ganlyniad i chwyddiant neu unrhyw newidiadau o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn. Caiff codiadau chwyddiant eu heithrio drwy gymhwyso ffactor cynnydd gwirioneddol i'r gwerth ar ddechrau'r flwyddyn. Roedd y ffactor cynnydd real sy'n seiliedig ar y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn is yn 2024/25 nag yn 2023/24 ac mae hyn wedi cynyddu'r bwlch rhwng y prisiad yn 2023/24 a 2024/25, sydd wedi arwain at adrodd cynnydd real uchel yn 2024/25.

Mae buddion pensiwn cronedig sydd wedi'u cynnwys yn y tabl hwn ar gyfer unrhyw unigolyn yr effeithir arno gan Rwymedi Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus wedi'u cyfrifo yn seiliedig ar eu cynnwys yn y cynllun etifeddiaeth ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae'r Rhwymedi Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus yn berthnasol i unigolion a oedd yn aelodau, neu'n gymwys i fod yn aelodau, o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac a oedd yn

aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae sail y cyfrifiad yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol bod aelodau yr effeithiwyd arnynt wedi cael eu hychwanegu'n ôl i'r cynllun etifeddiaeth perthnasol ar gyfer y cyfnod rhwymedi a bydd hyn yn berthnasol oni bai fod yr aelod yn arfer ei hawlogaeth yn weithredol pan fydd yn ymddeol i benderfynu yn lle hynny i gael buddion a gyfrifir o dan delerau'r cynllun alffa ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. *Yn achos aelodau Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd, rhoddwyd ystyriaeth i rwymedi McCloud hefyd ar gyfer datgeliadau'r cyfarwyddwyr, ond ni chafodd gwerthoedd buddion yr unigolion penodol hyn eu heffeithio gan y rhwymedi.*

Nid yw'r gwerth hwn yn cynrychioli swm a fydd yn cael ei dderbyn gan yr unigolyn. Cyfrifiad ydyw sydd â'r nod o gyfleu i ddarllenydd y cyfrifon amcangyfrifiad o'r budd a all ddeillio o fod yn aelod o'r cynllun pensiwn. Mae'r tabl buddiannau pensiwn yn rhoi mwy o wybodaeth am y buddiannau pensiwn sy'n cael eu cronni gan yr unigolyn.

[2] Gadawodd Clare Pillman CNC ym mis Ebrill 2025. Yn ystod 2024/25, cafodd gyflog rhwng £155,000 a £160,000, ac, o'r swm hwn, cyfrifir am swm o arian rhwng £15,000 a £20,000 ac fe'i ddatgelir fel rhan o'r pecyn ymadael fel y disgrifir ar dudalen 56. Mae hyn hefyd wedi'i gynnwys yn y tabl pecynnau ymadael ar dudalen 61.

[3] Roedd cyflog cyfatebol blynyddol Ceri Davies ar gyfer mis Ebrill i fis Hydref rhwng £130,000 a £135,000 fel Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu a rhwng £155,000 a £160,000 o fis Hydref i fis Mawrth fel y Prif Weithredwr Dros Dro.

[4] Cyflogwyd Dominic Driver gan CNC drwy gydol y flwyddyn ond mae'r wybodaeth am gyflogau a ddatgelwyd yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 16 Tachwedd 2024 a 31 Mawrth 2025, pan gafodd ei benodi dros dro yn Gyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu. Y cyflog blynyddol llawn cyfwerth ar gyfer y cyfnod hwn yw rhwng £95,000 a £100,000.

## Buddiannau pensiwn

| Aelod y Tîm Gweithredol | Pensiwn cronnus ar oed pensiwn fel ag yr oedd ar 31/03/25 £000 | Cyfandaliad cronnus ar oed pensiwn fel ag yr oedd ar 31/03/25 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar oed pensiwn £000 | Cynnydd gwirioneddol yn y cyfandaliad cronnus ar oed pensiwn £000 | Gwerth oedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/25 £000 | Gwerth oedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/24 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Clare Pillman (Prif Weithredwr) | 80-85 | 150-155 | 5-7.5 | 2.5-5 | 1,830 | 1,675 | 89 |
| Ceri Davies | 75-80 | 90-95 | 7.5-10 | 10-12.5 | 1,655 | 1,404 | 190 |
| Rachael Cunningham | 45-50 | 0 | 2.5-5 | 0 | 920 | 807 | 71 |
| Prys Davies | 40-45 | 95-100 | 2.5-5 | 2.5-5 | 871 | 780 | 53 |
| Dominic Driver | 15-20 | 0 | 0-2.5 | 0 | 290 | 270 | 9 |
| Sarah Jennings | 15-20 | 0 | 2.5-5 | 0 | 242 | 177 | 41 |
| Gareth O'Shea | 70-75 | 105-110 | 5-7.5 | 2.5-5 | 1,546 | 1,407 | 81 |

Mae pensiwn cyflog terfynol unigolyn mewn cyflogaeth yn cael ei gyfrifo drwy gyfeirio at ei gyflog a hyd ei wasanaeth. Bydd y pensiwn yn cynyddu o un flwyddyn i'r nesaf yn rhinwedd unrhyw godiad cyflog yn ystod y flwyddyn.

Mae buddion pensiwn cronedig sydd wedi'u cynnwys yn y tabl hwn ar gyfer unrhyw unigolyn yr effeithir arno gan Rwymedi Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus wedi'u cyfrifo yn seiliedig ar eu cynnwys yn y cynllun etifeddiaeth ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae'r Rhwymedi Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus yn berthnasol i unigolion a oedd yn aelodau, neu'n gymwys i fod yn aelodau, o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac a oedd yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae sail y cyfrifiad yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol bod aelodau yr effeithiwyd arnynt wedi cael eu hychwanegu'n ôl i'r cynllun etifeddiaeth perthnasol ar gyfer y cyfnod rhwymedi a bydd hyn yn berthnasol oni bai fod yr aelod yn arfer ei hawlogaeth yn weithredol pan fydd yn ymddeol i benderfynu, yn lle hynny, i gael buddion a gyfrifir o dan delerau cynllun alffa ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Yn achos aelodau Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd, rhoddwyd ystyriaeth i rwymedi McCloud hefyd ar gyfer datgeliadau'r cyfarwyddwyr, ond ni chafodd gwerthoedd buddion yr unigolion penodol hyn eu heffeithio gan y rhwymedi.

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy’n Gyfwerth ag Arian Parod

Ystyr Gwerth Trosglwyddo sy’n Gyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalafol buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar bwynt penodol o amser fel ei fod wedi’i asesu ar sail tybiaethau actiwaraidd. Y buddiannau a werthusir yw’r buddiannau a gronnir gan yr aelod ac unrhyw bensiwn priod wrth gefn sy’n daladwy o’r cynllun. Mae Gwerth Trosglwyddo sy’n Gyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo’r buddiannau y mae wedi’u cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae’r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â’r buddiannau y mae’r unigolyn wedi’u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth ar y cynllun pensiwn, ac nid ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae’r datganiad yn ymwneud ag ef yn unig.

Mae’r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae’r aelod wedi’u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar gost i’w hun. Caiff Gwerthoedd Trosglwyddo sy’n Gyfwerth ag Arian Parod eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl i fuddion a ddaw yn sgil Treth Lwfans Gydol Oes a allai fod yn ddyledus pan gaiff buddion pensiwn eu cymryd.

## Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy’n Gyfwerth ag Arian Parod

Mae hyn yn dangos y cynnydd mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy’n Gyfwerth ag Arian Parod a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw’n cynnwys cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant neu gyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae’n defnyddio ffactorau prisio’r farchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Digollediad ar gyfer colli swydd

Gadawodd Clare Pillman ar 16 Ebrill 2025 a chafodd becyn ymadael oedd rhwng £120,000 a £125,000. Talwyd rhwng £15,000 a £20,000 o hyn fel cyflog ym mis Mawrth 2025 ac mae £100,000 i £105,000 wedi cronni ac fe’i dalwyd ym mis Ebrill 2025.Mae’r cyfanswm gwerth wedi’i gynnwys yn y tabl pecynnau ymadael ar dudalen 61 ac mae’n cynnwys rhwng £65,000 a £70,000 o daliad diswyddo arbennig. Ni chytunwyd ar ddigolledIad ar gyfer colli swydd yn ystod 2023/24.

## Datgelu cyflog teg

Rhaid i ninnau a chyrff tebyg ddatgelu’r berthynas rhwng cyflog y cyfarwyddwr a delir fwyaf yn y sefydliad a chyflog canolrifol gweithlu’r sefydliad. Mae cyfanswm y cyflog yn cynnwys cyflog a buddion mewn nwyddau pan fo’n berthnasol. Nid yw’n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, na’r Gwerthoedd Trosglwyddo sy’n Gyfwerth ag Arian Parod.

Yn 2024/25, codwyd tâl ar gyfer pump o weithwyr a gyflogwyd gan sefydliad asiantaeth (2023/24:1) ar gyfradd a oedd yn uwch na'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf.

Band cyflog y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf (fel y dangosir uchod) yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 oedd rhwng £155,000 a £160,000 (2023/24: rhwng £150,000 a 155,000). Roedd hyn yn 3.7 gwaith (2023/24: 3.8 gwaith) cyflog canolrifol y gweithlu, ac mae'r gymhariaeth mewn perthynas â'r cyflog yn y chwarteli uchaf, canolrifol ac isaf wedi'i chyflwyno yn y tabl canlynol.

**Cymhareb cyflog y gweithlu cyfan**

| | 2024/25 | 2023/24 | Symudiad |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | % |
| Chwartel uchaf | 50,637 | 46,673 | 8.49 |
| Cymhareb | 3.2 | 3.3 | |
| Canolrif | 43,702 | 40,426 | 8.10 |
| Cymhareb | 3.7 | 3.8 | |
| Chwartel isaf | 38,688 | 35,686 | 8.49 |
| Cymhareb | 4.1 | 4.3 | |

Mae graddfeydd cyflog staff yn amrywio o £25,898 i £80,072 (2023/24: £24,242 i £76,259).

**Y cynnydd canrannol mewn cyflog, buddion mewn nwyddau a thâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn ystod y flwyddyn oedd fel a ganlyn:**

| | Symudiad % |
|---|---|
| Cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf | 5.0 |
| Yr holl weithlu | 7.4 |
| Wedi'u cyflogi'n uniongyrchol | 7.4 |

Fel sy'n ofynnol gan y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, mae gweithwyr parhaol, penodiadau cyfnod penodol, prentisiaid, secondeion, staff asiantaeth a chontractwyr wedi'u cynnwys o fewn y gweithlu yn y tablau uchod pan fo'r cyflog wedi'i gyfrifo ar sail flynyddol.

# Adroddiad yr holl staff

## Polisi cyflogau staff

Mae cytundeb partneriaeth gymdeithasol ar waith gyda phum undeb lafur, a chaiff y telerau ac amodau ar gyfer staff sydd o dan yr aelodau o'r Tîm Gweithredol eu gosod drwy gydgytundeb â'r partneriaid cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo unrhyw newidiadau i gyflog, telerau ac amodau ac yn rhoi cylch gwaith cyflog i'r sefydliad y mae'n rhaid iddo gyflawni o'i fewn. Roedd cyflog eleni ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, a gwelwyd cynnydd o 5% yn ein bil cyflog. Mae ein holl raddfeydd cyflog wedi bod uwchlaw'r cyflog byw gwirioneddol ers mis Ebrill 2024. Cymhwyswyd dyfarniad cyflog o 5% i bob pwynt ar y graddfa gyflog a'r holl welliannau a thaliadau (lwfansau), ond nid oedd yn cynnwys y Wobr Teyrngarwch na'r taliad atodol ar sail y farchnad. Nid oedd y cynnig hwn, fel y cytunwyd eisoes drwy'r ymgynghoriad ar y cynllun gwerthuso swyddi, yn berthnasol i'r bobl hynny a oedd wedi dewis, yn flaenorol, i beidio â bod yn rhan o'r cynllun hwn.

Yn ystod y flwyddyn, cynigiwyd rhaglen yr achos dros newid i fynd i'r afael â chyfyngiadau ariannol ond hefyd i roi CNC yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â'r materion amgylcheddol mwyaf dybryd ac i wneud y mwyaf o'n heffaith lle mae'n bwysicaf. Ar ôl cyfnod helaeth o ymgynghori â'r undebau llafur a chydweithwyr ar draws y sefydliad, ym mis Tachwedd 2024 cymeradwyodd Bwrdd CNC weithredu'r rhaglen. Gweithredodd rhaglen yr achos dros newid ostyngiad o tua 200 o swyddi parhaol yn y strwythur staffio erbyn 1 Ebrill 2025. Effeithiodd hyn ar tua 160 o aelodau o staff yn uniongyrchol a, lle bo modd, cawsant eu hadleoli cyn 31 Mawrth 2025. Cytunwyd ar 24 o ddiswyddiadau gwirfoddol cyn 31 Mawrth 2025, a datgelir y rhain yn nhabl y pecynnau ymadael isod.  Cytunwyd ar ddau ddiswyddiad gwirfoddol a dau ddiswyddiad gorfodol pellach ar ôl diwedd y flwyddyn a byddant yn cael eu cyfrif amdanynt yn ystod 2025/26.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am gyfansoddiad a chostau ein gweithlu. Mae'r tablau isod yn cynnwys staff sy'n gyflogeion parhaol, penodiadau cyfnod penodol a phrentisiaid yn ogystal â staff asiantaeth, contractwyr a secondeion.

**Nifer y staff fesul pen a chyfwerth ag amser llawn fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2025**

| | Gwryw | | Benyw | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer y gweithwyr** | **Cyfwerth ag amser llawn** | **Nifer y gweithwyr** | **Cyfwerth ag amser llawn** | **Nifer y gweithwyr** | **Cyfwerth ag amser llawn** |
| **Pob cyflogai** | 1,260 | 1,234 | 1,112 | 1,044 | 2,372 | 2,278 |
| o'r rhain: | | | | | | |
| Y Tîm Arwain | 13 | 13 | 15 | 15 | 28 | 28 |
| Y Tîm Gweithredol | 3 | 3 | 4 | 4 | 7 | 7 |

**Nifer y staff fesul pen a chyfwerth ag amser llawn fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2024**

| | Gwryw | | Benyw | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer y gweithwyr** | **Cyfwerth ag amser llawn** | **Nifer y gweithwyr** | **Cyfwerth ag amser llawn** | **Nifer y gweithwyr** | **Cyfwerth ag amser llawn** |
| **Pob cyflogai** | 1,350 | 1,319 | 1,186 | 1,116 | 2,536 | 2,435 |
| o'r rhain: | | | | | | |
| Y Tîm Arwain | 15 | 15 | 13 | 12 | 28 | 27 |
| Y Tîm Gweithredol | 2 | 2 | 4 | 4 | 6 | 6 |

**Roedd nifer cyfartalog yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a dalwyd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:**

| | 2024/25 | | | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| Wedi'u cyflogi'n uniongyrchol | 2,240 | 27 | 2,267 | 2,371 |
| Gweithwyr asiantaeth | 0 | 72 | 72 | 91 |
| **Cyfanswm** | **2,240** | **99** | **2,339** | **2,462** |

Nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd ar brosiectau cyfalaf oedd: 185.2 (2023/24: 216.7).

## Trosiant staff

Roedd trosiant staff yn ystod 2024/25 yn 6.2% heb gynnwys gweithwyr dros dro, e.e. penodiadau cyfnod penodol (5% yn 2023/24).

## Costau staff

| | 2024/25 | | | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol** | **Staff eraill** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |

| | | | | 2024/25 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyflogau | | 99,267 | 5,301 | 104,568 | 108,145 |
| Costau nawdd cymdeithasol a threthi eraill | | 10,808 | 693 | 11,501 | 11,520 |
| Costau pensiwn eraill | | 25,788 | 355 | 26,143 | 24,656 |
| **Cyfanswm costau cyflog net** | | **135,863** | **6,349** | **142,212** | **144,321** |
| | | | | | |
| **Gwariant arall ar gyfer staff** | | | **Nodyn** | | |
| Costau pecynnau ymadael | | | | 1,034 | 13 |
| Tâl gwasanaeth Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 19 (pensiynau) | | | 16 | 6,167 | 6,988 |
| Heb gostau pensiwn ymddeoliadau cynnar | | | | - | (5) |
| Heb gyfraniadau pensiwn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn ystod y flwyddyn | | | | (6,899) | (6,894) |
| Symudiad mewn cyflog gwyliau a gronnwyd | | | | 322 | 15 |
| **Cyfanswm gwariant arall ar gyfer staff** | | | | **624** | **117** |
| Heb symiau a roddir ar brosiectau cyfalaf | | | | (11,877) | (12,956) |
| **Cyfanswm costau staff** | | | | **130,959** | **131,482** |

Gellir gweld manylion ein rhwymedigaethau pensiwn yn Nodyn 16.
Mae manylion cyflogau aelodau'r Bwrdd a chyfarwyddwyr yn yr adroddiad cyflogau. Mae'r gwasanaethau a brynwyd i mewn yn Nodyn 5 (gwariant arall) yn cynnwys £2.2 miliwn o wariant ar ymgynghorwyr (2023/24: £4.7 miliwn).

## Cynlluniau pensiwn

Rydym yn aelod o ddau gynllun pensiwn. Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun agored ac yn cynnwys y cynllun buddion diffiniedig, Alffa, yn ogystal â chynllun cyfraniadau diffiniedig partneriaeth rhanddeiliaid. Rydym hefyd yn aelod caeëdig o Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd o dan gytundeb derbyn cymunedol. Dangosir rhagor o fanylion am y cynlluniau pensiwn hyn isod.

## Cyfraniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Cynlluniau buddion diffiniedig aml-gyflogwr na chânt eu hariannu yw PCSPS a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn "Alffa". Ond nid yw'r cynlluniau yn nodi cyfran sefydliadau unigol o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Cwblhawyd y

gwerthusiad actiwaraidd llawn diweddaraf o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2020 ym mis Medi 2023. Gallwch weld y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil yma: https://www.civilservicepensionscheme.org.uk/knowledge-centre/resources/resource-accounts/

Ar gyfer 2024/25, roedd cyfraniadau cyflogwr o £19,066 yn daladwy i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (2023/24: £17,588) ar yr un gyfradd o 28.97% o gyflog pensiynadwy (26.6% i 30.3% ar gyfer 2023/24, yn seiliedig ar fandiau cyflog). Fel arfer, mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad o'r cynllun llawn. Diwygiwyd y bandiau cyflog a'r cyfraddau cyfraniadau ar gyfer 2024/25 a byddant yn aros yr un fath tan 2028/29. Mae'r bandiau cyflog a'r cyfraddau cyfraniadau yn adlewyrchu buddion wrth iddynt gronni, nid pan fydd y costau'n cael eu hysgwyddo mewn gwirionedd, ac maent yn adlewyrchu profiad y cynllun yn y gorffennol.

## Pensiynau partneriaeth rhanddeiliaid

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £169,000 (2023/24: £164,000) i'r darparwr pensiwn rhanddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn seiliedig ar oedran ac yn amrywio rhwng 8% ac 14.75%. Mae cyflogwyr hefyd yn talu cyfraniadau cyfatebol ar gyfer cyflogeion o hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr gwerth £6,000, sef 0.5% o gyflog pensiynadwy (2023/24: £5,000), yn daladwy i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil i dalu'r costau o ddarparu buddion cyfandaliad yn y dyfodol yn sgil marw yn y swydd neu ymddeoliad oherwydd salwch y cyflogeion hyn.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau'n ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen, ac ni chafodd unrhyw gyfraniadau eu talu ymlaen llaw.

## Cyfraniadau Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd

Cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yw Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd sydd wedi'i ariannu ac sy'n gwneud cyfraniadau diffiniedig. Mae'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, cynllun statudol sy'n cael ei lywodraethu'n bennaf gan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Cynilion a Diwygio) 2014. Rydym yn gwneud taliadau i Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd, fel yr awdurdod gweinyddu ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, trwy Capita, gweinyddwyr y gronfa bensiwn.

Bob tair blynedd, mae Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd yn prisio'r pensiwn ar y cyd ag actiwari'r cynllun. Ar 31 Mawrth 2022, asesodd y prisiad fod sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd ar lefel ariannu o 103% (2019: 106%). Prif ddiben y prisiad actiwaraidd yw adolygu sefyllfa ariannol y gronfa a phennu faint bydd cyflogwyr yn cyfrannu at y gronfa yn y dyfodol.

Mae gennym gytundeb derbyn cymunedol gyda Chronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd i gymryd rhan yn y cynllun, a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol

dros Gymunedau a Llywodraeth Leol mewn perthynas â staff hen Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, a drosglwyddodd i'n sefydliad ni ar 1 Ebrill 2013. Cafodd y rhwymedigaethau ar gyfer cyn-aelodau a gyflogwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd o ran swyddogaethau Cymru (pensiynau mewn taliad ac aelodau gohiriedig) eu trosglwyddo hefyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael gwarant gan Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd i'w hindemnio am unrhyw rwymedigaethau sy'n deillio o gyfranogiad CNC yng Nghronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd.

Ar gyfer 2024/25, roedd cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr yn 21.60% (2023/24: 22.50%). Yn 2024/25, talwyd cyfraniadau cyflogwr o £6,899 i Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (2023/24: £6,894), sy'n lleihau'r balans ar gronfa bensiwn IAS 19.

## Pecynnau ymadael

| Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost | 2024/25 | 2023/24 |
|---|---|---|
| Llai na £10,000 | 2 | 1 |
| £10,001 – £25,000 | 11 | 1 |
| £25,001 – £50,000 | 6 | 0 |
| £50,001 – £100,000 | 7 | 0 |
| £100,001 – £150,000 | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **27** | **2** |
| **Cost adnoddau** | **£1,033,832** | **£13,000** |

Nid oedd unrhyw ddiswyddiadau gorfodol yn 2023/24 nac yn 2022/23.

Mae costau ymadael gwirfoddol wedi'u talu yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Mae'r tabl uchod yn dangos cyfanswm cost y pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac y cafodd eu cyfrif amdanynt yn 2024/25. Nid yw'r tabl yn cynnwys unrhyw gostau yswiriant gwladol a phensiwn cysylltiedig. O'r 27 a ddatgelwyd, mae un yn ymwneud ag ymadawiad Clare Pillman, Prif Weithredwr, mae 24 yn ymwneud â diswyddiadau gwirfoddol y cytunwyd arnynt fel rhan o weithredu rhaglen ein hachos dros newid, ac mae dau arall yn ymwneud â thaliadau yn lle rhybudd a wnaed i ddau aelod arall o staff. Talwyd costau ymadael o £30,000 yn 2024/25 mewn gwirionedd; mae'r gweddill, £1,004, wedi cronni a byddant yn cael eu talu yn ystod 2025/26, sef blwyddyn yr ymadawiad.

Pan fyddwn wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, caiff y costau ychwanegol eu talu gan y sefydliad ac nid gan Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff costau ymddeol oherwydd salwch eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi cael eu cynnwys yn y tabl.

**Absenoldeb oherwydd salwch (nad yw'n cael ei archwilio)**

Dangosodd cyfradd ein habsenoldebau oherwydd salwch ar gyfer y flwyddyn dreigl (1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025) y collodd pob cyflogai 7.4 o ddiwrnodau ar gyfartaledd, sy’n cyfateb i 3.4%. Ar gyfer 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2025, roedd hyn yn 5.4 diwrnod a gollwyd fesul gweithiwr, sy’n cyfateb i 2.4%.

## Polisïau anabledd (nad ydynt yn cael eu harchwilio)

### Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd

Llwyddwyd i gael ailachrediad Lefel 2 ar gyfer cynllun Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd ym mis Ebrill 2024 tan fis Mawrth 2027.

Ers 2020, rydym wedi bod yn aelod cyswllt o gynllun Cyflogwyr i Ofalwyr y DU, sy’n anelu at gefnogi cyflogwyr i gefnogi gweithwyr â chyfrifoldebau gofalu. Rydym hefyd wedi bod yn aelodau o Neurodiversity in Business ers 2023.

Yn ystod 2024/25, gwnaethom barhau i gydymffurfio â’r cynllun Hyderus o ran Anabledd, sy’n rhoi cyfweliad yn awtomatig i ymgeiswyr sy’n datgan bod ganddynt anabledd, yn unol â diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010, ac sy’n bodloni’r meini prawf sylfaenol ar gyfer y rôl y gwneir cais amdani.

Yn allanol, cawsom geisiadau gan 106 o bobl, yr oedd 15 (14.1%) ohonynt yn gofyn am gyfweliad gwarantedig.  Yn fewnol, cawsom geisiadau gan 201 o bobl, yr oedd pedwar (4.9%) ohonynt yn gofyn am gyfweliad gwarantedig. Mae’r ffigurau hyn yng nghyd-destun rhewi recriwtio ym mis Awst 2023. Mae mwyafrif y ceisiadau hyn wedi dod yn ystod blwyddyn galendr 2025 ac ar ôl diwedd y rhewi o ran recriwtio.

Yn ogystal, rydym yn gofyn ac yn annog cydweithwyr i ddatgelu cymaint neu gyn lleied o fanylion personol ag y maent yn teimlo’n gyfforddus i’w datgan yn ôl eu disgresiwn eu hunain, gan gynnwys **anableddau**. Mae hyn yn ein helpu i ddeall cyfansoddiad ein gweithlu, ac i sicrhau bod gennym y polisïau a gweithdrefnau cywir ar waith i gefnogi ein cydweithwyr, ac mae hefyd yn rhoi gwybodaeth am i ba raddau yr ydym, fel sefydliad, yn adlewyrchu’r boblogaeth a’r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu yng Nghymru.

Mae’r ffigurau presennol yn dangos bod 74% o’n cydweithwyr wedi hunanddatgelu rhywfaint neu’r holl wybodaeth yn wirfoddol, sef cynnydd o 5% ers y llynedd, gyda 26% o gydweithwyr nad ydynt wedi hunanddatgelu neu sydd wedi penderfynu defnyddio’r opsiwn “mae’n well gen i beidio â dweud”.

Mae 3.9% (89) wedi datgan bod ganddynt anabledd fel y’i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

disability confident

## Grwpiau adnoddau gweithwyr – rhwydweithiau staff (heb eu harchwilio)

Mae grwpiau adnoddau gweithwyr, a elwir hefyd yn rhwydweithiau gweithwyr neu staff, yn ofod cefnogol a chroesawgar i'n cydweithwyr ddod ynghyd i greu newid yn y gweithle. Mae grwpiau adnoddau gweithwyr yn aml yn canolbwyntio ar nodwedd warchodedig sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gweithle. Mae'r rhwydweithiau'n rhoi cyfle i'n cydweithwyr gwrdd â chydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad a chymryd rhan mewn gweithgareddau rhwydwaith.

Mae grwpiau adnoddau gweithwyr hefyd yn cyflawni'r tasgau hanfodol o greu arferion da newydd o ran amrywiaeth a chynhwysiant, gan ddylanwadu ar y rhai sy'n gyfrifol am eu gweithredu.

Mae gan bob un o'n grwpiau adnoddau gweithwyr dudalen fewnrwyd bwrpasol gyda gwybodaeth sy'n berthnasol i bob grŵp y mae gan bob cydweithiwr fynediad iddi. Yn ogystal, rydym yn dechrau creu adnoddau dysgu sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith trwy ein system rheoli dysgu newydd.

Ar hyn o bryd, mae gennym naw grŵp adnoddau gweithwyr sy'n cynrychioli themâu nodweddion gwarchodedig, sef anabledd, rhyw a rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, a chrefydd a chred. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Grŵp Defnyddwyr a Gynorthwyir
- Calon – Rhwydwaith Staff LHDTC+
- Rhwydwaith Staff y Gymdeithas Gristnogol
- Cwtsh – Rhwydwaith Gofalwyr
- Rhwydwaith Cyfeillion Dementia
- Rhwydwaith Staff Mwslimaidd
- Rhwydwaith Staff Niwroamrywiaeth
- Rhwydwaith Unigolion sydd ag Amhariad ar y Golwg
- Rhwydwaith y Merched

Cyflawnir rolau grwpiau adnoddau gweithwyr yn wirfoddol ac maent yn darparu lle diogel i gydweithwyr ac unigolyn i gysylltu â nhw pan fo angen cymorth. Lluniwyd canllaw arfer da gyda chefnogaeth y grwpiau adnoddau gweithwyr a oedd yn amlinellu nodau ac amcanion y rhwydweithiau, a rôl arweinwyr y rhwydweithiau er mwyn sicrhau cysondeb. Mae'r canllawiau hefyd yn darparu fframwaith i gefnogi eu hiechyd meddwl a'u lles ac i gydbwyso eu swydd bob dydd a'u rôl fel arweinwyr rhwydwaith, yn ogystal â chynllunio ar gyfer olyniaeth.

Mae arweinwyr grwpiau adnoddau gweithwyr hefyd yn cael eu hannog gan y Tîm Cydraddoldeb i wneud mwy o ddefnydd o Gweminarau Dydd Mercher, yn enwedig wrth cynyddu ymwybyddiaeth o ddyddiadau datblygu ac arloesi arwyddocaol fel Wythnos Ymwybyddiaeth Niwroamrywiaeth, Mis Hanes LHDTC+, a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod.

## Swyddi oddi ar y gyflogres (nad ydynt yn cael eu harchwilio)

Mae'n ofynnol i ni gyhoeddi gwybodaeth am benodiadau ymgynghorwyr neu staff pan fo'r unigolion dan sylw yn ennill mwy na £245 y dydd, a lle rydym yn talu drwy anfoneb yn hytrach na thrwy'r gyflogres. Cynlluniwyd y rheolau gweithio oddi ar y gyflogres i sicrhau, os yw rhywun yn gweithio drwy gyfryngwr ac y byddai wedi cael ei ystyried fel cyflogai at ddibenion treth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol pe bai'n cael ei gyflogi'n uniongyrchol gan y sefydliad, ei fod yn talu'r un cyfraniadau treth incwm ac yswiriant gwladol yn fras â phe bai'n gyflogedig. Nid yw'r rheolau hyn yn berthnasol i bobl sydd wir yn hunangyflogedig.

Cyfrifoldeb y sefydliad yn hytrach na'r cyfryngwr yw cynnal yr asesiad at ddibenion treth. Os penderfyniad yr asesiad yw bod y rôl o fewn cwmpas IR35, bydd y cyfryngwr yn talu yr un dreth cyflogai ag y byddai cyflogai ar y gyflogres.

Yn dilyn casgliad adolygiad CThEF mewn perthynas ag IR35, mae CNC wedi adolygu ei brosesau. Nid ydym bellach yn cymryd contractwyr ymlaen yn uniongyrchol. Dim ond drwy asiantaethau y cymerir unrhyw weithwyr ymlaen oddi ar y gyflogres a, phan fo'r gweithwyr yn gyflogeion i'r asiantaethau hynny, o dan reolau treth y cynllun Talu Wrth Ennill. Felly mae'r asiantaethau'n gyfrifol am gyfraniadau treth ac yswiriant gwladol sy'n daladwy i CThEF mewn perthynas â'r achosion hyn o gymryd gweithwyr ymlaen. Mae'r achosion o gymryd gweithwyr ymlaen a ddatgelir yn y tablau isod wedi'u hasesu ac maent i gyd yn ymwneud â gweithwyr sy'n cael eu cyflogi gan asiantaeth ac felly y tu allan i gwmpas rheoliadau IR35.

Mae'r tablau canlynol yn dangos ein sefyllfa mewn perthynas â'r gofynion hyn.

**Achosion o gymryd gweithwyr ymlaen oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2025, am fwy na £245 y dydd**

| Nifer y swyddi presennol ar 31 Mawrth 2025 sydd wedi bodoli: | Nifer y gweithwyr a gymerwyd ymlaen |
|---|---|
| am lai na blwyddyn | 9 |
| am rhwng un a dwy flynedd | 1 |
| am rhwng dwy a thair blynedd | 0 |
| am rhwng tair a phedair blynedd | 0 |
| am bedair blynedd neu'n hwy | 2 |

| Nifer y swyddi presennol ar 31 Mawrth 2025 sydd wedi bodoli: | Nifer y gweithwyr a gymerwyd ymlaen |
|---|---|
| **Cyfanswm** | **12** |

**Pob gweithiwr oddi ar y gyflogres a gyflogwyd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, yn ennill £245 y dydd neu fwy**

| | Nifer y gweithwyr a gymerwyd ymlaen |
|---|---|
| Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres a gymerwyd ymlaen yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 | 19 |
| o’r rhain: | |
| Ddim yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres (wedi’u cyflogi gan sefydliad asiantaeth yn y gadwyn gyflenwi) | 19 |
| Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac wedi’u pennu i fod o fewn cwmpas IR35 | 0 |
| Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac wedi’u pennu i fod y tu allan i gwmpas IR35 | 0 |
| Nifer yr achosion o gymryd gweithwyr ymlaen a ailaseswyd at ddibenion cydymffurfio neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn | 0 |
| Nifer yr achosion o gymryd gweithwyr ymlaen a gafodd newid i’w statws IR35 yn dilyn adolygiad | 0 |

# Adroddiad Seneddol ac Archwilio (wedi'i archwilio)

## Colledion a thaliadau arbennig

Mae rheolau Rheoli Arian Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i golledion a thaliadau arbennig gael eu datgelu yn ôl categori, math a gwerth.

Mae CThEF wedi cwblhau eu hadolygiad o driniaeth dreth CNC o gontractwyr mewn perthynas â rheoliadau IR35. Penderfynwyd bod gan CNC rwymedigaethau treth ychwanegol o £14.6 miliwn o ganlyniad i'r adolygiad hwn. Mae'r gost wedi'i chyfrifo fel taliad arbennig o fewn 'gwariant arall' yn 2024/25 ac mae wedi'i chynnwys yn y tabl isod. Gwnaed taliad ar gyfrif o £19 miliwn i CThEF yn ystod 2023/24, a bydd yn cael ei wrthbwyso yn erbyn y rhwymedigaeth hon.  Mae cosbau sy'n berthnasol i'r adolygiad hwn wedi'u codi ond maent wedi'u hatal am gyfnod o 12 mis. Mewn ymateb i adolygiad CThEF, mae CNC wedi adolygu ei brosesau ar gyfer cymryd contractwyr ymlaen i sicrhau cydymffurfedd parhaus â gofynion IR35.

### Colledion a thaliadau arbennig yn ôl categori

Mae'r tabl isod yn nodi nifer yr achosion o ddileu taliadau a cheisiadau am daliadau arbennig a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn. Cymeradwywyd un taliad diswyddo arbennig hefyd ond nid yw hwn wedi'i gynnwys isod.  Mae hwn wedi'i gynnwys yn y tabl taliadau ymadael ar dudalen 61.

| Categori neu fath o golled | 2024/25 Nifer | 2024/25 £'000 | 2023/24 Nifer | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Dileu dyledion na ellir eu hadennill | 94 | 182 | 70 | 80 |
| Asedau a gollwyd | 8 | 164 | 3 | 16 |
| Colledion eraill (colledion ariannol, taliadau ofer, hawliadau na ellir eu gorfodi neu anrhegion) | 3 | 254 | 15 | 241 |
| Taliadau arbennig | 8 | 15,843 | 7 | 71 |
| **Cyfanswm** | **114** | **16,443** | **95** | **408** |
| Hepgoriad incwm* | 3 | 25 | 9 | 164 |
| **Cyfanswm** | **117** | **16,467** | **104** | **572** |

*Mae hepgor incwm yn ymwneud yn bennaf â gwerthiannau yn y dyfodol ac nid yw'n ymwneud â nodiadau credyd i'w codi yn erbyn anfonebau hanesyddol.

**Ceri Davies**

**Prif Weithredwr Dros Dro a Swyddog Cyfrifyddu** **28 Hydref 2025**

# Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 dan baragraff 32 Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llifoedd Arian a Datganiad o Newidiadau Mewn Ecwiti a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasedd arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa materion Cyfoeth Naturiol Cymru ar 31 Mawrth 2025 ac o'i gwariant net, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan baragraff 32 Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm tystysgrif sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barnau.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Caiff y sail gyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle disgwylir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a rhannau eraill o'r adroddiad a archwilir a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff eu harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 ; ac

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Rhagair, Adroddiad Perfformiad ac Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Rhagair, Adroddiad Perfformiad ac Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff ei harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- nid yw gwybodaeth a nodir gan Weinidogion Cymru ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill wedi cael ei datgelu;
- nid yw datgeliadau penodol ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF wedi cael eu gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am:

- gadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi datganiadau ariannol ac Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod wedi'i argyhoeddi eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn ei cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Swyddog Cyfrifyddu i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na

fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y corffyn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol, eu hardystio ac adrodd arnynt yn unol â  Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol yr endid a archwilir a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyfoeth Naturiol Cymru  sy'n ymwneud ag:
    - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a phu'n a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
    - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a phu'n a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
    - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: adnabod refeniw, adnabod gwariant a chofnodi siwrnalau anarferol;
- Cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg ac ymgynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyfoeth Naturiol Cymru a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith pethau eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
30 Hydref 2025

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
CaerdyddCF10 4BZ

# DATGANIADAU ARIANNOL

# a

# NODIADAU I'R CYFRIFON

# ar gyfer 2024/25

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

### Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

| | Nodyn | 2024/25<br>£'000 | 2023/24<br>Ail-ddatganwyd<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Costau staff | 3 | 130,959 | 131,482 |
| Gwaith cyfalaf a dreuliwyd yn ystod y flwyddyn | 4 | 40,480 | 48,463 |
| Gwariant arall | 5 | 133,463 | 119,698 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | 304,902 | 299,643 |
| Incwm taliadau | 6 | (50,849) | (49,664) |
| Incwm masnachol ac arall | 6 | (42,896) | (46,483) |
| Grantiau Llywodraeth Cymru | 6 | (39,760) | (34,455) |
| Cyllid Ewropeaidd ac allanol arall | 6 | (2,108) | (2,900) |
| **Incwm o gontractau gyda chwsmeriaid** | | (135,613) | (133,502) |
| **Gwariant gweithredu net cyn ennill ar ailbrisio asedau biolegol ac ariannol** | | **169,289** | **166,141** |
| Colledion ar ailbrisio asedau biolegol | 7.1 | 28,710 | 38,143 |
| Colledion ar ailbrisio asedau ariannol/ rhwymedigaethau ariannol | 9 / 10 | 1,320 | 1,349 |
| **Gwariant gweithredu net am y flwyddyn ar ôl enillion ar ailbrisio asedau biolegol ac ariannol** | | **199,319** | **205,633** |
| Cyllido ar asedau a rhwymedigaethau cynlluniau pensiwn | 16.2.5 | (5,338) | (3,677) |
| Costau cyllid | 8.2 | 163 | 101 |
| (Enillion)/colledion net ar ailbrisio | | 71 | (324) |
| **Diffyg/(Gwarged) ar gyfer y flwyddyn** | | **194,215** | **201,733** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | |
| Ailfesuriadau actiwaraidd pensiynau | 16.2.5 | 6,070 | 3,588 |
| (Enillion)/colled ar ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer | DoNWT | 162,520 | (40,749) |
| **Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **362,805** | **164,572** |

Fe ail-ddatganwyd y ffigurau cymharoll ar gyfer assed pensiwn a'r gronfa bensiwn fel a nodwyd yn Nodyn 1.9.

Mae’r nodiadau ar dudalennau 82 i 136 ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o Sefyllfa Ariannol

**Fel yr oedd ar 31 Mawrth 2025**

| | Nodyn | 31 Mawrth 2025 £'000 | 31 Mawrth 2024 (Ail-ddatganwyd) £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau ac offer | 7.1 | 1,960,906 | 2,137,597 |
| Asedau treftadaeth | 7.1 | 7,530 | 7,530 |
| Asedau biolegol | 7.1 | 366,993 | 402,189 |
| Asedau anniriaethol | 7.2 | 33,331 | 33,848 |
| Asedau hawl i ddefnyddio | 8.1 | 78,174 | 83,874 |
| Asedau ariannol | 10 | 13,689 | 15,009 |
| Symiau derbyniadwy hirdymor | 11 | 20,025 | 11,940 |
| Ased pensiwn | 16.2.5 | - | - |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | 2,480,648 | 2,691,987 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau ac offer a gedwir i'w gwerthu | | 6 | 1 |
| Rhestrau eiddo | | 1,368 | 2,500 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 11 | 58,716 | 45,121 |
| Taliadau ar gyfrif | 12 | - | 19,000 |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian par | 13 | 12,603 | 9,787 |
| **Cyfanswm asedau presennol** | | 72,693 | 76,409 |
| **Cyfanswm asedau** | | **2,553,341** | **2,768,396** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 14 | (76,457) | (79,373) |
| Rhwymedigaethau prydles | 8.2 | (1,849) | (2,339) |
| Darpariaethau | 15 | (2,344) | (3,002) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | (80,650) | (84,714) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **2,472,691** | **2,683,682** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Rhwymedigaethau prydles hirdymor | 8.2 | (6,739) | (8,221) |
| Rhwymedigaethau ariannol | 9 | (39,435) | (39,435) |
| Symiau taladwy hirdymor | 14 | (19,485) | (11,331) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | | (65,659) | (58,987) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **2,407,032** | **2,624,695** |
| **Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd eraill wrth gefn** | | | |
| Cronfa gyffredinol | DoNET | 481,833 | 517,260 |
| Cronfa ailbrisio | DoNET | 1,925,136 | 2,107,435 |
| Cronfa pensiynau | DoNET | - | - |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | **2,445,835** | **2,624,695** |

Fe ail-ddatganwyd y ffigurau cymharoll ar gyfer assed pensiwn a'r gronfa bensiwn fel a nodwyd yn Nodyn 1.9

Mae'r nodiadau ar dudalennau 82 i 136 ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd ar 28 Hydref 2025 a llofnodwyd ar ei ran gan:

Ceri Davies
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro

Dyddiad: 28 Hydref 2025

## Datganiad Llifoedd Arian

### Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

| | Nodyn | 2024/25 £'000 | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant gweithredu net | DoWNC | (169,289) | (166,141) |
| Addasu trafodiadau anariannol | | 39,052 | 39,825 |
| Symudiad mewn masnach a symiau derbyniadwy erail | 11 | (21,670) | (14,710) |
| Symudiad mewn taliadau ar gyfrif | 12 | 19,000 | (19,000) |
| Symudiad mewn masnach a symiau taladwy eraill | 14 | 5,228 | 38,573 |
| Symudiad mewn rhwymedigaethau ariannol | DoSA | - | - |
| Symudiad mewn darpariaethau | DoSA | (658) | (33) |
| **Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(128,337)** | **(121,486)** |
| | | | |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu asedau diriaethol | 7.1 | (6,413) | (7,383) |
| Prynu asedau anniriaethol | 7.2 | (5,423) | (7,710) |
| Elw ar waredu eiddo, peiriannau ac offer | | 459 | 215 |
| Elw ar gael gwared ar asedau ariannol | | - | - |
| **Llif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(11,377)** | **(14,878)** |
| | | | |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau cyllido** | | | |
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru | DoNET | 145,152 | 144,133 |
| Ad-dalu rhwymedigaethau prydles | 8.2 | (2,612) | (3,059) |
| **Cyllido Net** | | **142,540** | **141,074** |
| | | | |
| **Cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod yn y cyfnod** | | **2,816** | **4,710** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | | **9,787** | **5,077** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y** | 13 | **12,603** | **9,787** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 82 i 136 ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

| | Cronfa Gyffredinol | Cronfa Ailbrisio | Cronfa Bensiwn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans agoriadol** | **517,260** | **2,107,435** | **-** | **2,624,695** |
| Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | (362,805) | - | - | **(362,815)** |
| **Symud yn ystod y flwyddyn** | | | | |
| Ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer | 159,413 | (159,413) | - | **-** |
| Ailbrisio asedau hawl i ddefnyddio | 3,107 | (3,107) | - | **-** |
| Ailbrisiad a wireddwyd | 19,779 | (19,779) | - | **-** |
| Symudiad actiwaraidd ar y cynllun pensiwn | 6,070 | - | (6,070) | **-** |
| Cynnydd mewn gwarged pensiwn | (6,070) | - | 6,070 | **-** |
| **Cyfanswm symudiad yn ystod y flwyddyn** | **182,299** | **(182,299)** | **-** | **-** |
| **Cyllid** | | | | |
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru | 145,142 | - | - | **145,152** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **481,896** | **1,925,136** | **-** | **2,407,032** |

Cronfa Gyffredinol - yn adlewyrchu sefyllfa gronnus gwariant net a chyllid gan Llywodraeth Cymru.
Cronfa Ailbrisio - yn adlewyrchu'r balans cronnus o ailbrisio a mynegeio asedau anghyfredol.
Cronfa Bensiwn - yn adlewyrchu sefyllfa gronnus rhwymedigaethau net y cynllun pensiwn.

## Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

| | Cronfa Gyffredinol (Ail-ddatganwyd) | Cronfa Ailbrisio | Cronfa Bensiwn (Ail-ddatganwyd) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans Agoriadol** | **554,611** | **2,090,523** | **-** | **2,645,134** |
| Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | (164,572) | - | - | **(164,572)** |
| Ailddyrannu ailbrisio [1] | 1,505 | (1,505) | | **-** |
| **Symud yn ystod y flwyddyn** | | | | |
| Ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer | (28,685) | 28,685 | - | **-** |
| Ailbrisio asedau hawl i ddefnyddio | (12,064) | 12,064 | - | **-** |
| Ailbrisiad a wireddwyd | 22,332 | (22,332) | - | **-** |
| Symudiad actiwaraidd ar y cynllun pensiwn (Ail-ddatganwyd) | 3,588 | - | (3,588) | **-** |
| Cynnydd mewn rhwymedigaethau pensiwn | (3,588) | - | 3,588 | **-** |
| **Cyfanswm symudiad yn ystod y flwyddyn** | **(18,417)** | **18,417** | **-** | **-** |
| **Cyllid** | | | | |
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru | 144,133 | - | - | **144,133** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **517,260** | **2,107,435** | **-** | **2,624,695** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 82 i 136 ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

1 Gwnaed ailddyraniad o £1,505k rhwng y Gronfa Ailbrisio a'r Gronfa Gyffredinol i gywiro'r balans ailbrisio a ddelir mewn perthynas ag Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.

# Nodyn 1 Polisïau cyfrifyddu

## 1.1 Gofyniad i baratoi cyfrifon

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM) y Llywodraeth 2024/25 a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi, a gyda'r cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â pharagraff 23(1) Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn y FReM yn cymhwyso'r safonau adroddiadau ariannol rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu eu dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, mae'r cyfrifon hyn yn dilyn y polisi sydd fwyaf priodol i roi golwg gwir a theg ar Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Disgrifir y polisïau a fabwysiadwyd isod ac yn y gwahanol nodiadau i'r cyfrifon. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir yn ddeunyddiau i'r cyfrifon.

Wrth baratoi datganiadau ariannol, mae'n ofynnol gwneud amryw amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar gymhwyso polisïau cyfrifyddu a symiau yr adroddir amdanynt. Mae'r holl amcangyfrifon a dyfarniadau o'r fath yn cael eu hadolygu'n barhaus. Cydnabyddir diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn y cyfnod y caiff yr amcangyfrif ei ddiwygio ac mewn unrhyw gyfnod yn y dyfodol yr effeithir arno. Mae'r holl amcangyfrifon yn seiliedig ar wybodaeth o ffeithiau ac amgylchiadau cyfredol, rhagdybiaethau ynghylch digwyddiadau'r gorffennol a rhagolygon am ddigwyddiadau yn y dyfodol.

Dangosir y meysydd amcangyfrif mwyaf arwyddocaol a'r dyfarniadau beirniadol yn erbyn y nodiadau perthnasol, a gall canlyniadau gwirioneddol y dyfodol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

## 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn ar sail croniadau, o dan y confensiwn costau hanesyddol, a addaswyd yn unol â'n polisïau, gan ystyried ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar, ac asedau anghyfredol biolegol, anniriaethol ac ariannol i werth teg fel y'u pennir gan y safon gyfrifyddu berthnasol.

Mae'r datganiadau ariannol hyn yn seiliedig ar yr egwyddor busnes byw.

## 1.3 Cymorth grant

Mae taliadau cymorth grant a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu trin fel cyllid a dderbynnir gan barti rheoli. Fe'u cofnodir fel trafodiad cyllido ac fe'u credydir yn uniongyrchol i'r gronfa gyffredinol yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol ac nid trwy'r Datganiad o Wariant net Cynhwysfawr.

Yn ystod 2024/25, defnyddiodd CNC £14.6m o Gymorth Grant i dalu rhwymedigaethau treth ychwannegol yn deillio o ymchwiliad Cyllid a Thollau ei Fawrhydi (CThEF) i driniaeth CNC o gytundebau contractwyr oddi ar y gyflogres.

Derbyniodd CNC £5.1 yn rhan o Rodd Cymorth Cyfalaf ar gyfer 2024/25 i ariannu costau corfforaethol yn gysylltiedig a phrosiectau cyfalaf. Mae'r costau hyn wedi eu cynnwys yn Costau Staff a Chostau Eraill yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Mae taliadau eraill nad ydynt yn Gymorth Grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Mae Rhodd Cymorth a dderbyniwyd cyn 31 Mawrth 2025 i ddarparu CNC gyda'r arian parod angenrheidiol I reoli ei sefyllfa dyledwyr a chredydwyr yn cael ei adrodd yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol o fewn credydwyr ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd hefyd yn gostwng y Rhodd Cymorth mewn arian parod a fydd CNC yn ei dderbyn yn ystod 2025/26.

### 1.4 Incwm, gwariant a grantiau

Mae sail croniadau cyfrifyddu yn golygu bod incwm a gwariant a ddatgelir yn y cyfrifon yn cael eu cyfrif yn y flwyddyn y mae'r gweithgaredd perthnasol yn cael ei gynnal, yn hytrach na phan fydd taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu eu derbyn.

Ffioedd opsiynau ac incwm cysylltiedig a dderbynnir gan weithredwyr ffermydd gwynt yw'r unig eithriad, y rhoddir cyfrif amdanynt yn y flwyddyn y cawsant eu derbyn. Mae'r incwm a gynhyrchir gan ffermydd gwynt sy'n ddarostyngedig i Nodyn Cyngor Technegol 8 Llywodraeth Cymru a 'Dyfodol Cymru - Y cynllun cenedlaethol 2040' yn cael ei ildio i Lywodraeth Cymru os nad oes cytundeb arall. Bydd y swm a ildir yn net o gostau CNC o reoli ei rôl wrth hyrwyddo Agenda Ynni Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol, gan gynnwys lliniaru digolledu. Mae'r les ar gyfer fferm wynt Cefn Croes yn eithriad gan fod yr incwm a gynhyrchir gan y les hon yn cael ei gadw gan CNC. I gyd-fynd â'r driniaeth gyfrifyddu gan Lywodraeth Cymru, dangosir gwerth net incwm ffermydd gwynt ar ôl didynnu'r taliad i Lywodraeth Cymru o fewn incwm ynni adnewyddadwy yn nodyn 6.

Mae incwm a dderbynnir cyn cwblhau'r gwaith yn cael ei drin fel incwm gohiriedig.

Pan gydnabuwyd incwm a gwariant ond na dderbyniwyd ac na thalwyd arian parod, cofnodir swm taladwy neu dderbyniadwy am y swm perthnasol yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol. Pan na fydd dyledion yn cael eu setlo o bosibl, mae balans y symiau derbyniadwy yn cael ei gofnodi a chodir tâl ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr am yr incwm na fyddai o bosibl yn cael ei gasglu.

Cydnabyddir cyfraniadau grant a dderbynnir nad ydynt yn gymorth grant yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

### 1.5 Rhestr Eiddo

Mae stocrestr yn cynnwys stociau coed sydd wedi cwympo ac sy'n cael eu prisio fel gwerth teg llai y costau gwerthu amcangyfrifedig y disgwylir iddynt gael eu cwblhau a'u gwaredu. Mae hyn yn cynnwys stoc mewn perthynas â gwerthiannau sefydlog a chynhyrchu uniongyrchol. Amcangyfrifir gwerth teg gan ddefnyddio prisiau gwerthu disgwyliedig.

### 1.6 Treth ar werth

Dosberthir CNC fel corff y mae adran 33 Deddf Treth Ar Werth (TAW) 1994 yn berthnasol iddo, ac yn unol â hynny, mae'n adennill treth a dalwyd ar weithgareddau busnes a gweithgareddau nad ydynt yn fusnes. Mae adennill TAW ar gyflenwadau eithriedig yn dibynnu ar y trothwy ar gyfer gweithgareddau eithriedig. Ym mhob achos, pan godir treth allbwn, neu y gellir adennill treth fewnbwn, nodir y symiau a gynhwysir yn y cyfrifon hyn yn net o TAW.

### 1.7 Ardaloedd draenio mewnol

Mae CNC yn gweithredu fel y bwrdd draenio sy'n cynnal 13 o ardaloedd draenio mewnol yng Nghymru. Ariennir y gwaith a wneir ym mhob ardal drwy gyfuniad o gyfraddau draenio a godir ar ddeiliaid tir amaethyddol ac ardollau arbennig a delir gan awdurdodau lleol mewn perthynas â thir nad yw'n amaethyddol.

Mae'n ofynnol, o dan adran 40 Deddf Draenio Tir 1991, i CNC bennu cyfraddau draenio, a thrwy reoliad 7 Rheoliadau Byrddau Draenio Mewnol (Cyllid) 1992, i gyhoeddi ardollau arbennig cyn 15 Chwefror y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn y maent yn ymwneud â hi.

Cafodd y cyfraddau draenio, ardollau arbennig a praeseptau ar gyfer 2024/25 eu gosod gan CNC oedd yn gweithredu fel y bwrdd draenio. Mae'r incwm hwn wedi'i gynnwys yn Nodyn 6.

### 1.8 Asedau diriaethol

Yn hanesyddol, mae tir ac adeiladau a strwythurau cyhoeddus (yr adroddir amdanynt mewn strwythurau gweithredol) yn cael prisiad proffesiynol bob pum mlynedd yn unol â safonau gwerthuso a phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) (y Llyfr Coch).

Yn 2020/21 sefydlwyd rhaglen dreigl ar gyfer Prisiadau llawn (gweler Nodyn 7). Rhwng prisiadau llawn, mae asedau'n cael eu prisio’n rheolaidd bob blwyddyn. Ar gyfer 2024/25, darparwyd y prisiadau hyn gan gwmnïau perthnasol syrfewyr siartredig neu gan briswyr mewnol. Cwblhawyd y prisiadau ar gyfer yr asedau hyn hefyd yn unol â gofynion Llyfr Coch RICS fel y cyfeiriwyd atynt uchod.

### 1.9 Mabwysiadu dehongliadau Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) neu'r llawlyfr adrodd ariannol (FReM) newydd a diwygiedig a newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu

**Newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu**

Ar 31 Mawrth 2025, mae CNC wedi newid y sail ar gyfer cyfrifo nenfwd asedau pensiwn y CPLIL yn seiliedig ar gyngor cyfreithiol pellach a dderbyniwyd. Mae CNC bellach yn cefnogi'r farn a dderbynnir yn gyffredinol bod gofyniad ariannu lleiaf yn bodoli o fewn cronfeydd y CPLIL ac yn ystyried y cyfraniadau gwasanaeth yn y dyfodol fel gofyniad ariannu lleiaf ar gyfer EAPF. Mae hwn yn newid mewn polisïau cyfrifyddu ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i werth yr asedau pensiwn gael ei ailddatgan ar 31 Mawrth 2024 o £57.9m i £Dim. Mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys yn nodyn 16.

**Newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu**

Nid oedd unrhyw newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

**Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) sy’n effeithiol yn y datganiadau ariannol hyn**

Mae'r holl ddehongliadau a diwygiadau IFRS sy'n effeithiol yn ystod y cyfnod adrodd hwn wedi'u mabwysiadu yn y datganiadau hyn.

**Safonau adrodd ariannol rhyngwladol sy'n effeithiol ar gyfer blynyddoedd ariannol yn y dyfodol**

Mae nifer o IFRS, diwygiadau a dehongliadau a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol, yn effeithiol mewn cyfnodau adrodd yn y dyfodol. Amlinellir y rhai sy'n berthnasol i CNC isod. Nid yw CNC wedi mabwysiadu unrhyw safonau IFRS newydd yn gynnar a byddant yn defnyddio'r safonau wrth eu mabwysiadu'n ffurfiol yn y FReM.

*IAS 21*

Ym mis Awst 2023, diwygiodd y IASB IAS 21 'Effeithiau Newidiadau mewn Cyfraddau Cyfnewid Tramor' i egluro'r dull y dylai paratowyr datganiadau ariannol ei gymryd pan fyddant yn adrodd ar drafodion arian cyfred tramor, yn cyfieithu gweithrediadau tramor neu'n cyflwyno datganiadau ariannol mewn arian cyfred gwahanol, ac mae diffyg cyfnewidioldeb hirdymor rhwng yr arian cyfred perthnasol.

Mae'r gwelliannau i IAS 21 yn weithredol ar gyfer cyfnodau adrodd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2025, gan ganiatáu defnydd cynharach. Ni ddisgwylir i'r diwygiadau hyn gael effaith sylweddol ar adroddiadau ariannol.

*Diwygiadau i Ddosbarthu a Mesur Offerynnau Ariannol (Diwygiadau i IFRS 9 ac IFRS 7)*

Ym mis Mai 2024, diwygiodd yr IASB IFRS 9 ac IFRS 7, yn dilyn adolygiad ôl-weithredu (PIR) o IFRS 9. Mae'r addasiad hwn yn ystyried cyfrifyddu ar gyfer setliad ased neu rwymedigaeth ariannol gan ddefnyddio system dalu electronig, a chymhwyso'r gofynion ar gyfer asesu arian parod cytundebol nodweddion llif i asedau ariannol gyda nodweddion sy'n gysylltiedig â materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG).

Mae'r addasiadau'n weithredol o gyfnodau adrodd blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2026, a chaniateir mabwysiadu'r Safonau hyn yn gynnar. Ni ddisgwylir i'r diwygiadau hyn gael effaith sylweddol ar adroddiadau ariannol.

*Gwelliannau Blynyddol i Safonau Cyfrifyddu IFRS*

Ym mis Gorffennaf 2024, cyhoeddodd y IASB ganllaw 'Gwelliannau Blynyddol i Safonau Cyfrifyddu IFRS – Cyfrol 11'. Mae'r cyhoeddiad yn gasgliad o welliannau i Safonau Cyfrifyddu IFRS a drafodwyd gan yr IASB yn ystod y cylch prosiect cyfredol ar gyfer gwelliannau blynyddol. Mae'r IASB yn defnyddio'r broses Gwelliannau Blynyddol i wneud gwelliannau angenrheidiol, ond nad ydynt yn frys, i Safonau Cyfrifyddu IFRS na fyddant yn cael eu cynnwys fel rhan o unrhyw brosiect arall.

Mae'r gwelliannau'n weithredol o gyfnodau adrodd blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2026, a chaniateir eu mabwysiadu'n gynnar. Ni ddisgwylir i'r diwygiadau hyn gael effaith sylweddol ar adroddiadau ariannol.

*Contractau sy'n Cyfeirio at Drydan sy'n Ddibynnol ar Natur (Addasiadau i IFRS 9 ac IFRS 7)*

Ym mis Rhagfyr 2024, cyhoeddodd yr IASB addasiadau i IFRS 9 ac IFRS 7 i fynd i'r afael â phroblemau gyda chyfrifyddu ar gyfer contractau cysylltiedig sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy. Mae'r addasiadau hefyd wedi'u hadlewyrchu yn IFRS 19 'Is-gwmnïau heb Atebolrwydd Cyhoeddus: Datgeliadau'.

Mae'r addasiadau'n weithredol ar gyfer cyfnodau sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2026, a chaniateir eu mabwysiadu'n gynnar. Rhaid rhoi'r addasiadau i IFRS 7 ar waith ar yr un pryd â'r addasiadau i IFRS 9. Ni ddisgwylir i'r diwygiadau hyn gael effaith sylweddol ar adroddiadau ariannol.

*IFRS 18 'Cyflwyniad a Datgeliadau mewn Datganiadau Ariannol'*

Ym mis Ebrill 2024, cyhoeddodd yr IASB ei safon newydd gyntaf ers 2017. Mae'r safon newydd, IFRS 18 'Cyflwyniad a Datgeliad mewn Datganiadau Ariannol' yn disodli IAS 1 a bydd yn effeithio ar bob endid adrodd sy'n defnyddio Safonau Cyfrifyddu IFRS ar hyn o bryd. Y prif newid a gyflwynwyd gan IFRS 18 yw'r ffordd y bydd endidau sy'n adrodd yn strwythuro eu datganiad o elw neu golled. Mae hyn yn cyflwyno safoni cyflwyniad eitemau incwm a gwariant a lefelau diffiniedig o gategoreiddio.

Mae'r Safon yn weithredol o gyfnodau adrodd blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2027. Caniateir mabwysiadu'r Safon yn gynnar. Mae'n bwysig nodi bod rhaid cymhwyso IFRS 18 yn ôl-weithredol, felly mae angen ailddatgan yr holl wybodaeth gymharol pan gaiff y Safon ei mabwysiadu. Mae effaith IFRS 18 ar y sector cyhoeddus yn dal i gael ei hasesu. Bydd CNC yn rhoi'r Safon hon ar waith yn unol â chyfarwyddyd FReM.

*IFRS 17 – Contractau Yswiriant*

Bydd y safon hon yn berthnasol i bob math o gontract yswiriant ac yn cynnig dull blociau adeiladu yn seiliedig ar werth presennol disgwyliedig llif arian parod yn y dyfodol i fesur rhwymedigaethau contract yswiriant.

Mae IFRS 17 yn disodli'r safon flaenorol ar gontractau yswiriant, sef IFRS 4. Bydd IFRS 17 yn cael ei addasu ar gyfer cyd-destun y llywodraeth ganolog a gwneir diweddariadau i FReM 25/26, gyda dyddiad gweithredu o 1 Ebrill 2025 (gyda dewisiadau cyfyngedig ar gyfer mabwysiadu'n gynnar).

Bydd effaith ariannol cymhwyso IFRS 17 yn cael ei asesu; fodd bynnag, ni ddisgwylir i welliannau effeithio'n sylweddol ar adrodd ariannol.

## 1.10 Darpariaethau ariannol (Safleoedd tirlenwi)

Ar gyfer pob safle tirlenwi, mae angen sefydlu trefniadau darpariaeth ariannol cyn cyflwyno trwydded. Rhaid i'r trefniadau darpariaeth ariannol fod ar waith cyn dechrau camau gweithredu gwaredu, ac mae angen i ddarpariaethau o'r fath fod yn ddigonol (mewn termau ariannol), yn ddiogel ac ar gael pan fo angen. Mae safleoedd tirlenwi yn cynnwys yr holl safleoedd gwastraff sy'n ddarostyngedig i'r gyfarwyddeb tirlenwi.

Mae’r canlynol yn brif systemau y bydd CNC yn eu derbyn ar gyfer dangos trefniadau darpariaeth ariannol:

- Bondiau adnewyddadwy (dangosir yn nodyn 14)
- Blaendaliadau arian parod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (dangosir yn nodyn 14)
- Cyfrifon Escrow
- Cytundebau gweithredoedd awdurdodau lleol
- Gwarantau rhiant-gwmni
- Cytundebau ymbarél (yn ymwneud â nifer o safleoedd)

## 1.11 Nodiadau i'r cyfrifon

Mae Nodyn 2 yn darparu dadansoddiad o incwm a gwariant i segmentau gweithredu. Mae nodiadau 3 i 16 yn cynnig dadansoddiad o ffigurau perthnasol a adroddwyd yn natganiadau gwariant net cynhwysfawr, sefyllfa ariannol a llif arian parod. Mae nodiadau 17 i 22 yn ymwneud â ffigurau na ddatgelir mewn mannau eraill yn y cyfrifon hyn.

## 2. Dadansoddiad o wariant gweithredu net fesul segment

### Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

Mae'r segmentau hyn yn gydrannau er mwyn rheoli ac adrodd am wybodaeth ariannol yn fewnol.

Priodolwyd incwm a gwariant a ddangosir isod yn uniongyrchol i'r segmentau.

| | Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Gweithrediadau | Tystiolaeth Polisi a Thrwyddedu | Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol | Strategaeth a Datblygu Corfforaethol | Rheolir yn ganolog | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Adroddwyd fesul segment** | | | | | | | |
| Gwariant gweithredu | 44,333 | 120,946 | 78,460 | 10,548 | 11,414 | 39,201 | 304,902 |
| Incwm gweithredu | (948) | (61,514) | (66,498) | (6,553) | (100) | - | (135,613) |
| **Cyfanswm** | 43,385 | 59,432 | 11,962 | 3,995 | 11,314 | 39,201 | 169,289 |
| **Gwariant cyfalaf** | 9,142 | 2,072 | 468 | 154 | - | - | 11,836 |

Mae CNC yn penderfynu y gellir defnyddio'r categorïau canlynol i fodloni'r gofyniad datgelu dadgyfuno yn IFRS 15.

| | Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Gweithrediadau | Tystiolaeth Polisi a Thrwyddedu | Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol | Strategaeth a Datblygu Corfforaethol | Rheolir yn ganolog | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Adroddwyd fesul segment** | | | | | | | |
| Ffioedd a thaliadau | 123 | 272 | 50,454 | - | - | - | 50,849 |
| Masnachol | 123 | 36,037 | 107 | 6,529 | 100 | - | 42,896 |
| Grantiau Llywodraeth Cymru | 702 | 23,304 | 15,730 | 24 | - | - | 39,760 |
| Cyllid Ewropeaidd ac allanol arall | - | 1,901 | 207 | - | - | - | 2,108 |
| **Cyfanswm** | 948 | 61,514 | 66,498 | 6,553 | 100 | - | 135,613 |
| **Adroddwyd fesul segment** | | | | | | | |
| Llywodraeth | 705 | 24,413 | 16,479 | 24 | 122 | - | 41,743 |
| Anllywodraethol | 243 | 37,101 | 50,019 | 6,529 | (22) | - | 93,906 |
| **Cyfanswm** | 948 | 61,514 | 66,498 | 6,553 | 100 | - | 135,649 |

## Dadansoddiad o wariant gweithredu net yn ôl segment (parhad)

### Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

| | Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Gweithrediadau | Tystiolaeth Polisi a Thrwyddedu | Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Gwybodaeth | Strategaeth a Datblygu Corfforaethol | Rheolir yn ganolog | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Adroddwyd fesul segment** | | | | | | | |
| Gwariant gweithredu | 36,144 | 127,844 | 74,466 | 14,667 | 6,395 | 40,127 | 299,643 |
| Incwm gweithredu | (1,335) | (53,421) | (69,704) | (8,947) | (95) | - | (133,502) |
| **Cyfanswm** | 34,809 | 74,423 | 4,762 | 5,720 | 6,300 | 40,127 | 166,141 |
| | | | | | | | |
| **Gwariant cyfalaf** | 8,729 | 3,720 | 2,628 | 16 | - | - | 15,093 |

Mae CNC yn penderfynu y gellir defnyddio'r categorïau canlynol i fodloni'r gofyniad datgelu dadgyfuno yn IFRS 15.

| | Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Gweithrediadau | Tystiolaeth Polisi a Thrwyddedu | Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol | Strategaeth a Datblygu Corfforaethol | Rheolir yn ganolog | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Adroddwyd fesul segment** | | | | | | | |
| Ffioedd a thaliadau | 660 | 314 | 48,690 | - | - | - | 49,664 |
| Masnachol | 237 | 36,577 | 627 | 8,947 | 95 | - | 46,483 |
| Grantiau Llywodraeth Cymru | 438 | 13,956 | 20,061 | - | - | - | 34,455 |
| Cyllid Ewropeaidd ac allanol arall | | 2,574 | 326 | - | - | - | 2,900 |
| **Cyfanswm** | 1,335 | 53,421 | 69,704 | 8,947 | 95 | - | 133,502 |
| | | | | | | | |
| **Adroddwyd fesul segment** | | | | | | | |
| Llywodraeth | 433 | 14,998 | 21,323 | 2 | 91 | - | 36,847 |
| Anllywodraethol | 902 | 38,423 | 48,381 | 8,945 | 4 | - | 96,655 |
| **Cyfanswm** | 1,335 | 53,421 | 69,704 | 8,947 | 95 | - | 133,502 |

## Dadansoddiad o wariant gweithredu net yn ôl segment (parhad)

**Disgrifiad o'r segmentau**

| | |
|---|---|
| **Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol** | Mae'r Gyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn darparu gwasanaethau ariannol, archwilio a sicrhau risg, gwasanaethau TGCh, rheoli adeiladau, rheoli fflyd a'r rhaglen adnewyddu.<br><br>Yn ystod 2023/24, rhoddwyd trefniadau parhaol ar waith i reoli ffioedd a thaliadau o fewn y gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu yn hytrach nag o fewn y Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol. Mewn blynyddoedd blaenorol, adroddwyd am yr incwm cysylltiedig fel incwm Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol ond o 2023/24, fe'u hadroddir fel incwm Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedau. Mae adrodd ar y costau sy'n gysylltiedig â'r ffioedd a'r taliadau yn aros yr un fath ag mewn blynyddoedd blaenorol. |
| **Gweithrediadau** | Mae gan y Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau y prif gyfrifoldeb dros sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yn ardal ddaearyddol Cymru, gan gynnwys ei hamgylchedd morol, ar draws ystod o gylch gwaith CNC. Mae hefyd yn rheoli rhaglenni cyfalaf, gweithrediadau masnachol a gwasanaethau cynllunio a morol ar gyfer Cymru gyfan. |
| **Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu** | Mae'r Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu yn darparu cydgysylltiad canolog blaengar i'r sefydliad, gan arwain ar y gwaith o ddatblygu polisi a strategaeth, tystiolaeth, offer, safonau, arweiniad a chyngor i alluogi timau eraill CNC, cydweithwyr o fewn Llywodraeth Cymru a phartneriaid i gyflawni eu cylch gwaith. Mae hefyd rhai rolau cyflawni uniongyrchol yn y gyfarwyddiaeth fel y Gwasanaeth Trwyddedu a'r Gwasanaeth Darogan Llifogydd. Fel y soniwyd uchod, o 2023/24 ymlaen, rheolir incwm o ffioedd a thaliadau o fewn y gyfarwyddiaeth hon ac felly mae'r incwm a adroddir yn adlewyrchu'r newid hwn. |
| **Cyfathrebu Cwsmeriaid a Masnachol** | Cysylltiadau allanol, cyfathrebu a'r ganolfan gyswllt cwsmeriaid. Mae hyn hefyd yn cynnwys cyfrifoldeb am wasanaethau masnachol a chymorth caffael. Yn ystod y flwyddyn, symudodd y cyfrifoldeb am lywodraethu corfforaethol a swyddogaethau cyfreithiol i fod o fewn y gyfarwyddiaeth hon dros dro. |
| **Strategaeth a Datblygu Corfforaethol** | Mae'r Gyfarwyddiaeth Datblygu a Strategaeth Gorfforaethol yn arwain nifer o swyddogaethau trawsbynciol CNC, gan gynnwys cynllunio strategol a pherfformiad; gwelliant parhaus a rheoli rhaglenni; datblygu sefydliadol ac ymgysylltu â staff. Symudwyd y swyddogaethau llywodraethu corfforaethol a chyfreithiol o'r gyfarwyddiaeth hon dros dro. Mae hefyd yn cefnogi Bwrdd CNC a'r Prif Weithredwr. |
| **Rheolir yn ganolog** | Incwm a gwariant a reolir yn ganolog ac na ddyrennir i gyfarwyddiaethau. Mae'n cynnwys dibrisiant, gwerth llyfr torri coed, croniadau diwedd blwyddyn ar gyfer darpariaethau. |

## 3. Costau staff

Mae manylion pellach am gostau a niferoedd staff bellach yn cael eu datgelu o fewn y tabl Costau o fewn yr Adroddiad Cyflogau a Staff.

| | 2024/25 | | | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol** | **Arall Staff** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Taliadu a chyflogau | 99,267 | 5,301 | 104,568 | 108,145 |
| Nawdd cymdeithasol a chostau trethu eraill | 10,808 | 693 | 11,501 | 11,520 |
| Costau pensiwn eraill | 25,788 | 355 | 26,143 | 24,656 |
| **Cyfanswm costau cyflog net** | **135,863** | **6,349** | **142,212** | **144,321** |
| Gwariant arall ar gyfer staff | | | 624 | 117 |
| Llai symiau a godir ar brosiectau cyfalaf | | | (11,877) | (12,956) |
| **Cyfanswm costau staff** | | | **130,959** | **131,482** |

## 4. Gwaith cyfalaf a dreuliwyd yn ystod y flwyddyn

| Rhaglenni | 2024/25 Gwirioneddol £'000 | 2023/24 Gwirioneddol £'000 | 31 Mawrth 2025 wedi ymrwymo £'000 | 31 Mawrth 2024 wedi ymrwymo (Aill-ddatganwyd) £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Perygl Llifogydd | 13,506 | 25,231 | 2,205 | 6,940 |
| Argyfwng Natur a Hinsawdd | 20,555 | 18,956 | 3,429 | 4,550 |
| Arall | 6,419 | 4,276 | 2,715 | 2,211 |
| **Cyfanswm** | **40,480** | **48,463** | **8,349** | **13,701** |

Mae gwaith cyfalaf mewn treuliau yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â gwariant sy'n gyfalaf o ran natur ond lle nad CNC sy'n gyfrifol am y risgiau a'r manteision cysylltiedig neu'n berchen ar yr ased sy'n cael ei adeiladu. Yn unol ag IAS 16, mae gwariant yn gyfalaf ei natur pan fo'n ymwneud ag asedau y bwriedir eu defnyddio, yn barhaus, wrth gynhyrchu neu gyflawni swyddogaethau CNC neu at ddiben gweinyddol. Ni fwriedir iddynt gael eu gwerthu yn ystod busnes arferol. At ddibenion gwaith cyfalaf mewn treuliau yn ystod y flwyddyn, gellir diffinio ei natur gyfalaf hefyd drwy gytundeb grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru.

Y meini prawf ar gyfer gwariant i'w ddosbarthu fel gwaith cyfalaf mewn treuliau yn ystod y flwyddyn yw;

- Lle mae cyllid cyfalaf dynodedig Llywodraeth Cymru wedi'i ddyrannu i gynllun, na fyddai fel arfer yn arwain at gaffael ased diriaethol neu anniriaethol sy'n eiddo i CNC yn unol ag IAS 16
- Lle nad yw'r risg a'r gwobrau sy'n ymwneud â bod yn berchen ar yr ased yn nwylo CNC, ond gyda thrydydd parti; neu
- Lle na fyddai'r ased sy'n cael ei greu, waeth beth fo'r ffynhonnell ariannu, yn gallu cael ei nodi'n hawdd mewn unrhyw ymarfer dilysu asedau yn y dyfodol.

**Perygl Llifogydd**

Asedau rheoli perygl llifogydd ac arfordirol wedi'u hadeiladu ar dir nad yw CNC yn berchen arno ond lle mae ganddo bwerau caniataol i gynnal amddiffyniad, megis:

- Adfer ac adnewyddu
  Gwaith i sicrhau bod cyflwr yr amddiffynfeydd llifogydd yn cael ei gadw yn y cyflwr priodol a'i adfer i'r cyflwr hwnnw yn ôl yr angen.
- Argloddiau
  Creu, gwella neu godi argloddiau ar hyd cyrsiau dŵr i leihau'r risg y bydd y dŵr yn dianc o sianel yr afon.
- Mapio Llifogydd
  Cynhyrchu mapiau aml-haenog sy'n cyflwyno gwybodaeth am lifogydd o ddŵr daear, afonydd a'r môr yng Nghymru, ac sy'n cynnwys gwybodaeth am amddiffynfeydd llifogydd a'r ardaloedd sy'n elwa o'r amddiffynfeydd llifogydd hynny.
- Gosod seilbyst
  Gosod silbyst ar hyd glannau'r afon i'w cryfhau a diogelu'r tir cyfagos ac atal tirlithriadau i'r afon gan achosi rhwystrau. Byddai'r gwaith hwn o dan y ddaear i raddau helaeth.
- Gwelliannau i geuffosydd a sianelau
  Atgyweirio neu ailosod ceuffosydd o dan dir, ffyrdd ac eiddo a gwella sianeli sy'n cynorthwyo llif cyrsiau dŵr.

- Strategaethau rheoli perygl llifogydd
  Datblygu strategaethau i gynnig opsiynau hirdymor o ran rheoli'r perygl o lifogydd i gynnwys ardal fawr. O'r strategaethau hirdymor y mae prosiectau risg llifogydd unigol yn cael eu datblygu.

- Cynlluniau rheoli llifogydd
  Mae Cynlluniau Rheoli Lefel y Dŵr a Chynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylch yn cael eu paratoi gyda'r nod o lunio polisïau rheoli'r perygl o lifogydd sy'n rheoli'r perygl o lifogydd mewn modd cynaliadwy ar gyfer yr hirdymor ar draws dalgylch.

**Argyfwng Natur a Hinsawdd a Rhaglenni Eraill**

- Gwella Safleoedd Gwarchodedig
  Camau i wella cyflwr safleoedd gwarchodedig a'u nodweddion, ac i adeiladu Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn (RENs) gyda safleoedd gwarchodedig wrth eu gwraidd. Yn cynnwys gweithgareddau ar draws safleoedd gwarchodedig, ar ystâd CNC a chan eraill drwy gyngor, arweiniad a chyllid a gefnogir yn bennaf drwy Gytundebau Rheoli Tir.

- Mawndir
  Gweithio i gefnogi'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd.

- Gwella Ansawdd Dŵr
  Gwaith cyfalaf i wella ansawdd dŵr i wella cydymffurfiaeth â Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017.

- Pysgodfeydd
  Gwaith sy'n gwella Cynefin Pysgod i ddiogelu stociau pysgod yn y dyfodol a/neu fynd i'r afael â'r prif rwystrau risg uchel sy'n rhwystro symudiadau pysgod i fyny'r afon ac i lawr yr afon yn ogystal ag effeithio'n andwyol ar forffoleg afonydd.

- Mwyngloddiau Metel
  Dyluniad manwl o systemau trin dŵr i atal llygredd dŵr o fwyngloddiau. Astudiaethau dichonoldeb, datblygu archwiliadau o amgylch mwyngloddiau i ddargyfeirio'r dŵr i ffwrdd oddi wrthynt.

- Gwella statws cadwraeth
  Gwaith sy'n gwella statws cadwraeth tir nad yw o dan reolaeth uniongyrchol CNC. Mae hyn yn cynnwys gwella safleoedd coetir hynafol a blannwyd yn Flaenoriaeth 1 a llwybrau newydd a adeiladwyd at ddefnydd y cyhoedd.

- Gwaith diogelwch cronfeydd dŵr
  Gwelliannau i gronfeydd dŵr lle mae Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 yn rhoi'r cyfrifoldeb hwnnw ar berchennog y gronfa. Yn benodol, mae'r mesurau hyn yn cael eu cymryd er budd diogelwch.

- Coedwig Genedlaethol
  Prosiectau i helpu safleoedd coetir i ennill statws y Goedwig Genedlaethol. Buddsoddiad cyfalaf mewn Coedwigoedd Cenedlaethol presennol i gynnal statws.

- Gwaith arall
  Yn cynnwys gwelliannau i lifddorau a dyfrffyrdd eraill, amnewid telemetreg.

Mae'r datgeliad ymrwymiad ar 31 Mawrth 2024 wedi'i ailddatgan yn unol â'r datgeliad yn nodyn 18.

## 5. Gwariant arall

| | 2024/25 | 2023/24 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Eitemau arian parod** | | |
| Gwasanaethau a brynwyd i mewn | 16,008 | 19,533 |
| Cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr | 12,546 | 12,066 |
| Costau TGCh | 8,002 | 8,093 |
| Rhwydwaith ffyrdd coedwig | 7,312 | 6,272 |
| Costau rhedeg swyddfa | 6,945 | 5,479 |
| Deunyddiau ac offer | 4,138 | 3,801 |
| Costau fflyd | 3,634 | 2,997 |
| Cytundebau lefel gwasanaeth | 2,475 | 2,678 |
| Costau cysylltiedig â staff | 2,172 | 2,534 |
| Cytundebau cydweithredol | 2,087 | 1,831 |
| Grantiau | 979 | 1,818 |
| Teithio a chynhaliaeth | 832 | 1,080 |
| Ffioedd a chostau llys | 1,251 | 932 |
| Costau gweithredol | 488 | 739 |
| Ardrethi | 664 | 692 |
| Colledion a thaliadau arbennig [1.] | 16,108 | 328 |
| Rhenti | 256 | 295 |
| Ffioedd archwilio statudol | 207 | 231 |
| **Is-gyfanswm** | **86,104** | **71,399** |
| | | |
| **Gwariant nad yw'n arian parod** | | |
| Gwerth y pren a werthir | 24,719 | 25,501 |
| Dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad | 14,852 | 14,252 |
| Symud ar gytundebau gweithredu cronfeydd dŵr | 8,154 | 8,478 |
| Colledion [1.] | 345 | 80 |
| Symud ar y golled credyd disgwyliedig | (95) | 55 |
| Dadgydnabod asedau [2.] | 156 | 28 |
| Symudiad ar ddarpariaethau eraill | (658) | (32) |
| Enillion wrth waredu asedau | (104) | (63) |
| **Is-gyfanswm** | **47,369** | **48,299** |
| | | |
| **Cyfanswm** | **133,473** | **119,698** |

1. Dangosir manylion dyledion a ddilëwyd, colledion a thaliadau arbennig yn yr adroddiad Seneddol ac Archwilio.

2. Gwariant cyfalafol o £23k nad arweiniodd at gwblhau ased cyfalaf fel y'i diffinnir gan IAS 16; a gwariant o £133k yn deillio o ased dyblyg a ddadgydnabuwyd yn ystod 2024/25 (Cafodd gwariant cyfalafol o £28k nad arweiniodd at gwblhau ased cyfalaf fel y'i diffinnir gan IAS 16 ei ddadgydnabu yn ystod 2023/24).

## 6. Dadansoddiad incwm

### Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

| | 2024/25 £'000 | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| Ffioedd tynnu dŵr [1] | 31,003 | 29,774 |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr | 7,590 | 7,586 |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau | 4,017 | 3,682 |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff | 2,348 | 2,317 |
| Taliadau diogelu amgylcheddol eraill | 1,884 | 1,925 |
| Trwyddedau pysgota | 1,227 | 1,135 |
| Gwastraff Peryglus | 796 | 1,085 |
| Rheoleiddio niwclear | 612 | 842 |
| Gwaith adnoddau dŵr gwaith y gellir codi tâl amdano | 766 | 742 |
| Masnachu allyriadau | 257 | 334 |
| Trwyddedu Morol | 349 | 242 |
| **Cyfanswm incwm taliadau** | **50,849** | **49,664** |
| Incwm o bren | 31,118 | 31,914 |
| Incwm o ynni adnewyddadwy [2] | 5,735 | 7,977 |
| Incwm o ystadau | 2,939 | 2,952 |
| Incwm o ardaloedd draenio mewnol | 1,388 | 1,516 |
| Darparu gwybodaeth a gwasanaethau | 1,433 | 1,489 |
| Incwm amrywiol | (71) | 359 |
| Costau cyfreithiol a adenillwyd ac incwm Deddf Elw Trosedda | 301 | 246 |
| Llog derbyniadwy | 53 | 30 |
| **Incwm masnachol ac arall** | **42,896** | **46,483** |
| **Grantiau Llywodraeth Cymru** | **39,760** | **34,455** |
| Incwm Ewropeaidd [3] | 684 | 2,390 |
| Grantiau a chyfraniadau | 1,424 | 510 |
| **Cyllid Ewropeaidd ac allanol arall** | **2,108** | **2,900** |
| **Cyfanswm yr incwm** | **135,613** | **133,502** |

1. Mae taliadau tynnu dŵr yn cynnwys incwm o £8,154k (incwm o £478k ar gyfer 23/24) mewn perthynas â thaliadau cynyddol i Dŵr Cymru Welsh Water a godir tâl ar gwsmeriaid ar eu cyfer, fel y manylir yn nodyn 9.
2. Dangosir incwm ynni adnewyddadwy yn net o ffioedd sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag incwm ynni gwynt. Mae'r gweddill o £5,735k (£7,977k yn 2023/24) yn cynrychioli incwm o £15,808k (£19,667k yn 2023/24) ar ôl didynnu'r taliad ffi i Lywodraeth Cymru o £10,073k (£11,690kyn 2023/24).
3. Gan gynnwys incwm a hawlir trwy Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru ar gyfer prosiectau a ariennir gan Ewrop.

### 6.1 Dadansoddiad o ffioedd a thaliadau

| Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2025 | Incwm £'000 | Gwariant £'000 | Gwarged/ (Diffyg) £'000 |
|---|---|---|---|
| Ffioedd tynnu dŵr | 31,384 | 31,003 | **381** |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr | 8,075 | 7,590 | **485** |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau | 4,267 | 4,017 | **250** |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff | 2,206 | 2,348 | **(142)** |
| Taliadau diogelu amgylcheddol eraill | 2,047 | 1,884 | **163** |
| Trwyddedau pysgota | 1,227 | 1,227 | **-** |
| Gwastraff Peryglus | 933 | 796 | **137** |
| Rheoleiddio niwclear | 620 | 612 | **8** |
| Gwaith adnoddau dŵr gwaith y gellir codi tâl amdano | 766 | 766 | **-** |
| Masnachu allyriadau | 188 | 257 | **(69)** |
| Trwyddedau morol | 349 | 349 | **-** |
| **Cyfanswm** | **52,062** | **50,849** | **1,213** |

| Ffigurau cymharol - ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 3 | Incwm £'000 | Gwariant £'000 | Gwarged/ (Diffyg) £'000 |
|---|---|---|---|
| Ffioedd tynnu dŵr | 30,648 | 29,774 | **874** |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr | 7,292 | 7,586 | **(294)** |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau | 3,447 | 3,682 | **(235)** |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff | 1,902 | 2,317 | **(415)** |
| Taliadau diogelu amgylcheddol eraill | 1,772 | 1,925 | **(153)** |
| Trwyddedau pysgota | 1,135 | 1,135 | **-** |
| Gwastraff Peryglus | 951 | 1,085 | **(134)** |
| Rheoleiddio niwclear | 744 | 842 | **(98)** |
| Gwaith adnoddau dŵr gwaith y gellir codi tâl amdano | 742 | 742 | **-** |
| Masnachu allyriadau | 170 | 334 | **(164)** |
| Trwyddedau morol | 242 | 242 | **-** |
| **Cyfanswm** | **49,045** | **49,664** | **(619)** |

Mae refeniw yn cael ei gydnabod yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth a bennir mewn contract gyda'r cwsmer. Mae CNC yn cydnabod refeniw yn unol â'r pum cam a nodir yn IFRS 15 Revenue o gontractau â chwsmeriaid. Cydnabyddir refeniw pan fydd CNC yn cyflawni rhwymedigaeth perfformiad.

Mae incwm o daliadau am reoleiddio busnesau yng Nghymru i fonitro a rheoli eu heffaith ar yr amgylchedd, boed yn aer, dŵr neu dir, yn deillio o gyfuniad o ffioedd a thaliadau. Mae incwm taliadau yn disgyn i ddau brif gategori:

**Ceisiadau** am ganiatâd neu drwydded.  Y contract gyda'r cwsmer yw adolygu ei gais a chyflwyno ased a elwir yn drwydded sy'n rhoi'r hawl gyfreithiol i'r cwsmer gyflawni ei weithrediad wedi’i reoleiddio gennym ni. Mae gennym hawl ddiamod i dderbyn taliad gan y cwsmer pan gyflwynir cais am drwydded. Ni fydd CNC yn dechrau’r asesiad nes bod yr arian wedi'i dderbyn. Cydnabyddir yr incwm ar yr adeg y gwneir y cais a phan y derbynnir arian.  Ar gyfer ffioedd trwydded 12 mis sy'n daladwy o fewn blwyddyn ariannol, mae'r rhwymedigaeth dros y 12 mis hwnnw fel bod incwm yn briodol i'r blynyddoedd ariannol perthnasol.  Lle derbynnir incwm cais ar gyfer Ansawdd Dŵr, Gwastraff a Gosodiadau yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol, cynhelir asesiad a chaiff y gwerth sy'n briodol i'r flwyddyn ariannol nesaf fel derbyniadau ymlaen llaw ei gario ymlaen o fewn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

**Tâl** cynhaliaeth sy'n gysylltiedig â thrwyddedau a chaniatadau, sy'n rhoi hawl gyfreithiol i'r cwsmer gynnal ei weithrediad am gyfnod o amser o dan reoliad CNC. Unwaith y bydd trwydded wedi'i rhoi, mae CNC yn ysgwyddo'r risgiau sy'n ymwneud â rheoleiddio'r cwsmer yn ei weithgaredd. Ym mhob achos, mae'r cwsmer yn derbyn y drwydded ar yr un pryd â'r anfoneb ac felly cydnabyddir incwm cynhaliaeth pan gaiff ei filio ar yr adeg y mae cyfnod newydd y drwydded yn dechrau.  Cyhoeddir anfonebau yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol honno ac maent yn ddyledus i'w talu ar unwaith.  Ar gyfer ffioedd a gyhoeddir yn ystod y flwyddyn, codir yr anfoneb ar sail pro-rata o ddyddiad y drwydded neu'r drwydded hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.  Os caiff trwydded ei hildio, yna codir nodyn credyd o'r dyddiad y daw i ben hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Ar gyfer trafodion masnachol, mae'r cwsmer yn derbyn ac yn defnyddio'r buddion a ddarperir ar yr un pryd, ac mae'r refeniw yn cael ei gydnabod ar adeg benodol.

Yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, mae ffioedd a thaliadau yn cael eu pennu ar sail adennill costau llawn gan ystyried balansau’r cynllun. Mae gwargedion a diffygion cronedig sy'n ymwneud â'n cynlluniau taliadau yn cael eu trin fel incwm gohiriedig neu incwm cronedig yn dibynnu a yw'r cynllun codi tâl mewn gwarged neu ddiffyg. Dim ond pan fyddant wedi codi ar ddamwain o ganlyniad i amgylchiadau heb eu cynllunio yn unol â diffiniad Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru y mae'r balansau hyn yn cael eu trin fel incwm gohiriedig, neu lle mae cynllun yn y dyfodol i ddefnyddio'r balansau hynny. Ystyrir y balansau incwm gohiriedig a chronedig wrth bennu ffioedd a thaliadau blynyddoedd i ddod er mwyn cyflawni sefyllfa adennill costau dros gyfnod rhesymol o amser, nad yw, oherwydd gwahaniaethau amseru, yn cael ei ystyried yn briodol o fewn un flwyddyn ariannol.

Mae gennym drefniant trosiannol ar waith lle bydd balansau materol heb gynllun yn cael eu lleihau. Cytunwyd ar gynllun rhaglen ar gyfer adolygiadau cynhaliaeth ffioedd gyda'n tîm gweithredol a disgwylir i'r gwaith hwn barhau y tu hwnt i 31 Mawrth 2025.  Felly bydd angen i ni ymestyn y trefniant trosglwyddo nes i ni gwblhau'r adolygiadau manwl hyn.  Mae'r driniaeth hon yn mynd y tu hwnt i’r meini prawf cydnabod refeniw safonol a amlinellir yn y paragraff cyntaf uchod.

**Barn sylweddol ar gydnabod incwm i sicrhau sefyllfa o adennill costau**

Cydnabyddir incwm pan fydd rhwymedigaethau perfformiad yn cael eu bodloni yn unol ag IFRS 15. Ar gyfer incwm masnachol yn ogystal ag incwm taliadau lle mae'r rhwymedigaethau perfformiad yn cael eu bodloni ar bwynt penodol mewn amser, cydnabyddir yr incwm ar y pwynt hwnnw ac nid oes angen asesiad.

Fodd bynnag, ar gyfer elfennau o incwm taliadau y codir tâl amdanynt ar bwynt penodol mewn amser, ond bod y rhwymedigaeth perfformiad yn cael ei bodloni dros gyfnod o amser, mae angen asesiad i sicrhau bod yr incwm cywir yn cael ei gydnabod ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae CNC yn gwneud asesiad ar incwm taliadau a godwyd yn ystod y flwyddyn ac yn gwerthuso'r rhwymedigaethau perfformiad a fodlonwyd. Gwneir trosglwyddiad rhwng incwm taliadau a thaliadau (Nodyn 14) neu rhwng derbyniadau (Nodyn 11) ac incwm taliadau lle mae'r incwm a godwyd bil amdano yn wahanol i'r incwm i'w gydnabod.

Fel y soniwyd uchod, mae'n ofynnol i gynlluniau taliadau adennill costau dros gyfnod rhesymol o amser ac mae angen barn wrth asesu'r ffactorau y tu ôl i a fydd y gwarged neu'r diffyg (a adroddir yn nodiadau 11 a 14) yn arwain at sefyllfa adennill costau dros y cyfnod rhesymol hwn. Caiff ffioedd a thaliadau eu hadolygu a'u hailgyfrifo'n flynyddol i sicrhau y bydd yr holl wariant yn cael ei adennill dros amser.

Mae gwariant a ariennir gan gymorth grant wedi'i eithrio o'r tabl uchod. Nid yw'r tabl yn cynnwys effaith addasiadau pensiwn IAS 19 ond mae'n cynnwys cyfraniadau cyflogwr yn ystod y flwyddyn i'r cynlluniau pensiwn, sy'n cael eu trosglwyddo i dalwyr taliadau. Yr amcan ariannol ar gyfer y cynlluniau codi tâl yw adennill costau yn llawn gan gynnwys dibrisiant cost cyfredol a chyfradd enillion ar asedau perthnasol.

Mae gweithgareddau allweddol pob adran yn cael eu rhestru isod:

- Taliadau tynnu – codi tâl ar fusnesau sy'n tynnu dŵr o afonydd neu ddŵr daear. Mae'r incwm a adroddir hefyd yn cynnwys elfennau eraill o incwm adnoddau dŵr.
- Gwaith adnoddau dŵr y gellir codi tâl amdano – incwm i adfer ymdrech adnoddau dŵr CNC ar lawr gwlad, megis costau gweithredol yn nalgylch Hafren Uchaf (ar ochr Cymru o'r ffin), sy'n dod o dan awdurdodaeth Asiantaeth yr Amgylchedd.
- Trwyddedau pysgota – codi tâl ar unigolion am drwyddedau i bysgota.
- Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr – codi tâl am ollyngiadau gan fusnesau i'r amgylchedd.
- Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau – caniatáu rheoli a lleihau llygredd o weithgareddau diwydiannol.
- Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: rheoli gwastraff – trwyddedu ac esemptiadau.
- Gwastraff peryglus – trwyddedu ar gyfer cynhyrchu, cludo, neu dderbyn gwastraff peryglus.
- Masnachu allyriadau – rheoleiddio busnesau o dan gynlluniau'r UE.
- Rheoleiddio niwclear – rheoleiddio safleoedd niwclear a rhai nad ydynt yn niwclear a safleoedd niwclear sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd.
- Trwyddedau morol – rheoleiddio dyddodion, symudiadau, prosiectau adeiladu ar wely'r môr neu oddi tano a phob math o lusgrwydo.
- Diogelu'r amgylchedd mewn ffordd arall – trwyddedu ar gyfer cofrestru cludwyr gwastraff a broceriaid, llwythi trawsffiniol, trwyddedu cyfrifoldeb cynhyrchwyr am offer electronig a thrydanol gwastraff, cerbydau diwedd oes, biffenylau polyclorinedig, cydsyniadau amddiffyn rhag llifogydd, cydymffurfiaeth cronfeydd dŵr, cyngor cynllunio datblygu a rheoleiddio busnesau o dan gynlluniau fel rheoli peryglon damweiniau mawr.

## 7. Asedau anghyfredol

Mae dau gategori o asedau anghyfredol – asedau diriaethol a ddangosir yn Nodyn 7.1 ac asedau anniriaethol a ddangosir yn Nodyn 7.2

**Cydnabyddiaeth**

Mae'r holl dir yn cael ei gyfalafu waeth beth fo'i werth. Y trothwy ar gyfer cyfalafu asedau eraill sydd ag oes economaidd ddefnyddiol o fwy na blwyddyn yw £5,000. Gellir grwpio eitemau unigol sy'n costio llai na £5,000 fel un ased os yw cyfanswm y gost yn fwy na £5,000, a bod yr asedau hyn yn gweithredu fel rhan o rwydwaith. Mae gwariant dilynol ar ased yn cael ei gyfalafu os bodlonir y meini prawf ar gyfer cyfalafu cychwynnol, ei bod hi'n debygol y bydd manteision economaidd ychwanegol i CNC ac y gellir mesur cost y gwariant yn ddibynadwy. Mae costau dilynol wedi'u cynnwys yn swm cario'r ased neu'n cael eu cydnabod fel ased ar wahân, os yw'n briodol.

Mae asedau ar brydles i bartïon allanol o dan brydles weithredol yn cael eu cyfalafu o dan y polisi cyfrifyddu priodol.

Gwneir dyfarniad i gategoreiddio gwariant fel gwaith cyfalaf a godir yn ystod y flwyddyn, ac asedau diriaethol ac anniriaethol.

**Mesur**

Adroddir ar yr holl asedau anghyfredol ar wahân i asedau treftadaeth ac asedau sy'n cael eu hadeiladu naill ai ar werth cyfredol yn y defnydd presennol neu werth teg yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol.

Mae asedau a ddosberthir fel asedau treftadaeth yn cynnwys tir mewn ardaloedd cadwraeth dynodedig. Mae'r tir hwn yn cael ei gadw i gefnogi diben CNC. Oherwydd natur amrywiol y tir a gedwir a gwerthoedd marchnad tebyg, mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn y byddai sicrhau prisiadau allanol yn golygu cost anghymesur. Felly, mae asedau treftadaeth yn cael eu dal ar gost. Cydnabyddir costau cadw (gwariant sy'n ofynnol i ddiogelu'r ased treftadaeth) yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan gânt eu gwario. Ceir rhagor o wybodaeth am asedau treftadaeth yn nodyn 7.1.3.

Mae peiriannau, offer technoleg gwybodaeth ac asedau anniriaethol oll yn asedau tymor byr a defnyddir cost hanesyddol wedi'i dibrisio fel procsi ar gyfer gwerth teg.

Mae asedau sydd wedi'u cyfalafu fel rhai sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu cludo ar gostau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddod â'r ased i'r lleoliad ac i'r cyflwr sy'n angenrheidiol er mwyn iddo allu gweithredu yn y modd a fwriadwyd gan reolwyr. Ni chânt eu hailbrisio ac fe'u trosglwyddir i'r categori asedau anghyfredol priodol pan fyddant wedi'u cwblhau ac yn barod i'w defnyddio.

**Mynegeio ac Ailbrisio**

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwahanol fethodolegau prisio a ddefnyddir ar gyfer y gwahanol gategorïau o asedau a adroddir amdanynt yn nodyn 7.1

Sicrhawyd ansawdd y prisiadau a'r mynegeion a gymhwyswyd gan brif syrfëwr CNC. Roedd gan bob prisiwr ddigon o wybodaeth leol a chenedlaethol gyfredol o'r farchnad, a'r sgiliau a'r ddealltwriaeth i gyflawni'r prisiad yn gymwys.

Cynhaliwyd yr holl brisiadau yn unol â gofynion Safonau Prisio perthnasol RICS.

**Rhaglen Dreigl**

| Colofn adrodd yn Nodyn 7.1 | Dosbarth Ased | Methodoleg Prisio | Dyddiad prisiad llawn diwethaf | Proses ar gyfer 2024/25 | Prisiwr |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ystad Goedwig** | Ystad Goedwig | Gwerth teg | 31 Mawrth 2021 | Prisiad interim | Savills |
| **Tir rhydd-ddaliad** | Tir Amaethyddol - Ased ac Adeiladau | Gwerth teg | 31 Mawrth 2023 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Tir Amaethyddol - Heb Adeiladau | Gwerth teg | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Ystad Goetir Llywodraeth Cymru | Gwerth teg | 31 Mawrth 2021 | Prisiad interim | Savills |
| | Tir rhydd-ddaliad | Gwerth teg | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| **Tir Arall** | Ffermydd Gwynt | Gwerth teg | 31 Mawrth 2024 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Cynlluniau Hydro | Gwerth teg | 31 Mawrth 2024 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Mynediad trydydd parti | Gwerth teg | 31 Mawrth 2024 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Mastiau Telecom | Gwerth teg | 31 Mawrth 2024 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Lesoedd Mwynau | Gwerth teg | 31 Mawrth 2024 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Cytundebau Eraill | Gwerth teg | 31 Mawrth 2024 | Prisiad llawn | Mewnol |
| | Forest Holidays | Gwerth teg | 31 Mawrth 2024 | Prisiad llawn | Mewnol |
| **Adeiladau** | Anheddau | Gwerth teg | 31 Mawrth 2022 | Prisiad llawn | Allanol |
| | Swyddfeydd a Masnachol | Gwerth teg | 31 Mawrth 2022 | Prisiad llawn | Allanol |
| | Adeiladau Eraill (heb fod yn arbenigol) | Gwerth teg | 31 Mawrth 2022 | Prisiad llawn | Allanol |
| | Depos (arbenigol) | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad llawn | Allanol |
| | Siediau ceirw (arbenigol) | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad llawn | Allanol |
| | Blociau Toiledau (arbenigol) | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad llawn | Allanol |
| | Cuddfannau Adar | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad llawn | Allanol |
| | Canolfannau Ymwelwyr a Gwybodaeth (arbenigol) | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad llawn | Allanol |
| | Arall (arbenigol) | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad llawn | Allanol |

| Colofn adrodd yn Nodyn 7.1 | Dosbarth Ased | Methodoleg Prisio | Dyddiad prisiad llawn diwethaf | Proses ar gyfer 2024/25 | Prisiwr |
|---|---|---|---|---|---|
| **Strwythurau Gweithredol** | Tyllau turio | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Ddim yn berthnasol | Mynegai | Mewnol |
| | Gorsaf Fesur | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Ddim yn berthnasol | Mynegai | Mewnol |
| | Llifddorau a choredau | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Ddim yn berthnasol | Mynegai | Mewnol |
| | Strwythurau Môr ac Afon | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Ddim yn berthnasol | Mynegai | Mewnol |
| | Llifddorau | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Ddim yn berthnasol | Mynegai | Mewnol |
| | Arall | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Ddim yn berthnasol | Mynegai | Mewnol |
| | Gorsafoedd pwmpio | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Ddim yn berthnasol | Mynegai | Mewnol |
| | Llwybrau Pysgod | Cost hanesyddol wedi'i haddasu | Ddim yn berthnasol | Mynegai | Mewnol |
| **Strwythurau Gweithredol (Strwythurau Cyhoeddus)** | Llwybrau Pren | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Llwybrau Beicio | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Arall | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Meysydd parcio | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| | Llwybrau cerdded | Cost amnewid dibrisiedig | 31 Mawrth 2022 | Prisiad interim | Mewnol |
| **Asedau Biolegol** | Asedau Biolegol | Gwerth teg | 31 Mawrth 2021 | Prisiad interim | Savills |
| **Asedau Treftadaet** | Asedau Treftadaeth | Cost hanesyddol | Ddim yn berthnasol | Yn cael ei gadw ar gost | Ddim yn berthnasol |
| **Ased Hawl i Ddefnyddio (Prydlesi Hedyn Pupur)** | Ystad Goedwig | Gwerth teg | 31 Mawrth 2021 | Prisiad interim | Savills |

Mae Ystâd y Goedwig, tir, adeiladau a strwythurau cyhoeddus wedi cael eu prisio’n llawn yn broffesiynol bob pum mlynedd yn y gorffennol yn unol â safonau gwerthuso a phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) (y Llyfr Coch).

Yn 2020/21 sefydlwyd rhaglen dreigl ar gyfer prisiadau llawn. Darperir y prisiadau ar 31 Mawrth 2025 gan gwmnïau perthnasol y Syrfewyr Siartredig neu gan briswyr mewnol. Lle cynhaliwyd prisiad llawn, nodir hyn yn y tabl uchod. Rhwng y prisiadau llawn hyn, mae asedau’n cael eu prisio neu eu mynegeio’n rheolaidd bob blwyddyn.

Lle cynhaliwyd prisiadau mewnol, fe’u cyflawnwyd gan ein tîm mewnol o syrfewyr siartredig, dan gyfarwyddyd y prif syrfëwr.

Lle nad oes prisiad wedi’i gynnal, cyflwynwyd y cyfraddau mynegeio priodol gan y Prif Syrfëwr.

Ar gyfer strwythurau gweithredol, byddai FReM yn disgwyl i ni ddefnyddio'r dull cost amnewid dibrisiedig. Ar gyfer strwythurau gweithredol CNC (heb gynnwys strwythurau cyhoeddus), mae hynny'n anymarferol ac nid yw'n gost-effeithiol, felly rydym wedi defnyddio cost hanesyddol wedi'i haddasu fel procsi ar gyfer cost amnewid wedi'i ddibrisio i roi gwerth teg i ni.

Mae addasiadau sy'n codi o fynegeio ac ailbrisiadau yn mynd i'r gronfa ailbrisio oni bai bod y balans wrth gefn mewn perthynas ag ased penodol wedi'i ddefnyddio'n llawn yn erbyn ailbrisiad disgynnol, ac os felly, cydnabyddir y symudiad yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr. Trosglwyddir unrhyw ostyngiadau parhaol mewn gwerth i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

**Dibrisiant ac amorteiddiad**

Nid yw tir (ystâd y goedwig a thir heblaw coedwig) a hawliau anniriaethol i dir yn cael eu dibrisio, oni bai bod y tir yn elfen hanfodol o strwythur gweithredol. Mae'r asedau hyn yn cael eu dibrisio dros oes y strwythur gweithredol perthnasol. Nid yw asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu dibrisio nes eu bod yn gallu gweithredu yn y modd a fwriadwyd gan reolwyr.

Mae cerbydau a ddangosir yn y categori peiriannau ac offer yn cael eu dibrisio ar sail cydbwysedd sy'n lleihau ar gyfradd o 21%. Mae pob ased arall yn cael ei ddibrisio/amorteiddio ar sail llinell syth dros eu hoes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig. Codir dibrisiant ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ym mis ei waredu, ond nid ym mis ei gaffael.

Gwneir dyfarniad ar yr oes economaidd ddefnyddiol sy'n ffurfio sylfaen i'r cyfnod y mae eiddo, peiriannau ac offer yn cael eu dibrisio ac asedau anniriaethol yn cael eu hamorteiddio. Mae amcangyfrif o oes asedau yn cael ei hadolygu a'i haddasu os yw'n briodol ar bob dyddiad adrodd. Y prif oesoedd defnyddiol a ddefnyddir at ddibenion dibrisiant yw:

| **Categori Asedau** | **Prif oes defnyddiol** |
|---|---|
| **Asedau diriaethol** | |
| Adeiladau ac Anheddau | 10 - 60 mlynedd |
| Peiriannau ac offer | 4 - 25 mlynedd |
| Technoleg Gwybodaeth | 3 - 10 mlynedd |
| Strwythurau Gweithredol | 5 - 100 mlynedd |
| **Asedau anniriaethol** | |
| Trwyddedau meddalwedd | 5 - 25 mlynedd |
| Trwyddedau eraill | 5 - 50 mlynedd |
| Datblygiadau meddalwedd | 3 - 10 mlynedd |
| Gwefan | 5 - 10 mlynedd |

Mae'r ystod yn yr oesoedd defnyddiol uchod yn adlewyrchu'r amrywiaeth o asedau yn y categorïau asedau. Byddai asedau gwella lesddaliad yn eithriad, sydd â’r un oes â’r les gymharol. Mae trwyddedau eraill hefyd yn cynnwys asedau a ddelir am byth. Mae gan y rhan fwyaf o asedau yn y categorïau hyn oesoedd defnyddiol yn yr ystodau hyn.

**Gwarediadau**

Pan waredir ar ased, caiff ei swm cario ei ddileu yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r golled wrth ei waredu. Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) hefyd yn cael eu credydu i'r enillion neu’r colledion wrth eu gwaredu. Trosglwyddir unrhyw enillion ailbrisio a gronnwyd ar gyfer yr ased yn y gronfa ailbrisio i'r gronfa gyffredinol.

**Cronfa Ailbrisio**

Mae'r gronfa ailbrisio yn dangos yr enillion a wnaed gan CNC sy'n deillio o godi gwerth asedau anghyfredol. Mae’r balans yn lleihau pan fydd asedau ag enillion cronnus:

- Yn cael eu hailbrisio tuag i lawr neu wedi’u gwanhau a chollir yr enillion.
- Yn cael eu defnyddio wrth ddarparu gwasanaethau a chaiff yr enillion eu defnyddio trwy ddibrisiant.
- Yn cael eu gwaredu a gwireddir yr enillion.

Mae swm sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y dibrisiant a godir ar swm cario ailbrisio'r asedau a dibrisiant yn seiliedig ar gost wreiddiol yr ased yn cael ei drosglwyddo o'r gronfa ailbrisio i'r gronfa gyffredinol.

**Amhariad**

Mae asedau anghyfredol yn cael eu hadolygu o ran amhariad bob blwyddyn. Cydnabyddir amhariadau pan fydd swm adferadwy asedau anghyfredol yn disgyn yn is na’u gwerth llyfr net, o ganlyniad naill ai i gwymp mewn gwerth oherwydd amodau’r farchnad, colled mewn budd economaidd neu ostyngiad mewn potensial gwasanaeth. Mae ailbrisiadau disgynnol sy’n deillio o newidiadau yng ngwerth y farchnad yn arwain at amhariad pan fydd yr ased yn cael ei ailbrisio yn is na’i swm cario cost hanesyddol yn unig. Mae'r FReM yn ei gwneud yn ofynnol mai’r colledion amharu hynny nad ydynt yn deillio o ddefnydd clir o fudd economaidd neu ostyngiad mewn potensial gwasanaeth yn unig y dylid eu gosod yn gyntaf yn erbyn unrhyw falans cronedig yn y gronfa ailbrisio. Cydnabyddir unrhyw swm ychwanegol at hyn yn amhariad trwy’r datganiad o wariant net cynhwysfawr. Dylid cymryd colledion amhariad sy’n codi o ddefnydd clir o fudd economaidd neu ostyngiad mewn potensial gwasanaeth yn llawn i’r Datganiad o Warant Net Cynhwysfawr. Trosglwyddir swm i werth yr amhariad o’r gronfa ailbrisio i’r gronfa gyffredinol ar gyfer yr asedau unigol dan sylw.

**Asedau anghyfredol a gedwir i’w gwerthu**

Mae asedau anghyfredol yn cael eu dosbarthu fel asedau a gedwir i'w gwerthu os bydd y swm cario yn cael ei adfer yn bennaf trwy drafodiad gwerthu yn hytrach na thrwy ddefnydd parhaus, ac ystyrir bod gwerthiant o fewn 12 mis i'r dyddiad adrodd yn debygol iawn, bod y rheolwyr wedi ymrwymo i werthu a bod yr ased yn cael ei farchnata'n weithredol yn ei gyflwr presennol am bris sy'n rhesymol mewn perthynas â'i gyflwr presennol. Daw dibrisiant i ben ar unwaith wrth ddosbarthu’r asedau fel rhai sy’n cael eu dal i’w gwerthu. Fe’u nodir ar y lefel isaf o’u swm cario a’u gwerth teg llai costau i’w gwerthu, ac fe’u cofnodir fel asedau cyfredol yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol.

## 7.1 Asedau diriaethol anghyfredol

| | Ystad goedwig | Tir arall | Adeiladau | Peiriannau ac offer | Technoleg gwybodaeth | Strwythurau gweithredol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm eiddo, peiriannau ac offer | Asedau biolegol | Asedau treftadaeth | Cyfanswm asedau diriaethol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Ar 1 Ebrill 2024** | 1,743,751 | 299,859 | 14,730 | 27,675 | 1,376 | 96,794 | 5,695 | **2,189,880** | 402,189 | 7,530 | **2,599,599** |
| Ychwanegiadau | - | 45 | 200 | 2,165 | 54 | 344 | 3,605 | **6,413** | - | - | **6,413** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dil | - | (400) | (200) | (804) | - | - | (137) | **(1,541)** | - | - | **(1,541)** |
| Symud o/(i) gadw i'w werthu | - | - | - | 161 | - | - | - | **161** | - | - | **161** |
| Cwympiadau | (17,100) | - | - | - | - | - | - | **(17,100)** | (6,486) | - | **(23,586)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | (109,228) | (57,419) | 3,724 | - | - | 1,697 | - | **(161,226)** | (28,710) | - | **(189,936)** |
| Ailddosbarthu | - | 45 | 233 | 186 | 127 | 1,592 | (2,183) | **-** | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | 1,617,423 | 242,130 | 18,687 | 29,383 | 1,557 | 100,427 | 6,980 | **2,016,587** | 366,993 | 7,530 | **2,391,110** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Dibrisiad** | | | | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2024** | - | - | 1,809 | 17,610 | 719 | 32,145 | - | **52,283** | - | - | **52,283** |
| Taliadu yn ystod y flwyddyn | - | - | 641 | 1,830 | 180 | 3,191 | - | **5,842** | - | - | **5,842** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dil | - | - | (111) | (756) | - | - | - | **(867)** | - | - | **(867)** |
| Symud o/(i) gadw i'w werthu | - | - | - | 165 | - | - | - | **165** | - | - | **165** |
| Mynegeio ac ailbrisio | - | - | (2,279) | - | - | 537 | - | **(1,742)** | - | - | **(1,742)** |
| Ailddosbarthu | - | - | - | - | - | - | - | **-** | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | - | - | 60 | 18,849 | 899 | 35,873 | - | **55,681** | - | - | **55,681** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Swm cario ar 1 Ebrill 2024** | **1,743,751** | **299,859** | **12,921** | **10,065** | **657** | **64,649** | **5,695** | **2,137,597** | **402,189** | **7,530** | **2,547,316** |
| **Cario swm ar 31 Mawrth 2025** | **1,617,423** | **242,130** | **18,627** | **10,534** | **658** | **64,554** | **6,980** | **1,960,906** | **366,993** | **7,530** | **2,335,429** |

Mae'r adeiladau'n cynnwys anheddau gyda swm cario o £215k. Mae'r adeiladau eraill yn swyddfeydd a chanolfannau gwaith.

Y swm a gedwir yn y Gronfa Ailbrisio ar gyfer asedau diriaethol ar 31 Mawrth 2025 oedd £1,859,410k.

## Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

| | Ystad goedwig | Tir arall | Adeiladau | Peiriannau ac offer | Technoleg gwybodaeth | Strwythurau gweithredol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm eiddo, peiriannau ac offer | Asedau biolegol | Asedau treftadaeth | Cyfanswm asedau diriaethol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Ar 1 Ebrill 2023** | 1,787,442 | 246,111 | 14,366 | 26,992 | 13,702 | 94,556 | 3,525 | **2,186,694** | 447,864 | 7,474 | **2,642,032** |
| Ychwanegiadau | - | 1,039 | 134 | 1,640 | 18 | 91 | 4,461 | **7,383** | - | - | **7,383** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dil | - | (4) | - | (824) | (12,376) | (103) | - | **(13,307)** | - | - | **(13,307)** |
| Symud o/(i) gadw i'w werthu | 8 | - | (1) | (244) | - | - | - | **(237)** | - | - | **(237)** |
| Cwympiadau | (19,857) | - | - | - | - | - | - | **(19,857)** | (7,532) | - | **(27,389)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | (23,842) | 51,143 | 231 | - | - | 1,655 | - | **29,187** | (38,143) | - | **(8,956)** |
| Ailddosbarthu | - | 1,570 | - | 111 | 32 | 595 | (2,291) | **17** | - | 56 | **73** |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | 1,743,751 | 299,859 | 14,730 | 27,675 | 1,376 | 96,794 | 5,695 | **2,189,880** | 402,189 | 7,530 | **2,599,599** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Dibrisiad** | | | | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2023** | - | - | 1,156 | 16,796 | 12,947 | 28,576 | - | **59,475** | - | - | **59,475** |
| Taliadu yn ystod y flwyddyn | - | - | 642 | 1,756 | 148 | 3,157 | - | **5,703** | - | - | **5,703** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dil | - | - | - | (677) | (12,376) | (87) | - | **(13,140)** | - | - | **(13,140)** |
| Symud o/(i) gadw i'w werthu | - | - | - | (246) | - | - | - | **(246)** | - | - | **(246)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | - | - | 11 | - | - | 480 | - | **491** | - | - | **491** |
| Ailddosbarthu | - | - | - | (19) | - | 19 | - | **-** | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | - | - | 1,809 | 17,610 | 719 | 32,145 | - | **52,283** | - | - | **52,283** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Swm cario ar 1 Ebrill 2023** | **1,787,442** | **246,111** | **13,210** | **10,196** | **755** | **65,980** | **3,525** | **2,127,219** | **447,864** | **7,474** | **2,582,557** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2024** | **1,743,751** | **299,859** | **12,921** | **10,065** | **657** | **64,649** | **5,695** | **2,137,597** | **402,189** | **7,530** | **2,547,316** |

Mae'r adeiladau'n cynnwys anheddau gyda swm cario o £344k. Mae'r adeiladau eraill yn swyddfeydd a chanolfannau gwaith.
Y swm a gedwir yn y Gronfa Ailbrisio ar gyfer asedau diriaethol ar 31 Mawrth 2024 oedd £2,038,589.

### 7.1.1 Ystad y goedwig gan gynnwys asedau biolegol

Mae perchnogaeth gyfreithiol dros Ystad Goetir Llywodraeth Cymru wedi'i breinio gyda Gweinidogion Cymru. Fe’i cynhwysir yn Natganiad Sefyllfa Ariannol CNC gan fod CNC yn gyfrifol am y risgiau a’r gwobrau ariannol sy’n gysylltiedig â’r ystad, ac sy’n ymgymryd â phob gweithgaredd mewn perthynas â rheoli’r ystâd. Mae'r ystad yn cynnwys tir a phren sy'n tyfu. Mae perchnogaeth gyfreithiol ar bren, gan gynnwys coed heb eu torri, wedi'i freinio yn CNC.

Mae coetiroedd a choedwigoedd yn cael eu cadw a'u rheoli'n bennaf i gyflawni'r amcanion rheoli coedwigoedd cynaliadwy a nodir yn Coetiroedd Cymru (strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer coetiroedd a choed). Gellir rhannu eu diben rhwng economaidd (cyfraniad at economi ffyniannus a chynaliadwy Cymru) ac eraill (cymdeithasol, amgylcheddol, newid yn yr hinsawdd). O dan safon cyfrifeg ryngwladol 41 (amaethyddiaeth), rhaid dosbarthu pren a dyfir at bwrpas economaidd fel asedau biolegol. Mae gweddill y pren, ynghyd â'r holl dir sylfaenol, yn cael ei ddosbarthu fel eiddo, peiriannau ac offer a chyfeirir ato fel ystâd y goedwig.

Mae addasiadau sy'n codi o ailbrisio ystâd y goedwig yn cael eu cludo i'r gronfa ailbrisio a'u rhyddhau i'r gronfa gyffredinol pan wireddir enillion wrth gwympo coed. Cydnabyddir addasiadau sy'n codi o ailbrisio asedau biolegol yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr yn y flwyddyn ailbrisio.

**Technegau amcangyfrif, rhagdybiaethau a dyfarniadau**

Mae elfennau o'r prisiad ac felly cyfrifo’r asedau hyn yn dibynnu ar dechnegau amcangyfrif.

Nid yw'n cael ei ystyried yn gost-effeithiol i gynnal prisiad proffesiynol allanol llawn, gan gynnwys pob rhan o goetir. Yn dilyn cyngor gan briswyr cymwys, bernir y gellir cael prisiad rhesymol trwy gynnal prisiadau o sampl ar hap o safleoedd sy'n cynrychioli rhwng 8% a 10% o'r ystâd ac yna allosod y rhain ar gyfer yr ystâd gyfan, gan ddefnyddio'r ffactorau lleoliad, rhywogaeth, oedran ac ansawdd (dosbarth cynnyrch) y coed.

Ystyrir hefyd fod y dystiolaeth fwyaf priodol o werth yn seiliedig ar y farchnad yn deillio o'r farchnad \ ar gyfer gwerthu coetiroedd a choedwigoedd dros 50 hectar mewn arwynebedd. Cydnabyddir y gall fod ystod eang o werthoedd o hyd a gall y rhain fod yn ddyfarniadau ychydig yn oddrychol. Felly, bydd unrhyw brisiad o goedwigoedd yn dibynnu rhywfaint ar farn broffesiynol. Yn dilyn hynny, mae'r priswyr allanol yn dosrannu gwerthoedd i dir a phren. Amcangyfrifir bod gwerth tir ar les 15% yn llai na thir rhydd-ddaliadol.

Rhannwyd coed rhwng asedau biolegol ac eiddo, offer a chyfarpar gan staff CNC, gan ddefnyddio dyfarniadau ac amcangyfrifon. Gwnaed asesiad o'r gyfran a gedwir yn bennaf at ddibenion economaidd, a defnyddiwyd y ganran hon i bennu gwerth coed a ddosbarthwyd fel ased biolegol. Pe bai tir yn cael ei gaffael neu ei waredu a fyddai'n creu newid llwyr yn yr ystâd goedwig sydd gennym o ddeg y cant neu fwy, byddai adolygiad dros dro o'r asesiad yn cael ei gynnal. Ni fu unrhyw newid o'r fath yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025. Y rhaniad canrannol ar hyn o bryd yw 27.5% ar gyfer asedau biolegol a 72.5% ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar. Fel sy'n ofynnol o dan IAS 41, mae gwerth teg asedau biolegol yn cael ei leihau yn ôl y costau amcangyfrifedig i'r pwynt gwerthu. Amcangyfrifir bod y costau hyn yn 10% o werthoedd pren ac yn adlewyrchu costau gwerthu'r coetir neu'r goedwig.

### 7.1.2 Ffermydd gwynt

Mae rhywfaint o dir ystâd y goedwig yn cael ei brydlesu i bartïon allanol fel safleoedd fferm wynt. Yn hanesyddol, rhannwyd datblygiad fferm wynt yn dair cam. Mae angen math gwahanol o gytundeb lesddaliad ar bob cam.

- Y cam cyntaf yw'r Cytundeb Les Opsiwn. Mae hyn yn rhoi'r hawl i ddatblygwr y fferm wynt arfer yr opsiwn i adeiladu ar y tir. Ar y cam hwn, mae CNC yn cael ffi opsiwn yn seiliedig ar fformiwla ariannol a nodir yn y cytundeb.
- Yr ail gam yw'r Cytundeb Prydles Datblygu a Gweithredol. Mae caniatâd cynllunio wedi'i roi ac mae'r gwaith adeiladu yn digwydd yn ystod y cam hwn. Yn debyg i'r cam cyntaf, mae CNC yn cael ffi opsiwn yn seiliedig ar fformiwla ariannol a nodir yn y cytundeb.
- Y trydydd cam yw'r Cytundeb Les Weithredol. Mae'r fferm wynt yn gwbl weithredol ac yn cynhyrchu trydan. Mae CNC yn cael dwy elfen o incwm; rhent sylfaenol gwarantedidg a rhent breindal yn seiliedig ar gynhyrchu trydan.

Mae cytundebau templed newydd wedi'u mabwysiadu lle bydd cytundebau ffermydd gwynt yn y dyfodol yn cael eu rhannu'n ddau gam yn unig, sef yr Opsiwn a'r Brydles. Bydd y Brydles yn darparu Trwydded y gall y gwaith adeiladu ddigwydd oddi tani. Bydd y cytundeb yn cael ei werthuso unwaith y bydd yr Opsiwn wedi'i arfer a'r Brydles wedi'i chadarnhau.

Mae lesoedd ar gyfer ffermydd gwynt sydd yn y cyfnod datblygu neu weithredu yn cael eu cyfalafu fel ased tir o fewn tir arall yn nodyn 7.1. Mae pum fferm wynt (2023/24: pedair) wedi'u cynnwys o fewn eiddo, peiriannau ac offer. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, darparwyd prisiad ar gyfer y ffermydd gwynt yn unol â'r rhaglen dreigl a amlinellwyd yn nodyn 7.

Dangosir y gwerthoedd unigol y ffermydd gwynt isod.

| | 31 Mawrth 2025 | 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cefn Croes | 10,489 | 14,562 |
| Pen y Cymoedd | 95,111 | 96,272 |
| Gorllewin Brechfa | 28,193 | 70,046 |
| Clocaenog | 36,581 | 36,053 |
| Pant Y Wall | 536 | - |
| **Cyfanswm** | **170,910** | **216,933** |

Mae dwy fferm wynt arall yn y cam Cytundeb Les Opsiwn ar hyn o bryd. Dim ond dau gam fydd ar gyfer y ffermydd gwynt hyn wrth i'r cam datblygu a'r cam gweithredol gael eu huno. Bydd y rhain yn cael eu cyfalafu pan fyddant yn symud i'r cam nesaf.

### 7.1.3 Asedau treftadaeth

Mae asedau treftadaeth yn asedau diriaethol sydd â rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol sy'n cael eu cadw a'u cynnal yn bennaf am eu cyfraniad at wybodaeth a diwylliant. Y bwriad yw eu cadw mewn ymddiriedaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwylliannol, amgylcheddol neu hanesyddol.

Mae ein Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yn bodloni'r meini prawf ar gyfer asedau treftadaeth. Maent yn cynnwys tir anweithredol mewn ardaloedd cadwraeth dynodedig a sefydlwyd i warchod ac i ganiatáu i bobl astudio eu bywyd gwyllt, cynefinoedd neu nodweddion daearegol o ddiddordeb arbennig. Mae'r tir hwn yn cael ei gadw ar gyfer cadwraeth ac at ddefnydd cyhoeddus cynaliadwy. O dan ddehongliad FReM o IAS 16 (Eiddo, Peiriannau ac Offer), mae’r asedau hyn wedi’u cyfalafu ar gost.

Ar 31 Mawrth 2025 mae CNC yn rheoli 56 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol Cymru, naill ai'n gyfan gwbl, neu mewn partneriaeth, ac un Warchodfa Natur Forol (MNR). Ni fu unrhyw ychwanegiadau, gwarediadau nac ailddosbarthiadau yn ystod y flwyddyn (un ailddosbarthiad ased treftadaeth o £56k yn 23/24).

Oherwydd natur amrywiol y tir a gedwir a gwerthoedd marchnad tebyg, mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn y byddai sicrhau prisiadau allanol yn golygu cost anghymesur. Felly, mae asedau treftadaeth yn cael eu dal ar gost. Cydnabyddir costau cadw (gwariant sy'n ofynnol i ddiogelu'r ased treftadaeth) yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan gânt eu gwario.

**Symudiadau asedau treftadaeth dros bedair mlynedd**

| | **2021/22** | **2022/23** | **2023/24** | **2024/25** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Balans agoriadol | 7,403 | 7,403 | 7,474 | 7,530 |
| Ychwanegiadau | - | 71 | - | - |
| Ailddosbarthu | - | - | 56 | - |
| **Balans terfynol** | **7,403** | **7,474** | **7,530** | **7,530** |

Mae rhagor o wybodaeth am asedau treftadaeth CNC a pholisïau yn ymwneud â chaffael, cadwraeth, rheoli, gwaredu a mynediad at asedau treftadaeth ar gael ar wefan CNC yn:

https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/protected-areas-of-land-and-seas/national-nature-reserves/?lang=cy

## 7.2 Asedau anghyfredol anniriaethol

| | Meddalwedd trwyddedau | Trwyddedau eraill | Gwariant datblygu meddalwedd | Gwefan | Asedau yn y broses o gael eu hadeiladu | Cyfanswm asedau anniriaethol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2024** | 4,023 | 2,282 | 46,534 | 897 | 11,041 | **64,777** |
| Ychwanegiadau | 162 | - | 2,239 | - | 3,022 | **5,423** |
| Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn | - | - | 6,356 | 111 | (6,467) | **-** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | - | - | (670) | - | - | **(670)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | - | - | - | - | - | **-** |
| Ailddosbarthu | - | - | - | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | 4,185 | 2,282 | 54,459 | 1,008 | 7,596 | **69,530** |
| | | | | | | |
| **Amorteiddio** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2024** | 3,554 | 85 | 26,644 | 646 | - | **30,929** |
| Taliadu yn ystod y flwyddyn | 176 | 12 | 5,501 | 251 | - | **5,940** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | - | - | (670) | - | - | **(670)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | - | - | - | - | - | **-** |
| Ailddosbarthu | - | - | - | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | 3,730 | 97 | 31,475 | 897 | - | **36,199** |
| | | | | | | |
| **Swm cario ar 1 Ebrill 2024** | **469** | **2,197** | **19,890** | **251** | **11,041** | **33,848** |
| **Cario swm ar 31 Mawrth 2025** | **455** | **2,185** | **22,984** | **111** | **7,596** | **33,331** |

Y swm a gedwir yn y Gronfa Ailbrisio ar gyfer yr asedau hyn ar 31 Mawrth 2025 oedd £556k.

### Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

| | Meddalwedd trwyddedau | Trwyddedau eraill | Gwariant datblygu meddalwedd | Gwefan | Asedau yn y broses o gael eu hadeiladu | Cyfanswm asedau anniriaethol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2023** | 5,803 | 2,356 | 38,280 | 486 | 10,480 | **57,405** |
| Ychwanegiadau | - | - | 180 | - | 7,530 | **7,710** |
| Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn | (1,543) | - | 8,074 | - | (6,899) | **(368)** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | (237) | - | - | - | (28) | **(265)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | - | - | - | - | - | **-** |
| Ailddosbarthu | - | (74) | - | 411 | (42) | **295** |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | 4,023 | 2,282 | 46,534 | 897 | 11,041 | **64,777** |
| | | | | | | |
| **Amorteiddio** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2023** | 4,494 | 72 | 20,706 | 486 | - | **25,758** |
| Taliadu yn ystod y flwyddyn | 194 | 13 | 5,041 | 160 | - | **5,408** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | (237) | - | - | - | - | **(237)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | - | - | - | - | - | **-** |
| Ailddosbarthu | (897) | - | 897 | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | 3,554 | 85 | 26,644 | 646 | - | **30,929** |
| | | | | | | |
| **Swm Cario ar 1 Ebrill 2023** | **1,309** | **2,284** | **17,574** | **-** | **10,480** | **31,647** |
| **Swm Cario ar 31 Mawrth 2024** | **469** | **2,197** | **19,890** | **251** | **11,041** | **33,848** |

Y swm a gedwir yn y Gronfa Ailbrisio ar gyfer yr asedau hyn ar 31 Mawrth 2024 oedd £568k.

### 7.2.1 Asedau anhiraethol

Asedau anhiraethol yw asedau nad ydynt yn ffisegol eu natur ac sy'n cynnwys yn bennaf gwefannau, trwyddedau meddalwedd a gwariant datblygu meddalwedd, gan gynnwys asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu.

Mae gwariant datblygu meddalwedd yn ymwneud â chostau a achosir wrth wella, datblygu a chyflunio systemau technoleg gwybodaeth i'w defnyddio gan y busnes, ar ôl bodloni'r meini prawf cydnabod perthnasol. Caiff costau sydd wedi'u cynnwys o fewn Asedau sydd yn y broses o gael eu hadeiladu eu trosglwyddo i wariant datblygu meddalwedd, neu ddosbarthiad perthnasol arall, pan gaiff cwmpas llawn y prosiect ei wireddu a'r ased ei ryddhau i'w ddefnyddio gan y busnes.

Cydnabyddir, mesurir ac amorteiddir yr asedau hyn yn unol â'r meini prawf a nodir yn nodyn 7 i'r cyfrifon.

## 8. Lesoedd

Cyfrifir am brydlesi o dan IFRS 16 “Prydlesi”, sy’n ymgorffori un model cyfrifyddu ar gyfer lesddeilliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i lesddeiliad gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob les (ac eithrio'r eithriadau a amlinellir isod).

Mewn perthynas â lesddeiliaid, mae IFRS 16 yn dileu'r gwahaniaeth rhwng lesoedd gweithredu a lesoedd cyllid ac yn cyflwyno un model cyfrifyddu sy'n ei gwneud yn ofynnol i lesddeiliad gydnabod asedau (hawl i ddefynddio) a rhwymedigaethau lesoedd.

Mae'r diffiniad o les wedi'i ddiweddaru o dan IFRS 16; mae mwy o bwyslais ar allu rheoli'r defnydd o ased a nodir mewn contract.

**Rhagdybiaethau**

Mae CNC wedi ehangu’r diffiniad o les i gynnwys trefniadau heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt. Mae lesoedd hedyn pupur yn enghreifftiau o'r rhain; cânt eu diffinio gan Drysorlys EF fel taliadau les sy’n sylweddol is na gwerth y farchnad. Mae'r asedau hyn yn cael eu prisio'n deg ar gydnabyddiaeth gychwynnol.

Yn unol â FReM, nid yw CNC wedi cydnabod asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaethau lesoedd ar gyfer y lesoedd ganlynol:

- asedau anniriaethol;
- elfennau nad ydynt yn lesoedd o gontractau lle bo’n berthnasol;
- asedau gwerth isel (pennir y rhain i fod yn unol â throthwyon cyfalafu ar Eiddo, Peiriannau ac Offer ac eithrio cerbydau y tybiwyd nad ydynt o werth isel); a
- lesoedd sydd â chyfnod o12 mis neu lai.

**Cydnabyddiaeth prydles**

Bydd CNC yn asesu a yw contract yn brydles, neu'n cynnwys prydles. Mae contract yn les, neu’n cynnwys les os yw’r contract yn cyfleu’r hawl i reoli’r defnydd o ased a nodwyd am gyfnod o amser. Mae hyn yn cynnwys asedau nad oes unrhyw gost ynghlwm wrthynt. Er mwyn asesu a yw contract yn cyfleu’r hawl i reoli’r defnydd o ased a nodwyd, bydd CNC yn ystyried:

- Mae’r contract yn cynnwys defnydd o ased a nodir;
- Mae gan CNC yr hawl i gael yr holl fudd economaidd sylweddol o ddefnyddio'r ased drwy gydol y cyfnod defnyddio; ac
- Mae gan CNC yr hawl i gyfeirio'r defnydd a wneir o'r ased.

Bydd CNC yn asesu a yw’n weddol sicr y bydd yn arfer opsiynau toriad neu opsiynau estyniad ar ddyddiad cychwyn y les. Bydd hyn yn cael ei ailasesu os bydd digwyddiadau arwyddocaol neu newidiadau mewn amgylchiadau nas rhagwelwyd.

**<u>Fel Lesddeiliad</u>**

**Asedau hawl i ddefnyddio**

O dan IFRS 16 mae CNC yn cydnabod hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth les ar y dyddiad cychwyn. Mae’r hawl i ddefnyddio ased yn cael ei fesur i ddechrau ar gost, sy’n cynnwys swm cychwynnol y rhwymedigaeth les wedi’i addasu ar gyfer costau uniongyrchol cychwynnol, rhagdaliadau neu gymhellion, a chostau sy’n ymwneud ag adfer ar ddiwedd les.

Mae asedau hawl i ddefnyddio yn cael eu mesur naill ai ar werth teg neu werth cyfredol mewn defnydd presennol yn unol ag asedau eiddo, peiriannau ac offer. Defnyddir y model mesur costau yn IFRS 16 fel procsi priodol ar gyfer gwerth cyfredol mewn defnydd presennol neu werth teg ar gyfer y mwyafrif o lesoedd.

Mae'r ased hawl i ddefnyddio'n cael ei ddibrisio gan ddefnyddio'r dull llinell syth o'r dyddiad cychwyn hyd at ddiwedd cyfnod y les.

Mae CNC yn cymhwyso IAS 36 Amhariad ar Asedau i bennu a oes amhariad ar yr ased hawl i ddefnyddio ac i roi cyfrif am unrhyw golled amhariad a nodwyd. Mae hyn yn disodli'r gofyniad blaenorol i gydnabod darpariaeth ar gyfer contractau les beichus.

Cyflwynir asedau hawl i ddefnyddio yn nodyn 8.1.

**Rhwymedigaethau prydles**

Mae rhwymedigaeth les yn cael ei mesur i ddechrau ar werth presennol y taliadau les nad ydynt yn cael eu talu ar y dyddiad cychwyn, wedi'u disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y les, neu os na ellir pennu hynny'n rhwydd, gan ddefnyddio'r gyfradd a bennir ym mhapurau'r System Gwariant Cyhoeddus (SGC) a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Fawrhydi. Cyhoeddir cyfraddau SGC yn flynyddol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Y gyfradd ddisgownt a ddefnyddiwyd oedd 4.72% ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

Mae taliad y les yn cael ei fesur ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Caiff ei ail-fesur pan fydd newid mewn taliadau les yn y dyfodol yn deillio o newid yn y mynegai neu'r gyfradd, neu os oes newid taliad les sefydlog diwygiedig mewn sylwedd.

Mae taliadau lesoedd sydd wedi'u cynnwys wrth fesur rhwymedigaeth y les yn cynnwys y canlynol:

- Taliadau sefydlog;
- Cosbau am derfynu les yn gynnar, oni bai ei bod yn rhesymol sicr na chaiff ei therfynu'n gynnar.

Pan fydd rhwymedigaeth y les yn cael ei hail-fesur, caiff addasiad cyfatebol ei wneud i'r ased hawl i ddefnyddio neu i gofnodi yn y SoCNE os yw swm cario mlaen yr ased hawl i ddefnyddio yn sero.

Cyflwynir rhwymedigaethau lesoedd yn nodyn 8.2

**<u>Fel lesydd</u>**

Pan fo CNC yn gweithredu fel lesydd, mae'n penderfynu ar ddechrau'r les a yw pob les yn les ariannol neu'n les weithredol. Er mwyn dosbarthu pob les, bydd CNC yn gwneud asesiad cyffredinol i weld a yw'r les yn trosglwyddo'r holl risgiau a'r buddion sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth yr ased sylfaenol i bob pwrpas. Os felly, yna mae'r les yn les gyllid, os na, yna mae'n les weithredol.

Pan fo CNC yn gweithredu fel lesydd canolradd, mae'n rhoi cyfrif am ei fuddiant yn y brif les a'r is-les ar wahân. Os yw prif les yn les tymor byr y mae CNC yn cymhwyso'r eithriad uchod iddi, yna mae'r is-les yn cael ei dosbarthu fel les weithredol. Bydd CNC yn cydnabod taliadau les o dan lesoedd gweithredu fel incwm ar sail llinell syth dros gyfnod y les. Nid yw'r polisïau cyfrifyddu sy'n gymwys i CNC fel lesydd wedi'u newid i raddau helaeth gan IFRS 16 ac eithrio adolygiadau o drefniadau lesydd canolradd.

## 8.1 Asedau hawl i ddefnyddio

| | Tir ystad goedwig | Tir arall | Adeiladau | Peiriannau ac offer | Asedau treftadaeth | Cyfanswm asedau Hawl i Ddefnyddio |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Ar 1 Ebrill 2024** | 71,871 | 343 | 11,661 | 4,100 | 1,273 | **89,248** |
| Ychwanegiadau | - | 16 | - | 615 | 236 | **867** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | - | (3) | (1,674) | (1,019) | (4) | **(2,700)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | (3,107) | - | - | - | - | **(3,107)** |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | 68,764 | 356 | 9,987 | 3,696 | 1,505 | **84,308** |
| | | | | | | |
| **Dibrisiad** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2024** | 4 | 35 | 3,212 | 2,007 | 116 | **5,374** |
| Taliadu yn ystod y flwyddyn | - | 21 | 1,993 | 998 | 58 | **3,070** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | - | (2) | (1,305) | (999) | (4) | **(2,310)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | - | - | - | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | 4 | 54 | 3,900 | 2,006 | 170 | **6,134** |
| | | | | | | |
| **Swm cario ar 1 Ebrill 2024** | **71,867** | **308** | **8,449** | **2,093** | **1,157** | **83,874** |
| **Cario swm ar 31 Mawrth 2025** | **68,760** | **302** | **6,087** | **1,690** | **1,335** | **78,174** |

### Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

| | Tir ystad goedwig | Tir arall | Adeiladau | Peiriannau ac offer | Asedau treftadaeth | Cyfanswm asedau Hawl i Ddefnyddio |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Ar 1 Ebrill 2023** | 59,807 | 384 | 7,578 | 3,386 | 1,278 | **72,433** |
| Ychwanegiadau | - | 18 | 4,083 | 745 | - | **4,846** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | - | (59) | - | (31) | (5) | **(95)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | 12,064 | - | - | - | - | **12,064** |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | 71,871 | 343 | 11,661 | 4,100 | 1,273 | **89,248** |
| | | | | | | |
| **Dibrisiad** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2023** | 4 | 57 | 1,530 | 969 | 58 | **2,618** |
| Taliadu yn ystod y flwyddyn | - | 37 | 1,682 | 1,063 | 58 | **2,840** |
| Gwarediadau, dadgydnabod a dileu | - | (59) | - | (25) | - | **(84)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | - | - | - | - | - | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | 4 | 35 | 3,212 | 2,007 | 116 | **5,374** |
| | | | | | | |
| **Swm cario ar 1 Ebrill 2023** | **59,803** | **327** | **6,048** | **2,417** | **1,220** | **69,815** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2024** | **71,867** | **308** | **8,449** | **2,093** | **1,157** | **83,874** |

## 8.2 Rhwymedigaethau lesoedd

| Yn ddyledus o fewn blwyddyn | 31 Mawrth 2025<br>£'000 | 31 Mawrth 2024<br>£'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau lesoedd (cyfredol) | 1,849 | 2,339 |
| **Cyfanswm** | **1,849** | **2,339** |
| **Yn ddyledus ar ôl blwyddyn** | | |
| Rhwymedigaethau lesoedd (anghyfredol) | 6,739 | 8,221 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau lesoedd** | **8,588** | **10,560** |

| Dadansoddiad aeddfedrwydd lesoedd a ddelir o dan IFRS 16 | 31 Mawrth 2025<br>£'000 | 31 Mawrth 2024<br>£'000 |
|---|---|---|
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn | 1,850 | 2,339 |
| Yn ddyledus ymhen 2-5 mlynedd | 3,007 | 3,949 |
| Yn ddyledus ymhen mwy na 5 mlynedd | 3,731 | 4,272 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau lesoedd** | **8,588** | **10,560** |

| Lesoedd o dan IFRS 16 | 31 Mawrth 2025<br>£'000 | 31 Mawrth 2024<br>£'000 |
|---|---|---|
| Llog ar rwymedigaethau lesoedd | 163 | 101 |
| Treuliau sy’n ymwneud â lesoedd tymor byr (ac eithrio asedau gwerth isel) | 91 | 93 |
| | **254** | **194** |

## 8.3 Lesoedd gweithredu eraill

Ar gyfer lesoedd tymor byr (tymor les o 12 mis neu lai) a lesoedd asedau gwerth isel, bydd CNC yn dewis cydnabod traul les ar sail llinell syth fel y caniateir gan IFRS 16. Mae lesoedd gweithredu eraill a ddatgelir isod yn ymwneud â’r trefnidadau hynny nad ydynt wedi’u cynnwys yn IFRS 16.

Rhoddir cyfanswm isafswm taliadau lesoedd yn y dyfodol o dan lesoedd gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol.

| Y rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredol yw: | 31 Mawrth 2025<br>£'000 | 31 Mawrth 2024<br>£'000 |
|---|---|---|
| Yn ddim hwyrach na blwyddyn | 91 | 87 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a ddim hwyrach na phum mlynedd | 3 | 3 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 23 | 24 |
| **Cyfanswm gwerth rhwymedigaethau** | **117** | **114** |

## 8.4 Symiau derbyniadwy o dan brydlesi

Mae asedau (tir ac adeiladau) sy'n cael eu lesio i bartïon allanol o dan les weithredol yn cael eu cyfalafu yn unol â'r polisi asedau anghyfredol a amlinellir yn nodyn 7. Rhoddir cyfrif am incwm les weithredol ar sail llinell syth a'r isafswm yn y dyfodol. Dangosir taliadau les sy'n dderbyniadwy o dan lesoedd gweithredu na ellir eu canslo yn y tabl isod.  Amcangyfrifir taliadau prydles y dyfodol gan ddefnyddio'r 12 mis diweddaraf o incwm a anfonebwyd yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'r tabl yn cynnwys incwm a ragwelir o ffermydd gwynt, gan fod CNC yn rheoli'r lesoedd hyn ar ran Llywodraeth Cymru a breindaliadau o'r Rhaglen Darparu Ynni, mynediad Trydydd Parti, Hydro a

| | 31 Mawrth 2025 | 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Yn ddim hwyrach na blwyddyn | 17,831 | 21,708 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a ddim hwyrach na phum mlynedd | 68,856 | 84,727 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 221,344 | 296,895 |
| **Cyfanswm** | **308,031** | **403,330** |

Mae'r incwm o brydlesi fferm wynt yn cynrychioli rhan fawr o'r gwerthoedd a ddatgelir yn y tabl uchod. Lle mae ffermydd gwynt yn ddarostyngedig i Nodyn Cyngor Technegol 8 Llywodraeth Cymru: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (TAN 8), nid yw'r incwm yn cael ei gadw gan CNC ac mae'n cael ei ildio i Lywodraeth Cymru.  Mae mwy o wybodaeth am yr incwm hwn ar gael yn Nodyn 1.4.

## 9. Atebolrwydd ac offerynnau ariannol

### 9.1 Atebolrwydd ariannol

Mae'r atebolrwydd ariannol o £39,435k a adroddwyd yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol yn cynrychioli atebolrwydd cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr.

Ym 1989, er mwyn preifateiddio, trafododd Llywodraeth EM gytundebau gweithredu cronfeydd dŵr gyda'r cwmnïau dŵr. Roedd y cytundebau hyn yn cynnwys taliadau sefydlog (wedi'u mynegeio'n flynyddol ar y Mynegai Prisiau Manwerthu) sy'n daladwy am byth i'r cwmnïau dŵr. Mae CNC bellach yn gyfrifol am y taliadau i Dŵr Cymru.

Gan fod cyfanswm yr atebolrwydd am byth ar sail cost amorteiddiedig, ni fydd yn newid o flwyddyn i flwyddyn ac eithrio os bydd cytundeb yn dod i ben, sy'n annhebygol. Mae CNC yn gallu adennill cost lawn cytundebau gweithredu cronfeydd gan gynnwys y mynegeio blynyddol trwy ei daliadau tynnu dŵr.

Cyfrifwyd swm o £7,825k a oedd yn ddyledus i Dŵr Cymru Welsh Water yn ystod 2024/25 (2023/24: £7,608k) am y taliadau sefydlog a fynegwyd. Mae'r rhain wedi'u cynnwys gyda thaliadau eraill o dan gytundebau gweithredu'r gronfa ddŵr yn Nodyn 5.

Mae rhwymedigaethau deddfwriaethol sy'n ymwneud â safonau uwch ar gyfer gorlifdiroedd, pibellau ac argaeau ynghyd ag asedau sy'n dod i ddiwedd eu hoes ddefnyddiol wedi arwain at Dŵr Cymru yn gweithredu rhaglen gyfalaf ar draws dalgylchoedd Clwyd, Dwyfor, Aled, Dyfrdwy, Gwy a Tywi. Disgwylir i'r gwaith, a ddechreuodd yn 2018/19, gymryd 10 mlynedd a disgwylir iddo gael eu cwblhau yn 2027/28. Mae cyfanswm cost amcanol y rhaglen hon wedi cynyddu ers dechrau'r rhaglen. Mae'r amcangyfrifon diweddaraf gan Dŵr Cymru yn dangos y bydd y rhaglen yn costio £51 miliwn, heb gynnwys cost cyfalaf. Mae CNC wedi cytuno ar amserlen taliadau cynyddrannol gyda Dŵr Cymru i ddosbarthu'r gost yn esmwyth gan arwain at daliadau uwch y gellir eu rheoli ar gyfer yr echdynnwr. Mae'r cyfleuster hwn wedi galluogi CNC i ragweld Cyfrif Tâl Uned Safonol cynaliadwy dros oes y rhaglen hon.

Adroddir am y gost mewn cytundebau gweithredu Cronfeydd Dŵr yn Nodyn 5, ac mae'r diffyg yn ystod y flwyddyn wedi'i ychwanegu i'r symiau taladwy hirdymor yn Nodyn 14. Adroddir am y cynnydd cyfatebol yn yr incwm y gellir ei briodoli o fewn costau tynnu yn Nodyn 6.1 a symiau derbyniadwy hirdymor yn Nodyn 11.

### 9.2 Offerynnau ariannol

Gan fod gofyniad ariannol CNC yn cael ei fodloni'n bennaf trwy gymorth grant, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig wrth greu a rheoli risg nag a fyddai'n berthnasol i gorff nad yw yn y sector cyhoeddus. Mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig CNC, ac felly nid yw CNC yn agored i risgiau mawr o ran credyd, hylifedd na'r farchnad.

O dan IFRS 9, defnyddir model Colled Credyd Disgwyliedig (ECL) i amcangyfrif ac rhoi cyfrif am golledion credyd disgwyliedig ar gyfer yr holl asedau ariannol perthnasol. Mae amcangyfrif CNC yn seiliedig ar ein profiad hanesyddol o golledion credyd sy'n cael eu diweddaru ar gyfer problemau credyd hysbys yn y dyfodol.

## 10. Asedau Ariannol

| | 31 Mawrth 2025 | 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| **Anghyfredol** | **£'000** | **£'000** |
| Coedwig Llyn Efyrnwy | 13,689 | 15,009 |
| | 13,689 | 15,009 |

**Coedwig Llyn Efyrnwy**
Mae Hafren Dyfrdwy yn gyfrifol am reoli'r goedwig yn Llyn Efyrnwy, casglu'r incwm a thalu'r costau cymharol. Mae gan CNC rôl ymgynghorol o dan y cytundeb cynllun coedwigo ac mae'n derbyn 50% o'r gwarged gweithredu gan Hafren Dyfrdwy.

## 11. Masnach a symiau derbyniadwy eraill

| | 31 Mawrth 2025 | 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| **Yn ddyledus o fewn blwyddyn** | **£'000** | **£'000** |
| Symiau derbyniadwy masnach | 10,386 | 13,970 |
| Colled credyd disgwyliedig | (135) | (230) |
| Asedau contract - Masnachol ac eraill | 1,868 | 4,160 |
| Incwm cronedig - Ffioedd a thaliadau | 15,403 | 3,503 |
| Incwm cronedig - Grantiau Llywodraeth Cymru | 16,560 | 17,130 |
| Incwm cronedig - Incwm Ewropeaidd | 576 | 1,619 |
| TAW derbyniadwy | 5,282 | 1,780 |
| Rhagdaliadau | 3,190 | 3,120 |
| Blaendal | - | 45 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 5,586 | 24 |
| **Cyfanswm** | **58,716** | **45,121** |
| **Yn ddyledus ar ôl blwyddyn** | | |
| Symiau derbyniadwy hirdymor | 20,025 | 11,940 |
| **Cyfanswm symiau masnach ac eraill yn dderbyniadwy** | **78,741** | **57,061** |

## 12. Taliadau ar gyfrif

| | 31 Mawrth 2025 | 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Taliadau ar gyfrif | - | 19,000 |
| **Cyfanswm** | **-** | **19,000** |

Yn ystod 2023/24, gwnaeth CNC daliad ar gyfrif i CThEF o £19m mewn perthynas ag unrhyw dreth incwm PAYE, cyfraniadau Yswiriant Gwladol ac ardoll prentisiaeth arfaethedig sy'n ddyledus o ganlyniad i ymholiad CThEF i driniaeth Cyfoeth Naturiol Cymru o ymrwymiadau oddi ar y gyflogres a oedd yn cael ei gynnal ar y pryd. Mae'r ymchwiliad wedi dod i ben ac mae rhwymedigaeth derfynol CNC i CThEF o £14.5m wedi'i chytuno a'i setlo. Mae'r £14.5m hwn wedi'i gyfrif fel taliad arbennig yn ystod 2024/25 o fewn Treuliau gweithredu eraill yn Nodyn 5 (darperir rhagor o wybodaeth am y taliad arbennig hwn yn yr Adroddiad Seneddol). Mae'r balans sy'n weddill o'r taliad ar gyfrif, £4.5m ar ôl didynnu'r rhwymedigaeth, yn ddyledus yn ôl i CNC gan CThEF ac mae wedi'i gynnwys o fewn symiau derbyniadwy eraill yn Nodyn 11 gyda'r taliad ar gyfrif wedi'i leihau i £dim.

## 13. Arian parod a’r hyn sy’n gyfwerth ag arian parod

| | 31 Mawrth 2025 | 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Balans agoriadol | 9,787 | 5,077 |
| Newid net mewn arian parod a’r hyn sy’n gyfwerth ag arian parod | 2,816 | 4,710 |
| **Cyfanswm** | **12,603** | **9,787** |
| Cadwyd y balansau canlynol ar 31 Mawrth | | |
| Gwasanaeth Bancio’r Llywodraeth | 12,601 | 9,785 |
| Arian parod mewn llaw | 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | **12,603** | **9,787** |

Mae arian parod a’r hyn sy’n gyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, darpariaethau ariannol (gweler nodyn 1.10) a balansau cyfredol a gedwir yng nghyfrifon banc Gwasanaeth Bancio y Llywodraeth. Gellir trosi’r balansau hyn yn hawdd i symiau hysbys o arian parod, ac nid oes risg mawr iddynt o ran newidiadau mewn gwerth. Nid yw darpariaethau ariannol ar gael i'w defnyddio gan CNC. Dim ond pan fydd gweithredwr y safle tirlenwi yn torri amodau’r drwydded y bydd CNC yn rhoi ystyriaeth ddyledus i dynnu’r ddarpariaeth sydd ar waith.

## 14. Masnach a symiau taladwy eraill

| | 31 Mawrth 2025 | 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| **Yn ddyledus o fewn blwyddyn** | **£'000** | **£'000** |
| Symiau taladwy masnach | 14,023 | 2,451 |
| Croniad symiau taladwy masnach | 22,848 | 33,960 |
| Incwm Gohiriedig - Ffioedd a Thaliadau | 5,464 | 4,181 |
| Incwm Gohiriedig - Cyllid yr UE a chyllid arall | 8,896 | 6,379 |
| Rhwymedigaethau Contract - Ffioedd a Thaliadau | - | 219 |
| Rhwymedigaethau Contract - Masnachol | 1,237 | 1,238 |
| Tâl gwyliau | 3,942 | 3,620 |
| Bondiau a blaendaliadau | 8,430 | 3,036 |
| Cyllid Llywodraeth Cymru a dderbyniwyd ymlaen llaw | 4,369 | 19,000 |
| Symiau taladwy eraill | 7,248 | 5,280 |
| Trethu a diogelwch cymdeithasol | - | 9 |
| **Cyfanswm** | **76,457** | **79,373** |
| **Yn ddyledus ar ôl blwyddyn** | | |
| Symiau taladwy hirdymor | 19,312 | 11,158 |
| Incwm gohiriedig hirdymor | 80 | 80 |
| Bondiau a blaendaliadau hirdymor | 93 | 93 |
| **Cyfanswm** | **19,485** | **11,331** |
| **Cyfanswm masnach a symiau taladwy eraill** | **95,942** | **90,704** |

## 15. Darpariaethau

| | | Grantiau | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 1 Mawrth 2024** | | 92 | 2,910 | 3,002 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | DoWNC | 112 | - | 112 |
| Rhyddhawyd yn y flwyddyn | | (92) | (678) | (770) |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | | - | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | | **112** | **2,232** | **2,344** |
| **Amseru amcangyfrifedig llif arian gostyngedig** | | | | |
| Dyledus o fewn blwyddyn | | 112 | 2,232 | 2,344 |
| Dyledus rhwng un a phum mlynedd | | - | - | - |
| **Cyfanswm** | | **112** | **2,232** | **2,344** |

Yn unol â gofyniad IAS 37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol), lle bo angen, mae CNC yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau sy'n codi o ddigwyddiadau'r gorffennol lle mae rhwymedigaeth bresennol ar y dyddiad adrodd ac mae'n debygol y bydd gofyn i CNC setlo'r rhwymedigaeth a gellir gwneud amcangyfrif ariannol dibynadwy. Mae cyfanswm y darpariaethau yr adroddir arnynt uchod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol o dan rwymedigaethau.

Mae darpariaethau ar gyfer taliadau grant wedi'u cynnwys pan fo'r gwaith a wnaed gan y partneriaid grant wedi'i gwblhau ar neu cyn 31 Mawrth 2025, ond na fydd yr hawliad yn cael ei ei gyflwyno i CNC tan fis Mehefin 2025. Mae gwerth y ddarpariaeth yn seiliedig ar y llythyr cynnig grant.

Mae darpariaethau eraill yn ymwneud â thaliadau dadfeilio posibl ar ofod swyddfa rhent.

Dangosir costau'r darpariaethau eraill yn nodyn 5. Dangosir y symudiad mewn colled credyd disgwyliedig hefyd yn nodyn 5, a dangosir cyfanswm y ddarpariaeth ar gyfer colled credyd disgwyliedig yn nodyn 11 a'i chynnwys yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol o dan Masnach a symiau derbyniadwy eraill.

# 16. Rhwymedigaethau pensiwn

Mae CNC yn aelod o ddau gynllun pensiwn, Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSPS) a Chronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF).

## 16.1 Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSPS)

Mae CSPS yn agored i weithwyr newydd.

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cyn 1 Ebrill 2015, yr unig gynllun oedd Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sydd wedi'i rannu i adrannau gwahanol - mae classic, premium, a classic plus yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol, tra bod nuvos yn darparu buddion ar sail cyflog cyfartalog gyrfa gyfan. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil - Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gyfan. Ymunodd yr holl weision sifil a oedd newydd eu penodi, a mwyafrif y rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth, â'r cynllun newydd hwn.

Mae cynlluniau'r PCSPS ac alpha yn gynlluniau statudol heb eu hariannu. Mae cyflogeion a chyflogwyr yn gwneud cyfraniadau (mae cyfraniadau'r cyflogeion yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05%, yn dibynnu ar eu cyflog). Diwellir balans cost buddion a delir gan arian a bleidleisir arno gan y Senedd y DU bob blwyddyn. Cynyddir pensiynau sy'n daladwy yn unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Yn lle'r trefniadau buddion diffiniedig, gall cyflogeion ddewis pensiwn cyfraniadau diffiniedig â chyfraniad cyflogwr, sef y cyfrif pensiwn partnership.

Yn alpha, mae pensiwn yn cronni ar gyfradd o 2.32% o enillion pensiynadwy bob blwyddyn, a chaiff y cyfanswm a gronnir ei addasu'n flynyddol yn unol â chyfradd a bennir gan Drysorlys EF. Gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004. Cafodd buddion PCSPS pob aelod a newidiodd i alpha o'r PCSPS eu 'bancio', â'r rhai â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn derbyn y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha.

Y pensiynau cronedig a ddangosir yn yr adroddiad hwn yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn arferol, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os ydynt eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn arferol neu'n hŷn. Yr oedran pensiwn arferol yw 60 ar gyfer aelodau classic, premium, a classic plus; 65 ar gyfer aelodau nuvos; a'r uchaf o 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau alpha. Mae'r ffigurau pensiwn yn yr adroddiad hwn yn dangos y pensiwn a adeiladwyd yn PCSPS neu alpha - fel y bo'n briodol. Pan fo gan aelod fuddiannau yn PCSPS ac alpha, mae'r ffigurau'n dangos gwerth cyfunol y buddion yn y ddau gynllun, ond yn nodi y gall rhannau cyfansoddol y pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.

Pan gyflwynodd Llywodraeth y DU gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus newydd yn 2015, roedd trefniadau trosiannol a oedd yn trin aelodau presennol y cynllun yn wahanol ar sail eu hoedran. Parhaodd aelodau hŷn y PCSPS yn y cynllun hwnnw, yn hytrach na symud i alpha. Yn 2018, canfu'r Llys Apêl fod y trefniadau trosiannol yng nghynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn aelodau iau ("dyfarniad McCloud").

O ganlyniad, mae camau'n cael eu cymryd i unioni diwygiad 2015, gan wneud darpariaethau'r cynllun pensiwn yn deg i bob aelod. Mae dwy ran i Unioni Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus. Arweiniodd rhan gyntaf yr unioni at gau PCSPS ar 31 Mawrth 2022, â'r holl aelodau gweithredol yn dod yn aelodau o alpha o 1 Ebrill 2022. Mae ail ran yr unioni yn dileu'r gwahaniaethu ar sail oedran ar gyfer y cyfnod unioni, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, drwy symud aelodaeth aelodau cymwys yn ystod y cyfnod hwn yn ôl i'r PCSPS ar 1 Hydref 2023.

Mae'r buddion pensiwn cronedig, y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a'r ffigwr cyfanswm tâl unigol a adroddir ar gyfer unrhyw unigolyn y mae Unioni Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus yn effeithio arnynt wedi'u cyfrifo ar sail eu cynnwys yn y PCSPS am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae Unioni Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus yn berthnasol i unigolion a oedd yn aelodau, neu'n gymwys i fod yn aelodau, o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac a oeddynt yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae'r sail ar gyfer y cyfrifo yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol bod aelodau yr effeithir arnynt wedi'u trosglwyddo'n ôl i'r PCSPS ar gyfer y cyfnod unioni ac y bydd hyn yn weithredol oni bai bod yr aelod yn arfer ei hawl ar ymddeoliad i benderfynu yn hytrach i dderbyn buddion a gyfrifwyd o dan delerau'r cynllun alpha ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022.

Mae'r cyfrif pensiwn partnership yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes yn rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond, os byddant yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfrannu'n gyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy er mwyn talu am sicrwydd budd risg a ddarperir yn ganolog (marw yn y swydd ac ymddeoliad ar sail salwch).

Ceir rhagor o wybodaeth am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan.

www.civilservicepensionscheme.org.uk

## 16.2 Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF)

Ar 1 Ebrill 2013, trosglwyddwyd gweithgareddau pensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC) i CNC yn unol â chynllun trosglwyddo corff Cyfoeth Naturiol Cymru 2013 o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Mae gweithwyr CNC a oedd yn weithwyr Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn parhau i fod yn aelodau o gronfa bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF) fel corff derbyn.

Mae EAPF yn gweithredu cynllun pensiwn buddion statudol wedi'u diffinio, a lywodraethir yn bennaf gan reoliadau LGPS 2013 a rheoliadau LGPS (darpariaethau trosiannol, cynilion a diwygio) 2014. Gall y rhain newid dros amser. Mae mwy o fanylion am y gronfa bensiwn, gan gynnwys ei hadroddiad blynyddol a'i chyfrifon, ar wefan EAPF, www.eapf.org.uk

Cyfanswm y tâl pensiwn EAPF ar gyfer CNC ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25 oedd £6,167k (£6,988k yn 2023/24). Aseswyd y tâl pensiwn sy'n ymwneud â'r cynllun yn unol â chyngor actiwari cymwys annibynnol gan ddefnyddio'r dull prisio uned amcanol i gyfrifo costau'r gwasanaeth. Trefniadau cyllido CNC yw talu cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn naill ai bob misl neu fel taliadau cyfandaliad.

Roedd y prisiad actiwaraidd teirblwydd diweddaraf o'r EAPF ar 31 Mawrth 2022. Roedd yr asedau a gymerwyd am werth y farchnad (£4.5 biliwn) yn ddigonol i gynnwys 103% o werth rhwymedigaethau mewn perthynas â buddion gwasanaeth yn y gorffennol a oedd wedi cronni i aelodau.  Derbyniodd CNC argymhelliad yr actiwari annibynnol mewn perthynas â chyfraniadau cyflogwyr yn y dyfodol. Bydd y prisiad actiwaraidd tair blynedd nesaf ar 31 Mawrth 2025 a chaiff ei ddefnyddio i bennu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr am y cyfnod tair blynedd gan ddechrau ar 1 Ebrill 2026

Amcangyfrifodd yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol ar gyfer yr EAPF fod ganddo ddigon o asedau i fodloni 171% o'i rwymedigaethau disgwyliedig yn y dyfodol ar 31 Mawrth 2025 ar sail ariannu barhaus. Mae cyfran CNC o rwymedigaethau'r EAPF fel y'i hadroddir yn y datganiadau ariannol hyn yn cael ei chyfrifo ar sail cyfrifyddu gan ddefnyddio gwahano lragdybiaethau actiwaraidd, sy'n ofynnol gan IAS19.

Mae dau brif wahaniaeth yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y datganiadau ariannol hyn o dan sail cyfrifyddu (IAS 19) a'r rhai a ddefnyddir at ddibenion cyllido, fel yr adroddwyd gan EAPF. Mae'r gwahaniaethau hyn yn y rhagdybiaeth cyfradd ddisgownt a'r rhagdybiaeth cynnydd pensiwn a ddefnyddir i brisio rhwymedigaethau pensiwn. Mae cyfradd ddisgownt EAPF at ddibenion cyllido yn seiliedig ar ddisgwyliad darbodus o'r enillion a gynhyrchir o'r portffolio o asedau sy'n eiddo i'r EAPF. Ar 31 Mawrth 2022 roedd y gyfradd disgownt hon yn 3.1% y flwyddyn. Mae'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir yn natganiadau ariannol CNC (5.8% y flwyddyn), fel sy'n ofynnol gan IAS 19, yn seiliedig ar gynnyrch bondiau corfforaethol o ansawdd uchel heb unrhyw dybiaeth perfformiad ased ychwanegol.

Gwneir nifer o ragdybiaethau fel rhan o'r broses brisio actiwaraidd. Nid yw'r rhagdybiaethau actiwaraidd darbodus a ddefnyddir yn cynrychioli barn ar symudiadau cyflog yn y dyfodol. Tybiwyd yn brisiad actiwaraidd 2022 y bydd taliadau pensiynau naw ac yn y dyfodol yn cynyddu ar gyfradd o 3.0% y flwyddyn. Amcangyfrifir y bydd y cyfraniad sy'n daladwy gan CNC, ac eithrio unrhyw gyfandaliadau dewisol, am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2026 oddeutu £0 gan ei fod wedi talu ei holl gyfraniadau cyflogwr arferol ym mis Mawrth 2025.

Mae prisiad 2022 yn cwmpasu’r profiad o bandemig COVID-19. Ni chafodd y sefyllfa gyllido ei heffeithio'n sylweddol gan y pandemig gan fod rhoi'r gorau i bensiynau yn cyd-fynd yn fras â'r disgwyliadau. Yn gyffredinol, ychydig iawn o effaith a gafodd y profiad o farwolaethau ar y sefyllfa ariannu. Mae actiwari EAPF yn parhau i fonitro’r lefel ariannu a’r rhagolygon ar gyfer yr economi hirdymor ac enillion ar asedau’r Gronfa Weithredol yn rheolaidd.

Mae gwerth actiwaraidd cyfran CNC o'r EAPF ar 31 Mawrth 2025 yn warged o £170.0m (31 Mawrth 2024 £113.1m).

Mae CNC wedi ystyried, yn unol ag IAS 19 ac IFRIC 14, a yw'n briodol cydnabod ased sy'n cyfateb i werth llawn y gwarged neu wedi'i gapio ar werth uchaf sy'n hafal i'r budd economaidd sydd ar gael i CNC ac a oes rhwymedigaethau ychwanegol oherwydd unrhyw isafswm ariannu gofynnol a all fodoli.

Penderfynir y dylid gosod uchafswm gwerth sy'n hafal i'r budd mwyaf sydd ar gael i CNC drwy gyfraniadau is. Mae'r actiwari wedi darparu cyfrifiadau ar gyfer y gwerth hwn gan ddefnyddio rhagdybiaethau sy'n gyson â'r rhai a ddefnyddiwyd i bennu'r rhwymedigaeth buddionu diffiniedig ac yn unol â’r sefyllfa sy'n bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Ar 31 Mawrth 2025, yn dilyn derbyn cyngor cyfreithiol pellach, mae CNC yn cefnogi'r farn gyffredinol bod isafswm ariannu gofynnol yn bodoli ac ystyrir cyfraniadau gwasanaeth yn y dyfodol yn gyfwerth a hyn.

Fel y nodir o dan 16.2.5 isod, gosodir uchafswm gwerth o £dim (£dim ar 31 Mawrth 2024) sy'n hafal i werth presennol costau gwasanaeth yn y dyfodol wedi tynnu gwerth presenol cyfraniadau yn y dyfodol. Mae'r uchafswm yn £dim gan bod gwerth presennol cyfraniadau yn y dyfodol yn uwch na gwerth presenol costau gwasanaeth yn y dyfodol.

Bydd cyfraniadau arian parod a delir gan CNC i'r gronfa bensiwn yn parhau i gael eu pennu trwy gyfeirio at ragdybiaethau y cytunwyd arnynt ym mhob prisiad actiwaraidd tair blynedd o'r cynllun.

## 16.2.1 Rhagdybiaethau hirhoedledd ac ariannol

| **Blwyddyn a Ddaeth i Ben** | **31 Mawrth 2025<br>% y flwyddyn** | **31 Mawrth 2024<br>% y flwyddyn** |
|---|---|---|
| Cyfradd Cynyddu Pensiynau | 2.75% | 2.75% |
| Cyfradd Cynyddu Cyflogau | 3.25% | 3.25% |
| Cyfradd Disgownt | 5.80% | 4.85% |

Ar ddyddiad y prisiad diweddaraf, hyd rhwymedigaethau a ariennir gan y cyflogwr yw 20 mlynedd.

| | **Dynion** | **Menywod** |
|---|---|---|
| Pensiynwyr Cyfredol | 20.9 mlynedd | 23.5 mlynedd |
| Pensiynwyr y Dyfodol* | 22.1 mlynedd | 25.4 mlynedd |

* mae ffigurau'n rhagdybio bod aelodau'n 45 oed ar y dyddiad prisiad ffurfiol diwethaf

## 16.2.2 Dadansoddiad sensitifrwydd

| | **Amcangyfrif o % y cynnydd mewn Atebolrwydd Cyflogwr** | **Amcangyfrif o'r swm ariannol<br>£'000** |
|---|---|---|
| **Newid mewn rhagdybiaethau ar 31 Mawrth 2025:** | | |
| | 2% | 5,903 |
| Lleihad o 0.1% yn y Gyfradd Disgownt Real | 4% | 12,058 |
| Cynnydd o flwyddyn yn nisgwyliad oes aelodau | 0% | 338 |
| Cynnydd o 0.1% yn y Gyfradd Cynyddu Cyflogau | 2% | 5,727 |
| Cynnydd o 0.1% yn y Gyfradd Cynyddu Pensiynau | | |

## 16.2.3 Hyd rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio

Cyfrifwyd hyd y rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio (h.y. cyfartaledd pwysol yr amser nes talu llif arian yn y dyfodol) ar gyfer aelodau'r cynllun a gyfrifwyd ar y prisiad teirblwydd diwethaf ar 31 Mawrth 2022 gan yr actiwari fel 20 mlynedd.

## 16.2.4 Gwerth Teg Asedau

### Gwerth teg asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

**Categori Asedau**

| | Wedi'i ddyfynnu | Heb ei ddyfynnu | Amhenodol | Cyfanswm | % |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | |
| **Gwarantau Ecwiti:** | | | | | |
| Stoc Gyffredin | 45,377 | - | - | 45,377 | 10% |
| Stoc a Ffefrir | - | - | - | - | 0% |
| Hawliau/Gwarantau | - | - | - | - | 0% |
| Asedau Ecwiti Eraill | 241 | - | - | 241 | 0% |
| | **45,618** | **-** | **-** | **45,618** | **10%** |
| **Gwarantau Dyled:** | | | | | |
| Bondiau Llywodraeth y DU | - | - | - | - | 0% |
| Bondiau Corfforaethol | - | - | - | - | 0% |
| Arall | - | - | - | - | 0% |
| | - | - | - | - | 0% |
| **Cyfryngau Buddsoddi Cyfun** | | | | | |
| Ecwiti | - | 128,683 | - | 128,683 | 27% |
| Bondiau | - | 184,555 | - | 184,555 | 39% |
| Cronfeydd - Stoc Gyffredin | - | - | - | - | 0% |
| Cronfeydd - Eiddo Tirol | - | 12,042 | - | 12,042 | 3% |
| Cronfeydd - Cyfalaf Mente | - | 1,450 | - | 1,450 | 0% |
| | **-** | **326,729** | **-** | **326,729** | **69%** |
| **Cyfalaf Menter a Phartneriaethau:** | | | | | |
| Partneriaethau ac Eiddo Ti | - | 75,915 | - | 75,915 | 16% |
| | **-** | **75,915** | **-** | **75,915** | **16%** |
| **Buddsoddiad Arall:** | | | | | |
| Gwarantau dwbl | - | - | - | - | 0% |
| | **-** | **-** | **-** | **-** | **0%** |
| **Contractau Deilliadol:** | | | | | |
| Ecwiti Deiliadol - Dyfodol | - | - | - | - | 0% |
| Contractau FX i'r Dyfodol | - | 40 | - | 40 | 0% |
| | **-** | **40** | **-** | **40** | **0%** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n Gyfwerth ag Arian Parod** | | | | | |
| Pob un | - | - | 23,413 | 23,413 | 5% |
| | **-** | **-** | **23,413** | **23,413** | **5%** |
| **Cyfanswm** | **45,618** | **402,685** | **23,413** | **471,716** | **100%** |

## Gwerth teg asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

**Categori Asedau**

| | Wedi'i ddyfynnu | Heb ei ddyfynnu | Amhenodol | Cyfanswm | % |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | |
| **Gwarantau Ecwiti:** | | | | | |
| Stoc Gyffredin | 60,049 | - | - | 60,049 | 13% |
| Stoc a Ffefrir | - | - | - | - | 0% |
| Hawliau/Gwarantau | - | - | - | - | 0% |
| Asedau Ecwiti Eraill | 264 | - | - | 264 | 0% |
| | **60,313** | **-** | **-** | **60,313** | **13%** |
| **Gwarantau Dyled:** | | | | | |
| Bondiau Llywodraeth y DU | - | - | - | - | 0% |
| Bondiau Corfforaethol | - | - | - | - | 0% |
| Arall | - | - | - | - | 0% |
| | **-** | **-** | **-** | **-** | **0%** |
| **Cyfryngau Buddsoddi Cyfun** | | | | | |
| Ecwiti | - | 135,494 | - | 135,494 | 29% |
| Bondiau | - | 170,523 | - | 170,523 | 37% |
| Cronfeydd - Stoc Gyffredin | - | - | - | - | 0% |
| Cronfeydd - Eiddo Tirol | - | 4,215 | - | 4,215 | 1% |
| Cronfeydd - Cyfalaf Mente | - | 68 | - | 68 | 0% |
| | **-** | **310,300** | **-** | **310,300** | **67%** |
| **Cyfalaf Menter a Phartneriaethau:** | | | | | |
| Partneriaethau ac Eiddo Ti | - | 73,782 | - | 73,782 | 16% |
| | **-** | **73,782** | **-** | **73,782** | **16%** |
| **Buddsoddiad Arall:** | | | | | |
| Gwarantau dwbl | - | - | - | - | 0% |
| | **-** | **-** | **-** | **-** | **0%** |
| **Contractau Deilliadol:** | | | | | |
| Ecwiti Deiliadol - Dyfodol | - | - | - | - | 0% |
| Contractau FX i'r Dyfodol | - | (316) | - | (316) | 0% |
| | **-** | **(316)** | **-** | **(316)** | **0%** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n Gyfwerth ag Arian Parod** | | | | | |
| Pob un | - | - | 21,015 | 21,015 | 5% |
| | **-** | **-** | **21,015** | **21,015** | **5%** |
| **Cyfanswm** | **60,313** | **383,766** | **21,015** | **465,094** | **100%** |

## 16.2.5 Newid mewn gwerth teg asedau cynllun, rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio a rhwymedigaeth net

| **Cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025** | **Asedau** | **Rhwymed-igaethau** | **Net (atebolrwydd) / ased** |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwerth teg asedau'r cyflogwyr | 465,095 | - | **465,095** |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir | - | 351,916 | **(351,916)** |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau nas ariennir | - | - | **-** |
| Terfyn uchaf asedau wedi'i gymhwyso | (113,179) | - | **(113,179)** |
| **Sefyllfa agoriadol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2024** | **351,916** | **351,916** | **-** |
| Cost y gwasanaeth | | | |
| - Cost gwasanaeth bresennol* | - | 6,167 | **(6,167)** |
| - Cost gwasanaeth yn y gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau) | - | - | **-** |
| - Effaith setliadau | - | - | **-** |
| **Cyfanswm cost y gwasanaeth** | **-** | **6,167** | **(6,167)** |
| Llog net | | | |
| - Incwm llog ar asedau'r cynllun | 22,294 | - | **22,294** |
| - Cost llog ar rwymedigaeth buddion wedi'u diffinio | - | 16,956 | **(16,956)** |
| - Effaith terfyn uchaf asedau ar log net | - | - | **-** |
| **Cyfanswm llog net** | **22,294** | **16,956** | **5,338** |
| **Cyfanswm cost buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir mewn Elw neu (Colled)** | **22,294** | **23,123** | **(829)** |
| Llif arian | | | |
| - Cyfraniadau cyfranwyr i'r cynllun | 2,262 | 2,262 | **-** |
| - Cyfraniadau'r cyflogwyr | 6,899 | - | **6,899** |
| - Cyfraniadau o ran buddion nas ariennir | - | - | **-** |
| - Buddion a dalwyd | (12,605) | (12,605) | **-** |
| - Buddion a dalwyd nas ariennir | - | - | **-** |
| Effaith cyfuniadau a gwarediadau'r busnes | - | - | **-** |
| **Sefyllfa Orffenedig Ddisgwyliedig** | **370,766** | **364,696** | **6,070** |
| Ailfesuriadau | | | |
| - Newid mewn rhagdybiaethau ariannol | - | (59,824) | **59,824** |
| - Newid mewn rhagdybiaethau demograffig | - | (604) | **604** |
| - Profiad arall | - | (2,508) | **2,508** |
| - Enillion ar asedau ac eithrio'r symiau sydd wedi'u cynnwys mewn llog | (12,229) | - | **(12,229)** |
| - Newidiadau yn y terfyn uchaf asedau | (56,777) | - | **(56,777)** |
| **Cyfanswm ailfesuriadau a gydnabyddir yn 'Arall'** | **(69,006)** | **(62,936)** | **(6,070)** |
| **Incwm Cynhwysfawr (OCI)** | | | |
| Gwahaniaethau cyfnewid | - | - | **-** |
| Gwerth teg asedau'r cyflogwyr | 301,760 | - | **301,760** |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir | - | 301,760 | **(301,760)** |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau nas ariennir | - | - | **-** |
| **Sefyllfa orffenedig fel yr oedd ar 31 Mawrth 2025** | **301,760** | **301,760** | **-** |

* Mae'r gost gwasanaeth gyfredol yn cynnwys lwfans ar gyfer taliadau gweinyddu o 0.6% o'r gyflogres.

Amcangyfrifir bod gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir yn cynnwys oddeutu £146,152,000, £42,419,000 a £113,189,000 mewn perthynas ag aelodau sy'n weithwyr, pensiynwyr gohiriedig a phensiynwyr yn y drefn honno ar 31 Mawrth 2025. Mae gwerth teg asedau'r cynllun gan y cyflogwr tua 10% o cyfanswm y gronfa.

## 16.2.5 Newid mewn gwerth teg asedau cynllun, rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio a rhwymedigaethau net (parhad)

**Cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024**

| | **Asedau** | **Rhwymed-igaethau** | **Net (atebolrwydd) / ased** |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwerth teg asedau'r cyflogwyr | 433,293 | - | **433,293** |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir | - | 352,444 | **(352,444)** |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau nas ariennir | - | - | **-** |
| Terfyn uchaf asedau wedi'i gymhwyso | (80,849) | - | **(80,849)** |
| **Sefyllfa agoriadol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2023** | **352,444** | **352,444** | **-** |
| Cost y gwasanaeth | | | |
| - Cost gwasanaeth bresennol* | - | 6,988 | **(6,988)** |
| - Cost gwasanaeth yn y gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau) ** | - | - | **-** |
| - Effaith setliadau | - | - | **-** |
| **Cyfanswm cost y gwasanaeth** | **-** | **6,988** | **(6,988)** |
| Llog net | | | |
| - Incwm llog ar asedau'r cynllun | 20,374 | - | **20,374** |
| - Cost llog ar rwymedigaeth buddion wedi'u diffinio | - | 16,697 | **(16,697)** |
| - Effaith terfyn uchaf asedau ar log net | - | - | **-** |
| **Cyfanswm llog net** | **20,374** | **16,697** | **3,677** |
| **Cyfanswm cost buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir mewn Elw neu (Colled)** | **20,374** | **23,685** | **(3,311)** |
| Llif arian | | | |
| - Cyfraniadau cyfranwyr i'r cynllun | 2,281 | 2,281 | **-** |
| - Cyfraniadau'r cyflogwyr | 6,899 | - | **6,899** |
| - Cyfraniadau o ran buddion nas ariennir | - | - | **-** |
| - Buddion a dalwyd | (11,138) | (11,138) | - |
| - Buddion a dalwyd nas ariennir | - | - | **-** |
| Effaith cyfuniadau a gwarediadau'r busnes | - | - | **-** |
| **Sefyllfa Orffenedig Ddisgwyliedig** | **370,860** | **367,272** | **3,588** |
| Ailfesuriadau | | | |
| - Newid mewn rhagdybiaethau ariannol | - | (22,925) | **22,925** |
| - Newid mewn rhagdybiaethau demograffig | - | (2,307) | **2,307** |
| - Profiad arall | - | 9,876 | **(9,876)** |
| - Enillion ar asedau ac eithrio'r symiau sydd wedi'u cynnwys mewn llog | 13,386 | - | **13,386** |
| - Newidiadau yn y terfyn uchaf asedau | (32,330) | - | **(32,330)** |
| **Cyfanswm ailfesuriadau a gydnabyddir yn 'Arall'** | **(18,944)** | **(15,356)** | **(3,588)** |
| **Incwm Cynhwysfawr (OCI)** | | | |
| Gwahaniaethau cyfnewid | - | - | **-** |
| Gwerth teg asedau'r cyflogwyr | 351,916 | - | **351,916** |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir | - | 351,916 | **(351,916)** |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau nas ariennir | - | - | **-** |
| **Sefyllfa orffenedig fel yr oedd ar 31 Mawrth 2024** | **351,916** | **351,916** | **-** |

* Mae'r gost gwasanaeth gyfredol yn cynnwys lwfans ar gyfer taliadau gweinyddu o 0.6% o'r gyflogres.

## 17. Ymrwymiadau cyfalaf

Lle mae gan CNC ymrwymiadau cyfalaf cytundebol na ddarperir ar eu cyfer yn y datganiadau ariannol, fe'u datgelir yn y tabl isod. Dangosir yr ymrwymiadau sy'n ymwneud â Gwaith Cyfalaf a Dreuliwyd yn y Flwyddyn yn nodyn 4.

| | 31 Mawrth 2025 | 31 Mawrth 2024 (Ail-ddatganwyd) |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Eiddo, peiriannau ac offer** | | |
| Peiriannau ac offer | 170 | 680 |
| Offer trafnidiaeth | - | 32 |
| Strwythurau gweithredol | 1,579 | 131 |
| Strwythurau cyhoeddus | 34 | 175 |
| Technoleg gwybodaeth - caledwedd | 210 | 283 |
| **Cyfanswm** | **1,993** | **1,301** |
| **Asedau anniriaethol** | | |
| Technoleg gwybodaeth - trwyddedau meddalwedd | 8 | 166 |
| Technoleg gwybodaeth - datblygu meddalwedd | 1,164 | 1,155 |
| **Cyfanswm** | **1,172** | **1,321** |
| **Cyfanswm** | **3,165** | **2,622** |

Mae'r datgeliad ymrwymiad 31 Mawrth 2024 wedi'i ailddatgan yn unol â'r datgeliad yn nodyn 18.

## 18. Ymrwymiadau ariannol eraill

Yn ogystal â'r gwariant ymroddedig a adroddwyd yn Nodyn 4 (Gwariant ar Waith Cyfalaf mewn blwyddyn), Nodyn 17 (Ymrwymiadau Cyfalaf) a Nodyn 18 (Ymrwymiadau o dan lesoedd), mae CNC wedi ymrwymo i'r gwariant canlynol ar 31 Mawrth 2025. Mae'r costau hyn yn cynnwys contractau na ellir eu canslo megis cytundebau lefel gwasanaeth a chytundebau rheoli tiroedd yn ogystal ac archebion prynu agored ar gyfer busnes parhaus:

| | 31 Mawrth 2025 | 31 Mawrth 2024 (Ail-ddatganwyd) |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Yn ddim hwyrach na blwyddyn | 11,349 | 16,503 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a ddim hwyrach na phum mlynedd | 7,924 | 3,490 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 104 | 110 |
| **Cyfanswm** | **19,377** | **20,103** |

Mae gwerthoedd Mawrth 2024 wedi'u hail-ddatgan i adlewyrchu rhagdybiaethau wedi'u diweddaru mewn perthynas ag archebion prynu agored, nad ydynt yn dynodi contract neu ymrwymiad na ellir ei ganslo.

## 19. Rhwymedigaethau digwyddiadol

Mae CNC yn datgelu rhwymedigaethau digwyddiadol yn unol ag IAS 37 pan fo rhwymedigaeth bosibl yn bodoli, yn dibynnu a yw rhyw ddigwyddiad ansicr yn y dyfodol yn digwydd, neu a oes rhwymedigaeth bresennol yn bodoli ond nid yw'r taliad yn debygol, neu na ellir mesur y swm yn ddibynadwy.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru y rhwymedigaethau digwyddiadol fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2025 | 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Hawliadau gwerthu pren | 60 | 60 |
| Hawliadau difrod llifogydd a stormydd | 799 | 802 |
| Atebolrwydd cyhoeddus a gweithwyr | 31 | 46 |
| Cosbau wedi eu hatal gan CThEF | 2,951 | - |
| **Cyfanswm** | 3,841 | 908 |

**Hawliadau gwerthu pren**
Mae CNC wedi derbyn hawliadau gan gwmni pren mewn perthynas â'u contract gyda CNC. Mae'r swm a ddatgelir yn y tabl uchod yn ymwneud ag un hawliad.

**Hawliadau difrod llifogydd a stormydd**
Mae 12 achos agored yn ymwneud â difrod i eiddo yn dilyn methiant draeniau storm a cheuffosydd o ganlyniad i stormydd Ciara, Dennis ac Arwen.

**Atebolrwydd cyhoeddus a gweithwyr**
Mae gwerth 8 hawliad atebolrwydd cyhoeddus wedi'i gynnwys yn y tabl uchod. Mae'r hawliadau hyn ar gyfer difrod arall i eiddo ac anaf i dda byw.

**Adolygiad Cyllid a Thollau EF (CThEF)**
Mae CThEF wedi cwblhau eu hadolygiad o driniaeth CNC o gontractwyr o safbwynt treth mewn perthynas â rheoliadau IR35. Mae'r rhwymedigaethau treth ychwanegol sy'n deillio o hyn wedi'u cydnabod yn y datganiadau ariannol ac mae rhagor o wybodaeth wedi'i chynnwys yn yr adroddiad seneddol. Yn ogystal, datgelir rhwymedigaeth amodol mewn perthynas â chosbau sy'n berthnasol i'r adolygiad hwn. Mae CThEF wedi cadarnhau, er bod cosbau wedi'u gosod, eu bod wedi'u hatal am gyfnod o 12 mis a dim ond os na fydd CNC yn bodloni amodau'r ataliad y byddant yn daladwy. Mewn ymateb i adolygiad CThEF, mae CNC wedi adolygu ei brosesau ar gyfer ymgysylltu â chontractwyr i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus ag IR35.

### <u>Rhwymedigaethau digwyddiadol heb eu mesur</u>

Yn unol ag IAS 37, mae CNC yn datgelu'r rhwymedigaethau amodol anfesuradwy canlynol. Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys gwerthoedd ar gyfer y rhwymedigaethau amodol canlynol:

**Hawliadau difrod llifogydd a stormydd**
Mae 47 o hawliadau wedi'u derbyn lle nad yw'r gwerthoedd wedi'u mesur eto. O fewn hyn mae un hawliad a allai fod yn sylweddol oherwydd difrod i wal llifogydd. Mae CNC yn y broses o negodi setliad, ond ar ddiwedd y flwyddyn mae'r swm hwn yn dal heb ei fesur.

**Hawliadau iawndal eraill**
Mae 6 hawliad arall heb eu mesur mewn perthynas â difrod i eiddo ac 1 hawliad arall am iawndal heb ei fesur.

**Hawliadau colled ariannol**
Mae hawliad parhaus ar ddiwedd y flwyddyn mewn perthynas â'r posibilrwydd o golli incwm oherwydd amrywiad a osodwyd i'r drwydded tynnu dŵr i warchod Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi. Byddai'r cais hwn yn cael ei ariannu hyd at £660k gan gynllun Tâl Uned Gwella'r Amgylchedd (EIUC) CNC. Ar y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, nid yw'r rhwymedigaeth bosibl wedi'i mesur oherwydd y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt.

**Anaf Personol**
Mae 8 achos agored ac anfesuredig arall mewn perthynas â llithro, baglu a chwympo, a digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid a cherbydau. Daeth 2 achos pellach i'r amlwg ar ol 31 Mawrth 2025 yn ymwneud a digwyddiadau hanesyddol. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosib i CNC assessu gwerth rhwymedigaeth bosibl ar gyfer yr achosion hyn gydag unrhyw sicrwydd.

**Clymog Japan**
Mae 9 hawliad am ddifrod a achoswyd gan blanhigyn Clymog Japan yn aros am farn arbenigol am gostau posib difrod a thrwsio**.**

**Cyfraith achosion sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud â chynlluniau pensiwn**
Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd yr Uchel Lys benderfyniad (Virgin Media Limited v NTL Pension Trustees II Limited ac eraill) a allai fod â goblygiadau ar gyfer dilysrwydd gwelliannau a wnaed gan gynlluniau pensiwn, gan gynnwys y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a gafodd eu contractio allan ar sail sy'n gysylltiedig â chyflog rhwng 6 Ebrill 1997 a diddymu contractio allan yn 2016. Roedd y dyfarniad yn ymwneud â'r gofyniad i'r Ymddiriedolwyr gael cadarnhad actiwari'r Cynllun bod Cynllun yn parhau i ddarparu lefel isafswm o fuddion (a elwir yn 'brawf cynllun cyfeirio') yn dilyn rhai mathau o ddiwygiadau i reolau. Heb y cadarnhad hwn (a elwir weithiau'n gadarnhad adran 37, drwy gyfeirio at adran 37 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993, sy'n nodi mai dim ond fel y rhagnodir yn y rheoliadau perthnasol y gellir newid rheolau'r cynllun), gall y gwelliant fod yn ddi-rym ac yn aneffeithiol. Cadarnhaodd y Llys Apêl y penderfyniad gwreiddiol.

Ym mis Mehefin 2025 cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau fwriad y Llywodraeth i gyflwyno deddfwriaeth i roi'r gallu i gynlluniau pensiwn yr effeithir arnynt gael cadarnhad actiwaraidd ysgrifenedig yn ôl-weithredol bod newidiadau hanesyddol i fuddion yn bodloni'r safonau angenrheidiol, gan arwain at ddileu'r risg o rwymedigaethau ychwanegol. Er bod bwriad y Llywodraeth wedi'i gyhoeddi, hyd nes y bydd deddfwriaeth yn cael ei deddfu, mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch rhwymedigaethau'r cynllun, ac mae datgeliad rhwymedigaeth amodol yn briodol. Yn ogystal ag ansicrwydd rhwymedigaeth bosibl, ni ellir mesur unrhyw werth rhwymedigaeth bosibl gyda dibynadwyedd digonol.

## 20. Digwyddiadau ar ôl diwedd y cyfnod adrodd

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau i'w hadrodd ar ôl diwedd y cyfnod adrodd.

## 21. Dyddiad awdurdodi ar gyfer cyhoeddi

Mae’r Datganiadau Ariannol hyn yn cael eu gosod gerbron y Senedd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, Huw Irranca-Davies AS. Mae IAS 10 yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog cyfrifyddu ddatgelu'r dyddiad pan gaiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi ar gyfer eu cyhoeddi. Y dyddiad cyhoeddi awdurdodi yw dyddiad adroddiad archwilio'r Archwilydd Cyffredinol.

## 22. Partïon cysylltiedig

Mae CNC yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cael ei ystyried yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, mae CNC wedi cael trafodion perthnasol sylweddol gyda Llywodraeth Cymru yn ystod busnes arferol (adroddir ar y cymorth grant a'r grantiau a dderbyniwyd gan Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn yn y Datganiad o Ecwiti Trethdalwyr). Mae CNC hefyd wedi cael trafodion ag endidau eraill y mae Llywodraeth Cymru yn cael ei hystyried yn adran rhiant iddynt, sef Awdurdodau Lleol Cymru a Pharciau Cenedlaethol, a thrafodion ag adrannau llywodraeth eraill a chyrff llywodraeth ganolog eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r trafodion hyn wedi bod gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a CThEF.

Yn ystod y flwyddyn, fe ymrwymodd CNC, yn ystod ei fusnes arferol, y trafodion canlynol gyda'r sefydliadau canlynol yr oedd gan aelodau'r Bwrdd ac Aelodau Gweithredol neu bartïon cysylltiedig eraill ddiddordeb ynddynt. Nid oes gan y Bwrdd na'r Aelodau Gweithredol unrhyw ran uniongyrchol yn y trafodion gyda'r partïon cysylltiedig hyn. Rydym wedi dangos trafodion am y flwyddyn gyfan gan gynnwys lle mae aelodau wedi ymuno neu adael yn ystod y flwyddyn.

| Sefydliad | Aelod | Natur y berthynas | Cyfanswm gwariant £'000 | Cyfanswm yr incwm £'000 | Swm sy'n ddyledus gan CNC ar 31 Mawrth 2025 £'000 | Swm sy'n ddyledus i CNC ar 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | Rhys Jones | Athro | 8 | 5 | 1 | 0 |
| | Priod Rhys Jones | Cyflogai | | | | |
| Prifysgol Caerdydd | Steve Ormerod | Athro | 83 | 16 | 0 | 1 |
| | Calvin Jones | Athro | | | | |
| Sefydliad Ymchwil Dŵr Prifysgol Caerdydd | Steve Ormerod a'i briod | Cyd-gyfarwyddwyr | | | | |
| Arsyllfa Llyn Brianne Prifysgol Caerdydd | Steve Ormerod a'i briod | Prif Ymchwilwyr | | | | |
| Cartrefi Conwy | Helen Pittaway | Cyfarwyddwr Anweithredol | 0 | 1 | 0 | 1 |

| Sefydliad | Aelod | Natur y berthynas | Cyfanswm gwariant<br><br>£'000 | Cyfanswm yr incwm<br><br>£'000 | Swm sy'n ddyledus gan CNC ar 31 Mawrth 2025<br>£'000 | Swm sy'n ddyledus i CNC ar 31 Mawrth 2025<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | Kathleen Palmer | Is-gadeirydd | 0 | 6 | 0 | 9 |
| Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt (FWAG) Cymru | Geraint Davies | Cadeirydd | 0 | 3 | 0 | 0 |
| Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) | Rhys Jones<br><br>Steve Ormerod | Aelodau'r Pwyllgor | 11 | 0 | 0 | 0 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Rosie Plummer | Aelod o'r Bwrdd | 237 | 1 | 20 | 0 |
| Plantlife International | Rosie Plummer | Ymddiriedolwr | 130 | 58 | 29 | 33 |
| Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar | Steve Ormerod | Is-lywydd | 681 | 52 | 381 | 50 |
| Llywodraeth Cymru | Calvin Jones | Cyflogai (ar secondiad) | 12,434 | 185,125 | 12,300 | 17,768 |

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, wrth gyflawni ei fusnes arferol, y trafodiad uniongyrchol canlynol gyda'r aelod Bwrdd canlynol:

| Aelod | Natur y trafodion | Cyfanswm y taliadau<br><br>£'000 | Cyfanswm yr incwm<br><br>£'000 | Swm sy'n ddyledus gan CNC ar 31 Mawrth 25<br>£'000 | Swm sy'n ddyledus i CNC ar 31 Mawrth 25<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Geraint Davies | Cytundebau Adran 16 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | 3 | 0 | 0 | 0 |

# Atodiad: Y sefyllfa derfynol o ran ymrwymiadau a mesurau cyflawni allweddol ar gyfer 2024/25

Mae rhagor o fanylion am sefyllfa derfynol holl ymrwymiadau a mesurau cyflawni allweddol y cynllun busnes wedi'u cynnwys ar y tudalennau canlynol.

Rydym wedi gwneud y canlynol:

- Ailadrodd y manylion olaf yr ydym wedi'u hadrodd ar gyfer pob ymrwymiad, fel y'u hadroddwyd ym mhapurau'r Bwrdd (a gyhoeddwyd ar gyfer sesiwn gyhoeddus agored cyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2025)
- Nodi'r tudalennau yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon hyn lle cyfeirir at y safbwyntiau ymrwymiad manwl hyn

Rydym wedi defnyddio allwedd syml i adlewyrchu cynnydd ar ein hymrwymiadau, gan ddefnyddio'r lliwiau canlynol:

- Gwyrdd (wedi'i gyflawni)
- Oren (wedi'i gyflawni'n rhannol)
- **Coch** (heb ei gyflawni)

Ar gyfer pob ymrwymiad, mae hyd at dri mesur cyflawni allweddol, h.y. y rhai a ystyrir yn bwysicaf i wneud cynnydd yn erbyn pob ymrwymiad yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi adlewyrchu cynnydd yn erbyn y mesurau cyflawni hyn ar gyfer pob ymrwymiad hefyd, gan ddefnyddio eicon:

- ★ (Wedi'i gyflawni)
- ♦ (Wedi'i gyflawni'n rhannol)
- ■ (Heb ei gyflawni)

| Sefyllfa derfynol a adroddwyd | Tudalen(nau) |
| --- | --- |
| **Ymrwymiad 1: “Gwerthuso rhaglen Rhwydweithiau Natur CNC i lywio buddsoddiad yn y dyfodol ar gyfer safleoedd gwarchodedig”**<br><br>Mae’r ymrwymiad hwn yn ‘oren’ ar ddiwedd mis Mawrth.<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 1: “Gwell dealltwriaeth o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gweithgarwch a ddarperir ar draws rhaglen Rhwydweithiau Natur CNC trwy werthuso 70% o weithgarwch presennol a blaenorol erbyn diwedd Ch2 i sefydlu’r llinell sylfaen”: Mae’r gwerthusiad wedi parhau ond nid yw wedi bod yn bosibl ei gwblhau. Mae ein dadansoddiad wedi dangos bod rhaglen Rhwydweithiau Natur CNC wedi cyflawni gweithgareddau cadwraeth ar o leiaf 223 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ledled Cymru. Yn 2024/25, fe wnaethom gyflawni gweithgareddau cadwraeth ar o leiaf 207 o SoDdGAau ar wahân. Rydym wedi oedi gwerthuso’r rhaglen ac eithrio ar gyfer gwaith a gyflawnwyd ar SoDdGAau trwy gytundebau rheoli tir (a phrosiectau Rhwydweithiau Natur morol – yr adroddwyd amdanynt mewn man arall). Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cwblhau ei gwerthusiad o’r rhaglen Rhwydweithiau Natur ehangach (CNC a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol) yn 2025/26; mae cwmpas ac amserlen hynny i’w cadarnhau a byddwn felly’n diffinio ein proses fewnol ein hunain wrth barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar y gwerthusiad ehangach o’r rhaglen. ■<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: “Gweithgarwch Rhwydweithiau Natur CNC sy’n fwy effeithiol yn y dyfodol drwy nodi blaenoriaethau a datblygu dulliau cyflenwi erbyn diwedd Ch3 (yn seiliedig ar ganlyniadau Mesur Cyflawni Allweddol 1)”: Rydym wedi trafod blaenoriaethau â Llywodraeth Cymru cyn cwmpasu’r gwerthusiad rhaglen llawn ac wedi rhannu’r gwaith gwerthuso y mae CNC wedi’i wneud hyd yn hyn a’i fethodoleg. Ar ôl oedi gwerthusiad CNC yn 2024/25 i gyd-fynd â gwerthusiad ehangach Llywodraeth Cymru o raglenni (sydd bellach wedi’i gynllunio ar gyfer 2025/26), nid oeddem yn gallu cyrraedd y cam blaenoriaethu mewn perthynas â’r mesur cyflawni hwn. ■<br><br>Y llwybr i gyflawni statws gwyrdd yw cwmpasu proses werthuso CNC ei hun erbyn Ch2 gydag amserlen ar gyfer Ch4, ac i fynd i’r afael â bylchau mewn capasiti cyflawni erbyn Ch3 trwy fuddsoddi mewn cyflawni gweithgarwch gwerthuso, gan gynnwys data Rhwydweithiau Natur / gallu Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol. | 18, 19 |
| **Ymrwymiad 2:“Cyfuno tystiolaeth i nodi blaenoriaethau ar gyfer hysbysu ac ailhysbysu safleoedd sy’n cyfrannu at y targed 30:30”**<br><br>Mae’r ymrwymiad hwn yn **‘goch’** ar ddiwedd mis Mawrth. | 18, 19 |

| Sefyllfa derfynol a adroddwyd | Tudalen(nau) |
|---|---|
| • O ran Mesur Cyflawni Allweddol 1: “Gwella dealltwriaeth o faint a chysylltedd y rhwydwaith SoDdGA presennol trwy gwblhau asesiad o bob safle erbyn diwedd Ch3”: Rydym bellach wedi cwblhau drafft cyntaf Adroddiad Adolygu’r SoDdGAau, a rannwyd gan y grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn gwneud sylwadau arno a’i adolygu. Gwnaethom gyfarfod â’r grŵp i drafod addasiadau ac ychwanegiadau y mae angen eu gwneud. Ein cam nesaf yw mireinio’r adroddiad cyn ei rannu â phartneriaid Grŵp Craidd yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth. Ochr yn ochr â rhannu’r adroddiad yn ehangach, bydd darn cyfathrebu cyd-destunol yn cael ei ddrafftio. Roedd effaith barhaus yr achos dros newid, gyda chapasiti staff ychwanegol cyfyngedig ar gael yn Ch4, yn golygu nad oeddem yn gallu symud ymlaen i sicrhau bod yr adroddiad yn gyflawn ar ddiwedd y flwyddyn, er y gwnaed cynnydd da tuag at ei gwblhau. ■<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: “Mwy o gyngor i gyflymu hysbysu ac ailhysbysu trwy gyhoeddi’r Llawlyfr Hysbysu SoDdGA” a Mesur Cyflawni Allweddol 3: “Cynyddu effeithiolrwydd y dyraniad o fuddsoddiad ar gyfer cyflwyno rhaglen hysbysu well trwy gyflwyno rhaglen wedi’i chostio yn seiliedig ar dystiolaeth o fesurau cyflawni allweddol 1 a 2”: Cafodd y mesurau cyflawni allweddol hyn eu gohirio oherwydd yr effaith ar swyddi gwag ac argaeledd staff fel y disgrifiwyd yn adroddiad Ch3. Rydym yn bwriadu ailgychwyn y mesurau cyflawni hyn a’u cwblhau yn y flwyddyn gynllun nesaf. ■ ■<br><br>Y llwybr i gyflawni statws gwyrdd yw cwblhau Mesur Cyflawni Allweddol 1 erbyn Ch2 2025/26 i lywio blaenoriaethu hysbysiadau SoDdGA er mwyn sicrhau bod ystod o gynefinoedd a rhywogaethau wedi’u cynrychioli’n ddigonol ar gyfer targedu camau adfer natur yn ofodol, gan gyfrannu at rwydwaith ecolegol gwydn. | |
| **Ymrwymiad 3:“Datblygu dealltwriaeth o effaith ymyrraeth 11 o brosiectau seiliedig ar leoliad y rhaglen bartneriaeth Natur am Byth i fireinio cyflenwi cadwraeth”**<br><br>Mae’r ymrwymiad hwn yn ‘wyrdd’ ar ddiwedd mis Mawrth.<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 1: “Gwell dealltwriaeth o effeithiolrwydd yr 11 prosiect seiliedig ar leoliad Natur am Byth trwy brofi’r fframwaith mesur effaith a mireinio’r cynnyrch”: Y maes lle rydym wedi gwneud y cynnydd mwyaf yw cynnydd ym maint y data monitro a gwerthuso a ddychwelwyd gan bob partner corff anllywodraethol o fewn y bartneriaeth. Mae hyn yn dangos y buddsoddiad mewn hyfforddiant a chefnogaeth gan dîm y rhaglen a gynhelir gan CNC a’n hymgynghorwyr gwerthuso arbenigol. ★<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: “Cynyddu sgiliau holl staff perthnasol y rhaglen trwy ddarparu hyfforddiant Asesu Adfer Rhywogaethau (i baratoi ar gyfer adolygiad llawn o dargedau adfer rhywogaethau yn 2025/26) (cwblhawyd erbyn Ch2)”: Cwblhawyd y mesur cyflawni allweddol hwn ar darged yn Chwarter 2. Er mwyn gwneud y mwyaf o’r gwaith hwn, cynhaliodd CNC weithdy ledled y DU yn Ch4 i archwilio’r defnydd o ddulliau cromlin adfer rhywogaethau ar draws Prydain Fawr a Gogledd | 18 |

| Sefyllfa derfynol a adroddwyd | Tudalen(nau) |
|---|---|
| Iwerddon ac i fynd i'r afael â gwahaniaethau o ran dull gweithredu rhwng gwledydd a sefydliadau. Cafodd y digwyddiad groeso da, ac roedd yn gyfle cadarnhaol i arddangos gwaith yng Nghymru i asiantaethau cadwraeth natur sy'n bartneriaid, llywodraethau datganoledig, y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, a chyrff anllywodraethol. Tynnodd sylw at yr angen i swyddogion lefel prosiect i gael mwy o hyfforddiant er mwyn cynyddu effeithlonrwydd wrth gynnal asesiadau adfer rhywogaethau ar lefel prosiect ac er mwyn cynyddu hyder. ★<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 3: ★ "Gwell dealltwriaeth o'r 67 o rywogaethau targed Natur am Byth trwy gwblhau adolygiad o'r holl gynlluniau monitro ecolegol": Wedi'i gwblhau yn y chwarteri blaenorol. ★<br><br>Byddwn yn parhau i weithredu egwyddorion rheoli rhaglenni i reoli risgiau a materion o fewn rhaglen Natur am Byth. Bydd bwrdd y rhaglen a grŵp llywio'r bartneriaeth yn parhau i gyflawni eu cyfrifoldeb o gefnogi staff y prosiect a chontractwyr i gyflawni camau cadwraeth. Bydd y fframwaith mesur effaith yn parhau i gael ei ddefnyddio i fonitro gweithgareddau ac i sicrhau bod deilliannau prosiectau sy'n seiliedig ar leoedd yn cael eu gwireddu, gan gyfrannu at y deilliannau Cymru gyfan y mae ein cyllid allanol yn dibynnu arnynt. | |
| **Ymrwymiad 4: "Cryfhau dealltwriaeth o gyflwr nodweddion ACAau ac AGAau morol sydd yng Nghymru yn unig er mwyn llywio blaenoriaethu"**<br><br>Mae'r ymrwymiad hwn yn 'wyrdd' ar ddiwedd mis Mawrth.<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 1: "Mwy o gyngor i gefnogi gwella rheolaeth ACAau ac AGAau morol trwy ddiweddaru 12 allan o 19 pecyn cyngor cadwraeth": Mae pob un o'r 12 pecyn cyngor cadwraeth wedi'u cwblhau a'u cymeradwyo gan grŵp gorchwyl a gorffen y prosiect ac maent wedi cael eu hanfon i'w cymeradwyo'n derfynol. Bydd rhywfaint o waith golygu a phrawfddarllen o'r pecynnau cyngor i'w gwneud yn ogystal â gwiriadau hygyrchedd, ond rydym yn hyderus y bydd pob un o'r 12 pecyn cyngor cadwraeth newydd yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan ym mis Mehefin. Yn tanategu rhain, rydym wedi cwblhau'r holl asesiadau o gyflwr ac maent gyda grŵp gorchwyl a gorffen y prosiect i'w cymeradwyo. Bydd angen gwiriadau golygu a hygyrchedd ar y rhain hefyd, ac rydym yn hyderus y byddwn yn cyhoeddi pob adroddiad ar ein gwefan ym mis Mehefin. ★<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: "Gwell dealltwriaeth o ddirywiad mewn rhywogaethau a chynefinoedd penodol trwy gynnal ymchwiliadau o dan y rhaglen Rhwydweithiau Natur Morol, gan nodi canfyddiadau ac argymhellion mewn cyfres o adroddiadau": Talwyd yr holl wariant ar gyfer contractwyr ar amser. Roedd y cam ysgrifennu adroddiadau yn hirach na'r disgwyl. Dylai fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd gwanwyn 2025. Mae adnoddau ar gyfer y prosiect tair blynedd hwn wedi lleihau dros amser, gan olygu bod angen amserlen hirach i'w gwblhau. ♦ | 18 |

| Sefyllfa derfynol a adroddwyd | Tudalen(nau) |
|---|---|
| Adroddiadau ymchwiliad i'w cwblhau erbyn diwedd gwanwyn 2025. Cyhoeddir adroddiadau gwella cyngor cadwraeth forol ym mis Mehefin 2025 fel y cytunwyd. | |
| **Ymrwymiad 5:"Integreiddio tystiolaeth adfer natur i'r broses ar gyfer y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig a rheolaeth yr AHNEau a Pharciau Cenedlaethol presennol i wella'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer natur"**<br><br>Mae'r ymrwymiad hwn yn 'wyrdd' ar ddiwedd mis Mawrth.<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 1: "Cynyddu ein cyngor ar gamau adfer natur trwy ddynodi Parc Cenedlaethol newydd drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y ffin arfaethedig a'r argymhellion dynodi terfynol": Y maes lle rydym wedi gwneud y cynnydd mwyaf yw cwblhau adroddiad dadansoddi ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn Ch3, a chychwyn a datblygu nifer o ffrydiau gwaith, gan gynnwys asesiad o'r effaith ar iechyd, asesiad o'r effaith ar y Gymraeg, asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, ac adroddiad buddion i natur. Yn ogystal, rydym wedi parhau â gweithgareddau rheoli rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cyfarfod â'r pum awdurdod lleol yr effeithir arnynt. Rydym hefyd wedi comisiynu Arup i lunio dau adroddiad, y cyntaf i adolygu cynllunio yng nghyd-destun Parc Cenedlaethol, a'r ail i asesu effeithiau economaidd dynodiad. ★<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: "Cynyddu'r cyngor ar gyfleoedd i integreiddio camau gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a hinsawdd i gynlluniau rheoli Parciau Cenedlaethol ac AHNEau drwy adnewyddu Canllawiau'r Cynllun Rheoli Tirweddau Dynodedig": Y maes lle rydym wedi gwneud y cynnydd mwyaf yw trafodaethau â Pharciau Cenedlaethol Eryri ac Arfordir Penfro a Thirweddau Cenedlaethol Pen Llŷn a Gŵyr, a chefnogaeth iddynt, ar gymhwyso ein canllawiau cynllun rheoli tirweddau dynodedig i'w canllawiau cynllun rheoli. Er mwyn helpu i lywio'r drafodaeth, mae nodyn crynodeb byr wedi'i baratoi ac mae'n cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r sgwrs â staff o bob un o'r tirweddau dynodedig. ★<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 3: "Mwy o wybodaeth am effeithiolrwydd camau gweithredu wedi'u blaenoriaethu drwy gefnogi'r gwaith o gyflawni argymhellion cychwynnol Grŵp Arbenigol Tirweddau Dynodedig 30:30 Cymru": Y maes lle rydym wedi gwneud y cynnydd mwyaf yw gweithio i egluro'r berthynas rhwng tirweddau dynodedig, fel Ardaloedd Gwarchodedig Categori V o dan system ddosbarthu'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN), a Mesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill sy'n Seiliedig ar Ardal (OECMs), a ddiffinnir gan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol fel ardal a ddiffinnir yn ddaearyddol heblaw ardal warchodedig. Ar y sail hon, ni ellir ystyried Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol yn Fesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill sy'n Seiliedig ar Ardal. Bydd hyn yn llywio fframwaith 30x30 Llywodraeth Cymru wrth iddo ddod i'r amlwg. ★ | 7, 18, 19 |

| Sefyllfa derfynol a adroddwyd | Tudalen(nau) |
|---|---|
| Drwy Tirweddau Cymru a rheolwr newydd y Rhaglen Adfer Natur 30x30, y ffocws nawr fydd cydweithio rhwng tirweddau dynodedig, CNC a Llywodraeth Cymru i ddatblygu mecanwaith i nodi a mapio pa ardaloedd mewn tirweddau all gyfrannu a chyflawni yn erbyn 30x30, sy’n gysylltiedig â’r broses cynllunio rheoli a chanllawiau cynllun rheoli CNC wedi’u diweddaru. | |
| **Ymrwymiad 6:“Darparu tystiolaeth ac arbenigedd i lywio datblygiad Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru a nodi gyda Llywodraeth Cymru pa wasanaethau cymorth y gallai fod eu hangen”**<br><br>Mae’r ymrwymiad hwn yn ‘wyrdd’ ar ddiwedd mis Mawrth.<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 1: “Mwy o eglurder ar gyflawni Gweithredoedd Cyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn erbyn tri amcan llesiant CNC, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, erbyn diwedd Ch2”: Mae CNC wedi cadw i fyny â’r gwaith mireinio amrywiol sy’n digwydd ar draws y Gweithredoedd Cyffredinol ac wedi helpu i lunio’r rhain er mwyn lleihau risgiau rheoleiddiol. Rydym wedi cwblhau gwaith i leihau’r effaith ar drwyddedu a chydsynio trwy newidiadau mewn perthynas â Gweithredoedd Cyffredinol ac wedi helpu i lywio tuag at gamau gweithredu dewisol ac esblygiad tymor hwy’r cynllun. Rydym wedi rhoi cyngor ar ddatblygu cod Gweithredoedd Cyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ac wedi cefnogi Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â rhanddeiliaid a grwpiau swyddogion. ★<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: “Gwybodaeth a dealltwriaeth gynyddol o’r gofynion o fewn y Gweithredoedd Cyffredinol drwy gwblhau cynllun peilot o gynlluniau rheoli ar gyfer SoDdGAau erbyn Ch4”: Mae pob ymweliad â safle wedi’i gwblhau yn ystod y chwarter, ac rydym wedi casglu digon o wybodaeth sylfaenol i lywio achos busnes Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Mae cynlluniau rheoli ffug bellach yn cael eu hanfon at swyddogion yr amgylchedd i helpu i werthuso’r broses. Mae adroddiad terfynol yn cael ei baratoi a disgwylir iddo gael ei gwblhau ym mis Ebrill, a fydd yn llywio’r camau nesaf. ★<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 3: “Gwell dealltwriaeth o ddirywiad mewn rhywogaethau a chynefinoedd penodol trwy gynnal ymchwiliadau o dan y rhaglen Rhwydweithiau Natur Morol, gan nodi canfyddiadau ac argymhellion mewn cyfres o adroddiadau”: Rydym wedi cwmpasu gofynion gwasanaeth cymorth cyn belled ag y gallwn, o ystyried sefyllfa’r cynllun. Mae trefniadau ariannu pontio ar gyfer parodrwydd gweithredol yn cael eu negodi. Mae rhagdybiaethau cost o ran darparu gwasanaethau bellach wedi’u cyflwyno i Lywodraeth Cymru i lywio eu hachos busnes ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. ★<br><br>Mae yna lawer o rannau symudol o hyd ond mae gennym ddealltwriaeth dda o’r disgwyliadau ar gyfer darparu gwasanaethau. | 18, 19 |

| Sefyllfa derfynol a adroddwyd | Tudalen(nau) |
|---|---|
| **Ymrwymiad 7: “Rhoi Mai Di-dor ar waith, treialu dulliau newydd o weithio gyda byd natur ar y tir a’r asedau rydym yn eu rheoli, a nodi argymhellion wedi’u blaenoriaethu”**<br><br>Mae’r ymrwymiad hwn yn ‘wyrdd’ ar ddiwedd mis Mawrth.<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 1: “Lleihau torri gwair ar asedau rheoli perygl llifogydd CNC drwy (a) adael 70% o asedau heb eu torri yn ystod Mai Di-dor a (b) nodi dulliau amgen o leihau torri gwair a gweithio gyda byd natur, gan gychwyn cynlluniau peilot ar asedau rheoli perygl llifogydd allweddol (nifer i’w pennu)”: Cafodd ein trefn torri gwair yn ystod mis Mai ei lleihau mwy na 70% ac mae canllawiau bellach ar waith i asesu risg torri gwair yn y dyfodol ym mis Mai fel mai dim ond trwy eithriad y bydd gwair yn cael ei dorri – er enghraifft, lle bo angen i gynnal cydymffurfedd statudol yn ein safleoedd cronfeydd dŵr. ★<br><br>Mae prosiect i edrych ar safleoedd peilot i bontio i gyfundrefnau torri gwair sy’n cefnogi cynefinoedd lle ceir cyfoeth o rywogaethau wedi’i dderbyn i raglen gwella rheoli perygl llifogydd. | 18 |
| **Ymrwymiad 26:“Datblygu dealltwriaeth o anghenion defnyddwyr, profiad, a chyfleoedd ar gyfer negeseuon cyffredin a phrif ffrydio tystiolaeth i wneud penderfyniadau er mwyn llywio’r adroddiad interim ar gyfer Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025”**<br><br>Mae’r ymrwymiad hwn yn ‘wyrdd’ ar ddiwedd mis Mawrth.<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 1: “Cynyddu’r wybodaeth ymhlith cyrff sector a rhanddeiliaid ehangach ynghylch sut i wneud y gorau o weithredu ar y cyd ar natur, hinsawdd a llygredd drwy gyhoeddi’r adroddiad interim ar gyfer Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025 (erbyn diwedd Ch3)”: Dim cynnydd pellach yn ystod Ch4. Mesur cyflawni wedi’i gwblhau yn Ch3 drwy gyhoeddi fersiwn interim o’r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. ★<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: “Cynyddu ein gwybodaeth am ryngweithio defnyddwyr â’r adroddiad interim ar gyfer Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025 drwy sefydlu offeryn monitro ar-lein a chynnal gwaith dadansoddi”: Y maes lle rydym wedi gwneud y cynnydd mwyaf yw cyhoeddi’r adroddiad interim ynghyd â blog a datganiad i’r wasg y cadeirydd ar 13 Ionawr. Cafwyd cyfanswm o 747 o ymweliadau â thudalen we’r adroddiad interim rhwng 19 Rhagfyr a 31 Mawrth. Roedd 455 o’r rhain ym mis Ionawr yn dilyn y datganiad i’r wasg. Lawrlwythwyd yr adroddiad interim 95 o weithiau rhwng ei gyhoeddi a 31 Mawrth 2025, y seithfed lawrlwythiad mwyaf poblogaidd o’n gwefan yn ystod Ch4. At ei gilydd, o fis Ebrill 2024 i fis Mawrth 2025, roedd 3,522 o ymweliadau â phrif dudalennau gwe’r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, gan gynnwys adroddiadau blaenorol. Bu cynnydd mewn diddordeb yn dilyn cyhoeddi adroddiad interim 2024. Cyhoeddodd sefydliadau cenedlaethol a rhanbarthol a gwefannau | 7, 18 |

| Sefyllfa derfynol a adroddwyd | Tudalen(nau) |
|---|---|
| newyddion erthyglau am yr adroddiad interim, gan gynnwys cylchgrawn *Water*, Fforwm Arfordir Sir Benfro, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, y *South Wales Argus*, a Nation.Cymru. ★<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 3: "Gwella ein dealltwriaeth o anghenion defnyddwyr a gofynion cymorth ar gyfer Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025 drwy gynnal cyfweliadau â deg corff sector cyhoeddus a rhanddeiliaid ehangach": Y maes lle rydym wedi gwneud y cynnydd mwyaf yw ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn cyrff cyhoeddus allweddol i ddeall sut y gall yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol gefnogi'r agenda Iechyd Cyfunol (Iechyd Cyhoeddus Cymru, Asiantaeth Safonau Bwyd, GIG Cymru) ac ystadegau gwladol (Swyddfa Ystadegau Gwladol); cefnogi cylchredau llesiant ac adrodd Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol; a phrif ffrydio natur i gynllunio economaidd gyda Thrysorlys Cymru. Cawsom sgyrsiau â'r gymuned fusnes drwy Fforwm Busnes a Bioamrywiaeth y DU a chryfhaom berthnasedd yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ar gyfer Cyllid Gwyrdd gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru. Fe gychwynnon ni brosiect CASRI (camau cydweithredol sy'n cydlynu ac yn gwella ymchwil ac arloesi cynaliadwyedd systemig, ymarferol ac ardrawslinol) gyda chefnogaeth grant gan yr UE i lunio anghenion tystiolaeth yn well mewn perthynas â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. ★ | |
| **Ymrwymiad 8:"Buddsoddi mewn meithrin gallu er mwyn galluogi cyflenwi yn 2024/25 ac ehangu'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yn y dyfodol"**<br><br>Mae'r ymrwymiad hwn yn 'oren' ar ddiwedd mis Mawrth.<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 1: "Cynyddu arwynebedd y mawndir sydd wedi'i ddifrodi sy'n cael ei adfer ledled Cymru 15%, gan godi o darged blynyddol blaenorol o 600 hectar i tua 700 hectar yn 2024/25": Mae ymdrechion adfer wedi bod ar y gweill ledled Cymru ar dir a reolir gan CNC, yn ogystal â thir a reolir gan ein partneriaid dibynadwy a thirfeddianwyr preifat. Rydym wedi gwneud cynnydd da ar ein safleoedd blaenoriaeth ar gyfer y tir yn ein gofal, yn enwedig yng Nghefn Croes a Hafod Elwy. Yn ogystal, rydym wedi cefnogi prosiectau cyflawni uniongyrchol gyda pherchnogion a rheolwyr tir ledled Cymru drwy amrywiol fecanweithiau ariannu, gan gynnwys cytundebau rheoli tir adran 16, cyllid strategol a ddyrannwyd, a grantiau datblygu cystadleuol a chyflenwi uniongyrchol. Y dyddiad cau ar gyfer gwario ar y prosiectau hyn oedd diwedd y flwyddyn ariannol. Yn ystod 2024/25, gan weithio gyda'n partneriaid, fe wnaethom lwyddo i adfer 700 hectar o fawndir. Roedd hyn yn cynnwys gweithgaredd paratoadol hanfodol fel cael gwared ar brysgwydd, gwaith ailwlychu i adfer lefelau dŵr, ac ymdrin â phroblemau ym ymwneud ag erydu. Yn arbennig, digwyddodd 240 hectar o'r gweithgaredd adfer hwn ar y tir yn ein gofal ni. ♦<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: "Cynyddu effeithiolrwydd ein mewnbwn i'r system cynllunio defnydd tir, er mwyn lleihau effaith negyddol datblygu ar fawndir trwy gynhyrchu safbwynt polisi CNC ar Bolisi Cynllunio Cymru Argraffiad 12 (i achosi newid yn | 7, 20, 21 |

| Sefyllfa derfynol a adroddwyd | Tudalen(nau) |
|---|---|
| 2025/26)": Cytunwyd ar safbwynt polisi CNC a darparwyd cyngor adweithiol i'r Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio Datblygu, gan gynnwys cynrychiolaeth yn ymchwiliadau Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru pan oedd adnoddau'n caniatáu hyn. Mae angen eglurhad ynghylch cymhwyso a dehongli polisi ym maes cynllunio cyn y gellir cynhyrchu Nodyn Canllaw a Nodiadau Canllaw Gweithredol CNC. ■<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 3: "Cynyddu datblygiad prosiectau adfer mawndir parod-i-raw drwy gynyddu'r cyllid sydd ar gael drwy ein grant datblygu cystadleuol 100%": Ym mis Rhagfyr 2024, lansiodd y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd ei grant cystadleuol blynyddol newydd ar gyfer y tair blynedd nesaf, gan wneud hyd at £700,000 ar gael y flwyddyn, gan fwy na dyblu'r swm a oedd ar gael yn flaenorol. Fe wnaethon ni arwain gweminar ar gyfer ymgeiswyr posibl ym mis Chwefror gyda dyddiad cau o 18 Mawrth i gael ceisiadau. Rydym wedi cael pymtheg cais gwerth £620,000. Mae'n gadarnhaol gweld mwy o berchnogion tir preifat yn cymryd rhan yn y broses. Mae'r ceisiadau'n cael eu hasesu nawr a bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael gwybod yn yr wythnosau nesaf. Bydd pob prosiect llwyddiannus yn cael ei rannu ar wefan CNC. Mae cynnig y grant adfer mawndiroedd cystadleuol agored hwn yn un ffordd y mae'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yn cefnogi partneriaid ledled Cymru i gyflawni nodau adfer mawndir cynyddol uchelgeisiol er budd cenedlaethau'r dyfodol. ★<br><br>Mae'r llwybr i gyflawni statws gwyrdd yn cynnwys: (1) nawr bod gennym swyddogion gwaith achos cynllunio ar gyfer mawndiroedd wedi'u penodi, byddwn yn cwblhau canllawiau yn 2025/26 a chynyddu cyngor gwaith achos cynllunio a (2) byddwn yn parhau i gyflwyno prosiectau adfer mawndiroedd uniongyrchol a rhai â chymorth grant. | |
| **Ymrwymiad 9: "Cryfhau gallu a thystiolaeth i lywio blaenoriaethu gofodol er mwyn galluogi adferiad effeithiol yn y dyfodol o fewn cynefinoedd morol ac arfordirol"**<br><br>Mae'r ymrwymiad hwn yn 'oren' ar ddiwedd mis Mawrth.<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 1: "Cynyddu'r cyngor a roddir i bartneriaid allanol drwy ymgynghori ar ganllawiau ar brosiectau adfer morol ac arfordirol a'u cyhoeddi (erbyn diwedd Ch1)": Mae'r canllawiau bellach wedi'u drafftio'n llawn ac rydym yn barod i fwrw ymlaen ag ymgynghoriad ehangach gyda phartneriaid allanol a fydd yn broses barhaus yn Ch1. Mae cyfarfod yn cael ei drefnu gyda Rhwydwaith Morwellt Cymru i ddechrau'r broses hon. Byddwn yn diweddaru'r canllawiau yn seiliedig ar yr adborth a geir gyda'r nod o'u cyhoeddi erbyn diwedd Ch2. Nid ydym wedi gallu cwblhau a chyhoeddi'r canllawiau o fewn y flwyddyn ariannol hon oherwydd llai o staff. Fodd bynnag, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud a bydd y canllawiau'n cael eu cwblhau / eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn 2025. ■<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: "Cynyddu'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi gwneud penderfyniadau ar leoliadau prosiectau adfer trwy fireinio mapiau cyfleoedd ar gyfer morwellt ac wystrys brodorol (erbyn diwedd Ch4)": Rydym wedi gwneud rhywfaint o | 20 |

| Sefyllfa derfynol a adroddwyd | Tudalen(nau) |
|---|---|
| gynnydd o ran diweddaru a mireinio'r mapiau cyfleoedd ar gyfer morwellt ac wystrys brodorol. Mae'r mapiau'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd a byddant yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Nid ydym eto wedi gallu bwrw ymlaen â'r gwaith mapio cyfleoedd mwy manwl yr ydym wedi cytuno i'w fwrw ymlaen ag ef ar y cyd ag Ystad y Goron, ac wedi'i ariannu ganddi. Y bwriad yw y bydd y gwaith hwn yn mireinio'r mapiau cyfleoedd presennol drwy nodi'r ardaloedd hynny sy'n llai addas ar gyfer adfer (er enghraifft, lle mae cyfyngiadau ymarferol neu ffisegol). Fodd bynnag, mae manyleb ar gyfer y gwaith wedi'i datblygu a bydd yn cael ei rhyddhau i'w dendro drwy fframwaith contract Ystad y Goron ym mis Ebrill 2025. Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn diwedd Ch4 y flwyddyn nesaf. ♦<br><br>Y llwybr i gyflawni statws gwyrdd ar gyfer yr ymrwymiad hwn yw parhau i ddatblygu'r gwaith hwn yn ystod 2025/26 nes ei gwblhau, gan gydnabod bod llawer iawn o waith eisoes wedi'i wneud i gyflawni'r mesurau cyflawni. Mae gwaith wedi'i ailddosbarthu o adnoddau coll, felly bydd angen mwy o amser i gwblhau'r dasg hon. | |
| **Ymrwymiad 10:"Cyflenwi prosiectau cyfalaf a chynnal lefelau amddiffyn eiddo i leihau perygl llifogydd"**<br><br>Mae'r ymrwymiad hwn yn 'wyrdd' ar ddiwedd mis Mawrth.<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 1: "Lleihau'r perygl llifogydd i 814 eiddo yng Nghasnewydd, drwy gwblhau'r gwaith ar Gynllun Lliniaru Llifogydd Stryd Stephenson": Mae gwaith i leihau'r perygl o lifogydd yn y gymuned hon wedi'i gwblhau i raddau helaeth ac mae'r mesur cyflawni wedi'i gyflawni. Mae adeiladu argloddiau newydd, muriau llifogydd a seilwaith cysylltiedig bellach yn lleihau'r perygl o lifogydd yn yr ardal hon. Ymwelodd y Dirprwy Brif Weinidog â'r safle ym mis Mawrth wrth wneud cyhoeddiad am gyllid perygl llifogydd ar gyfer 2025/26. Bydd y gwaith cwblhau, gan gynnwys tirlunio, yn parhau yn 2025/26. ★<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: "Diogelu 800 eiddo rhag llifogydd yn barhaus trwy gynnal a chadw cyfalaf anarferol ar asedau/amddiffynfeydd presennol": Mae gwaith cynnal a chadw a gyflawnwyd drwy ein rhaglen gyfalaf ar gyfer rheoli'r perygl o lifogydd wedi sicrhau bod asedau llifogydd yn parhau i gynnal lefelau amddiffyniad mewn lleoliadau, gan gynnwys: Porth, Llanymddyfri, Llanbedr Gwynllŵg, Llangennech, West Pill, Windmill, Machen, Worthenbury, Ffynnon y Ddôl, Glanyfferi, Bretton Drain, Pont-hir, Wepre Brook, Pentywyn a Chasnewydd. Mae'r gwaith hwn wedi bod o fudd i gyfanswm o 836 o eiddo. ★<br><br>Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i gyflawni. | 7, 20 |
| **Ymrwymiad 11:"Gwella'r gwasanaeth rhybuddion llifogydd a'r system telemetreg i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chynnal parhad gwasanaeth i gwsmeriaid"**<br><br>Mae'r ymrwymiad hwn yn 'oren' ar ddiwedd mis Mawrth. | 20, 21 |

| Sefyllfa derfynol a adroddwyd | Tudalen(nau) |
|---|---|
| • O ran Mesur Cyflawni Allweddol 1: “Cynnal y gwasanaeth rhybuddion llifogydd gweithredol a gynigiwyd i 139,000 eiddo trwy gyflenwi'r system rhybuddion llifogydd newydd (erbyn diwedd Ch2) (gan dynnu'n ôl o'r gwasanaeth a reolir gan Asiantaeth yr Amgylchedd)”: Cafodd Gwasanaethau Gwybodaeth Rhybuddion Llifogydd Cymru newydd eu rhoi ar waith yn unol â'r amserlen ym mis Gorffennaf 2024 (Ch2) ac maent yn gweithredu'n llwyddiannus. Mae problemau gyda rhai agweddau sy'n ymwneud â sefydlu cymorth parhaus cadarn a gwydn ar gyfer eu cynnal a'u cadw, a gyda rhai gwelliannau arfaethedig a oedd wedi'u hamserlennu ar ôl y lansiad cychwynnol. Rydym yn gweithio ar y materion hyn ac mae gennym lwybrau i'w gweithredu, ond mae angen rhai newidiadau a chamau gweithredu cydlynol er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn yn llawn er mwyn cyflawni statws gwyrdd. Felly, ‘oren’ yw'r statws. ♦<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: “Darparu data telemetreg yn barhaus i bob cwsmer trwy symud i'r porth data newydd (erbyn diwedd Ch3)”: Mae'r cynnydd cyffredinol ar y prosiect gosod telemetreg newydd yn dda ar gyfer tri o'r pedair ffrwd waith. Fodd bynnag, mae problem sylfaenol barhaus gyda'r llif gwaith ar brif adeiladwaith y system: nid yw'r system newydd wedi mynd trwy broses profi derbynioldeb i'r cwsmer eto gan fod nifer o fygiau ynddi. Rydym mewn trafodaethau â'r cyflenwr ynghylch sut i drwsio'r bygiau hyn, ac mae'n cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd. Mae hyder bod y system sylfaenol yn dda, ond mae angen trwsio rhai bygiau. Mae'r broblem wedi cael ei huwchgyfeirio i'r cyflenwr i geisio dod o hyd i ateb. Mae oediadau yn golygu bod hyd y prosiect yn cael ei ymestyn. Mae effeithiau hyn yn rheoladwy o safbwynt gwasanaeth, ond mae'n golygu cost ychwanegol. Gan nad yw'r materion wedi'u datrys eto, y statws yw ‘oren’. ♦ | |
| **Ymrwymiad 12:“Adolygu'r dull blaenoriaethu ar gyfer cynnal a rheoli asedau llifogydd i sicrhau bod ein buddsoddiad yn seiliedig ar risg”**<br><br>Mae'r ymrwymiad hwn yn ‘oren’ ar ddiwedd mis Mawrth.<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 1: “Cynyddu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y dyraniad o refeniw cynnal a chadw llifogydd arferol trwy weithredu'r Model Dyrannu Refeniw Seiliedig ar Risg newydd”: Mae'r Model Dyrannu Refeniw Seiliedig ar Risg newydd yn parhau i gael ei ymgorffori'n llwyddiannus. Mae 51,764 awr o ymdrech cynnal a chadw wedi'u cofnodi yn erbyn 20,587 o gamau gweithredu wedi'u cwblhau. Mae data a gesglir yn gwella cywirdeb cynlluniau ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae 7,103 o eiddo wedi elwa o 100% o'r anghenion cynnal a chadw sy'n cael eu cyflawni ar asedau y maent yn elwa ohonynt, ac mae 79,633 o eiddo wedi elwa o 60% o leiaf o'r gwaith cynnal a chadw sy'n cael ei gyflawni. Mae 2,803 o eiddo y tu ôl i amddiffynfeydd rhag llifogydd lle nad yw unrhyw un o'r anghenion cynnal a chadw wedi'u cyflawni. ★ | 20 |

| Sefyllfa derfynol a adroddwyd | Tudalen(nau) |
| --- | --- |
| • O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: “Cynyddu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y dyraniad o fuddsoddiad asedau llifogydd trwy gyflenwi’r Prosiect Asedau sy’n Wynebu Newid”: Mae heriau o ran adnoddau (absenoldeb staff oherwydd salwch; yr angen i flaenoriaethu gwaith ymateb/adfer ar gyfer digwyddiadau llifogydd ac adolygu llifogydd; canolbwyntio ar Mesur Cyflawni Allweddol 1 fel blaenoriaeth uwch) wedi gohirio cychwyn y prosiect hwn, felly nid ydym wedi gallu bwrw ymlaen â chyflawni’r gwaith hwn eleni. Nid ydym wedi dechrau’r gwaith dadansoddi fel y cynlluniwyd yn flaenorol oherwydd heriau adnoddau ac absenoldeb annisgwyl staff. ■<br><br>Rydym wedi gwneud cynnydd mawr o ran ymgorffori proses y Model Dyrannu Refeniw Seiliedig ar Risg newydd yn ein rhaglen gynnal a chadw. Dyma’r mwyaf o’r ddau fesur cyflawni o dan yr ymrwymiad hwn ac mae’n cyflawni’n sylweddol yn erbyn yr ymrwymiad cyffredinol i wella blaenoriaethu ein gwaith cynnal a chadw asedau. Yn anffodus, nid ydym wedi gallu bwrw ymlaen â’r gwaith Asedau sy’n Wynebu Newid oherwydd problemau o ran adnoddau. Byddwn nawr yn cynllunio i ddechrau’r darn strategol hwn o waith, y bydd ei ddatblygiad yn ymestyn dros sawl blwyddyn ariannol, yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. At ei gilydd, mae sgôr ‘oren’ yn gyfiawn oherwydd y cynnydd da o ran y Model Dyrannu Refeniw Seiliedig ar Risg. | |
| **Ymrwymiad 13:“Datblygu dealltwriaeth, gan ddefnyddio mewnwelediad i wella prosesau cyn ymgeisio sy’n ymwneud â chynllunio statudol a cheisiadau trwyddedu i hwyluso datgarboneiddio diwydiannol a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o safleoedd tirlenwi”**<br><br>Mae’r ymrwymiad hwn yn ‘wyrdd’ ar ddiwedd mis Mawrth.<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: “Gwell dealltwriaeth o’r cyfyngiadau ar ddatgarboneiddio drwy ymgysylltu â’r holl ddiwydiannau carbon uchaf yng Nghymru i lywio cyngor a chamau gweithredu”: Rydym wedi gwneud cynnydd cryf eleni, gan ddefnyddio mewnwelediad cyn ymgeisio a gweithio ar y cyd i gefnogi cynigion datgarboneiddio diwydiannol cymhleth yn rhagweithiol. Yn arbennig, rydym ar y blaen o ran yr amserlen mewn perthynas â’n penderfyniad ynghylch trwydded dal carbon gyntaf Cymru ar gyfer Padeswood Cement, sy’n adlewyrchu ymgysylltiad cynnar ac effeithiol. Mae’r tîm hefyd wedi cefnogi trafodaethau cyn ymgeisio ar draws nifer o brosiectau, gan gynnwys HyNet, Gorsaf Bŵer Penfro, a datblygiadau cynhyrchu hydrogen. Er bod y dirwedd reoleiddio a pholisi yn parhau i esblygu’n gyflym, rydym mewn sefyllfa dda am ein bod wedi cadw cysylltiad agos â thechnolegau sy’n dod i’r amlwg, cryfhau arbenigedd mewnol, a mireinio ein cyngor i ddatblygwyr yn gynnar yn y broses. ★<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: “Lleihau’r gyfran o geisiadau carbon isel a dal carbon sy’n cael eu gwrthod, trwy ddarparu cyngor cyn ymgeisio arbenigol i o leiaf deg prosiect (gan ragweld chwe chyflwyniad yn 2024/25)”: Rydym wedi rhoi cyngor cyn ymgeisio arbenigol i ddeg prosiect datgarboneiddio a dal carbon diwydiannol eleni, gan helpu i lunio cyflwyniadau o ansawdd uchel a lleihau’r risg y byddant yn cael eu gwrthod. Cafwyd mewnbwn i’r prosiectau canlynol: Padeswood Amber Cement, Parc | 20, 21 |

| Sefyllfa derfynol a adroddwyd | Tudalen(nau) |
|---|---|
| Adfer, Cei Connah, prosiect Protium ym Magwyr, prosiect hydrogen gwyrdd RWE, Dragon LNG, Pioneer 2 gan Protium ym Maglan, pibell carbon deuocsid ENI, pibell hydrogen HyLine, prosiect cynhyrchu hydrogen Impala. ★<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 3: "Gostwng y swm o nwy tirlenwi a ryddheir yn uniongyrchol o safleoedd tirlenwi trwy gyflawni blaenoriaethau allweddol y Prosiect Lleihau Allyriadau Safleoedd Tirlenwi": Mae'r Prosiect Lleihau Allyriadau Safleoedd Tirlenwi wedi gwella'r adrodd blynyddol ar ddinistrio nwyon tirlenwi trwy raglen gwella data gyda'r gweithredwyr. Mae hyn wedi arwain at welliant sylweddol yn ansawdd y data a ddefnyddir wrth gyfrifo'r Rhestr Allyriadau Aer Genedlaethol, gyda chynnydd o dros 11 miliwn $M^3$ o nwy tirlenwi wedi'i adrodd fel nwy tirlenwi sydd wedi'i ffaglu, a dybiwyd yn flaenorol ei fod yn cael ei awyru'n uniongyrchol i'r atmosffer. ★<br><br>Mae'r rhaglen o archwiliadau safle manwl mewn safleoedd tirlenwi wedi arwain at welliannau sylweddol mewn gweithrediadau ar y safle, gan arwain at ostyngiad yn faint o nwy safle tirlenwi sy'n cael ei awyru'n uniongyrchol i'r atmosffer, sy'n lleihau'r effaith ar yr hinsawdd, ac wedi arwain at ostyngiad sylweddol mewn cwynion am arogleuon. Mae un safle wedi nodi cynnydd yn y nwy safle tirlenwi a ddaliwyd o dros 3 miliwn $M^3$, sef gwelliant o 46% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bydd gwaith yn parhau gyda'r safleoedd hyn i wella gweithrediadau cymaint â phosibl. Mae'r prosiect hefyd yn edrych ar asesu'r risgiau yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â seilwaith ar safleoedd, gyda phwyslais arbennig ar ffaglu ac injans i sicrhau bod y safleoedd yn gallu lleihau allyriadau dros y blynyddoedd nesaf. Er ein bod wedi cyrraedd statws 'gwyrdd', mae'r dirwedd drwyddedu a pholisi ehangach yn newid yn gyflym, a bydd angen ymdrech barhaus i gynnal y sefyllfa hon. Mae'r llwybr i gyflawni statws 'gwyrdd' wedi dibynnu'n fawr ar flaenoriaethu, ymgysylltu wedi'i dargedu, a chydweithio cryf ar draws timau – elfennau y bydd angen i ni eu cynnal wrth i'r galw gynyddu a phrosiectau symud o'r cysyniad i'r cam cyflwyno. Mae llenwi'r swyddi gwag hirhoedlog ym maes trwyddedu gosodiadau yn hanfodol – er y bydd yn cymryd peth amser i swyddogion fod yn gwbl gymwys hefyd. | |
| **Ymrwymiad 14:"Gwella tystiolaeth, canllawiau a chyngor cyn ymgeisio i wella ansawdd cyflwyniadau ar gyfer caniatâd cynllunio a cheisiadau am drwyddedau"**<br><br>Mae'r ymrwymiad hwn yn 'oren' ar ddiwedd mis Mawrth.<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: "Cynyddu cynhyrchiant canllawiau ynni adnewyddadwy morol a chynhyrchion tystiolaeth 40% i ddechrau": Mae gwaith tystiolaeth wedi'i ddatblygu ym maes monitro ffrwd lanw trwy waith gyda datblygwyr ac Ystad y Goron. Rydym yn cefnogi gwaith gyda phrifysgolion Plymouth a Bangor (Doethuriaeth yn ymwneud ag adfer cynefinoedd fel mesur cydbwyso ac astudiaethau olrhain pysgod ymfudol). Mae blaenoriaethau eraill wedi cael sylw gan sefydliadau eraill, e.e. y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a Defra. Mae cynnydd da wedi'i wneud gyda 42% o'n blaenoriaethau a chynnydd mwy cyfyngedig ar 25% o'r blaenoriaethau tystiolaeth cyfredol. Rydym wedi gwneud cynnydd cyfyngedig gyda chynhyrchu deunyddiau canllaw. Mae tua 10% o'r anghenion canllaw a nodwyd wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn, drwy flaenoriaethu amser staff arbenigol i ddarparu | 20, 21 |

| Sefyllfa derfynol a adroddwyd | Tudalen(nau) |
|---|---|
| canllawiau ynghylch y meysydd sydd â'r risg uchaf. Nid yw tua 33% o anghenion tystiolaeth â blaenoriaeth wedi'u datblygu eleni, gan gynnwys paramedrau risg gwrthdrawiadau ac astudiaethau o effeithiau posibl môr-lynnoedd llanw. Mae hyn yn bennaf oherwydd diffyg adnoddau staff. ■<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: "Cynyddu cynhyrchiant canllawiau ynni adnewyddadwy morol a chynhyrchion tystiolaeth 40% i ddechrau": Ein prif faes cynnydd fu gweithio ochr yn ochr â phartner, a daeth prosiect platfform cwsmeriaid 12 wythnos o hyd (Alpha Morol) i ben. Mae hwn yn gam cynnar hanfodol yn natblygiad technoleg sy'n canolbwyntio ar brofi rhagdybiaethau allweddol ynghylch hyfywedd defnyddio technoleg Microsoft Power Platform i ddatblygu galluoedd trwyddedu morol digidol. Rydym wedi cwblhau 45% o fesurau cyflawni'r adolygiad o'r dechrau i'r diwedd, gyda gwaith wedi dechrau ar feysydd eraill yn unol â cherrig milltir cynnydd ar gyfer y rhaglen tair blynedd o hyd. Rydym wedi cyflwyno nifer o welliannau digidol i'n tudalennau gwe, gan gynnwys diwygiadau i geisiadau Band 1, ac rydym wedi gwella tudalen lanio gwefan Trwyddedu Morol. Rydym wedi adnewyddu, cydgrynhoi a rhesymoli nifer o ddogfennau canllaw gweithredol mewn Llawlyfr Trwyddedu Morol sydd wedi'i strwythuro mewn ffordd newydd. Disgwylir i hwn gael ei lansio yn y misoedd nesaf, ac rydym wedi gweithio i sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr ac yn cynnwys y cynnwys sydd ei angen i ddarparu gwasanaeth trwyddedu cadarn a chyson. Rydym wedi ymgorffori rheoleiddio morol fel rhan o Fframwaith Cymhwysedd Technegol Gwasanaethau Morol CNC. Ym mis Ebrill 2025, bydd hyn yn cael ei gynnal ar system rheoli dysgu newydd CNC, i'w ddefnyddio gan staff. Bydd hyn yn caniatáu i staff, a'u rheolwyr, asesu sgiliau a chymwyseddau, nodi anghenion hyfforddi, a datblygu llwybrau gyrfa. Rydym yn cyfrannu at ac yn dylanwadu ar nifer o feysydd i'w diwygio, gan gynnwys: esemptiadau trwyddedu morol, Deddf Seilwaith (Cymru), Pecyn Gwella Amgylcheddol Ynni Gwynt ar y Môr a'r Gronfa Adfer Morol, a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru – Ardaloedd Adnoddau Strategol. Rydym wedi bod yn gweithio'n helaeth gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ddarparu tystiolaeth gynhwysfawr o ran cyllid a chofnodi amser i gynorthwyo dealltwriaeth o'r diffyg cyffredinol y mae CNC yn ei brofi wrth ddarparu'r Gwasanaeth Trwyddedu Morol er mwyn helpu i lywio model ffioedd newydd. Nid ydym wedi gwneud y canlynol: cwblhau'r adolygiad o broses Band 1 (rydym nawr yn gweithio i weithredu newidiadau i brosesau yn yr hydref i gyd-fynd â gwaith diwygio esemptiadau Llywodraeth Cymru). Dechreuwyd yr adolygiad o brosesau Band 2 a Band 3 yn ffurfiol. Dechreuwyd yr adolygiad ymgynghori i nodi sut mae'r Tîm Trwyddedau Morol yn ymgynghori, ac a ellir gwneud gwelliannau i symleiddio'r broses. Cwblhawyd y gwaith "anghenion adnoddau'r dyfodol" / sganio'r gorwel. ♦<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 3: "Cynnal lefelau gwasanaeth ar 95% ar gyfer penderfynu ar geisiadau am drwyddedau ynni adnewyddadwy morol": Mae > 95% o geisiadau yn cael eu penderfynu o fewn lefelau gwasanaeth, er bod ciw o wyth wythnos i gael trwydded. Mae ceisiadau rhyddhau amodau i hwyluso datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar y môr ar ôl trwyddedu ar y gweill. Rydym yn parhau i benderfynu ar gais ased trosglwyddo fferm wynt ar y môr Mona ac yn rhoi mewnbwn i ased cynhyrchu trwydded forol dybiedig Mona, sy'n cael ei phenderfynu gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Tîm Trwyddedu Morol wedi derbyn fferm wynt arnofiol ar y môr Llŷr ac yn symud ymlaen trwy'r broses benderfynu mewn modd amserol hefyd. ★ | |

| Sefyllfa derfynol a adroddwyd | Tudalen(nau) |
|---|---|
| Y llwybr i gyflawni statws 'gwyrdd' ar gyfer yr ymrwymiad hwn yw trwy recriwtio i swyddi gwag a pharhau i ddarparu cynhyrchion adolygu o'r dechrau i'r diwedd i wella effeithiolrwydd. | |
| **Ymrwymiad 15: "Blaenoriaethu camau gweithredu sydd â'r budd cost mwyaf ar gyfer carbon deuocsid a'i gyfatebol ($CO_2e$) / nwyon tŷ gwydr i gyflawni ein blaenoriaethu blynyddol o fewn y Cynllun Sero Net"**<br><br>Mae'r ymrwymiad hwn yn 'oren' ar ddiwedd mis Mawrth.<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 1: "Gwell dealltwriaeth o amcangyfrifon carbon oes gyfan ar gam opsiwn a dyluniad pob prosiect adeiladu cyfalaf trwy gymhwyso Offeryn Modelu Carbon ERIC Asiantaeth yr Amgylchedd": Mae'r Tîm Cyflawni Prosiectau a Rhaglenni wedi cynnwys cyflawni asesiad effaith carbon mewn 100% o'r cwmpasau dylunio a gyhoeddwyd y chwarter hwn. Caiff yr asesiad ei wneud yn gyson gan bob un o'n dylunwyr fframwaith drwy Offeryn Modelu Carbon Asiantaeth yr Amgylcheddol. Fe'i cymhwysir i'r opsiynau ar y rhestr fer yn ystod y cam dylunio amlinellol ac i'r dyluniad a ffefrir yn ystod y cam dylunio manwl i lywio'r broses dethol opsiynau a sicrhau bod effaith carbon yn ffactor â blaenoriaeth wrth wneud penderfyniadau. ★<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: "Gwell dealltwriaeth o ôl troed carbon yr holl brosiectau adeiladu cyfalaf dros £1 miliwn yn ystod y cam adeiladu, drwy ddefnyddio cyfrifiannell carbon ERIC Asiantaeth yr Amgylchedd": Nid oes unrhyw brosiectau cyfalaf > £1 miliwn wedi cyrraedd y cyfnod adeiladu yn y chwarter diwethaf. ★<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 3: "Cynnydd yn nifer y staff sy'n cyflawni achrediad llythrennedd hinsawdd o 30% i 50% o holl staff CNC, drwy ddarparu'r Rhaglen Hyfforddiant Llythrennedd Hinsawdd": Cynigiwyd 300 o leoedd hyfforddi ynghylch llythrennedd hinsawdd yn 2024/25, cwblhaodd 107 o staff yr hyfforddiant, a hyd yn hyn mae 65 wedi ennill ardystiad. Yn gyffredinol, mae 43% o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant rhwng mis Ionawr 2023 a mis Mawrth 2024. Nid ydym wedi gallu cyflawni'r targed o 50% oherwydd ffocws ar yr achos dros newid ac o ganlyniad galw isel am gyrsiau a diweddaru cyrsiau. O ganlyniad, gwnaed penderfyniad ariannol yn ystod y flwyddyn i leihau nifer y cyrsiau a gynigiwyd, a oedd yn golygu y byddai'r targed ar ddechrau'r flwyddyn bob amser yn anghyraeddadwy. ■<br><br>Statws 'oren' sydd gan yr ymrwymiad cyffredinol. Mae elfennau'r gadwyn gyflenwi a chyflawni prosiectau wedi bodloni eu targedau tra bod 43% o'r staff wedi cyflawni'r elfen hyfforddiant llythrennedd hinsawdd, sydd uwchlaw'r targed o 50%. Adlewyrchir hyn gan statws yr ymrwymiad cyffredinol, sef 'oren'. Yn 2025/26, fel y cytunwyd gan y Grŵp Argyfwng Hinsawdd, bydd y cwrs Llythrennedd Hinsawdd yn cael ei hyrwyddo, gyda rheolwyr yn annog staff yn weithredol i fynychu, a bydd yn cael ei hyrwyddo i bob dechreuwr newydd hefyd. Er gwaethaf cynnydd disgwyliedig yn nifer y staff, dylem allu cyrraedd dros 50% wedi'u hyfforddi erbyn diwedd y flwyddyn. | 20, 21 |

| Sefyllfa derfynol a adroddwyd | Tudalen(nau) |
| --- | --- |
| **Ymrwymiad 16: "Gwreiddio'r defnydd o offer a chynlluniau lleihau carbon mewn contractau a fframweithiau gwerth uchel er mwyn gwella ansawdd cyflwyniadau"**<br><br>Mae'r ymrwymiad hwn yn 'wyrdd' ar ddiwedd mis Mawrth.<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 1: "Canran uwch o gytundebau prynu a ddyfarnwyd lle mae lleihau carbon wedi'i gynnig fel budd 'effaith llesiant'": Fe wnaethom lwyddo i gyflawni ein huchelgais o dreialu ein dull effaith llesiant mewn ymarfer caffael, ac ymrwymodd y cyflenwr a ddyfarnwyd i fesur carbon fel ymrwymiad contractiol. Y fframwaith yw'r Cytundeb Fframwaith Coetir Cymunedol. ★<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: "Cynyddu'r defnydd o gyfrifianellau carbon ar bob cytundeb fframwaith perthnasol sy'n adnewyddu o fis Chwefror 2024 50% (o 0). Datblygu camau i lywio manylebau'r dyfodol er mwyn lleihau allyriadau carbon yn y blynyddoedd i ddod": Fel yr adroddwyd yn flaenorol yn Ch2, rydym wedi ei wneud yn ofynnol i gyflenwyr llwyddiannus ddefnyddio cyfrifianellau carbon ar y cytundebau fframwaith canlynol: Fframwaith Mecanyddol, Trydanol, Offeryniaeth, Rheolaeth ac Awtomateiddio (MEICA) ac Ymgyfreitha Troseddol. Cyhoeddom y ddogfen ganllaw ar sefydlu cynllun lleihau carbon, gan ddefnyddio cyfrifiannell carbon i bennu'r man cychwyn – a gytunwyd cyn dyfarnu'r contract. ★<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 3: "Cynyddu canran (a) y cynlluniau lleihau carbon sy'n cydymffurfio a dderbyniwyd ar gyfer contractau caffael CNC a fframweithiau dros £5 miliwn o ganlyniad i gymorth arbenigol CNC a ddarparwyd; (b) y cynlluniau lleihau carbon a dderbyniwyd ar gyfer contractau caffael CNC a fframweithiau dros £5 miliwn": Fel yr adroddwyd yn ystod Ch1, llwyddom i gynnwys y gofyniad i gyflenwyr gwblhau cynllun lleihau carbon ar fframwaith MEICA a'r Fframwaith Ymgynghori Rheoli Dŵr. ★<br><br>Rydym wedi cyflawni yn erbyn y tri mesur cyflawni a nodwyd gennym ar ddechrau blwyddyn ariannol 2024/25, felly nid oes gofyniad am lwybr tuag at gyflawni statws 'gwyrdd'. Cyflawnwyd hyn er nad oedd gennym adnoddau pwrpasol i gefnogi caffael cynaliadwy. Fodd bynnag, rydym bellach wedi penodi Cynghorydd Strategaeth Gaffael a Datblygu, a fydd yn helpu i ddatblygu ein huchelgeisiau lleihau carbon yn y dyfodol. | 20 |
| **Ymrwymiad 17: "Cynnal archwiliadau fferm o dan y Rheoliadau Llygredd Amaethyddol, yn unol â'r polisi cosbau gorfodi, i leihau llygredd"**<br><br>Mae'r ymrwymiad hwn yn 'oren' ar ddiwedd mis Mawrth.<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 1: "Cynnal lefel y gwasanaeth ar gyfer nifer yr archwiliadau cydymffurfio o dan y Rheoliadau Llygredd Amaethyddol trwy gwblhau 80% o'r 821 a drefnwyd (safleoedd a nodir fel rhai â gweithgareddau risg uwch)": Er ein bod | 22 |

| Sefyllfa derfynol a adroddwyd | Tudalen(nau) |
|---|---|
| wedi parhau i gynnal cyfradd arolygu chwarterol gyson, fe wnaethom fethu â chyflawni'r niferoedd arolygu gofynnol i gyrraedd y targed o 80% ar gyfer y flwyddyn gyfan. Mae 635 o ymweliadau wedi'u cynnal (77%), 22 yn brin o'r targed blynyddol o 657 (80%). Cynhaliwyd 127 o arolygiadau yn ystod Ch4. Y prif achos dros beidio â chyrraedd y targed yw'r pedair swydd swyddog wag ar draws y ddau dîm a dim gallu i ôl-lenwi swyddi oherwydd y rhewi mewn recriwtio. Mae'r swyddogion sydd mewn swydd wedi cyflawni gwaith rhagorol ac rydym yn parhau i fod yn hyderus, unwaith y bydd gennym dîm llawn, y gallwn weithio tuag at gyflawni'r targed llawn o 100%, sef 821 o ffermydd, yn ystod 2025/26. ♦<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: "Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd arolygiadau cydymffurfio trwy gynnal adolygiad blynyddol": Mae gweithredu'r gofynion rheoleiddio newydd hyn ar draws diwydiant sy'n parhau i herio'r angen sylfaenol am reolaethau rheoleiddio o'r fath yn parhau i fod yn her. Mae adolygiad pedair blynedd eleni wedi rhoi cyfle pellach i undebau'r ffermwyr herio ymhellach. Er y bu rhai gwelliannau ymylol o ran y gyfradd cydymffurfio ag archwiliadau dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae diffyg cydymffurfio cyffredinol ar ffermydd yn 51%. Mae lefel yr adnoddau sydd eu hangen i symud y ffermydd hynny ymlaen a sicrhau eu bod yn cydymffurfio yn fwy na'r disgwyl ac felly mae'n cael effaith ar nifer yr arolygiadau y gellir eu cynnal. Mae yna lawer o ffactorau sydd wedi effeithio ar gyflawni. Swyddi gwag a'r rhewi o ran recriwtio yw'r prif broblemau, tra bod gweithredu'r gofynion rheoleiddio newydd hyn yn dal i gael eu hymgorffori. Dim ond ym mis Awst 2024 y daeth rhai gofynion i rym, tra bod eraill yn dod i rym o ddechrau mis Mai 2025. Mae'r diwydiant yn parhau i fod yn amharod i dderbyn y gofynion hyn, a dyna pam mae'r diffyg cydymffurfio yn amlwg. Mae hynny'n amsugno adnoddau a bydd ein dull o sicrhau cydymffurfedd yn gyfuniad o ddefnyddio ein dulliau rheoleiddio ynghyd â dylanwadu ar y gymuned amaethyddol drwy reoleiddwyr a chyrff achredu eraill, gydag ymatebion gorfodi yn cael eu defnyddio pan fo angen. ♦<br><br>Ar hyn o bryd, mae gennym bedair swydd swyddog wag ar draws y ddau dîm. Mae'r broses recriwtio bellach yn mynd rhagddi, ac er na fyddem yn disgwyl i'r swyddogion newydd hynny fod yn gwbl gymwys yn eu rolau tan ddiwedd yr haf / dechrau'r hydref, rydym yn parhau i fod yn hyderus y gallwn gyflawni'r targed o 100% (821 ymweliad) ar gyfer 2025/26. | |
| **Ymrwymiad 18:"Cynnal ymweliadau cydymffurfio â safleoedd a reoleiddir â blaenoriaeth i leihau llygredd"**<br><br>Mae'r ymrwymiad hwn yn 'wyrdd' ar ddiwedd mis Mawrth.<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 1: "Cynnal lefel y gwasanaeth ar gyfer toriadau cydymffurfio Categori 1 a Chategori 2 ar 95%, yn amodol ar ymdrech gydymffurfio bellach (cam gweithredu neu adolygiad) o fewn chwe mis": Mae'r mesur cyflawni hwn yn 'wyrdd' ar ddiwedd mis Mawrth. Ein prif faes cynnydd fu parhau i ganolbwyntio ar gyfleusterau trwyddedig lle mae achosion difrifol o beidio â chydymffurfio wedi'u nodi a lle mae achosion o dorri amodau Categori 1 a 2 wedi'u cyhoeddi. Rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2024, roedd 32 o adroddiadau asesu cydymffurfedd a nododd naill ai un neu fwy o achosion o ddiffyg cydymffurfio | 22, 23 |

| Sefyllfa derfynol a adroddwyd | Tudalen(nau) |
|---|---|
| Categori 1 neu 2. Yn unol â’r mesur, mae’r rhain yn gofyn am ymdrech bellach i gydymffurfio o fewn chwe mis. Cafodd 48 allan o 48 o doriadau Categori 1 a 2 ymdrech gydymffurfio bellach o fewn y chwe mis gofynnol. ★<br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: “Gwell effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ymweliadau cydymffurfio trwy gynnal adolygiad blynyddol”: Rydym yn hyderus o ran ein sefyllfa, gan fod timau wedi canolbwyntio eu hymdrechion ar weithgareddau sy’n perfformio’n wael lle mae achosion o ddiffyg cydymffurfio Categori 1 a 2 wedi’u nodi. Mae gofyniad i sicrhau ein bod yn ymateb i’r rhain a phob achos o beidio â chydymffurfio a nodwyd mewn ffordd amddiffynnol ac adferol a thrwy orfodi. Cynhyrchwyd adroddiadau cydymffurfio blynyddol ar gyfer diwydiant a gwastraff ac mae’r rhain yn cael eu symud yn eu blaen ar gyfer 2024 gydag amserlen gynharach. Mae’r adroddiad rheoleiddio blynyddol ar gyfer 2024 hefyd yn cael ei symud yn ei flaen ar amserlen fyrrach. ★<br><br>Mae timau rheoleiddio yn asesu blaenoriaethau’n barhaus a, lle bo angen, yn blaenoriaethu adnoddau ar gyfer gweithgareddau hanfodol ac i liniaru effeithiau. | |
| **Ymrwymiad 19:“Darparu cymorth a chyngor ar y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle newydd, gan dargedu sectorau gweithle allweddol a darparwyr gwasanaethau gwastraff i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth rhanddeiliaid”**<br><br>Mae’r ymrwymiad hwn yn ‘wyrdd’ ar ddiwedd mis Mawrth.<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 1: “Cynnal effeithlonrwydd ein cymorth a’n cyngor ar y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle drwy (a) ymateb i ymholiadau o fewn deg diwrnod (canran a gyrhaeddwyd) a (b) gwerthuso’r ymholiadau a dderbyniwyd ac addasu cymorth a chyngor”: Ein prif faes cynnydd fu rheoli ymholiadau a digwyddiadau a adroddwyd. Dim ond un ymholiad a gawsom yn ystod Ch4, sy’n parhau i leihau wrth i’r rheoliadau ddod yn rhan annatod o’r broses. O’r 118 o ymholiadau a gafwyd eleni, ymatebwyd i 92% ohonynt o fewn deg diwrnod gwaith. Yn ystod Ch4, fe wnaethom ymchwilio i ddeg digwyddiad pellach a adroddwyd ynghylch diffyg cydymffurfio â’r rheoliadau, gan ymchwilio ac ymateb i gyfanswm o 24 yn ystod y flwyddyn. ★<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: “Cynyddu ymwybyddiaeth o’r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle o fewn ein sectorau blaenoriaeth drwy ddarparu gwybodaeth a chanllawiau sector-benodol i 20% o’r gweithleoedd a digwyddiadau (5,400 o’r 27,000)”: Ein prif faes cynnydd fu cynyddu ymwybyddiaeth 1,528 o sefydliadau ychwanegol yn ystod Ch4. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno i sawl Bwrdd Rhaglen Gweinidogol yn unol â chais Llywodraeth Cymru, siarad mewn cynhadledd gan y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff, a rhannu ein pecyn adnoddau gyda 1,000 o ysgolion drwy gylchlythyr eco-ysgolion. Mae hyn yn dod â chyfanswm y busnesau y cysylltwyd â nhw eleni i 30,375. ★<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 3: “Sefydlu canran y gweithleoedd a digwyddiadau yn ein sectorau blaenoriaeth y canfyddir eu bod yn cydymffurfio â’r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn asesiad cydymffurfedd CNC”: Ein prif faes cynnydd fu cwblhau 136 | 22, 23 |

| Sefyllfa derfynol a adroddwyd | Tudalen(nau) |
| --- | --- |
| o asesiadau yn ystod Ch4, gyda 63 (46%) yn cydymffurfio a 73 (54%) yn peidio â chydymffurfio. Targedodd hyn y sector addysg drwy asesu'r ysgolion uwchradd mwyaf fesul sir a'r sector manwerthu, gan gynnwys archfarchnadoedd, cadwyni manwerthu mawr a chyfanwerthwyr. At ei gilydd, rydym wedi cynnal 522 o asesiadau eleni, gyda chanran gyffredinol o 60% yn cydymffurfio a 40% yn peidio â chydymffurfio. ★ | |
| **Ymrwymiad 20:"Darparu her a chyngor i gwmnïau dŵr i sicrhau bod eu rhaglenni buddsoddi yn lleihau risgiau ac effeithiau eu gweithrediadau ar yr amgylchedd"**<br><br>Mae'r ymrwymiad hwn yn 'oren' ar ddiwedd mis Mawrth.<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 1: "Dylanwadu ar gynnydd mewn buddsoddiad gan gwmnïau dŵr mewn gwelliannau ansawdd dŵr trwy gefnogi Ofwat i graffu ar gynlluniau busnes cwmnïau dŵr": Y maes lle rydym wedi gwneud y cynnydd mwyaf yw penderfyniad terfynol Ofwat yn derbyn y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol gyfan fel un sy'n cyfiawnhau cyllid a chyflawniad, gan weithio gydag Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd i wella ein fframwaith monitro ar gyfer cyflawni o fewn Cynllun Rheoli Asedau 8. ★<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: "Cynyddu effeithiolrwydd cynlluniau sychder y tri chwmni dŵr drwy: (a) cyhoeddi canllawiau cynllun sychder erbyn diwedd Ch2 a (b) gwneud argymhellion ar eu cynlluniau sychder drafft drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus(defnyddio cyhoeddi cynlluniau sychder terfynol fel mesur effeithiolrwydd yn 2025/26)": Fe wnaethon ni gyflwyno ein sylwadau i Lywodraeth Cymru ynghylch yr ymgynghoriadau ar y cynllun sychder drafft ar gyfer Dŵr Cymru, Hafren Dyfrdwy ac Albion Eco ym mis Mawrth. Fe wnaethon ni nodi ein hargymhellion a'n gwelliannau arfaethedig ar gyfer y cynlluniau sychder terfynol a'r asesiadau amgylcheddol cysylltiedig, gan gynnwys yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, i amddiffyn yr amgylchedd a chynnal cyflenwadau dŵr diogel yn ystod sychder. ★<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 3: "Gwella perfformiad cwmnïau dŵr trwy gyflenwi archwiliad monitro gweithredwyr ar gyfer Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy a chwblhau archwiliadau safle o weithfeydd trin carthion yn seiliedig ar risg amgylcheddol": Rydym wedi canolbwyntio ar waith newydd â blaenoriaeth uchel, fel paratoadau ar gyfer y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) newydd, dylanwadu ar gamau gweithredu cwmnïau dŵr drwy'r Adolygiad Prisiau, a datblygu camau gweithredu o fewn y map trywydd ar gyfer gorlifoedd carthffosydd cyfun. Ar 2 Hydref 2024, cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd ymgynghoriad wedi'i dargedu ar y cyd dau fis o hyd ar Asesiad Perfformiad Amgylcheddol y Diwydiant Dŵr ar gyfer data 2026–2030. Nid ydym wedi ymgymryd â'r archwiliad monitro gweithredwyr oherwydd diffyg adnoddau: fe wnaethom ganolbwyntio ar flaenoriaethau Adolygiad Prisiau 2024 a Llywodraeth Cymru. Bydd y rhaglen ar gyfer archwiliadau monitro gweithredwyr ac arolygiadau hunanfonitro | 7, 22, 23 |

| Sefyllfa derfynol a adroddwyd | Tudalen(nau) |
|---|---|
| gweithredwyr yn dod o dan gylch gwaith yr uned cydymffurfedd weithredol. Mae oedi o ran llenwi'r tîm oherwydd yr achos dros newid yn golygu y bydd archwiliadau'n cael eu cynnal yn 2025/26. Mae amserlenni ar gyfer pryd y gellir rhaglennu'r rhain yn dibynnu ar lenwi swyddi a symud staff allweddol i'r tîm. ■<br><br>Mae'r mesur hwn â statws 'oren' ar gyfer diwedd y flwyddyn, felly nid yw llwybr i gyflawni statws 'gwyrdd' erbyn diwedd y flwyddyn yn bosibl. Bu'n rhaid i ni ailflaenoriaethu yn ystod y flwyddyn i fodloni blaenoriaethau uwch ac am fod llai o adnoddau ar gael, a gwnaethom y penderfyniad i beidio â chynnal adolygiadau archwiliadau monitro gweithredwyr eleni. Bydd y gwaith hwn yn ailgychwyn yn 2025/26, pan fydd y tîm cydymffurfio ar gyfer dŵr yn weithredol. Bydd recriwtio'n digwydd yn ystod Ch1, ac rydym yn rhagweld cwblhau archwiliadau monitro gweithredwyr erbyn diwedd Ch4 2025/26. Fodd bynnag, mae'r effaith a gawsom yn ystod y flwyddyn wedi bod yn sylweddol, o ran cyflawni buddsoddiad record i Gymru drwy Gynllun Rheoli Asedau 8 (Adolygiad Prisiau 2024), cwblhau gwaith cynllunio ar gyfer sychder, a chynyddu ein hymdrech cydymffurfedd rheoleiddiol rheng flaen yn sylweddol o'i chymharu â blynyddoedd blaenorol. | |
| **Ymrwymiad 21: Gwelliannau i ansawdd dŵr –**<br>**"Gosod yr uchelgais ar gyfer gwella ansawdd dŵr ar raddfa dalgylch er mwyn meithrin cydweithrediad a chyflenwi camau gweithredu â blaenoriaeth"**<br><br>Mae'r ymrwymiad hwn yn 'oren' ar ddiwedd mis Mawrth.<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 1: "Lleihau'r llwyth o ffosfforws i safleoedd afonydd gwarchodedig iawn yn unol â disgwyliadau wedi'u modelu drwy gwblhau'r adolygiad o holl drwyddedau'r cwmnïau dŵr, sef 171 trwydded": Ym mis Gorffennaf 2024, roedd yr holl drwyddedau perthnasol wedi'u hamrywio i gynnwys terfynau ffosfforws. Mae gwaith yn parhau i asesu lefel y gwelliannau a grëwyd drwy'r adolygiad. Mae'r weithred wedi'i chwblhau. ★<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: "Cynyddu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o achosion methiant cyrff dŵr mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) trwy gwblhau 30% o ymchwiliadau sydd heb eu cwblhau": Y maes lle rydym wedi gwneud y cynnydd mwyaf yw cyflawni'r targed o 30%, a gyflawnwyd drwy ailflaenoriaethu ymchwiliadau afonydd ACA yn erbyn ymchwiliadau eraill o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Wrth symud ymlaen, byddwn yn adolygu sut rydym yn blaenoriaethu ein hadnoddau cyfyngedig ar gyfer ymchwilio i fethiannau ar draws pob afon i'r safon gywir yn y ffordd fwyaf effeithlon. ★<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 3: "Cynyddu ymwybyddiaeth o'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle o fewn ein sectorau blaenoriaeth drwy ddarparu gwybodaeth a chanllawiau sector-benodol i 20% o'r gweithleoedd a digwyddiadau (5,400 o'r 27,000)": Y maes lle rydym wedi gwneud y cynnydd mwyaf yw cyflawni statws 'gwyrdd' ar gyfer y rhaglen gyfalaf ansawdd dŵr gyffredinol. Mae rhaglen yr argyfyngau natur a hinsawdd yn cynnal gwaith i wella ansawdd dŵr mewn cyrff dŵr sydd wedi'u gwarchod yn | 7, 22, 23 |

| Sefyllfa derfynol a adroddwyd | Tudalen(nau) |
|---|---|
| sylweddol ac sydd wedi'u dynodi. Mae gan un prosiect allweddol sy'n berthnasol i Fesur Cyflawni Allweddol 3 statws 'oren' ac mae un prosiect wedi symud i statws 'coch'. ♦<br><br>Mae problemau gyda chyflawni Prosiect Adfer Gwy Uchaf a achosir gan effeithiau parhaus o ran recriwtio a'r achos dros newid. Nid ydym wedi cynnal cymaint o ymweliadau â ffermydd / camau gweithredu yn ymwneud â ffermydd yn ardal Gwy Uchaf ag a obeithiwyd a bydd rhywfaint o waith yn digwydd yn 2025/26 nawr. Mae'r prosiect wedi'i danwario'n sylweddol yn 2024/25 a gallai gymryd misoedd i dîm y prosiect gael ei recriwtio'n llawn. Yn 2025/26, ein nod yw llenwi pob swydd o fewn tîm y prosiect cyn gynted â phosibl er mwyn dod â'r prosiect hwn yn ôl i statws 'gwyrdd'. Y llwybr tuag at gyflawni statws 'gwyrdd' ar gyfer yr ymrwymiad hwn yw parhau â gwaith busnes fel arfer sy'n ymwneud â meysydd gwaith fel Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd, Prosiect Dalgylch Arddangos Teifi, a phrosiect afonydd ACA ac ati. Mae angen i ni gydlynu'r gwaith o gyflawni'r camau gweithredu a gynlluniwyd yn well a chael swydd newydd i helpu gyda'r gwaith cydlynu wedi'i chymeradwyo ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau £16 miliwn ar gyfer hyrwyddo cyflawni camau gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd. Bydd Prosiect Dalgylch Arddangos Teifi yn galluogi dulliau i gael eu profi. | |
| **Ymrwymiad 22:"Ymateb i ddigwyddiadau llygredd â blaenoriaeth i leihau niwed amgylcheddol"**<br><br>Mae'r ymrwymiad hwn yn 'wyrdd' ar ddiwedd mis Mawrth.<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 1: "Cynnal lefel y gwasanaeth ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau a gategoreiddiwyd yn wreiddiol fel 'uchel' o fewn pedair awr ar 95%": Rydym wedi cynnal lefel y gwasanaeth, gyda'r ffigur terfynol ar gyfer 2024/25 yn 97%. Byddwn yn parhau i fonitro a gweithio gyda thimau i sicrhau bod cynnydd yn cael ei gynnal yn 2025/26. ★<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: "Gwell effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaeth trwy gynnal adolygiad blynyddol": Cwblhawyd adroddiad lefel uchel ar berfformiad digwyddiadau a'i rannu â'r Tîm Arwain ym mis Mawrth. Gwerthusodd yr adroddiad berfformiad 2024 a nododd feysydd ar gyfer gwelliant parhaus i fireinio dulliau rheoli digwyddiadau ar ôl Ebrill 2025. Bydd hyn yn ein helpu i fesur llwyddiant yn y dyfodol. Hefyd, yn dilyn yr archwiliad mewnol diweddar, mae yna nifer o gamau gweithredu i fynd i'r afael â nhw er mwyn gwella'r gwasanaeth ymhellach. ★<br><br>Er y byddwn yn parhau i gynnal y safon ymateb pedair awr bresennol ar gyfer digwyddiadau â blaenoriaeth uchel, ein ffocws ar gyfer 2025/26 yw ehangu i asesu effeithiolrwydd cyffredinol ein hymateb i ddigwyddiadau. Yn benodol, ein nod yw lleihau nifer y digwyddiadau yr ydym yn mynychu sydd heb sail yn y pen draw, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ffordd fwy targedig ac yn seiliedig ar risg. Rydym hefyd yn cynnig mesur: cau adroddiadau am ddigwyddiadau ar System Cofnodi Digwyddiadau Cymru mewn 30 diwrnod, a fydd yn helpu i ysgogi defnydd mwy effeithlon o'r system a datrysiad amserol. Bydd y mesurau perfformiad hyn yn cael eu defnyddio i gefnogi datblygiad parhaus ein Strategaeth Rheoli Digwyddiadau a'n Cynllun Gwasanaeth, ac i fynd i'r afael â chamau gweithredu a | 7, 22, 23 |

| Sefyllfa derfynol a adroddwyd | Tudalen(nau) |
|---|---|
| nodwyd yn yr archwiliad diweddar. Bydd mewnwelediadau o'r mesurau hyn yn ein helpu i addasu a mireinio ein dull gweithredol yn barhaus i gefnogi cyflawniad Amcan Llesiant 3 ac ymateb i ddigwyddiadau ehangach. | |
| **Ymrwymiad 23:"Gwella ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n sbarduno digwyddiadau llygredd ledled Cymru er mwyn llywio'r gwaith o integreiddio camau ataliol i ymateb i ddigwyddiadau"**<br><br>Mae'r ymrwymiad hwn yn 'oren' tan ddiwedd mis Mawrth.<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 1: "Cynyddu ein gwybodaeth a nodi cyfleoedd i wella prosesau, galluoedd a chymwyseddau trwy adolygu dulliau ac offer cyfredol ar draws 15 o feysydd llygredd": Rydym wedi cyflwyno amrywiaeth o gyfathrebiadau i gynulleidfaoedd mewnol ac allanol, gan gynnwys blog gwe i esbonio ein gwaith gwasanaeth rheoli digwyddiadau, gan asesu pa gyfathrebiadau allanol pellach sydd eu hangen. Rydym wedi cwblhau offeryn penderfynu ar gyfer digwyddiadau gweithredol ac wedi mireinio ein trefniadau gweithredu safonol i arwain blaenoriaethu mwy effeithiol wrth ymateb i ddigwyddiadau yn yr awyr, ar y tir ac ar y dŵr. Fe wnaethon ni gynnal sesiynau ymwybyddiaeth a hyfforddiant mewnol i staff yn ystod mis Mawrth. Bydd gweithdai a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer ddechrau mis Ebrill yn cael eu cynnal ym mis Mai 2025 i helpu i fireinio ein offeryn penderfynu a'n gweithdrefnau. Byddwn yn parhau i friffio ein Tîm Gweithredol a'r Bwrdd am y dull newydd hwn. ★<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: "Cynyddu ein gwybodaeth am ddigwyddiadau llygredd (nifer y digwyddiadau, mathau, lleoliadau, effeithiau a dyrannu adnoddau) drwy gynhyrchu adroddiad dadansoddi manwl (erbyn diwedd Ch2) a llywio meysydd ffocws, strategaethau a chamau gweithredu erbyn diwedd Ch4": Y maes lle rydym wedi gwneud y cynnydd mwyaf yw mewnwelediadau i anghenion data o feysydd gwasanaeth allweddol i lywio allbynnau dadansoddol. Ar ddiwedd Ch3, fe wnaethom nodi'r angen i sicrhau gallu technegol allweddol i wella (neu newid) yr offeryn presennol er mwyn echdynnu a chyflwyno data mewn modd effeithiol. Yn Ch4, fe wnaethon ni gael staff i ymgymryd â'r gwaith adeiladu offer gofynnol. Mae'r gwaith hwn ar y gweill ar hyn o bryd. ♦<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 3: "Mwy o gyfleoedd i integreiddio camau ataliol i'r Strategaeth Rheoli Digwyddiadau drwy (a) datblygu papur opsiynau a (b) gwneud penderfyniadau yng ngrwpiau busnes CNC ar flaenoriaethau": Mae capasiti annigonol wedi llesteirio ein gallu i symud yn ein blaen cyn belled ag y disgwyliwyd o ran gwahaniaethu'n gliriach rhwng adroddiadau System Cofnodi Digwyddiadau Cymru sydd angen ymateb rheoli digwyddiadau a'r rhai sydd angen ymateb rheoleiddio neu orfodi yn unig. Mae hyn yn cyd-fynd â gwaith polisi a gweithdrefnau rheoli digwyddiadau ehangach. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn y maes rheoleiddio, er enghraifft, ac mae hyn yn dangos lle gall gweithio traws-swyddogaethol symleiddio ein dulliau. ♦ | 22 |

| Sefyllfa derfynol a adroddwyd | Tudalen(nau) |
|---|---|
| Er mwyn sicrhau bod yr ymrwymiad hwn yn cyflawni statws 'gwyrdd' yn 2025/26, rydym yn blaenoriaethu cwblhau dwy elfen allweddol: datblygu'r offeryn dadansoddol sy'n seiliedig ar Power BI (Mesur Cyflawni Allweddol 2) a chwblhau opsiynau ar gyfer ymgorffori camau ataliol (Mesur Cyflawni Allweddol 3). Mae gallu technegol bellach wedi'i sicrhau i symud y gwaith dadansoddol ymlaen, gyda datblygiad ar y gweill ac anghenion defnyddwyr wedi'u nodi ar draws ein timau Rheoleiddio, Dŵr a Rheoli Digwyddiadau. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn gweithio'n agos i gyd-ddatblygu'r fframwaith llywodraethu sydd ei angen i ymgorffori'r newid yn y ffordd y mae adroddiadau System Cofnodi Digwyddiadau Cymru yn cael eu blaenoriaethu a'u hymateb iddynt. Bydd y llwybr hwn nid yn unig yn cwblhau'r camau gweithredu sy'n weddill erbyn Ch2 ond hefyd yn cefnogi cyflawniad tymor hwy strategaeth rheoli digwyddiadau integredig sy'n seiliedig ar wybodaeth. | |
| **Ymrwymiad 24:"Cynnal ymchwiliadau a chamau gorfodi i leihau niwed amgylcheddol"**<br><br>Mae'r ymrwymiad hwn yn 'wyrdd' ar ddiwedd mis Mawrth.<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 1: "Cynnal lefel y gwasanaeth ar y penderfyniad ar ymateb gorfodi priodol o fewn tri mis ar 95%": Mae'r statws Coch Melyn Gwyrdd wedi aros yn 'wyrdd' eto ac mae'n 100% ar gyfer Ch4. ★<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: "Gwell effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaeth trwy gyflwyno'r Adroddiad Rheoleiddio Blynyddol ac adroddiad chwarterol Mynd i'r Afael â Throseddau Gwastraff": Y maes lle rydym wedi gwneud y cynnydd mwyaf yw cwblhau adroddiad Ch3 Mynd i'r Afael â Throseddau Gwastraff a'i ddosbarthu fel y bwriadwyd yn Ch4. Mae adroddiad Ch4 wedi'i drefnu ar gyfer Ch1 2025/26. (Cyhoeddwyd yr Adroddiad Rheoleiddio Blynyddol eisoes yn Ch3.) ★ | 22, 23 |
| **Ymrwymiad 25:"Cryfhau ffyrdd o weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid trydydd sector i wneud y mwyaf o weithredu ar y cyd ar dipio anghyfreithlon"**<br><br>Mae'r ymrwymiad hwn yn 'oren' ar ddiwedd mis Mawrth.<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 1: "Gwell ffyrdd o weithio ar dipio anghyfreithlon rhwng CNC ac asiantaethau partner drwy gyhoeddi protocol tipio anghyfreithlon wedi'i ddiweddaru (erbyn diwedd Ch1) a threialu un cytundeb lleol (erbyn diwedd Ch3)": Y maes lle rydym wedi gwneud y cynnydd mwyaf yw ailddechrau'r gwaith o lunio fersiwn ddrafft o'r protocol diwygiedig. Rydym wedi addasu cynllun y prosiect ar gyfer y darn hwn o waith i gyflwyno'r ddogfen ddrafft erbyn diwedd Ch1 2025 ac mae wedi'i ystyried yng nghynllun gwaith newydd timau Taclo Tipio Cymru ar gyfer cyllid a sicrhawyd ar gyfer 2025/26. Mae'r broses o recriwtio uwch-swyddog i'r tîm yn mynd rhagddi, gan ryddhau staff i weithio ar brotocol eto. ■<br><br>• O ran Mesur Cyflawni Allweddol 2: "Cynyddu'r defnydd o offer gwyliadwriaeth Taclo Tipio Cymru (o bedwar i bum awdurdod lleol) a gwasanaeth Mallard gan awdurdodau lleol (o wyth i ddeg), i annog mwy o ganlyniadau gorfodi": Ein prif faes cynnydd yw sicrhau | 22 |

| Sefyllfa derfynol a adroddwyd | Tudalen(nau) |
| --- | --- |
| gwasaanaethau Mallard Support Services ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae arolwg adborth arall wedi'i gynnal gydag awdurdodau lleol i asesu defnydd y system yn ystod 2024/25. Rydym wedi cyflwyno dau gwrs hyfforddi gorfodi wyneb yn wyneb. Prynwyd deg camera cuddwylio newydd i'w defnyddio gan yr awdurdodau lleol. ★<br><br>Mae'r llwybr i gyflawni statws 'gwyrdd' ar gyfer yr ymrwymiad hwn ar y gweill gan fod y broses recriwtio ar gyfer ein rôl G6 yn mynd rhagddi a disgwylir iddi gael ei llenwi erbyn diwedd mis Ebrill – gan alluogi gwaith i ailddechrau ar y protocol drafft yn Ch1 2025. | |